

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

A large, bright yellow star with multiple points, some of which are slightly offset to create a sense of depth or motion.

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru



Cod Ymarfer Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Ceir copïau pellach o'r ddogfen hon oddi wrth:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6044
E-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk
Website: <http://www.wales.gov.uk>

Rhagymadrodd



Gan Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson AC.

Rwyf wrth fy modd mai'r ddogfen hon yw Cod Ymarfer AAA cyntaf Cymru. Mae'n adlewyrchu trefniadau, strwythurau a deddfwriaeth arbennig ein gwlad.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaethau addysg o ansawdd da ac i alluogi pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial.

Credaf y bydd Cod Ymarfer AAA Cymru o gymorth i roi gwell profiad o addysg i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig, pa un a ydynt yn destun datganiad ai peidio, ac y bydd ganddo ran allweddol yn y gwaith o helpu i wireddu fy ngweledigaeth o Gymru fel Gwlad sy'n Dysgu.

Prif ddiben y Cod hwn yw symud y rhwystrau sy'n atal plant rhag cymryd rhan a dysgu. Yr egwyddor allweddol yw y dylid diwallu anghenion plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae'n hanfodol bod ysgolion yn rhoi cymorth effeithiol i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Yn gyffredinol, bwriad y Cod yw rhoi canllawiau cliriach ar gyfer darparwyr addysg blyneddoddd cynnar, athrawon ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, awdurdodau addysg lleol, teuluoedd, a phawb sydd â rhan yn y gwaith o ddarparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig plant.

Rwy'n hyderus y bydd y Cod hwn yn adeiladu ar gryfderau a llwyddiant ei ragflaenydd ac yn ein helpu yn ein hymdrechion i sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni mwy.



Pennod 1: Egwyddorion a Pholisïau

Cyflwyniad	1:1
Diffiniad o anghenion addysgol arbennig	1:3
Diffiniadau yn Neddf Plant 1989 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995	1:4
Egwyddorion sylfaenol	1:5
Ffactorau llwyddiant allweddol	1:6
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993	1:7
Partneriaethau cynllunio strategol	1:16
Rôl yr AALL	1:19
Fframwaith polisi AALLau	1:22
Dyletswyddau cyrff llywodraethu	1:25
Polisïau AAA mewn sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar ac ysgolion	1:32
Rolau a chyfrifoldebau mewn sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar	1:38
Rolau a chyfrifoldebau mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir	1:40
Rolau a chyfrifoldebau mewn ysgolion arbennig	1:41
Cynhwysiant a derbyn i'r ysgol	1:42
Cyfle ar gyfer hyblygrwydd	1:46
Rolau a chyfrifoldebau	1:48

Pennod 2: Gweithio mewn Partneriaeth â Rhieni

Cyflwyniad	2:1
Diffinio cyfrifoldeb rhiant	2:4
Egwyddorion allweddol wrth gyfathrebu â rhieni a gweithio mewn partneriaeth â nhw	2:6
Ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni	2:10
Cefnogi rhieni yn ystod asesiad statudol	2:12
Awdurdodau Addysg Lleol yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni	2:13
Gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol	2:15
Gwasanaethau partneriaeth â rhieni	2:16
Atal a datrys anghytundebau	2:22
Rolau a chyfrifoldebau	2:31

Pennod 3: Cyfranogiad Disgyblion

Cyflwyniad	3:1
Disgyblion a rhieni	3:4
Cyfranogiad disgyblion mewn sefydliadau addysg gynnar, ysgolion a sefydliadau eraill	3:6
Cynnwys disgyblion wrth asesu a gwneud penderfyniadau	3:18
Rôl yr AALL o ran cyfranogiad disgyblion	3:21
Darparu cefnogaeth arbennig	3:25

Pennod 4: Canfod, Asesu a Darparu mewn Sefydliadau Blynyddoedd Cynnar

Cyflwyniad	4:1
Darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar	4:5
Ymateb graddoledig	4:9
Rôl y cydlynnydd AAA	4:15
Yr amser sy'n ofynnol i gydlynw AAA	4:17
Cofnodion Unigolion	4:18
Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar	4:20
Natur yr ymyrryd	4:26
Cynlluniau addysg unigol	4:27
Adolygu CAUau	4:28
Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy	4:29
Ceisiadau am asesiad statudol	4:33
Gwasanaethau iechyd plant yn y blynyddoedd cynnar	4:37
Asesiad statudol i blant o dan oedran ysgol gorfodol	4:39
Meini prawf ar gyfer asesiad statudol i blant o dan oedran ysgol gorfodol a thros ddwy oed	4:41
Datganiadau ar blant o dan oedran ysgol gorfodol a thros ddwy oed	4:44
Asesiad statudol i blant o dan ddwy oed	4:47
Datganiadau ar blant o dan ddwy oed	4:48
Darpariaeth addysgol arbennig i blant o dan oedran ysgol gorfodol	4:51
Symud i ysgol gynradd	4:54

Pennod 5: Adnabod, Asesu a Darparu yn y Cyfnod Cynradd

Cyflwyniad	5:1
Darpariaeth mewn ysgolion cynradd	5:7
Canfod anghenion addysgol arbennig yn fuan	5:11
Y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol	5:15
Y Cwricwlwm Cenedlaethol	5:17
Ymateb graddoledig	5:20
Cadw cofnodion	5:24
Gweithio gydag eraill sy'n darparu cefnogaeth	5:27
Rhan y gwasanaethau cymdeithasol	5:28
Rôl y Cydlynnydd AAA mewn ysgolion cynradd prif ffrwd	5:30
Yr amser sy'n ofynnol i gydlynw AAA	5:33
Monitro cynnydd plant	5:37
Gweithredu gan yr Ysgol	5:43
Natur yr ymyrryd	5:49
Cynlluniau addysg unigol	5:50
Adolygu CAUau	5:53
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	5:54
Yr ysgol yn gofyn am asesiad statudol	5:62
Newid ysgolion	5:66
Gweithio gyda phlant sy'n destun datganiad anghenion addysgol arbennig	5:67
Adolygiad blynyddol	5:68

Pennod 6: Canfod, Asesu a Darparu yn y Sector Uwchradd

Cyflwyniad	6:1
Darpariaeth mewn ysgolion uwchradd	6:6
Canfod anghenion addysgol arbennig yn fuan	6:10
Y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol	6:14
Y Cwricwlwm Cenedlaethol	6:17
Ymateb graddoledig	6:22
Cadw cofnodion	6:26
Gweithio gydag eraill sy'n darparu cefnogaeth	6:29
Rhan y gwasanaethau cymdeithasol	6:30
Rôl y Cydlynnydd AAA mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd	6:32
Yr amser sy'n ofynnol i gydlynw AAA	6:36
Monitro cynnydd disgyblion	6:41
Gweithredu gan yr Ysgol	6:50
Natur yr ymyrryd	6:57
Cynlluniau addysg unigol	6:58
Adolygu CAUau	6:61
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	6:62
Yr ysgol yn gofyn am asesiad statudol	6:70
Gweithio gyda phlant sy'n destun datganiad anghenion addysgol arbennig	6:74
Adolygiad blynyddol o ddatganiad anghenion addysgol arbennig	6:75

Pennod 7: Asesiad Statudol o Anghenion Addysgol Arbennig

Cyflwyniad	7:1
Llwybrau ar gyfer cyfeirio plant	7:7
Cais gan ysgol neu sefydliad y plentyn	7:9
Y dystiolaeth sydd i'w darparu gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg gynnar	7:13
Cyfeirio gan asiantaeth arall	7:15
Hysbysiad bod AALL yn ystyried a ddylid gwneud asesiad statudol	7:16
Hysbysu asiantaethau eraill o fwriad i asesu	7:19
Cais gan riant	7:21
Plant y gallai fod angen eu cyfeirio am asesiad statudol ar unwaith	7:30
Ystyried a yw asesiad statudol yn angenrheidiol	7:33
Tystiolaeth ar gyfer penderfynu a ddylid gwneud asesiad statudol	7:35
Tystiolaeth o gyrhaeddiad	7:38
Ffactorau eraill	7:42
Y ddarpariaeth addysgol arbennig ar gyfer y plentyn	7:46
Cyfathrebu a rhyngweithio	7:55
Gwybyddiaeth a dysgu	7:58
Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol	7:60
Anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol	7:62
Cyflyrau meddygol	7:64
Penderfynu bod asesiad statudol yn angenrheidiol	7:68
Terfynau amser ar gyfer gwneud asesiadau	7:72
Gwneud yr asesiad	7:74
Ceisiadau am gyngor	7:78
Barn y plentyn	7:85

Y camau nesaf	7:86
Eithriadau i'r terfynau amser	7:91
Ceisiadau am asesiadau statudol pellach	7:94

Pennod 8: Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig

Cyflwyniad	8:1
Meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid llunio datganiad	8:8
Ystyried y ddarpariaeth y gallai fod angen ei gwneud	8:12
Penderfynu peidio â llunio datganiad: nodyn yn lle datganiad	8:15
Asesu a lleoliadau brys	8:23
Ysgrifennu'r datganiad	8:29
Llofnod a dyddiad	8:30
Rhan 2: Anghenion addysgol arbennig	8:32
Rhan 3: Darpariaeth addysgol arbennig	8:33
Rhan 4: Lleoli	8:42
Rhan 5: Anghenion anaddysgol	8:43
Rhan 6: Darpariaeth anaddysgol	8:44
Therapi iaith a lleferydd	8:49
Y datganiad arfaethedig	8:54
Terfynau amser	8:57
Enwi ysgol	8:58
Lleoliadau preswyl	8:70
Ymgynghori cyn enwi ysgol a gynhelir mewn datganiad	8:80
Costau cludiant i blant â datganiadau	8:87
Addysg mewn rhywle ar wahân i ysgol	8:91
Plant a addysgir ar gost eu rhieni	8:97
Plant a leolir gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol neu'r Llysoedd	8:98
Sylwadau rhieni ar y datganiad arfaethedig	8:105
Y datganiad terfynol	8:108
Cadw, dadlennu a throsglwyddo datganiadau	8:111
Cynnal datganiad	8:116
Rhoi'r gorau i gynnal datganiad	8:117
Diwygio datganiad sy'n bod eisoes	8:125
Crynodeb	8:134

Pennod 9: Adolygiad Blynyddol

Cyflwyniad	9:1
Diben yr Adolygiad Blynyddol	9:7
Yr adolygiad blynyddol i blant yn yr ysgol	9:9
Ceisio cyngor ysgrifenedig	9:12
Y cyfarfod adolygu blynyddol	9:16
Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol	9:25
Y modd y cynhelir y cyfarfod adolygu	9:28
Cyflwyno'r adroddiad	9:32
Rôl yr AALL ar ôl derbyn adroddiad yr adolygiad	9:34
Yr adolygiad blynyddol i blant sydd â datganiadau ac a addysgir mewn rhywle ar wahân i ysgol	9:36
Newid ysgol	9:39
Adolygiadau interim	9:44
Y Cynllun Trawsnewid	9:51

Rhan y myfyriwr mewn gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod trawsnewid	9:55
Rôl Gyrfa Cymru	9:56
Ymwneud adrannau gwasanaethau cymdeithasol	9:58
Ymwneud y gwasanaethau iechyd	9:60
Adolygiadau blynyddol o Flwyddyn 10 ymlaen	9:61
Trosglwyddo gwybodaeth	9:63
Myfyrwyr sydd heb ddatganiadau ond sydd ag anghenion addysgol arbennig	9:65
Plant sy'n destun gorchymyn gofal neu a letyir gan awdurdod lleol	9:68

Pennod 10: Gweithio Mewn Partneriaeth ag Asiantaethau Eraill

Cyflwyniad	10:1
Egwyddorion gwaith rhyngasiantaethol gyda phlant sydd ag AAA	10:3
Gwasanaethau cefnogi AALLau	10:6
Gyrfa Cymru	10:14
Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant	10:15
Gwasanaethau Iechyd	10:16
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)	10:24
Y Gwasanaethau Cymdeithasol	10:26
Plant mewn angen	10:29
Plant sy'n derbyn gofal	10:34
Y sector gwirfoddol	10:35
Darparu gwybodaeth	10:36

Geirfa

Mynegai



Rhagair

Cyflwyniad

1 Mae Cod Ymarfer AAA Cymru yn rhoi cyngor ymarferol i Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau blynyddoedd cynnar ac eraill ynglŷn â chyflawni eu dyletswyddau statudol i ganfod ac asesu anghenion addysgol arbennig plant a gwneud darpariaeth ar eu cyfer.

2 Gosododd Deddf Addysg 1993 ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i gyhoeddi Cod Ymarfer a rhoddodd bŵer i'w adolygu o bryd i'w gilydd. Daeth y Cod Ymarfer cyntaf i rym ym 1994. Ers hynny, mae'r hawliau a'r dyletswyddau a geir yn Neddf 1993 wedi'u cynnwys yn Rhan IV o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn disodli Cod 1994 yng Nghymru. Mae'n dilyn cyfnod o ymgynghori rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2000 gydag AALLau, ysgolion, cyrff gwirfoddol AAA, y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ac eraill ar God diwygiedig ar ffurf ddrafft. Yna, cafodd y drafft ei ddiwygio yng ngoleuni sylwadau gan y sawl yr oedd a wnelont â'r mater ac, ar ôl hynny, cafodd ei osod gerbron cyfarfod llawn o'r Cynulliad Cenedlaethol a'i gymeradwyo'n unfrydol ganddo.

3 Bydd y Cod hwn, fel ei ragflaenydd, yn helpu ysgolion ac AALLau i gael y gwerth gorau o'r adnoddau a'r arbenigedd sylweddol y maent yn eu buddsoddi er mwyn helpu plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n cadw llawer o ganllawiau'r Cod gwreiddiol ond mae'n talu sylw i brofiadau ysgolion ac AALLau o ddefnyddio'r Cod gwreiddiol a datblygiadau ym myd addysg ers 1994. Mae'n cynnwys hawliau a dyletswyddau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a Rheoliadau cysylltiedig.

4 Mae'r rhagair hwn yn esbonio statws y Cod Ymarfer, mae'n tynnu sylw at ddatblygiadau perthnasol ac mae'n rhoi crynodeb o'r prif wahaniaethau rhyngddo â Chod 1994. Nid yw'n rhan ffurfiol o'r Cod ei hunan.

Statws y Cod Ymarfer AAA

5 Mae'r Cod Ymarfer hwn mewn grym o 1 Ebrill 2002. O'r dyddiad hwnnw, bydd yn rhaid i AALLau, ysgolion, sefydliadau blynyddoedd cynnar a'r sawl sy'n eu helpu – yn cynnwys gwasanaethau iechyd a chymdeithasol – roi sylw iddo. Mae'n rhaid iddynt beidio â'i anwybyddu. Mae hynny'n golygu ei bod yn rhaid i sefydliadau, ysgolion ac AALLau ystyried beth y mae'r Cod hwn yn ei ddweud pryd bynnag y byddant yn penderfynu sut i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig a'i bod yn rhaid i wasanaethau iechyd a chymdeithasol wneud yr un peth pryd bynnag y byddant yn rhoi cymorth i sefydliadau, ysgolion ac AALLau yn hyn o beth. Mae'n rhaid i'r cyrff hyn gyflawni eu dyletswyddau statudol tuag at blant sydd ag anghenion addysgol arbennig ond mater iddynt hwy yw penderfynu sut i wneud hynny – yng ngoleuni canllawiau'r Cod Ymarfer hwn. Bwriad y Cod yw eu helpu i wneud penderfyniadau effeithiol ond nid yw'n dweud wrthynt beth i'w wneud ym mhob achos unigol – ni fyddai hynny'n bosib. Bydd y ddyletswydd i roi sylw i'r Cod hwn yn parhau tra pery'r Cod mewn grym.

Gweithredu

6 Mae dyletswyddau statudol newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a Rheoliadau diwygiedig ar gyfer AALLau, ysgolion a sefydliadau addysg gynnar yn dod i rym ar 1 Ebrill 2002. Ceir aralleiriad o ddyletswyddau statudol allweddol mewn blychau yn y testun. Mae'r Rheoliadau'n nodi darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud ag asesiadau, datganiadau ac adolygiadau a gychwynnwyd o dan yr hen system. Yn ystod y cyfnod trosiannol, er y bydd yn rhaid i ysgolion ac AALLau roi sylw i'r Cod hwn, bydd gofyn iddynt wneud hynny yng ngoleuni'r trefniadau trosiannol. Byddai'n afrealistig disgwyl bod ganddynt drefniadau mewn lle erbyn 1 Ebrill yn cyfateb i bob agwedd ar y trefniadau a ddisgrifir yn y Cod hwn. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt roi sylw i'r Cod hwn o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Newidiadau o'r Cod Ymarfer AAA gwreiddiol

7 Mae'r Cod hwn yn talu sylw i'r darpariaethau sy'n ymwneud ag AAA yn Neddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001:

- mwy o hawl i blant sydd ag AAA i gael eu haddysgu mewn ysgol brif ffrwd
- dyletswyddau newydd ar AALLau i drefnu i rieni plant sydd ag AAA i gael gwasanaethau sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth a ffordd o ddatrys anghytundebau
- dyletswydd newydd ar ysgolion a darparwyr addysg feithrin perthnasol i ddweud wrth rieni pan fyddant yn gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer eu plentyn
- hawl newydd i ysgolion a darparwyr addysg feithrin perthnasol i ofyn am asesiad statudol ar gyfer plentyn

Ceir ynddo wahanol benodau ar ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar, y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd a phenodau newydd ar:

- gweithio mewn partneriaeth â rhieni
- cyfranogiad disgyblion
- gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill

8 Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol arbennig yn cyfateb i anghenion y plant, mae'r Cod yn argymhell y dylai ysgolion ac AALLau fabwysiadu ymateb graddoledig, trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, a *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy* mewn sefydliadau addysg gynnar.

Monitro'r Cod Ymarfer AAA

9 Bydd y ffordd y caiff Rhan IV o Ddeddf 1996 ei gweithredu, yn cynnwys effaith y Cod hwn, yn cael ei monitro'n ofalus. Bydd arolygwyr Estyn yn edrych yn fanwl ar bolisiau ac arferion AAA ysgolion. Trwy archwilio'r system addysg ac adrodd arni, byddant hefyd yn monitro ac yn gwerthuso effaith y Cod hwn a mesurau eraill ar ysgolion ac AALLau. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried, yng ngoleuni'r gwerthusiad hwn a'r holl ffactorau perthnasol eraill, a ddylid diwygio'r Cod eto ac, os felly, pryd.

Y Tribiwnlys AAA

10 Wrth ystyried apêl gan riant, mae'n rhaid i'r Tribiwnlys AAA roi sylw i unrhyw ddarpariaeth yn y Cod hwn sy'n berthnasol i unrhyw gwestiwn sy'n codi o'r apêl. Nid yw'r Tribiwnlys yn cadw golwg yn gyffredinol i weld a yw AALLau yn cadw at ddarpariaethau'r Cod. Ei dasg yw ystyried a yw AALLau wedi dod i'r penderfyniad cywir yng ngoleuni amgylchiadau neilltuol pob apêl. Er hynny, bydd y Tribiwnlys yn disgwyl bod AALLau, ysgolion a sefydliadau addysg gynnar yn gallu esbonio'r rheswm dros wyro oddi wrth y Cod hwn os oedd hynny'n berthnasol i'r penderfyniad sydd dan sylw.

Rheoliadau Perthnasol

11 Mae'r Rheoliadau canlynol yn berthnasol i faterion y mae'r Cod yn ymdrin â nhw:

- Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002
- Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2002
- Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Gwybodaeth) (Cymru) 1999
- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (Terfynau Amser) (Cymru) 2001

Canllawiau Eraill

Canllawiau ar gynhwysiad

12 Mae adran 316A o Ddeddf Addysg 1996 yn pennu y dylai plant sydd ag anghenion addysgol arbennig gael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd fel rheol cyhyd ag y bo hynny'n gydnaws â'u galluogi i gael y ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n angenrheidiol ar gyfer eu hanhawster dysgu; addysg effeithiol plant eraill a defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithiol.

Ceir cyngor ychwanegol am gynhwysiad plant sydd ag anghenion addysgol arbennig, er enghraifft wrth ymdrin ag ymddygiad anodd a'r broses o wahardd o'r ysgol, yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 3/99, 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol'.

Cod Ymarfer Hawliau Anabledd ar gyfer Ysgolion

13 Mae Rhan 2 o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 yn diwygio Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 i atal pob ysgol rhag gwahaniaethu yn erbyn plant anabl yn eu trefniadau derbyn, yn y gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau cysylltiedig a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer ei disgyblion ac mewn perthynas â gwahardd plant o'r ysgol. Nid yw'r ddyletswydd sydd ar ysgolion i wneud addasiadau rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu cymhorthion na gwasanaethau cynorthwyol nac i symud na newid rhannau o'r adeiladwaith. Bydd penderfyniadau ynghylch darparu cymhorthion a gwasanaethau addysgol ar gyfer plant sydd ag AAA yn dal i gael eu cymryd yn y fframwaith AAA.

14 O fis Medi 2002 ymlaen, ni chaiff ysgolion drin disgyblion anabl yn llai ffafrïol am reswm sy'n ymwneud â'u hanabledd a bydd yn ofynnol iddynt gymryd camau rhesymol i sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Bydd Cod Ymarfer Hawliau Anabledd ar gyfer Ysgolion, wedi'i baratoi gan y Comisiwn Hawliau Anabledd, yn esbonio'r dyletswyddau newydd gwrth-wahaniaethol hyn i ysgolion. Yn ogystal, o fis Medi 2002 ymlaen, bydd yn ofynnol i AALLau ac ysgolion perthnasol gynllunio'n strategol a symud ymlaen i wneud adeiladau a thir ysgolion a'r cwricwlwm yn fwy hygyrch i ddisgyblion anabl, ac i sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n addas ar gyfer disgyblion anabl. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi canllawiau ar wahân ar gyfer AALLau ac ysgolion yng Nghymru ar y camau ymarferol y gallant eu cymryd i fod yn fwy hygyrch i ddisgyblion sydd â gwahanol fathau o anableddau.

15 Pan gyhoeddir y Cod Ymarfer Hawliau Anabledd ar gyfer Ysgolion a'r canllawiau ar ddyletswyddau cynllunio, byddant yn mynd ochr yn ochr â'r Cod Ymarfer AAA hwn ac yn croesgyfeirio ato lle bo'n briodol.

Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA

16 Bydd canllawiau ychwanegol i'w darllen mewn cysylltiad â'r Cod Ymarfer hwn ar gael yn y "Llawlyfr o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA". Caiff y Llawlyfr ei lunio mewn cydweithrediad ag ymarferwyr mewn gwahanol feysydd perthnasol ac eraill sy'n ymwneud â'r mater. Bydd y canllawiau ychwanegol a'r Cod hwn yn croesgyfeirio at ei gilydd.

1. Egwyddorion a Pholisïau

Cyflwyniad

1:1 Diben y Cod Ymarfer yw rhoi canllawiau ymarferol ynglŷn â sut i gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran IV o Ddeddf Addysg 1996 i Awdurdodau Addysg Lleol (AALLau), cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau sy'n cael arian gan y Cynulliad i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar – ac i'r sawl sy'n eu helpu, gan gynnwys y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae hefyd yn rhoi canllawiau ymarferol cyffredinol i'r sefydliadau hyn ynglŷn â darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n ofynnol i'r holl bartïon hyn roi ystyriaeth i'r Cod hwn.

1:2 Mae'r Cod yn rhoi canllawiau ar bolisïau a dulliau gweithredu sydd â'r nod o alluogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) i gyrraedd eu llawn botensial, i gael eu cynnwys yn llawn yng nghymunedau eu hysgolion ac i gamu'n llwyddiannus i fywyd oedolyn. I'r mwyafrif helaeth o blant, bydd eu sefydliad prif ffrwd yn diwallu eu holl anghenion addysgol arbennig. Bydd angen help ychwanegol ar rai plant gan wasanaethau AAA neu asiantaethau eraill o'r tu allan i'r ysgol. Bydd gan leiafrif bach iawn o blant AAA mor ddwys neu gymhleth fel y bydd gofyn i'r AALL bennu a threfnu'r ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n angenrheidiol ar gyfer eu hanawsterau dysgu.

1:3 Wrth roi sylw i'r Cod hwn, dylai pob asiantaeth geisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysgol ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Diffiniad o Anghenion Addysgol Arbennig

Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu ei bod yn ofynnol gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Mae gan blant anhawster dysgu:

- (a) os ydynt yn cael anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster a gaiff y rhan fwyaf o blant yr un oed; neu**
- (b) os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau addysgol o fath a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oed mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod addysg lleol**
- (c) os ydynt o dan oed ysgol gorfodol a'u bod yn dod o fewn y diffiniad yn (a) neu (b) uchod neu y byddent yn gwneud hynny pe na wneid darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.**

Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:

- (a) i blant dwy oed neu drosodd, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol a wneir fel rheol ar gyfer plant o'u hoedran mewn ysgolion a gynhelir gan yr AALL yn yr ardal, ar wahân i ysgolion arbennig, neu'n wahanol mewn rhyw ffordd arall i'r ddarpariaeth honno.**
- (b) i blant o dan ddwy oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath.**

Gweler Adran 312, Deddf Addysg 1996

Rhaid peidio ag ystyried bod gan blant anhawster dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith neu ffurf yr iaith a ddefnyddir yn y cartref yn wahanol i'r iaith y cânt eu haddysgu ynddi.

Diffiniadau yn Neddf Plant 1989 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995

A child is disabled if he is blind, deaf or dumb or suffers from a mental disorder of any kind or is substantially and permanently handicapped by illness, injury or congenital deformity or such other disability as may be prescribed.

Adran 17 (11), Deddf Plant 1989

A person has a disability for the purposes of this Act if he has a physical or mental impairment which has a substantial and long-term adverse effect on his ability to carry out normal day-to-day activities.

Adran 1(1), Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995

1:4 Gall un neu fwy o'r diffiniadau hyn fod yn berthnasol i blentyn. Mae'r Cod hwn yn helpu sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar, ysgolion ac AALLau i gyflawni eu cyfrifoldebau tuag at blant sydd ag AAA. Bydd canllawiau mewn perthynas â Rhan 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau yn achos plant anabl.

Egwyddorion Sylfaenol

1:5 Seilir y canllawiau manwl yn y Cod hwn ar yr egwyddorion cyffredinol hyn a dylid cadw'r egwyddorion mewn cof wrth ddarllen y canllawiau:

- dylai anghenion plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig gael eu diwallu
- fel rheol caiff anghenion addysgol arbennig plant eu diwallu mewn ysgolion neu sefydliadau prif ffrwd¹
- dylid ceisio barn y plentyn a'i chymryd i ystyriaeth
- mae gan rieni² rôl holl bwysig i'w chwarae i gefnogi addysg eu plentyn
- dylid cynnig cyfle llawn i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael addysg eang, gytbwys a pherthnasol, wedi'i seilio ar y Cwricwlwm Cenedlaethol ac, yn achos plant cyn oed ysgol, y 'Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol' a baratowyd gan ACCAC.

Ffactorau Llwyddiant Allweddol

1:6

- dylai diwylliant, arferion, rheolaeth a'r modd y defnyddir adnoddau mewn ysgol neu sefydliad³ gael eu cynllunio mewn modd sy'n **sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu**

¹ Gweler yr Eirfa

² Yma, a thrwy'r Cod i gyd, dylid cymryd bod 'rhieni' yn cynnwys pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant, yn cynnwys rhieni corfforaethol a gofalwyr.

³ Yma, a thrwy'r Cod i gyd, dylid cymryd bod 'sefydliad' yn cynnwys y sefydliadau sy'n cael arian gan y Cynulliad i ddarparu addysg feithrin (ac eithrio ysgolion meithrin a gynhelir gan AALL).

- dylai AALLau, ysgolion a sefydliadau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod anghenion addysgol arbennig unrhyw blentyn yn cael eu **canfod yn gynnar**
- dylai AALLau, ysgolion a sefydliadau ddefnyddio'r arferion gorau wrth ddyfeisio ymyriadau
- dylai'r sawl sy'n gyfrifol am ddarpariaeth addysgol arbennig gymryd **dymuniadau'r plentyn** sydd o dan sylw i ystyriaeth, yng ngoleuni ei oed a'i ddealltwriaeth
- dylai gweithwyr proffesiynol ym maes addysg arbennig a **rhieni** weithio mewn **partneriaeth**
- dylai gweithwyr proffesiynol ym maes addysg arbennig gymryd **barn rhieni unigol** ynglŷn ag **anghenion neilltuol eu plentyn** i ystyriaeth
- dylai'r ymyriadau ar gyfer pob plentyn gael eu **hadolygu'n rheolaidd** i asesu eu heffaith, cynnydd y plentyn a barn y plentyn, ei athrawon a'i rieni
- dylid cael cydweithrediad agos rhwng yr holl asiantaethau priodol gan ddatrys materion trwy **ymdriniaeth aml-ddisgyblaethol**
- dylai'r AALLau wneud asesiadau o fewn y **terfynau amser penodedig**
- lle bo AALL yn nodi anghenion addysgol arbennig plentyn, dylai'r datganiadau fod yn **glir a manwl**, dylid eu gwneud o fewn y **terfynau amser penodedig, dylent bennu'r trefniadau monitro, a dylid eu hadolygu'n flynyddol**.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

1:7 Egwyddor sylfaenol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yw y dylid trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail gydradd wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth ymwneud â phlant a'u rhieni dylai pob corff gyflawni gofynion y Ddeddf ar eu cyfer, a glynu at y polisiau a geir yn eu Cynlluniau Iaith ac yn eu Cynlluniau Addysg Gymraeg. Dylai pob AALL, corff llywodraethu a chorff cyhoeddus arall sicrhau bod ganddynt Gynlluniau Iaith ar waith, os yw hynny'n ofynnol o dan y Ddeddf. Yng nghyd-destun anghenion addysgol arbennig, dylai'r cynlluniau hyn sicrhau bod eu gwasanaethau, hyd y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn ymarferol o fewn rheswm, yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg yn unol ag anghenion a dymuniadau'r disgybl a'i rieni. Dylid trefnu gwasanaethau i hwyluso hyn a dylent fod yn gydradd o ran yr ansawdd a'r ddarpariaeth sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Dylid sicrhau cydraddoldeb o ran darpariaeth iaith ym mhob gwasanaeth a dylai cyrff sicrhau hefyd eu bod yn cyfathrebu â rhieni yn yr iaith o'u dewis nhw.

1:8 Dylai pob corff arall sy'n helpu disgyblion a'u rhieni, ond nad ydynt yn dod o dan ddarpariaeth Deddf yr Iaith Gymraeg, sicrhau hefyd, cyn belled ag y gallant, eu bod yn cyflwyno'u gwasanaethau yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg fel y bo'n briodol. Dylid cofio y bydd cynnydd plant a phobl ifanc Gymraeg neu Saesneg eu hiaith yn cael ei lesteirio oni fyddant yn derbyn gwasanaethau yn yr iaith y maent yn fwyaf cyfforddus ynddi, ac mae hyn yr un mor berthnasol i ddisgyblion sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, twy gyfrwng y Saesneg neu'n ddwyieithog.

1:9 Dylid cymryd camau priodol i ganfod beth yw iaith cartref y plentyn mor gynnar â phosibl yn y broses o ddelio â phlentyn sydd ag AAA a dylai gwasanaethau cyfrwng Cymraeg fod ar gael i rieni o'r cychwyn cyntaf.

1:10 Rhaid i AALLau geisio diwallu anghenion disgyblion AAA yn unol â dewis y rhieni o safbwynt darpariaeth addysgol a chefnogaeth addysgol cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg. Mae gan rieni sydd am i'w plant dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg hawl i ddweud hynny o dan Ddeddf Addysg 1996. Mae'n ddyletswydd ar AALLau a Chyrff Llywodraethu i roi sylw i hynny. Wrth asesu AAA plentyn ni fyddai'n briodol asesu'r plentyn mewn iaith ar wahân i'r ddewis iaith, sef naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg, a dylid cymryd camau i sicrhau bod pawb sydd a wnelont â'r broses hon yn cael gwybod am anghenion iaith y plentyn.

1:11 Dylai pob agwedd ar y ddarpariaeth a'r gwasanaethau yr ymdrinnir â nhw yn y Cod Ymarfer hwn fod ar gael yn newis iaith y plentyn, sef naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg, neu'n ddwyieithog lle bo hynny'n briodol. Dylid darparu Cynlluniau Addysg Unigol yn ddwyieithog hefyd fel sy'n briodol a dylent gymryd anghenion iaith y plentyn a'r rhieni i ystyriaeth. Pan fo corff cyhoeddus mewn cysylltiad ag ysgol ddwyieithog neu ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig, dylid darparu pob gohebiaeth a deunydd ysgrifenedig naill ai'n ddwyieithog neu yn y Gymraeg. O ran cysylltu â rhieni, un egwyddor allweddol fydd darparu gwybodaeth a chynghor yn eu dewis iaith, a gall hyn olygu darpariaeth ddwyieithog os nad yw'r naill riant neu warcheidwad neu'r llall yn rhugl yn y Gymraeg. Ceir achosion lle bo'r plentyn yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ond nad yw'r naill riant na'r llall yn siarad Cymraeg. Mewn sefyllfa o'r fath, rhaid gweithredu bob amser ar yr egwyddor sylfaenol bod y Gymraeg a'r Saesneg i gael eu trin yn gydradd ac y dylid darparu ar gyfer senario ddwyieithog cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol o fewn rheswm.

1:12 Yn ôl Cyngor Statudol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i awdurdodau addysg lleol, 'Dylid darparu gwasanaethau arbenigol i blant ag AAA sy'n siarad Cymraeg neu sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai'r rhain gynnwys cefnogaeth o du'r gwasanaethau anabledd synhwyrdd neu anabledd corfforol, therapyddion lleferydd a'r gwasanaeth seicoleg addysg.' Dylai cyrff gynllunio'n strategol ar gyfer darparu'r holl wasanaethau AAA a lle nad oes ganddynt eu staff arbenigol eu hunain sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn cyd-destun neilltuol dylent lunio trefniadau cydweithrediadol gydag awdurdodau neu gyrff eraill i alluogi hyn i ddigwydd. Er enghraifft, lle bo plentyn ag AAA o gartref Cymraeg ei iaith yn cael ei leoli mewn ysgol arbennig sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg, dylid darparu cymorth cynorthwydd cefnogi dysgu Cymraeg ei iaith fel sy'n briodol. Bydd hyn yn briodol hefyd lle darperir cynorthwydd cefnogi dysgu o fewn ysgol brif ffrwd.

1:13 Rhaid hefyd i'r dyletswyddau i ddarparu gwasanaethau AAA i ddisgyblion/myfyrrwyr dros 16 oed gyflawni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn nhermau'r ddarpariaeth addysgol a chefnogaeth arall, gan gynnwys yr hyn a ddarperir gan y proffesiynau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Dylai darpariaeth cyrff ar gyfer disgyblion Saesneg neu Gymraeg eu hiaith sy'n 16 oed neu'n hŷn gymryd i ystyriaeth bob amser iaith cartref y disgybl/myfyriwr, cyfrwng hyfforddiant ei addysg yn ystod yr oed addysg statudol a chyfrwng unrhyw wasanaethau cefnogi arbenigol megis therapi lleferydd neu therapi galwedigaethol. Dylid anelu at barhad yn y ddarpariaeth ieithyddol fel mater o arfer da ym meysydd addysg, iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob cyd-destun.

Bydd parhad yn bwysig hefyd o ran cyrsiau cyswllt a lleoliadau gwaith. Pan amlinellir Cynlluniau Trawsnewid ar gyfer disgyblion, dylid ystyried parhad ieithyddol y ddarpariaeth yn ofalus wrth asesu anghenion pob disgybl/myfyriwr. Yn yr un modd, dylid paratoi Cynlluniau Llwybr plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn y Gymraeg neu'r Saesneg neu'n ddwyieithog a dylai eu hanghenion iaith gael eu hystyried yn yr un ffordd â rhai plant eraill.

1:14 Wrth weithio mewn partneriaeth â rhieni (Pennod 2) dylai cyrff gofio y bydd canfod AAA plentyn yn gynnwys yn dibynnu mewn rhai achosion ar sensitifrwydd iaith a'i bod yn rhaid i rieni Cymraeg neu Saesneg eu hiaith allu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn yr iaith o'u dewis nhw. Os na chaiff hyn ei gymryd i ystyriaeth, gall rhieni deimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a gall hyn eu hatal rhag gwneud cyfraniad pwysig tuag at gynnydd y plentyn. Wrth ddatblygu gwasanaethau partneriaeth â rhieni, yn cynnwys trefniadau cymodi lleol, rhaid i gyrff sicrhau bod y rhain o fewn cyrraedd rhieni Cymraeg a Saesneg eu hiaith a dylent sicrhau bod unrhyw sesiynau hyfforddi a grwpiau cefnogi yn gwneud darpariaeth addas ar gyfer rhieni Cymraeg eu hiaith. Pan fydd ysgolion ac AALLau yn ystyried yr help ymarferol a gynigir i rieni a phan fydd Cefnogwr Annibynnol Rhieni yn cael ei ddarparu, dylent ystyried anghenion iaith bob amser. Os yw plentyn mewn gofal preswyl neu sefydliad addysg preswyl, bydd anghenion iaith yr un mor bwysig ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth.

1:15 Bydd gofyn i strategaethau cyfranogiad disgyblion (Pennod 3) roi sylw i'r angen i ddarparu adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog neu o leiaf i alluogi plentyn Cymraeg neu Saesneg ei iaith i ddeall yn llawn unrhyw wybodaeth nad yw'n cael ei chyflwyno yn ei ddewis iaith. Mewn geiriau eraill, ni ddylid rhoi disgyblion Cymraeg na Saesneg eu hiaith sy'n cymryd rhan mewn unrhyw agwedd ar eu darpariaeth neu eu hasesiad AAA o dan anfantais oherwydd y cyfrwng cyfathrebu a ddefnyddir gan gyrff fel arfer. Lle bo eiriolwr neu weithiwr cymdeithasol â rhan yn yr achos, bydd anghenion iaith y plentyn yn holl bwysig. Dylai fod gan gyrff systemau sy'n talu sylw i anghenion plant Cymraeg eu hiaith mewn senarios eiriol neu gwnsela o fewn sefydliadau addysg, iechyd neu ofal cymdeithasol.

Partneriaethau cynllunio strategol

1:16 Er mwyn llwyddo i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag AAA, mae'n rhaid wrth bartneriaeth rhwng pawb sydd â rhan yn y gwaith – AALLau, ysgolion, rhieni, disgyblion, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac asiantaethau eraill. Cyn y gall partneriaethau weithio, mae'n rhaid cael dealltwriaeth glir o wahanol amcanion, swyddogaethau a chyfrifoldebau'r partneriaid a natur y cysylltiad rhyngddynt. Mae hynny, yn ei dro, yn dibynnu ar gael gwybodaeth glir, cyfathrebu da a pholisïau tryloyw.

1:17 Ceir nifer o gyfleoedd ffurfiol i gynllunio sy'n berthnasol i bob plentyn, yn cynnwys rhai sydd ag AAA, er enghraifft y Cynllun Strategol Addysg, y Cynllun Trefniadol Ysgolion, Cynllun Datblygiad y Blynnyddoedd Cynnwys a Gofal Plant a'r Rhaglen Gwella Iechyd. Mae sail statudol i Gynlluniau Gwasanaethau Plant a Chynlluniau Cynnal Ymddygiad, ac y mae rhai cynlluniau eraill yn agor y drws ar gyfer adnoddau trwy grantiau arbennig, er enghraifft. Mae rhai yn berthnasol i wasanaethau i blant yn gyffredinol ac eraill yn berthnasol i wasanaethau ar gyfer plant ag anghenion neilltuol.

1:18 Ym mhob achos, dylai AALLau gydweithio â'u partneriaid i gytuno ar drefniadau lleol ar gyfer casglu a rheoli gwybodaeth i'w defnyddio'n sail ar gyfer cynllunio darpariaeth i blant ag AAA yn unigol ac ar lefel strategol.

Rôl yr AALL

1:19 Mae'r Cod Ymarfer Cysylltiadau AALL - Ysgol⁴ yn rhoi canllawiau bras ar y cysylltiadau rhwng AALLau, cyrff llywodraethu⁵ a phrif athrawon yn eu priod swyddogaethau wrth sicrhau rhagoriaeth ar gyfer pob plentyn. Mae'r Cod yn disgwyl i AALLau, mewn partneriaeth ag ysgolion, roi'r flaenoriaeth uchaf i'w dyletswydd statudol i hyrwyddo safonau addysg uchel ar gyfer pob plentyn, yn cynnwys rhai ag AAA.

1:20 Un o swyddogaethau hanfodol AALL yw gwneud trefniadau effeithiol ar gyfer AAA trwy sicrhau bod:

- anghenion plant a phobl ifanc sydd ag AAA yn cael eu canfod a'u hasesu'n gyflym a bod darpariaeth addas yn cael ei gwneud
- ysgolion a sefydliadau addysg blyneddoddd cynnar yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel – er enghraifft trwy'r gwasanaeth seicoleg addysg a gwasanaethau cefnogi eraill, a threfniadau ar gyfer rhannu arferion da wrth ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA
- plant a phobl ifanc sydd ag AAA yn gallu manteisio ar ddarpariaeth gydgyssylltiedig – trwy ddatblygu partneriaethau clôs gyda rhieni, ysgolion, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar y sector gwirfoddol
- cynllunio strategol ar gyfer AAA yn cael ei gynnal mewn ymgynghoriad ag ysgolion ac eraill er mwyn datblygu systemau i fonitro AAA a sicrhau atebolrwydd
- trefniadau'r AALL ar gyfer darpariaethau AAA yn cael eu hadolygu'n barhaus yn unol â gofynion adran 315 o Ddeddf Addysg 1996.

1:21 Fel rhan o'u rôl yn sicrhau bod darpariaeth addas yn cael ei gwneud ar gyfer yr anghenion, dylai AALLau gydweithio ag ysgolion i werthuso effeithiolrwydd trefniadau ariannu'r ysgol o ran cefnogi a chynyddu cyflawniadau plant sydd ag AAA.

Fframwaith polisi AALLau

1:22 O dan Reoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2002, mae'n ofynnol i AALLau gyhoeddi eu polisiau ar AAA a gwybodaeth sy'n dweud sut y mae'r awdurdod yn:

- hyrwyddo safonau addysg uchel i blant sydd ag AAA
- annog plant sydd ag AAA i gymryd rhan lawn yn eu hysgol a'u cymuned ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu haddysg
- annog ysgolion yn eu hardal i rannu eu harferion o ran darparu ar gyfer plant sydd ag AAA
- cydweithio â chyrff statudol a gwirfoddol eraill i ddarparu cefnogaeth ar gyfer plant sydd ag AAA.

⁴ Y Swyddfa Gymreig, Mehefin 1999

⁵ Neu, yn achos unedau cyfeirio disgyblion, bwyllgorau rheoli.

1:23 Yn ogystal, mae'n rhaid i AALLau gyhoeddi eu trefniadau cyffredinol, yn cynnwys unrhyw gynlluniau sy'n nodi amcanion, targedau ac amserlenni ar gyfer trefniadau lleol i:

- ganfod plant sydd ag AAA
- monitro'r gwaith o dderbyn plant sydd ag AAA (pa un a oes datganiad gan y plant hynny ai peidio) i ysgolion a gynhelir yn eu hardal
- trefnu ac asesu datganiadau AAA plant, yn cynnwys unrhyw drefniadau lleol ar gyfer gwneud hynny
- rhoi cefnogaeth i ysgolion o ran darparu ar gyfer plant sydd ag AAA
- archwilio, cynllunio, monitro ac adolygu darpariaeth ar gyfer plant sydd ag AAA (yn gyffredinol ac mewn perthynas â disgyblion unigol)
- cefnogi disgyblion sydd ag AAA trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy
- sicrhau hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth i staff sy'n gweithio ym maes AAA
- adolygu a diweddarau'r polisi a'r cynlluniau datblygu yn rheolaidd
- esbonio'r elfen honno o ddarpariaeth ar gyfer plant sydd ag AAA (ond heb ddatganiadau) y mae'r AALL yn disgwyl iddi gael ei diwallu fel rheol o gyllidebau ysgolion a gynhelir a'r elfen honno o'r ddarpariaeth y mae'r awdurdod yn disgwyl iddi gael ei diwallu fel rheol o arian sydd ganddo'n ganolog.

1:24 Er mwyn cyflawni eu gwaith yn effeithiol, dylai cynlluniau AALLau ddarparu ar gyfer cynnwys plant sydd ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd. Dylent fonitro ac adolygu rôl ac ansawdd gwasanaethau cefnogi canolog ar gyfer AAA a gwasanaethau partneriaeth â rhieni; dylent dalu sylw i nifer cyfredol a disgwyliedig y disgyblion; dylent fonitro'r mathau o anghenion a ganfyddir a ble mae'r plant wedi'u lleoli; a dylent ddatblygu eu polisïau AAA mewn ymgynghoriad â'r ysgolion a'u partneriaid eraill a'u hadolygu yn gyson.

Dyletswyddau cyrff llywodraethu⁶

1:25 Mae gan gyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ddyletswyddau statudol pwysig tuag at ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Dylai cyrff llywodraethu, ynghyd â'r pennaeth, benderfynu ar bolisi ac ymdriniaeth gyffredinol yr ysgol o ran diwallu anghenion addysgol arbennig y disgyblion hynny sy'n destun datganiad a'r rhai nad ydynt yn destun datganiad. Rhaid iddynt sefydlu trefniadau staffio a chyllido priodol a goruchwyllo gwaith yr ysgol.

1:26 O dan adran 317 o Ddeddf Addysg 1996, mae'n ddyletswydd ar lywodraethwyr ysgolion cymunedol, gwirfoddol a sefydledig, ac AALLau mewn perthynas ag ysgolion meithrin a gynhelir, i wneud eu gorau i sicrhau y gwneir y ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer disgyblion sydd ag AAA. O dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae'n ofynnol i lywodraethwyr gynnal yr ysgol gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel. Mae'r safonau uchel hyn yn berthnasol i holl ddisgyblion yr ysgol, yn cynnwys rhai sydd ag AAA.

⁶ Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol i bob ysgol a gynhelir yn cynnwys rhai sydd â dosbarthiadau meithrin

1:27 Trwy'r fframwaith rheoli perfformiad, dylai'r llywodraethwyr sicrhau bod amcanion yn cael eu pennu ar gyfer y pennaeth. Dylai'r rhain gynnwys amcanion ar gyfer arweinyddiaeth, rheolaeth, a chyflawniad a chynnydd disgyblion, a byddant yn ymwneud hefyd â blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Dylai'r holl amcanion hyn gynnwys AAA.

1:28 Rhaid i bob ysgol gael 'person cyfrifol' sy'n gwneud yn siŵr bod pawb sy'n debygol o ddysgu disgybl sy'n destun datganiad anghenion addysgol arbennig yn cael gwybod am y datganiad. Y pennaeth yw'r person hwn fel rheol, ond gallai fod yn gadeirydd y corff llywodraethu neu'n llywodraethwr a benodir gan y corff llywodraethu i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw.

1:29 Mae'r rhan fwyaf o gyrff llywodraethu yn penodi llywodraethwr neu is-bwyllgor i gadw golwg benodol ar drefniadau'r ysgol a'i darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Nid y llywodraethwr AAA yw'r 'person cyfrifol' o reidrwydd.'

1:30 Rhaid i gorff llywodraethu ysgol gymunedol, wirfoddol neu sefydledig:

- **wneud ei orau i sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn cael ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig**
- **sicrhau, lle bo'r AALL wedi hysbysu'r 'person cyfrifol' – y pennaeth neu'r llywodraethwr priodol – fod gan ddisgybl anghenion addysgol arbennig, bod pawb sy'n debygol o'i ddysgu yn cael gwybod am yr anghenion hynny**
- **sicrhau bod athrawon yn yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd canfod disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a darparu ar eu cyfer**
- **ymgyngori â'r AALL a chyrff llywodraethu ysgolion eraill, pan fo hynny'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n ddymunol er budd darpariaeth addysg arbennig gyd-drefnus yn yr ardal gyfan**
- **sicrhau bod disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ymuno yng ngweithgareddau'r ysgol gyda disgyblion nad oes ganddynt anghenion addysgol arbennig, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol o fewn rheswm ac yn golygu bod y plentyn yn cael darpariaeth addysgol arbennig sy'n addas ar gyfer ei anghenion addysgol, bod y plant y caiff ei addysgu gyda nhw yn cael addysg effeithlon, a bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon**

Mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, a'r AALL mewn perthynas ag ysgol feithrin a gynhelir:

- **adrodd yn flynyddol i rieni ar weithrediad polisi'r ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig**

Gweler Adran 317, Deddf Addysg 1996

- **dalw sylw i'r Cod Ymarfer hwn wrth gyflawni ei ddyletswyddau tuag at bob disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig**

Gweler Adran 313, Deddf Addysg 1996

- **sicrhau yr hysbysir rhieni os bydd yr ysgol yn penderfynu gwneud darpariaeth AAA ar gyfer eu plentyn. (Gan AALLau mae'r dyletswyddau hyn, lle bo'n berthnasol, mewn perthynas ag ysgolion meithrin a gynhelir)**

Gweler Adran 317A, Deddf Addysg 1996

1:31 Mae llywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig yn nhrefniadau hunan-adolygu ysgolion a dylent sefydlu mecanweithiau i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth lawn am yr ysgol, yn cynnwys y systemau ar gyfer monitro a gwerthuso mewnol a chanlyniadau'r prosesau hyn. Mewn perthynas ag AAA, dylai'r corff llywodraethu sicrhau:

- eu bod yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu a monitro polisi AAA yr ysgol
- bod pob llywodraethwr, ac yn enwedig unrhyw lywodraethwyr AAA, yn ymwybodol o ddarpariaethau diweddaraf yr ysgol ym maes AAA, yn cynnwys sut y mae cyllid, offer ac adnoddau personél yn cael eu defnyddio
- bod darpariaeth AAA yn rhan hanfodol o gynllun datblygu'r ysgol
- bod ansawdd y ddarpariaeth AAA yn cael ei fonitro'n barhaus.

Polisiâu AAA mewn Sefydliadau Addysg Blynyddoedd Cynnar ac Ysgolion

1:32 Mae'n **rhaidd** i'r sefydliadau addysgol ar ysgolion hyn gael polisi AAA ysgrifenedig:

- sefydliadau sy'n cael cyllid gan y Cynulliad ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar
- ysgolion meithrin a gynhelir
- ysgolion cymunedol, sefydledig a gwirfoddol
- ysgolion arbennig cymunedol a sefydledig
- Academiâu Dinas
- Colegau Technoleg Dinas
- Colegau Dinas ar gyfer Technoleg y Celfyddydau

1:33 Mae'n rhaid i'r polisi AAA gynnwys y wybodaeth a nodir yn Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Gwybodaeth) (Cymru) 1999 neu, yn achos sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar ac Academiâu Dinas, y wybodaeth a nodir yn amodau'r grant.

1:34 Mae AALLau yn gyfrifol am sicrhau bod polisiâu AAA addas gan Unedau Cyfeirio Disgyblion.

1:35 Fel rhan o'u dyletswyddau statudol, mae'n rhaid i gyrff llywodraethu pob ysgol brif ffrwd a gynhelir gyhoeddi gwybodaeth ac adroddiadau am bolisi'r ysgol ar anghenion addysgol arbennig. Mae'n rhaid bod y wybodaeth hon ar gael yn hwylus i rieni. Er mai'r corff llywodraethu a'r pennaeth sy'n gyfrifol am bolisi AAA yr ysgol yn y pen draw, dylai'r ysgol gyfan gymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion arbennig a gynhelir gyhoeddi gwybodaeth ac adroddiadau am bolisiau eu hysgolion hefyd. Efallai y bydd ysgolion yn dymuno ymgynghori â'r AALL ac ysgolion cyfagos wrth adolygu a diwygio eu polisi, er mwyn sicrhau darpariaeth addysg arbennig gyd-drefnus yn yr ardal gyfan.

1:36 Fel gyda phob polisi, dylid monitro, gwerthuso ac adolygu'r polisi AAA fel rhan o gylch rheolaidd. Felly mae'n **rhaid** i gyrff llywodraethu, o leiaf unwaith y flwyddyn, ystyried effeithiolrwydd gwaith yr ysgol ar ran plant sydd ag anghenion addysgol arbennig ac adrodd ar hynny. Wrth lunio eu hadroddiad blynyddol efallai y byddant am ymgynghori â'r gwasanaethau cefnogi a ddefnyddir gan yr ysgol, ysgolion eraill a rhieni. Yng ngoleuni'r gwerthuso a'r ymateb i'r ymgynghori dylai'r ysgol ystyried a oes angen addasu'r polisi.

1:37 Yn ôl Rheoliadau a wnaed o dan Adran 42 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae'n rhaid i adroddiad blynyddol y corff llywodraethu gynnwys gwybodaeth am weithrediad polisi'r corff llywodraethu ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac unrhyw newidiadau i'r polisi dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rolau a Chyfrifoldebau mewn Sefydliadau Addysg Blynyddoedd Cynnar⁷

1:38 Mae darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig yn fater i bawb yn y sefydliad. Yn ychwanegol at bennaeth neu reolwr y sefydliad a'r cydlynnydd AAA⁸ mae gan bob aelod arall o'r staff gyfrifoldebau pwysig. Yn ymarferol, mater i sefydliadau unigol yw'r modd y rhennir cyfrifoldebau o-ddydd-i-ddydd.

1:39 Pa drefniadau bynnag a wneir i ddiwallu anghenion plant ag AAA mewn sefydliad neilltuol, mae'r ddyletswydd gyffredinol i ganfod plant sydd ag AAA ac i ddarparu ar eu cyfer yn aros gyda'r AALL.

Rolau a Chyfrifoldebau mewn Ysgolion Prif Ffrwd a Gynhelir⁹

1:40 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn fater i'r ysgol yn ei chyfanrwydd. Yn ogystal â'r corff llywodraethu, mae gan bennaeth yr ysgol, y Cydlynnydd AAA (SENCO) neu'r tîm AAA a phob aelod arall o'r staff gyfrifoldebau pwysig. Yn ymarferol, mater i ysgolion unigol yw rhannu cyfrifoldebau o-ddydd-i-ddydd, gan benderfynu ar hynny yng ngoleuni amgylchiadau a maint yr ysgol, ei blaenoriaethau a'i hethos.

Rolau a Chyfrifoldebau mewn Ysgolion Arbennig

7 Gall darparwyr, yn enwedig gwarchodwyr plant achrededig sy'n rhan o rwydwaith sydd wedi'i gymeradwyo, gydweithio i ddatblygu eu polisi AAA.

8 Yn achos gwarchodwyr achrededig sy'n rhan o rwydwaith sydd wedi'i gymeradwyo, gall rôl y Cydlynnydd AAA gael ei rannu rhwng gwarchodwyr unigol a chydlynnydd y rhwydwaith.

9 Mae ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn cynnwys ysgolion meithrin a gynhelir lle bo gan yr AALL gyfrifoldeb yn y pen draw am gyflawni'r un swyddogaethau ag a gyflawnir gan y Corff Llywodraethu mewn ysgol gynradd neu ysgol uwchradd a gynhelir.

10 Gweler yr Eirfa.

1:41 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn fater i'r ysgol yn ei chyfanrwydd. Yn ogystal â'r corff llywodraethu, mae gan bennaeth yr ysgol a phob aelod arall o'r staff gyfrifoldebau pwysig o ddydd i ddydd. Pa drefniadau bynnag a wneir i ddiwallu anghenion plant ag AAA mewn ysgol arbennig neilltuol, ers y ddyletswyddau statudol gyda'r corff llywodraethu yn hytrach na staff yr ysgol.

Cynhwysiant a Derbyni i'r Ysgol

1:42 Dylai pob ysgol dderbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sydd wedi'u canfod yn barod, yn ogystal â chanfod disgyblion nad oeddent gynt wedi'u dynodi'n ddisgyblion sydd ag AAA a darparu ar eu cyfer. Ni chaiff awdurdodau derbyn wrthod derbyn plentyn am eu bod yn teimlo na allant ddarparu ar gyfer ei anghenion addysgol arbennig. Mae'n rhaid i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig ond sydd heb ddatganiadau gael eu trin yr un mor deg â phob un arall sy'n ymgeisio i gael ei dderbyn. Mae'n rhaid i awdurdodau derbyn ystyried ceisiadau gan rieni plant sydd ag anghenion addysgol arbennig ond heb ddatganiad ar sail meini prawf derbyn yr ysgol fel y'u cyhoeddwyd. Dylai plant o'r fath gael eu hystyried fel rhan o'r drefn dderbyn arferol. Ni chaiff awdurdodau derbyn wrthod derbyn plentyn ar y sail nad oes ganddo ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu ei fod yn cael ei asesu ar y pryd.

1:43 Mae'n ddyletswydd ar AALLau a chyrff llywodraethu ysgolion, os mai nhw yw'r awdurdod derbyn, i gydymffurfio â'r uchafswm statudol o 30 o ddisgyblion mewn dosbarth babanod.¹¹ Ni chaiff yr un dosbarth babanod ag ynddo blant 5, 6 neu 7 oed mewn ysgol a gynhelir gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion gydag un athro cymwysedig ac eithrio o dan rai amgylchiadau cyfyngedig, yn eu plith:

- disgyblion sy'n mynychu gwersi prif ffrwd ac sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol arbennig neu sy'n cael eu dysgu fel arfer mewn uned AAA ag iddi adnoddau mewn ysgol brif ffrwd
- gall disgyblion a dderbynnir y tu allan i'r cylch derbyn arferol i ddosbarth babanod mewn ysgol brif ffrwd ac sydd â datganiad AAA sy'n enwi'r ysgol honno gael eu cyfrif yn eithriad am weddill y flwyddyn academiaidd y'u derbynnir ynddi.

1:44 Ceir disgwyliad clir yn Neddf Addysg 1996 y bydd disgyblion sy'n destun datganiad anghenion addysgol arbennig yn cael eu cynnwys mewn ysgolion prif ffrwd. Lle bo rhieni'n dymuno i'w plentyn sy'n destun datganiad gael addysg brif ffrwd, dim ond mewn lleiafrif bychan o achosion y dylid gwrthod hynny, sef os byddai cynnwys y plentyn yn anghydnaws â darparu addysg effeithiol ar gyfer plant eraill.

¹¹ O Fis Medi 2001 ymlaen, mae uchafswm statudol ar faint pob dosbarth babanod yng Nghymru. Er mwyn cydnabod yr her neilltuol a wyneba AALLau ac ysgolion wrth weithredu ddeddfwriaeth hon yn llawn, mae arian ychwanegol wedi'i gynnwys yn y setliad refeniw i helpu Awdurdodau Lleol i sicrhau nad oes mwy na 30 o ddisgyblion yn yr un dosbarth babanod o fis Medi 2001 ymlaen.

1:45 Os yw plentyn yn destun datganiad anghenion addysgol arbennig a gynhelir gan yr AALL, yr AALL hwnnw sy'n gyfrifol am drefnu'r ddarpariaeth addysgol arbennig ac am ystyried addasrwydd yr ysgol wrth gwblhau'r datganiad yn derfynol. Os yw'r datganiad o anghenion addysgol arbennig yn enwi ysgol a gynhelir, mae'n rhaid i gorff llywodraethu yr ysgol dderbyn y plentyn i'r ysgol. Ym Mhennod 8, nodir rhagor o fanylion am yr ystyriaethau sy'n berthnasol pan fydd AALLau yn enwi ysgol yn natganiad plentyn.

Cyfle ar gyfer Hyblygrwydd

1:46 Mae'r Cod yn cynghori y dylid mabwysiadu nifer o strategaethau sy'n cydnabod gwahanol gymhlethdodau'r anghenion, y gwahanol gyfrifoldebau i asesu a diwallu'r anghenion hynny, ac amrediad ac amrywiadau cysylltiedig y ddarpariaeth, a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo orau gydnabyddiaeth gyffredin o'r continwwm anghenion addysgol arbennig.

1:47 Mae cyfle ar gyfer hyblygrwydd ac amrywiadau yn ymatebion ysgolion, sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar ac AALLau. Fodd bynnag, bydd angen i sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar, ysgolion ac AALLau allu dangos, yn eu trefniadau ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, eu bod yn cyflawni eu dyletswydd statudol i dalu sylw i'r Cod hwn. Bydd Estyn yn ystyried pa mor effeithiol yw eu polisiau a'u harferion ac i ba raddau y maent wedi talu sylw i'r Cod hwn.

1:48 Rolau a Chyfrifoldebau

Mewn Ysgolion Prif Ffrwd a Gynhelir

- dylai'r **corff llywodraethu**, mewn cydweithrediad â'r pennaeth, benderfynu ar bolisi a dull cyffredinol yr ysgol o ran darparu ar gyfer plant sydd ag AAA, sefydlu'r trefniadau staffio ac ariannu priodol a chadw golwg gyffredinol ar waith yr ysgol
- gall y **corff llywodraethu** benodi **pwylggor** i gymryd diddordeb neilltuoel yng ngwaith yr ysgol ar ran plant ag anghenion addysgol arbennig a'i fonitro'n drylwyr
- mae'n rhaid i'r **corff llywodraethu** roi adroddiad blynyddol i rieni ar bolisi'r ysgol ar AAA

Mewn Ysgolion Arbennig a Gynhelir

- dylai'r **corff llywodraethu**, mewn cydweithrediad â'r pennaeth, benderfynu ar bolisi a dull cyffredinol yr ysgol o ran darparu ar gyfer pob disgybl, sefydlu'r trefniadau staffio ac ariannu priodol a chadw golwg gyffredinol ar waith yr ysgol
- mae'n rhaid i'r **corff llywodraethu** roi adroddiad blynyddol i rieni ar bolisi'r ysgol ar AAA
- y **pennaeth** sy'n gyfrifol am **reoli** pob agwedd ar waith yr ysgol o ddydd i ddydd. Bydd yn rhoi gwybodaeth i'r corff llywodraethu yn rheolaidd.

Mewn Sefydliadau Addysg Blynyddoedd Cynnar

- dylai **grŵp rheoli'r sefydliad** gydweithio ag ymarferwyr i benderfynu ar bolisi a dull cyffredinol y sefydliad o ran darparu ar gyfer plant sydd ag AAA
- **pennaeth y sefydliad** sy'n gyfrifol am **reoli** pob agwedd ar waith y sefydliad o ddydd i ddydd, yn cynnwys darparu ar gyfer plant sydd ag AAA. Dylai roi gwybodaeth lawn i'r grŵp rheoli a chydweithio'n agos â'r Cydlynnydd AAA.

Mewn Ysgolion Prif Ffrwd a Gynhelir

- y **pennaeth** sy'n gyfrifol am **reoli** pob agwedd ar waith yr ysgol o ddydd i ddydd, yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd ag AAA. Dylai roi gwybodaeth lawn i'r corff llywodraethu a chydweithio'n agos â chydlynnydd neu dim AAA yr ysgol
- dylai'r **holl staff dysgu a staff arall** fod â rhan yn y gwaith o ddatblygu polisi AAA yr ysgol a dylent fod yn hollol ymwybodol o drefniadau'r ysgol ar gyfer canfod ac asesu disgyblion sydd ag AAA a darparu ar eu cyfer
- dylai'r **Cydlynnydd (neu'r tim) AAA** gydweithio'n agos â'r pennaeth, yr uwch reolwyr a chyd-athrawon gan helpu i bennu datblygiad strategol y polisi a'r ddarpariaeth AAA. Y Cydlynnydd AAA sy'n gyfrifol am weithredu polisi AAA yr ysgol o ddydd i ddydd ac am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA, yn enwedig trwy Gweithredu Gan yr Ysgol a Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy.

Mewn Ysgolion Arbennig a Gynhelir

- dylai'r **holl staff dysgu a staff arall** fod â rhan yn y gwaith o ddatblygu polisi'r ysgol a dylent fod yn hollol ymwybodol o drefniadau'r ysgol ar gyfer gwneud darpariaeth AAA, ac ar gyfer monitro ac adolygu'r ddarpariaeth honno yn unol â'r canllawiau yn y Cod.

Mewn Sefydliadau Addysg Blynnyddoedd Cynnar

- dylai'r **holl ymarferwyr**¹² fod â rhan yn y gwaith o ddatblygu'r polisi AAA a dylent fod yn hollol ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer canfod ac asesu plant sydd ag anghenion addysgol arbennig a gwneud darpariaeth ar eu cyfer
- y **Cydlynnydd AAA**, yn cydweithio'n agos â phennaeth y sefydliad a chydweithwyr, sy'n gyfrifol am weithredu polisi AAA y sefydliad o ddydd i ddydd ac am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn enwedig drwy Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar A Mwy.

¹² Mae ymarferwyr yn cyfeirio at bawb mewn sefydliadau addysg blynnyddoedd cynnar sy'n gweithredu fel addysgwyr.

2 Gweithio Mewn Partneriaeth â Rhieni

Cyflwyniad

2:1 Mae partneriaeth â rhieni'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo diwylliant o gydweithio rhwng rhieni, ysgolion¹³, AALLau ac eraill. Mae hyn yn bwysig er mwyn galluogi plant a phobl ifanc sydd ag AAA i gyflawni eu potensial.

2:2 Mae gan rieni¹⁴ wybodaeth allweddol ac mae ganddynt rôl hollbwysig i'w chwarae yn addysg eu plant. Mae ganddynt gryfderau, gwybodaeth a phrofiad unigryw i'w cyfrannu i'r olwg gyffredinol ar anghenion y plentyn a'r ffyrdd gorau o'u cefnogi. Felly mae'n hanfodol bod yr holl weithwyr proffesiynol (ysgolion, AALLau ac asiantaethau eraill) yn gwneud ymdrech i gydweithio â rhieni ac i werthfawrogi eu cyfraniad. Gall gwaith pobl broffesiynol fod yn fwy effeithiol pan fydd rhieni'n cael cyfrannu at y drafodaeth a phan delir sylw i'w dymuniadau, eu teimladau a'u persbectif ar ddatblygiad eu plant. Mae hyn yn arbennig o wir os oes gan blentyn anghenion addysgol arbennig. Dylai rhieni pob plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig gael eu trin fel partneriaid. Dylid eu cefnogi fel y gallant:

- gydnabod a chyflawni eu cyfrifoldebau fel rhieni a chwarae rhan weithredol a gwerthfawr yn addysg eu plant;
- gwybod beth yw hawliau eu plentyn yn y fframwaith AAA
- mynegi eu barn ynglŷn ag addysg eu plentyn a sicrhau bod y farn honno'n cael ei hystyried yn ofalus
- gwybod lle i gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn ystod y broses asesu ac unrhyw brosesau penderfynu cysylltiedig ynglŷn â darpariaeth addysgol arbennig.

2:3 Gall y partneriaethau hyn fod yn eithaf anodd. Mae angen agweddau positif gan bawb ac, o dan rai amgylchiadau, gefnogaeth ac anogaeth ychwanegol i rieni.

Diffinio Cyfrifoldeb Rhiant

2:4 Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn. Deddf Plant 1989 a gyflwynodd y cysyniad o gyfrifoldeb rhiant. Mae'r Ddeddf yn defnyddio'r ymadrodd "cyfrifoldeb rhiant" i grynhoi'r casgliad o ddyletswyddau, hawliau ac awdurdod sydd gan riant mewn perthynas â phlentyn. Os yw rhieni sydd wedi priodi yn gwahanu neu'n ysgaru, fel rheol bydd y ddau riant yn cadw cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ac ni fydd y ddyletswydd sydd ar y naill riant na'r llall i chwarae rhan lawn ym magwraeth y plentyn yn lleihau. Mae hyn yn golygu y bydd y cyfrifoldeb rhiant yn cael ei rannu, er bod y rhieni, yn aml, yn byw ar aelwydydd gwahanol. Yn achos rhieni sydd heb briodi, y fam yn unig sydd â chyfrifoldeb rhiant, oni bai bod y tad wedi cael cyfrifoldeb rhiant gan y Llys neu wedi gwneud cytundeb cyfrifoldeb rhiant gyda'r fam. Os oes gan rywun nad yw'n rhiant (e.e. mam-gu neu dad-cu) Orchymyn Preswyllo, bydd gan y person hwnnw gyfrifoldeb rhiant tra bydd y Gorchymyn mewn grym.

¹³ Dylai sefydliadau addysg gynnar yn ogystal ag ysgolion weithio mewn partneriaeth â rhieni fel y disgrifir yn y Bennod hon.

¹⁴ Yma, a thrwy'r Cod hwn i gyd, dylid cymryd bod "rhieni" yn cynnwys pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant, yn cynnwys rhieni corfforaethol a gofalwyr

2:5 Os yw plentyn yn ‘derbyn gofal’ gan awdurdod lleol, gall fod ar Orchymyn Gofal neu mewn llety gwirfoddol. Mae **Gorchymyn Gofal** yn rhoi plentyn yng ngofal awdurdod lleol ac yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r awdurdod lleol. Bydd gan yr awdurdod lleol bŵer i benderfynu i ba raddau y bydd y cyfrifoldeb hwn yn parhau i gael ei rannu gyda'r rhieni. Yn ogystal, gall yr awdurdod lleol fod yn rhoi **llety** i blentyn o dan drefniadau gwirfoddol gyda rhieni'r plentyn. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd y rhieni yn cadw'u cyfrifoldeb rhiant am eu plentyn ac yn gweithredu hyd y bo modd fel partneriaid i'r awdurdod lleol. Os yw plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, gall y cyfrifoldeb o ddydd i ddydd fod ar rieni maeth, gweithwyr gofal preswyl neu warcheidwaid.

Egwyddorion allweddol wrth gyfathrebu â rhieni a gweithio mewn partneriaeth â nhw

2:6 Mae agweddau positif tuag at rieni, ynghyd â gwybodaeth a dulliau gweithredu hawdd eu deall ac ymwybyddiaeth o'r mathau o gefnogaeth y mae arnynt eu hangen yn bwysig. Ni ddylid rhagdybio beth y mae'r rhieni yn gallu neu'n methu ei wneud i helpu eu plentyn i ddysgu. Nid yw syniadau ystrydebol am rieni o gymorth i neb a dylid eu herio. Dylai pob aelod o'r staff gofio'r pwysau a all fod ar riant oherwydd anghenion y plentyn.

2:7 Er mwyn gallu cyfathrebu'n effeithiol dylai gweithwyr proffesiynol:

- gydnabod a manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd rhieni mewn perthynas â'u plentyn
- canolbwyntio ar gryfderau'r plant yn ogystal â meysydd lle mae ganddynt anghenion ychwanegol
- cydnabod buddsoddiad personol ac emosiynol rhieni a bod yn ymwybodol o'u teimladau
- sicrhau bod rhieni yn deall y dulliau gweithredu, eu bod yn gwybod sut i gael cefnogaeth wrth baratoi eu cyfraniadau a'u bod yn cael y dogfennau a drafodir mewn da bryd cyn cyfarfodydd
- parchu dilysrwydd safbwyntiau gwahanol a cheisio ffyrdd adeiladol o gysoni safbwyntiau gwahanol
- parchu'r anghenion gwahanol a all fod gan y rhieni eu hunain, megis anabledd neu rwystrau cyfathrebu neu iaith
- cydnabod yr angen i fod yn hyblyg o ran amseriad a strwythur cyfarfodydd.

2:8 Dylai AALLau ac ysgolion geisio caniatâd rhieni bob amser cyn eu cyfeirio at eraill i gael cefnogaeth (er enghraifft, y gwasanaeth partneriaeth â rhieni). Os nad yw rhieni'n dymuno i'w manylion gael eu rhoi i eraill, dylid parchu eu dymuniadau.

2:9 Pan fo plentyn yn mynychu ysgol breswyl, neu'n ‘derbyn gofal’ yr awdurdod lleol ac yn byw oddi cartref, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y rhieni yn cael eu hannog i barhau i chwarae rhan weithredol yn ei addysg. Mae cyfraniad rhieni at asesiadau ac adolygiadau pan fo plentyn oddi cartref yn neilltuo o bwysig, oherwydd yr angen i gynllunio ar gyfer yr adeg pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn dychwelyd i'w gymuned ei hun.

Ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni

2:10 Yn aml, yr ysgol yw'r man cyswllt cyntaf i rieni. Dylai rhieni chwarae rhan lawn yn y ffordd y mae'r ysgol yn ymateb i sefyllfa eu plentyn, dylent ddeall diben unrhyw ymyriad neu raglen weithredu, a dylent gael gwybod am y gwasanaeth partneriaeth â rhieni pan ganfyddir yr AAA. Mae'n rhaid i ysgolion ddweud wrth rieni pan ganfyddant fod gan blentyn AAA. Mae'n hanfodol bwysig bod ysgolion yn croesawu rhieni ac yn eu hannog i gyfrannu o'r cychwyn a thrwy gydol gyrfa addysgol eu plentyn yn yr ysgol. Mae angen i ysgolion adolygu eu polisiau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn annog partneriaeth weithredol gyda rhieni ac nad ydynt yn eu rhwystro rhag cyfranogi. Dylai ysgolion ymdrechu i weithio gyda'r gwasanaeth partneriaeth â rhieni yn lleol.

2:11 Mae cyfrifoldeb ar rieni hefyd i gyfathrebu'n effeithiol â phobl broffesiynol i gefnogi addysg eu plant. Wrth gydweithio ag ysgolion, dylent:

- gyfathrebu'n rheolaidd ag ysgol eu plentyn a rhoi gwybod iddynt os oes ganddynt bryderon am addysg eu plentyn neu'r ddarpariaeth a gaiff
- cyflawni eu cyfrifoldebau o dan gytundebau cartref-ysgol sy'n nodi'r disgwyliadau ar gyfer y ddwy ochr.

Cefnogi rhieni yn ystod asesiad statudol

2:12 Gall y broses asesu statudol fod yn anodd ac yn gryn her i rieni. Dylai rhieni gymryd rhan lawn yn y drafodaeth sy'n arwain at benderfyniad ysgol i ofyn am asesiad statudol. Weithiau, gall y bwriad i ofyn am asesiad statudol fod yn annisgwyl a chreu braw neu bryder yn y teulu. Pa un bynnag ai'r ysgol neu'r rhieni sy'n gwneud y cais am asesiad statudol, pan gyhoeddir datganiad arfaethedig bydd angen gwybodaeth gynhwysfawr ar y rhieni am ystod lawn y ddarpariaeth leol. Efallai y bydd angen gwybodaeth a chefnogaeth ychwanegol arnynt hefyd i ymweld ag ysgolion er mwyn gallu gwneud dewis gwybodus.

Awdurdodau Addysg Lleol yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni

2:13 Mae angen i AALLau sicrhau:

- eu bod yn hawdd ymwneud â nhw, yn groesawgar ac yn gwerthfawrogi barn a chyfraniad rhieni
- bod gwybodaeth ar gael mewn nifer o ieithoedd priodol ac mewn amryw o gyfryngau, fel y gall pob rhiant nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a'r rheini sydd ag anabledd neu anawsterau dysgu fanteisio ar y wybodaeth.

2:14 Dylai AALLau weithio mewn partneriaeth â mudiadau rhieni a mudiadau gwirfoddol lleol, yn ogystal â'r gwasanaeth partneriaeth â rhieni, i gynhyrchu deunyddiau o'r fath ac i sicrhau bod rhieni yn cael cyngor cynhwysfawr, di-duedd, ffeithiol a phriodol.

Gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol

2:15 Mae gan y sector gwirfoddol gyfraniad unigryw a phwysig i'w wneud o ran cefnogi rhieni a darparu gwahanol wasanaethau i rieni. Dylai ysgolion, AALLau a gwasanaethau partneriaeth â rhieni sicrhau bod gan deuluoedd wybodaeth am holl wasanaethau cefnogi y sector gwirfoddol yn eu hardal. Er mwyn i fudiadau

gwirfoddol chwarae rhan effeithiol, dylai AALLau ac ysgolion gynnwys y sector gwirfoddol yn rheolaidd mewn ymgynghoriadau, diwrnodau hyfforddi a chynlluniau cyfnewid gwybodaeth. Gall grwpiau gwirfoddol gael eu cynrychioli ar Bartneriaethau Datblygiad y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a gallant gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau ymgynghorol ar grwpiau llywio neu grwpiau ymgynghorol mewn perthynas â'r gwasanaeth partneriaeth â rhieni.

Gwasanaethau partneriaeth â rhieni

Mae'n rhaid i awdurdod addysg lleol drefnu i riant unrhyw blentyn yn eu hardal sydd ag anghenion addysgol arbennig gael cyngor a gwybodaeth am faterion yn ymwneud â'r anghenion hynny.

Mae'n rhaid i AALLau gymryd pa gamau bynnag y barnant eu bod yn briodol i roi gwybod i rieni, penaethiaid ysgolion, ysgolion ac eraill y credant eu bod yn briodol am y gwasanaethau partneriaeth â rhieni.

Gweler Adran 332A, Deddf Addysg 1996

2:16 Mae'n **rhaid** i bob AALL wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau partneriaeth â rhieni. Mae'n hanfodol bod rhieni'n gwybod am y gwasanaeth partneriaeth â rhieni er mwyn iddynt wybod lle i gael y wybodaeth a'r cyngor y mae arnynt eu hangen. Felly, mae'n rhaid i AALLau roi gwybod i rieni, ysgolion ac eraill am y trefniadau ar gyfer y gwasanaeth a sut i'w ddefnyddio. Yn ogystal, mae'n rhaid i AALLau atgoffa rhieni am y gwasanaeth partneriaeth â rhieni a'r ffaith bod gwasanaethau datrys anghytundeb ar gael pan gyhoeddir datganiad arfaethedig neu hysbysiad diwygio datganiad (gweler Pennod Wyth).

2:17 Nid yw'n rhaid i AALLau eu hunain ddarparu'r gwasanaeth partneriaeth â rhieni. Gall yr AALL ei hunan ddarparu'r gwasanaeth partneriaeth â rhieni os dymuna, neu gall 'brynu' y gwasanaeth oddi wrth ddarparwr arall, neu gall ddewis cyfuniad o'r ddau beth. Wrth sefydlu gwasanaethau partneriaeth â rhieni, anogir AALLau i gydweithio â grwpiau a mudiadau gwirfoddol i gyflwyno'r gwasanaethau sy'n diwallu anghenion rhieni orau. Os darperir y gwasanaeth gan yr AALL, cynghorir yr awdurdod i'w redeg o hyd braich er mwyn sicrhau ei fod yn ennill hyder y rhieni. Sut bynnag y darperir y gwasanaeth, dylai'r AALLau gyrraedd y **safonau isaf** a nodir isod.

2:18 Er mwyn i wasanaethau partneriaeth â rhieni fod yn effeithiol, mae disgwyl i AALLau:

- gymryd cyfrifoldeb am bennu a monitro safon gyffredinol y gwasanaeth a sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag egwyddorion Gwerth Gorau
- nodi eu cynlluniau cyllido a chyllidebu ar gyfer y gwasanaeth (os yw'n briodol, dylid dirprwyo'r gyllideb i'r gwasanaeth partneriaeth â rhieni)
- sicrhau digon o adnoddau a staff i ddiwallu anghenion y rhieni yn eu hardal
- sicrhau trefniadau rheoli addas ar gyfer y gwasanaeth
- sicrhau bod gan y gwasanaeth gynllun datblygu sy'n nodi targedau clir ac a adolygir yn rheolaidd; dylai'r cynlluniau hynny nodi strategaethau ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir a threfniadau ar gyfer gwerthuso a sicrwydd ansawdd

- sicrhau bod y gwasanaeth yn hyblyg ac yn ymateb i newidiadau lleol
- sicrhau bod rhieni ac ysgolion yn cael gwybodaeth glir am y gwasanaeth partneriaeth â rhieni ac am ffynonellau cymorth eraill yn eu hardal, yn cynnwys asiantaethau statudol a gwirfoddol
- sicrhau bod y gwasanaeth yn cael gwybodaeth gywir am yr holl brosesau AAA a nodir yn Neddf Addysg 1996, y Rheoliadau perthnasol, Deddf AAA ac Anabledd 2001, y Cod Ymarfer AAA a gwybodaeth berthnasol am y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
- sicrhau, os darperir y gwasanaeth yn fewnol, bod y staff yn cael hyfforddiant a datblygiad cychwynnol a pharhaus i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol
- os caiff y gwasanaeth i gyd neu ran ohono ei brynu i mewn, sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth sy'n sicrhau y ceir digon o adnoddau a hyfforddiant, a nodi'n glir y safonau ansawdd a ddisgwyllir oddi wrth y darparwr a'r cyfrifoldebau a ddirprwyir iddo
- os yw'r gwasanaeth yn cael ei brynu i mewn neu ei ddarparu'n fewnol, sicrhau trefniadau addas ar gyfer goruchwyllo'r gwasanaeth a'i fonitro'n rheolaidd, gan dalu sylw i'r arferion gorau yn lleol ac yn genedlaethol
- datblygu trefniadau i gydweithio â'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd yn cael eu cyfnewid
- hyrwyddo a hwyluso trefniadau i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill fel y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, gan ddefnyddio trefniadau cynllunio lleol fel y Cynllun Strategol Addysg, Cynllun Datblygiad y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r Cynllun Gwasanaethau Plant. Mae darpariaethau o dan Ddeddf Iechyd 1999 yn caniatáu i AALLau a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol rannu cyllid ac amser rheolwyr; gallai trefniadau felly gynnwys darparu gwasanaethau gwybodaeth ar y cyd
- gofyn am ymateb y gwasanaeth a defnyddwyr y gwasanaeth a defnyddio'r ymatebion wrth wneud penderfyniadau ar bolisiau, trefniadau ac arferion AAA er mwyn cyfathrebu'n well a sicrhau cyn lleied o gamddealltwriaeth ac anghytuno ag y bo modd.

2:19 Nod gwasanaethau partneriaeth â rhieni yw sicrhau bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynglŷn ag anghenion addysgol arbennig eu plant ar gael i rieni plant sydd ag anghenion ychwanegol – yn cynnwys plant ifanc iawn – fel y gallant wneud penderfyniadau addas, gwybodus. Dylai'r gwasanaeth roi cyngor i rieni pob plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig, nid rhai sy'n destun datganiad yn unig. Prif swyddogaeth gwasanaethau partneriaeth â rhieni yw helpu rhieni y canfuwyd bod gan eu plant anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, bydd rhieni'n credu bod gan eu plentyn anghenion addysgol arbennig ond ni fydd yr ysgol o'r un farn. Dylai gwasanaethau partneriaeth â rhieni fod yn hyblyg a dylent ymdrin ag achosion felly mewn ffordd sensitif a chyda chydymdeimlad. Dylent ystyried pryderon rhieni yn ofalus gan geisio helpu a chefnogi rhieni sy'n dymuno cael gwybodaeth a pheidio â diystyru ceisiadau am gymorth neu wybodaeth.

2:20 Disgwylir i wasanaethau partneriaeth â rhieni ddarparu nifer o wasanaethau hyblyg, yn cynnwys rhoi cyfle i rieni weld Cefnogwr Annibynnol Rhieni os ydynt yn dymuno hynny, a'u cyfeirio at asiantaethau eraill, mudiadau gwirfoddol neu grwpiau cefnogi rhieni, a all roi cyngor a chefnogaeth. Fodd bynnag, ni ddylid cyfeirio'r rhieni fel hyn heb i'r rhiant a'r sefydliad neu'r grŵp gytuno ymlaen llaw ar natur a lefel y gwasanaeth a gynigir.

2:21 Er mwyn bod yn effeithiol, disgwylir i wasanaeth partneriaeth â rhieni gyrraedd y **safonau isaf** canlynol a sicrhau:

- bod nifer o wasanaethau hyblyg yn cael eu darparu a'u bod yn gwneud eu gorau i sicrhau bod pob rhiant sy'n dymuno hynny yn cael gweld Cefnogwr Annibynnol Rhieni
- bod rhieni'n cael cynnig cefnogaeth ymarferol, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau, i'w helpu yn eu trafodaethau gyda'r ysgolion, AALLau ac asiantaethau statudol eraill
- bod rhieni (yn cynnwys pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn) yn cael gwybodaeth gywir, ddi-duedd am eu hawliau, eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn y broses AAA, ac am yr holl ddewisiadau sydd ar gael mewn perthynas ag addysg eu plant
- bod rhieni'n cael gwybod am asiantaethau eraill, fel Gwasanaethau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol, a all gynnig gwybodaeth a chynghor am AAA neilltuol eu plentyn. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig pan fydd yr AALL yn cyhoeddi datganiad arfaethedig.
- lle bo'n briodol ac mewn cydweithrediad â'r rhieni, bod barn a dymuniadau'r plentyn, i'r graddau y maent yn hysbys, yn cael eu ceisio a'u hystyried
- bod gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn cael cyhoeddusrwydd eang yn yr ardal trwy ddulliau amrywiol
- bod rhieni'n cael gwybodaeth ddi-duedd, gywir am yr holl drefniadau AAA fel y'u nodir mewn deddfwriaeth AAA a'r Cod Ymarfer AAA
- bod gwybodaeth a gyhoeddir gan ysgolion, AALLau a chyrff eraill sy'n ymwneud ag AAA yn cael ei dehongli
- bod amrediad eang o wybodaeth i rieni ar gael yn ieithoedd y gymuned ac ar gael i rieni na allant fanteisio ar y wybodaeth trwy ddulliau arferol
- bod cyngor am drefniadau anghenion addysgol arbennig ar gael i rieni trwy wybodaeth, cefnogaeth a hyfforddiant
- eu bod yn gwneud eu gorau i gael digon o Gefnogwyr Annibynnol Rhieni i gwrdd ag anghenion rhieni yn eu hardal, yn cynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddiant addas, gan sicrhau eu bod yn cael gwybod am yr agweddau perthnasol diweddaraf am bolisiau a threfniadau AAA fel y gallant wneud eu gwaith yn effeithiol

- bod hyfforddiant ar gyfathrebu da a chysylltiadau da â rhieni ar gael i athrawon, llywodraethwyr a staff yn adrannau AAA yr AALL
- eu bod yn cydweithio ag ysgolion, swyddogion yr AALL ac asiantaethau eraill i'w helpu i ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol â rhieni
- eu bod yn meithrin ac yn cynnal cysylltiadau â mudiadau gwirfoddol
- bod sylwadau rhieni'n cael eu clywed a'u deall, a'u bod yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu polisïau ac arferion AAA yn lleol
- bod effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarparant yn cael ei adolygu'n rheolaidd, er enghraifft trwy holi am ymateb defnyddwyr.

Atal a datrys anghytunedau

Mae'n rhaid i bob awdurdod addysg lleol wneud trefniadau, yn cynnwys penodi pobl annibynnol, i geisio osgoi neu ddatrys anghytundeb rhwng awdurdodau (ar y naill law) a rhieni plant yn eu hardal (ar y llaw arall) ynglŷn â'r ffordd y mae AALLau ac ysgolion a gynhelir yn cyflawni eu cyfrifoldebau tuag at blant sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Yn ogystal, mae'n rhaid i awdurdodau addysg lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghytunedau rhwng rhieni a rhai ysgolion ynglŷn â'r ddarpariaeth addysgol arbennig a wneir ar gyfer eu plentyn.

Mae'n rhaid i AALLau gymryd pa gamau bynnag y barnant eu bod yn briodol i roi gwybod i rieni, penaethiaid ysgolion, ysgolion ac eraill y credant eu bod yn briodol am y gwasanaethau datrys anghytundeb.

Gweler Adran 332B, Deddf Addysg 1996

2:22 Gall gwasanaethau partneriaeth â rhieni helpu i atal anawsterau rhag troi'n anghytunedau. Gall AALLau edrych ar eu gwasanaeth partneriaeth â rhieni fel y brif ffordd o atal anghytunedau rhag codi. Mater gwirfoddol yw defnyddio'r gwasanaeth hwn.

2:23 Gall rhieni ddefnyddio'r trefniadau lleol i ddatrys anghytundeb unrhyw bryd yn ystod y broses AAA, yn cynnwys pan geir anghytundeb gyda'r ysgol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar ddarpariaeth addysgol arbennig eu plentyn.

2:24 Mae'n **rhaid** i bob AALL ddarparu gwasanaethau datrys anghytundeb. Dylent ddangos annibyniaeth a hygredd wrth weithio tuag at atebion buan ac anffurfiol i ddatrys anghytundeb. Mae'n hanfodol bod rhieni yn gwybod am y trefniadau a sut a phryd y gallant fanteisio arnynt. Felly, mae'n rhaid i AALLau roi gwybod i rieni, ysgolion ac eraill am y trefniadau ar gyfer y gwasanaeth a sut y gallant fanteisio arno. Mae rhieni sydd â hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA yn cael defnyddio'r hawl honno unrhyw bryd. Mae'n **rhaid** i AALLau hysbysu rhieni ar bapur na fydd yn amharu ar eu hawl gyfreithiol i apelio os byddant yn manteisio ar y trefniadau datrys anghytundeb. Gall y broses datrys anghytundeb gydredeg â'r broses apelio.

2:25 Er mwyn i wasanaethau datrys anghytundeb fod yn effeithiol a chwrdd â'r **safonau isaf** canlynol:

- dylai AALLau gymryd cyfrifoldeb am safon gyffredinol y gwasanaeth a sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag egwyddorion Gwerth Gorau
- dylai fod gan AALLau gynlluniau ariannu a chyllidebu clir ar gyfer y gwasanaeth
- dylai AALLau sicrhau bod y gwasanaeth yn ddi-duedd ac mae'n rhaid iddo gynnwys elfen annibynnol
- dylai AALLau sicrhau bod gan y gwasanaeth, boed yn cael ei brynu i mewn neu ei ddarparu'n fewnol, gynllun datblygu sy'n nodi targedau clir ac a adolygir yn rheolaidd. Dylai'r cynlluniau hynny nodi trefniadau gwerthuso a sicrwydd ansawdd
- mae'n **rhaid** i AALLau sicrhau bod rhieni, ysgolion ac eraill y credant eu bod yn berthnasol yn cael gwybod am y trefniadau datrys anghytundeb a sut y byddant yn gweithio
- mae'n **rhaid** i AALLau roi gwybod i rieni am y trefniadau ar gyfer datrys anghytundeb pan gyhoeddir datganiad arfaethedig neu ddatganiad diwygiedig, a rhaid rhoi gwybod iddynt nad yw'r ffaith eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth datrys anghytundeb yn effeithio ar eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA
- dylai AALLau sicrhau bod sgiliau, gwybodaeth a arbenigedd priodol mewn datrys anghytundeb gan y bobl annibynnol a benodir yn hwyluswyr; bod ganddynt ddealltwriaeth o brosesau, trefniadau a deddfwriaeth AAA; nad oes ganddynt ran yn y penderfyniadau a wneir am achos arbennig, ac na fydd telerau'r setliad o fudd iddynt; eu bod yn ddiduedd; eu bod yn cadw cyfrinachedd; a'u bod yn gweithredu'r broses yn gyflym ac yn unol â'r amserlen a benderfynir gan y naill ochr â'r llall
- dylai AALLau sefydlu trefniadau a mecanweithiau ar gyfer cyfeirio rhieni at y gwasanaeth datrys anghytundeb
- dylai AALLau sicrhau bod y sawl sy'n darparu'r gwasanaeth yn cael hyfforddiant a datblygiad cychwynnol a pharhaus priodol i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol
- dylai AALLau sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth sy'n sicrhau y ceir digon o adnoddau a hyfforddiant, ac yn nodi'r safonau a ddisgwylir oddi wrth y darparwr â'r cyfrifoldebau a ddirprwyir iddo
- dylai fod gan yr AALLau drefniadau addas ar gyfer goruchwyllo'r gwasanaeth a'i fonitro a'i adolygu'n rheolaidd, gan gymryd yr arferion gorau yn lleol ac yn genedlaethol i ystyriaeth boed y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n fewnol neu ei brynu i mewn
- dylai AALLau ofyn am ymateb y gwasanaeth a defnyddio'r ymateb hwnnw wrth wneud penderfyniadau ar bolisiau, trefniadau ac arferion AAA
- dylai AALLau fonitro a gwerthuso perfformiad y gwasanaeth.

2:26 Nod trefniadau datrys anghytundeb anffurfiol yw atal problemau hirdymor rhag datblygu gan sicrhau, ymhen amser, bod llai o apeliadau'n mynd i'r Tribiwnlys AAA. Ceir yr hyder mwyaf mewn trefniadau datrys anghytundeb pan fydd pawb sy'n cymryd rhan ynddynt o'r farn bod y gwasanaeth a gynigir yn wirioneddol annibynnol. Yn fwyaf pwysig, dylai trefniadau datrys anghytundeb sicrhau bod atebion addysgol ymarferol – sy'n dderbyniol i bob ochr – yn cael eu sefydlu cyn gynted â phosibl ac y terfir cyn lleied â phosibl ar addysg y plant.

2:27 Disgwylir y bydd hwylusydd yn dod â'r holl bartïon ynghyd mewn amgylchedd nad yw'n fygythiol, i geisio datrys yr anghytundeb trwy drafod a negodi. Nid yw'r hwylusydd yno i roi penderfyniad. Yn hytrach, mae angen i bob parti gael trafodaeth agored ar y materion â'r holl opsiynau sydd ar gael a cheisio cytuno sut mae datrys yr anghytundeb. Gellir troi at y broses datrys anghytundeb ar unrhyw adeg, ond fe'i defnyddir yn fwyaf cyffredin pan fydd rhieni'n anfodlon â'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig ar gyfer eu plant. Ni ragwelir y bydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol ar y gwahanol bartïon yn ystod y cam hwn; yn wir, byddai hynny'n ymddangos yn groes i ysbryd datrys anghytundeb anffurfiol. Mae angen i bawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys y plentyn, deimlo'n hyderus y bydd eu barn a'u pryderon yn cael eu trin â'r un parch. Nid beio yw diben y gwasanaeth datrys anghytundeb ond canfod ateb i wahaniaeth barn er lles pennaf y plentyn.

2:28 Mae'n hanfodol fod gan bobl annibynnol a benodir i hwyluso'r broses o ddatrys anghytundeb brofiad, gwybodaeth a chymwysterau eang, er enghraifft:

- hyfforddiant a phrofiad mewn datrys anghytundeb
- sgiliau cwnsela a negodi
- y gallu i gychwyn a chynnal cysylltiad
- gwybodaeth o ddeddfwriaeth a'r fframwaith AAA, y Cod Ymarfer AAA a materion addysgol eraill.

2:29 Mae nifer o fodelau y gallai AALLau eu mabwysiadu i gynnwys elfen annibynnol yn eu trefniadau datrys anghytundeb, er enghraifft:

- defnyddio panel o hwyluswyr hyfforddedig, sy'n perthyn i gorff cydnabyddedig ym maes datrys anghytundeb. Yna, gallai'r AALLau brynu'r gwasanaethau yn ôl yr angen
- ehangu gwasanaethau datrys anghytundeb sy'n bodoli eisoes ar draws nifer o feysydd yng ngwaith yr awdurdod i gynnwys arbenigedd AAA
- defnyddio panelau rhanbarthol a ariannir gan nifer o AALLau cyfagos

2:30 Mae llawer o sefydliadau'n arbenigo mewn datrys anghytundeb a gallant gynnig gwasanaeth gwerthfawr yn darparu hwyluswyr annibynnol hyfforddedig a phrofiadol. Felly dylai AALLau ystyried cydweithio â sefydliadau eraill i wneud eu trefniadau ar gyfer gwasanaethau datrys anghytundeb.

Rolau a chyfrifoldebau

2:31 Mae'r tabl isod yn nodi gwahanol rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, ysgolion a'r sector gwirfoddol. Mae'r testun mewn print trwm yn dynodi dyletswyddau statudol. Ceir canllawiau ychwanegol am bartneriaethau â rhieni a threfniadau datrys anghytundeb yn Llawlyfr Cynulliad Cenedlaethol Cymru o

Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA. Ceir canllawiau manwl am rolau a swyddogaethau sy'n ymwneud â rhieni ac amgylchiadau penodol yn y penodau sy'n dilyn yn y Cod hwn.

Rolau a Chyfrifoldebau Awdurdodau Addysg Lleol:

Mae gan bob AALL ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau partneriaeth â rhieni, ond nid yw'n rhaid iddynt hwy eu hunain gyflwyno'r gwasanaethau hyn.

- Dylai rhieni ac ysgolion gael gwybodaeth glir am wasanaethau a darparwyr (gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, gyfraniad grwpiau gwirfoddol).
- Efallai y bydd AALLau am ddatblygu trefniadau ymgynghori gyda mudiadau gwirfoddol a grwpiau cefnogi rhieni i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisiau a'r trefniadau lleol ar gyfer plant ag AAA. Dylent fod yn ymwybodol bod grwpiau gwirfoddol yn gallu gwneud cyfraniad positif tuag at ddatblygu ac adolygu polisiau ac arferion AAA.
- Mae gan AALLau gyfrifoldeb am ddarparu amrediad eang o ddeunydd gwybodaeth ar gyfer rhieni.
- Dylai AALLau hysbysu pob rhiant bod gofyn i bob ysgol a gynhelir gyhoeddi eu polisi AAA.

Rolau a Chyfrifoldebau'r Sector Gwirfoddol:

- Gallai grwpiau gwirfoddol annog ysgolion ac awdurdodau lleol i ddatblygu partneriaethau gyda nhw, trwy esbonio pa wasanaethau y gallant eu cynnig i rieni a gofawyr.
- Gall grwpiau gwirfoddol hwyluso'r gwaith o roi gwybodaeth ac egluro trefniadau i rieni a mynd dros yr opsiynau sydd ar gael iddynt gyda nhw.
- Gallai grwpiau gwirfoddol gymryd rôl ragweithiol mewn partneriaethau â rhieni. Gallent ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth, gan geisio cael cynrychiolaeth ar grwpiau cynghori ac mewn gweithgareddau ymgynghori eraill. Gallent rannu eu profiadau o'r arferion gorau ac annog ysgolion ac AALLau i'w mabwysiadu.

Rhaid i bob AALL ddarparu trefniadau datrys anghytundeb, sy'n gallu dangos annibyniaeth a hygredd wrth weithio tuag at ddatrys anghydfod yn fuan ac yn anffurfiol. Os caiff anghydfod ei ddatrys yn fuan, gall hynny atal problemau hirdymor.

- Rhaid i drefniadau datrys anghytundeb gynnwys penodi pobl sy'n annibynnol ar yr AALL, rhieni a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn.
- Darparu gwasanaethau hyblyg i rieni, yn cynnwys cyfle i gysylltu ag asiantaethau a sefydliadau eraill ac, ar gyfer pob rhiant sy'n dymuno hynny, gyfle i gysylltu â Chefnogwr Annibynnol Rhieni.

Rolau a Chyfrifoldebau'r Gwasanaeth Partneriaeth â Rhieni:

- Darparu gwybodaeth gywir, ddiduedd am hawliau, rolau a chyfrifoldebau rhieni yn y broses AAA, ac ar yr holl opsiynau sydd ar gael fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus.
- Hyfforddiant i rieni, Cefnogwyr Annibynnol Rhieni a staff ysgolion.
- Cydweithio ag ysgolion, swyddogion yr AALL ac asiantaethau eraill i'w helpu i ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol gyda rhieni.
- Meithrin a chynnal cysylltiadau â mudiadau gwirfoddol.
- Sicrhau bod barn y rhieni yn cyfrannu at ddatblygiad polisiau ac arferion AAA yn lleol ac yn dylanwadu ar y gwaith.

Rolau a Chyfrifoldebau Ysgolion:

- Mae gan athrawon, Cydlynwyr AAA, staff bugeiliol a staff eraill ran bwysig i'w chwarae yn datblygu perthnasau positif ac adeiladol gyda rhieni.
- Dylai ysgolion dderbyn a gwerthfawrogi cyfraniad rhieni a'u hannog i gymryd rhan. Dylid gwneud pob ymdrech i ganfod sut y mae rhieni'n dymuno gweithio gyda'r ysgol, gan gydnabod y bydd ar rai teuluoedd angen help ymarferol a chefnogaeth emosïynol os ydynt i chwarae rôl allweddol yn addysg eu plant.
- Dylai ysgolion geisio datblygu partneriaethau gyda grwpiau cefnogi rheini lleol neu fudiadau gwirfoddol.

Rhaid i bob ysgol a gynhelir gyhoeddi ei pholisi AAA.

- Dylai fod gan ysgolion strategaeth glir a hyblyg ar gyfer gweithio gyda rhieni a'u hannog i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant.
- Wrth gyhoeddi polisi AAA yr ysgol, dylai'r ysgol geisio sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno mewn ffurfiau sy'n hawdd i rieni eu deall.

3 Cyfranogiad Disgyblion

Cyflwyniad

Mae gan blant sydd â'r gallu i ffurfio barn yr hawl i gael ac i gyfleu gwybodaeth, i fynegi barn, ac i'r farn honno gael ei chymryd i ystyriaeth mewn unrhyw fater sy'n effeithio arnynt. Dylid rhoi'r ystyriaeth briodol i farn y plentyn yn ôl ei (h)oed, ei (h)aeddfedrwydd a'i (g)allu.

Gweler Erthyglau 12 a 13, Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

3:1 Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau. Mae'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at hawliau yn sôn am yr hyn sy'n ddyledus i blant gan eraill, yn enwedig eu rhieni a'r wladwriaeth a'i hasiantaethau. Mae'r bennod hon yn sôn am hawl plant sydd ag anghenion addysgol arbennig i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu a dewis.

3:2 Mae gan blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig wybodaeth unigryw am eu hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain ac mae ganddynt farn am y math o gymorth yr hoffent ei chael i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar eu haddysg. Os oes modd, dylent gymryd rhan yn yr holl brosesau penderfynu sy'n digwydd ym maes addysg yn cynnwys pennu targedau dysgu a chyfrannu at Gynlluniau Addysg Unigol (CAUau) a thrafodaethau am ddewis ysgolion; dylent gyfrannu at yr asesiad o'u hanghenion, yr adolygiad blynyddol a'r prosesau pontio neu drawsnewid. Dylent deimlo'n hyderus y gwrandawir arnynt ac y gwerthfawrogi eu barn. Fodd bynnag, ceir gwahaniaeth main iawn rhwng rhoi llais i blant a'u hannog i wneud penderfyniadau gwybodus, a'u gorlethu â phrosesau gwneud penderfyniadau pan nad oes ganddynt ddigon o brofiad na gwybodaeth i ffurfio barn briodol heb gefnogaeth ychwanegol.¹⁵

3:3 Nid yw bob amser yn hawdd canfod barn plant. Gall fod yn anodd i weithwyr addysg a iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill ganfod barn plant ifanc iawn a rhai sydd ag anawsterau cyfathrebu difrifol, er enghraifft. Ond mae'r egwyddor o geisio barn plant a phobl ifanc, hyd y gellir ei chanfod, yn un bwysig. Gall eu syniadau a'u profiadau fod yn werthfawr iawn i bobl broffesiynol wrth wneud penderfyniadau. Dylai AALLau, ysgolion a sefydliadau addysg gynnar wneud trefniadau fel y gall hyn ddigwydd.

Disgyblion a rhieni

3:4 Mae llawer o ysgolion eisoes wedi datblygu polisiau a threfniadau sy'n annog cyfranogiad gan ddisgyblion. Gall hyn fod yn haws lle ceir trefniadau cryf a chllir i gynnwys plant a'u teuluoedd ar bob lefel ym mywyd yr ysgol. Mae Cytundebau Cartref/Ysgol yn gyfle pwysig i sicrhau bod disgyblion yn ogystal â rhieni yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'u hysgolion.

3:5 Efallai y bydd angen cefnogaeth ar rai rhieni i weld eu plant fel partneriaid mewn addysg. Efallai y byddant yn gyndyn o gynnwys eu plentyn yn y broses o wneud penderfyniadau am ei addysg am eu bod, efallai, o'r farn nad yw'n gymwys i amgylfred yr holl ffactorau perthnasol. Os bu profiad y rhieni o weithio gyda gweithwyr proffesiynol yn siomedig, neu os ydynt yn credu bod eu barn yn cael ei

¹⁵ O The Children Act 1989 Guidance and Regulations, Vol 6. Children with Disabilities (1991), Gwasg Ei Mawrhydi

diystyru, efallai y byddant yn amau y gallai'r gweithwyr proffesiynol roi gormod o bwys ar farn eu plant. Dylai AALLau, ysgolion a sefydliadau ddangos sensitifrwydd, gonestrwydd a pharch er mwyn annog disgyblion i rannu pryderon, i drafod strategaethau ac i'w hystyried eu hunain yn bartneriaid cydradd â'r ysgol. Mewn achosion lle bo gan rieni a disgyblion farn wahanol am darddiad anghenion addysgol arbennig a'r ddarpariaeth ar eu cyfer, bydd yr egwyddorion hyn yn fwy hanfodol fyth er mwyn sicrhau trafodaethau adeiladol.

Cyfranogiad disgyblion mewn sefydliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a sefydliadau eraill

3:6 Os oes modd, dylai pob plentyn gymryd rhan yn y gwaith o wneud penderfyniadau o ddechrau eu haddysg. Dylai'r ffyrdd o annog plant i gymryd rhan newid fel y mae'r plentyn yn aeddfedu. Er mwyn iddynt gyfranogi mewn addysg, mae'n rhaid rhoi'r cyfle i blant wneud dewisiadau a deall bod eu barn yn cyfrif. Gellir annog plant ifanc iawn i ddewis ac i rannu eu dymuniadau a'u teimladau gyda'u teuluoedd a staff. Mae 'Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol' yn cydnabod pwysigrwydd gallu plant i ddatblygu medrau a hyder wrth fynd ymlaen ac i gael cyfleoedd i ddatblygu nifer o wahanol sgiliau cymdeithasol yn ogystal â rhai addysgol. Bydd plant ifanc hyderus, sy'n gwybod y caiff eu barn ei gwerthfawrogi ac sy'n cael ymarfer gwneud dewisiadau, yn ddisgyblion mwy sicr ac effeithiol yn ystod eu blynyddoedd ysgol.

3:7 Os bydd Cynllun Addysg Unigol (CAU) yn cael ei baratoi, dylai ymarferwyr sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan yn y gwaith ar lefel briodol. Er mwyn ymgynghori â phlant ifanc, bydd angen defnyddio nifer o strategaethau cyfathrebu, yn cynnwys chwarae, celfyddyd, sain a fideo yn ogystal â chyfathrebu llafar. Bydd canolfannau datblygiad plant, gwasanaethau therapi, canolfannau teulu y gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau gofal dydd a sefydliadau eraill anaddysgol eisoes yn adnabod llawer o blant ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. Bydd partneriaeth rhwng darparwyr yn bwysig er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cael ei annog i fynegi ei farn trwy'r oedolyn mwyaf priodol, ac i roi sylw i unrhyw anghenion cyfathrebu arbennig.

3:8 Dylai trefniadaeth yr ystafell ddosbarth yn y cyfnod cynradd gynnwys cyfleoedd i bob plentyn wneud dewisiadau a phenderfyniadau yn ystod rhan o leiaf o'r diwrnod ysgol. Dylai cyfleoedd o'r fath sicrhau bod plant yn cael digon o amser ac anogaeth i ddatgan eu barn a dysgu sut mae egluro'r rhesymau dros eu dewisiadau.

3:9 Dylid anelu at gael pob plentyn i gyfranogi a dylai'r cyfleoedd i gyfranogi ehangu wrth i'r disgyblion ddatblygu. O oedran cynnar, dylai plant ag AAA gael cymryd rhan weithredol ar lefel briodol mewn trafodaethau am eu Cynlluniau Addysg Unigol, yn cynnwys pennu targedau a threfniadau adolygu a dylid cofnodi eu barn. Dylid annog plant i rannu yn y broses gofnodi ac yn y gwaith o fonitro a gwerthuso eu perfformiad eu hunain.

3:10 Dylai plant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion arbennig gael cynnig yr un cyfleoedd i gymryd rhan a chyfranogi â'u cyfoedion mewn ysgolion prif ffrwd. Efallai y bydd angen cefnogaeth neu amser ychwanegol arnynt i ymarfer mynegi eu barn. Bydd angen i athrawon fod yn sensitif i'w barn a'u dymuniadau a sicrhau eu bod yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd i gyfranogi wrth iddynt aeddfedu.

3:11 Caiff anghenion addysgol arbennig llawer o blant eu canfod gyntaf yn ystod y cyfnod addysg gynradd. Dylai ysgolion fod yn sensitif i lefel ddealltwriaeth a theimladau'r plentyn, a darparu gwybodaeth briodol mewn ffordd nad yw'n stigmatiddio. Os yw plant yn cymryd rhan yn y broses CAU, gellir nodi a dathlu cyflawniadau yn ogystal ag egluro anawsterau a cheisio'u datrys. Mae cydnabod llwyddiant pob plentyn yn ganolog i fywyd pob ysgol gynradd a dylid cydnabod llwyddiant i gyflawni targedau mewn Cynlluniau Addysg Unigol hefyd.

3:12 Bydd rhai plant yn dod i gysylltiad â nifer o wahanol weithwyr proffesiynol megis athrawon cefnogi ac ymgynghorol, seicolegwyr addysg, therapyddion, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol. Dylai'r rhain wrando ar farn y plant a chofnodi'r farn honno mewn unrhyw adroddiadau neu adolygiadau.

3:13 Lle bo plant wedi mynychu ysgol gynradd a oedd yn annog cyfranogiad gan ddisgyblion ac yn ceisio'u barn ar wahanol faterion, gellir adeiladu ar y profiadau positif hyn yn y sector uwchradd. Dylai rhaglenni bugeiliol sicrhau bod pob disgybl yn cael llais ac yn gallu cyfrannu tuag at ei addysg ei hun a bywyd ehangach yr ysgol. Mae gan lawer o ysgolion uwchradd gynghorau ysgol neu beirianwaith arall ar gyfer cynnwys a chynrychioli'r holl ddisgyblion yn nhrefniadaeth a rheolaeth yr ysgol. Dylai pob ysgol sicrhau bod disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a bod cymaint o bwys yn cael ei roi ar eu barn nhw ag eraill. Efallai y bydd angen cefnogaeth ac anogaeth ychwanegol ar rai pobl ifanc, gan naill ai gyd-ddisgybl neu oedolyn, er mwyn cyfranogi'n llawn.

3:14 Dylai disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig ddod i gyfrannu fwyfwy tuag at bennu a gwerthuso targedau yn y broses CAU. Efallai y bydd gan bobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig hunan-barch isel a diffyg hyder. Trwy annog y disgyblion hyn i ddilyn hynt eu cynnydd eu hunain a chofnodi eu cyflawniadau o fewn rhaglen weithredu a gynlluniwyd i ateb eu hanhawster dysgu neu ymddygiad penodol nhw gellir eu helpu i feithrin mwy o hyder a gwell hunan-ddelwedd.

3:15 Dylid ceisio barn y disgyblion a'i chofnodi fel rhan o'r broses adolygu flynyddol statudol os oes modd, yn ogystal ag o fewn y CAU ac unrhyw asesiad neu adolygiad arall. Efallai y bydd rhai pobl ifanc am gael cefnogaeth bersonol a hwyrach y bydd yn well ganddynt fynegi eu barn trwy riant neu aelod arall o'r teulu neu gefnogwr annibynnol megis eiriolwr, cwnselydd, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr iechyd proffesiynol neu drwy gefnogaeth cyd-ddisgyblion. Dylid cymryd y dymuniadau hyn o ddifrif. Bydd yr ymdriniaeth hyblyg hon yn effeithiol cyhyd â bo'r ysgol yn sicrhau bod y gefnogaeth yn cael ei chydlynu'n iawn.

3:16 Gellir ceisio barn plant ar adegau eraill yn ogystal ag yn ystod sesiynau ymgynghori, a sesiynau ffurfiol gwneud penderfyniadau a dewisiadau. Gall oedolion annog hunan-eiriolaeth trwy ymateb i negeseuon y plentyn. Er enghraifft, os nad yw'r pynciau a ddewiswyd gan blentyn ym Mlwyddyn 9 yn adlewyrchu ei ddiddordebau a'i fedrau, dylai'r staff sylwi ac edrych i mewn i'r mater. Os yw disgyblion yn dioddef camwahaniaethu neu rwystrau penodol i ddysgu oherwydd eu hanghenion arbennig dylid eu hannog i drafod beth yr hoffent ei weld yn cael ei wneud am y peth. Erbyn Blwyddyn 9, pan baratoir y Cynllun Trawsnewid ar gyfer y bobl ifanc sy'n destun datganiad, dylai'r rhan fwyaf o bobl ifanc fod yn barod i chwarae rôl adeiladol ym mhroses adolygu'r cyfnod trawsnewid. Yn achos rhai disgyblion, efallai y gwneir hyn trwy oedolyn priodol sy'n cofnodi eu barn. Ond bydd llawer o ddisgyblion yn abl ac awyddus i fynychu'r

cyfarfod adolygu a mynegi eu barn a'u dymuniadau yn uniongyrchol, os cawsant wybodaeth berthnasol ac amser i baratoi ymlaen llaw. Er mwyn cynllunio ar gyfer y trawsnewid, mae'n bwysig bod y bobl ifanc yn cael cynnig gwybodaeth gywir am yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

3:17 Gall y berthynas rhwng rhieni a disgyblion fod yn sensitif adeg adolygiad Blwyddyn 9 pan fo cynllunio ar gyfer y trawsnewid yn rhan hanfodol o'r broses. Bydd llawer o rieni'n teimlo'n bryderus am yr opsiynau ôl-ysgol ac efallai y byddant yn poeni y caiff disgwyliadau eu plant ynglŷn â'r ddarpariaeth ôl-ysgol a dewisiadau gyrfaol eu codi'n ormodol. Efallai y bydd rhieni eraill yn poeni am lefel y gefnogaeth sydd ar gael yn y sector ôl-ysgol. Dylid gwrandao ar farn rhieni a disgyblion a'u cofnodi ar wahân, gan barchu unrhyw wahaniaethau barn. Mae adolygiad blynyddol Blwyddyn 9 yn rhoi cyfle i bawb perthnasol roi sylw i bryderon ac i nodi unrhyw gefnogaeth arbennig sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni amcanion y disgybl. Er mwyn cynllunio ar gyfer y pontio neu'r trawsnewid bydd yn rhaid annog pobl ifanc i gael disgwyliadau uchel, bydd yn rhaid cynnig gwybodaeth gywir ar yr opsiynau sy'n agored iddynt a'u gwahodd i ddweud pa opsiynau eraill yr hoffent iddynt gael eu hystyried. Bydd cynllunio positif gan ysgolion, AAllau, Gyrfa Cymru, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn mwyhau cyfraniad rhieni a disgyblion.

Cynnwys disgyblion wrth asesu a gwneud penderfyniadau

3:18 Gall plant a phobl ifanc deimlo'n bryderus neu'n ddryslyd ynglŷn â diben asesiad. Efallai eu bod yn poeni am agweddau ymarferol neilltuoel neu'r stigma posibl sydd ynghlwm wrth gefnogaeth neu raglen waith arbennig, neu'n bryderus am eu dyfodol tymor hwy. Felly, mae angen i ysgolion a gweithwyr proffesiynol:

- roi gwybodaeth glir a chywir am anghenion addysgol arbennig y plentyn a diben unrhyw asesiad, cynllun addysg unigol neu unrhyw ymyriad
- helpu'r disgybl i ddeall y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer ymyriad a sut y gall fod yn bartner wrth weithio tuag at y targedau. Bydd gan ddisgyblion sy'n chwarae rhan weithredol yn yr asesu ac mewn datblygu a monitro'r targedau y cytunir arnynt fwy o hunan-barch a byddant yn teimlo'n hyderus eu bod yn gwneud cynnydd
- egluro'n glir pa drefniadau cefnogi neu asesu ychwanegol sy'n cael eu gwneud a sut y gall y disgybl gyfrannu atynt
- ymgynghori â disgyblion y mae arnynt angen cefnogaeth unigol (boed hynny trwy gyfarpar neu gynorthwyydd cefnogi dysgu) i sicrhau bod cefnogaeth o'r fath yn cael ei darparu mewn modd amserol a sensitif a'i bod yn eu galluogi i gyfranogi'n llawn yn y dysgu
- cydnabod straen posibl y trefniadau asesu ac adolygu a gwneud eu gorau i sicrhau bod y disgybl yn deall rôl a chyfraniad unrhyw weithwyr proffesiynol eraill o'r gwasanaeth seicoleg addysg, y gwasanaethau iechyd plant neu'r gwasanaethau cymdeithasol a Gyrfa Cymru, a allai fod â rhan yn y broses
- manteisio ar brofiad unrhyw wasanaethau cefnogi disgyblion neu wasanaethau eiriolaeth yn yr ardal a allai gynnig cyngor a chymorth ychwanegol

- sicrhau bod y disgybl yn gallu cysylltu ag aelod dynodedig o'r staff y gall drafod unrhyw anawsterau neu bryderon gydag ef/hi yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl ei ddewis. Mae'n bwysig ei fod yn gallu teimlo'n hyderus i rannu unrhyw bryderon yn gynnar yn y drefn
- bod yn ymwybodol y gallai llawer o ddisgyblion fod mewn cysylltiad yn barod â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd plant, iechyd meddwl, y gwasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau eraill.

3:19 Gall rhieni helpu staff â'r targedau hyn. Mewn rhai achosion, efallai fod disgybl yn 'derbyn gofal' yr awdurdod lleol ac nad oes ganddo rieni naturiol i roi cefnogaeth iddo.¹⁶ Bydd yn hanfodol cael cyfathrebu da gyda'r awdurdod lleol dan sylw er mwyn sicrhau bod y disgybl yn cael cefnogaeth bositif a bod gofalywyr yn abl a pharod i gyfrannu at unrhyw asesiad neu raglen addysgol. Bydd angen i'r disgybl wybod a deall pryd mae'r gweithiwr cymdeithasol neu'r gofalywr yn gweithredu fel rhiant corfforaethol a phryd maent yn gweithredu fel eiriolwr ar ran y plentyn.

3:20 Dylai ysgolion ac awdurdodau iechyd fod yn ymwybodol o'r amrediad ehangach o wasanaethau cyfranogi ac eiriol sy'n cael eu datblygu ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd mewn partneriaeth ag adrannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Rôl yr AALL o ran cyfranogiad disgyblion

3:21 Mae gan yr AALL rôl holl bwysig yn annog a chefnogi cyfranogiad disgyblion ar draws pob cyfnod addysg. Mae rhai AALLau eisoes yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ynglŷn â sut y gellid gwella'r system gyfan o asesu, cynllunio ac adolygu i'w gwneud yn haws iddynt a sut y byddent yn dymuno i'r awdurdodau ymgynghori â nhw. Efallai y bydd AALLau am drafod ymgynghori â phlant a phobl ifanc gyda'r adrannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol perthnasol a mudiadau gwirfoddol lleol.

3:22 Bydd ar staff ysgolion ac AALLau angen gwybodaeth a hyfforddiant ar ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd ag anawsterau cyfathrebu. Efallai y bydd AALLau am ddatblygu opsiynau hyfforddi i gynyddu hyder a sgiliau'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant, pa mor gymhleth bynnag eu hanghenion. Mae gan staff cefnogi dysgu rôl holl bwysig i'w chwarae yn cefnogi llawer o blant a dylai eu hyfforddiant gynnwys elfen ar gyfranogiad disgyblion a datblygu sgiliau cyfathrebu.

3:23 Bydd yn haws i ddisgyblion gyfranogi os bydd yr AALL yn gweithio gyda phawb dan sylw, gan gynnwys ysgolion, disgyblion a rhieni, i ddatblygu gwybodaeth hawdd i'w deall ar gyfer plant a phobl ifanc. Gallai gwybodaeth o'r fath fod ar bapur neu fideo, mewn iaith arwyddion neu Braille neu ar dâp.

3:24 Gan y bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai plant i gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ynglŷn â'u haddysg, mae'n bwysig bod yr AALL yn gallu cyfeirio ysgolion a gweithwyr proffesiynol perthnasol at wahanol ffynonellau.

¹⁶ Canllawiau ar Addysg Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol - Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Darparu cefnogaeth arbennig

3:25 Mae'n bwysig peidio â chymryd gormod yn ganiataol ynglŷn â lefelau dealltwriaeth plant, yn enwedig rhai ifanc iawn a rhai hŷn sydd ag anawsterau dysgu, cyfathrebu neu synhwyrdd. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar y plant hyn i gyfleu eu barn a'u dymuniadau a dylid ymdrechu i drefnu iddynt gael y cymorth hwn os bydd angen.

3:26 Ni fydd cyfranogiad y disgybl yn dibynnu'n unig ar ansawdd y profiad a'r gefnogaeth addysgol a gynigir. Gall pryderon ynglŷn ag anghenion iechyd arbennig neu sut mae ymdrin â'u gofal personol effeithio'n uniongyrchol ar gynnydd plant. Dylid rhoi'r cyfle i ddisgyblion siarad yn breifat os oes raid am eu pryderon a dylid gweithredu'n briodol.

3:27 Ceir rhagor o gyngor am ffyrdd o alluogi disgyblion i gyfranogi yn Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA.

4. Canfod, Asesu a Darparu mewn Sefydliadau Blynyddoedd Cynnar

Cyflwyniad

4:1 Daw Partneriaethau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant â darparwyr o'r sector a gynhelir, y sector preifat a'r sector gwirfoddol ynghyd gydag AALLau, adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a chynrychiolwyr rhieni yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yn sector addysg y blynyddoedd cynnar.

4:2 Mae nifer o wahanol ddarparwyr addysg gynnar yn gymwys i gael cyllid Partneriaeth, yn eu plith ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig nas cynhelir, darparwyr gofal dydd yr awdurdodau lleol megis meithrinfeydd dydd a chanolfannau i deuluoedd, darparwyr gofal dydd cofrestredig eraill megis cylchoedd cyn ysgol, cylchoedd chwarae a meithrinfeydd dydd preifat, cynlluniau Portage awdurdodau lleol a gwarchodwyr achrededig sy'n rhan o rwydwaith cymeradwy.

4:3 Mae'n ofynnol i bawb sy'n darparu addysg gynnar trwy gyllid Partneriaeth, yn cynnwys darparwyr y tu allan i'r sector a gynhelir, roi sylw i'r Cod Ymarfer. Nodir y ddyletswydd hon yn adran 313(2) o Ddeddf Addysg 1996 (mewn perthynas â chyrff llywodraethu ac AALLau), ac adran 4(1) o Ddeddf Addysg Feithrin ac Ysgolion a Gynhelir â Grant 1996 ac adran 123 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Addysg 1998 (mewn perthynas â darparwyr addysg gynnar eraill).

4:4 Disgwylir i bawb sy'n darparu addysg gynnar trwy gyllid Partneriaeth gael polisi AAA ysgrifenedig. Mae partneriaethau ag ysgolion a rhwng sefydliadau blynyddoedd cynnar yn ffordd ragorol o rannu'r arferion gorau. Bydd trefniadau partneriaeth o'r fath yn gefn neilltuo i warchodwyr plant achrededig sy'n rhan o rwydwaith cymeradwy ac a fydd, efallai, am gydweithio i ddatblygu eu polisi AAA.

Darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar

4:5 Ceir cysylltiad hysbys rhwng darpariaeth o safon uchel yn y blynyddoedd cynnar ac ymyrraeth effeithiol i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhan fwyaf o blant rhwng tair a phump oed yn mynd trwy gyfnod o dwf corfforol, emosiynol, deallusol a chymdeithasol cyflym. I lawer o blant, y sefydliad blynyddoedd cynnar fydd eu profiad cyntaf o ddysgu mewn grŵp o gyfoedion. Mae 'Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol'¹⁷ a gyhoeddwyd gan ACCAC yn rhoi cyngor i ymarferwyr addysg gynnar ynglŷn â darparu profiadau dysgu ac addysgu priodol o'r safon uchaf ac, ar yr un pryd, ganiatáu ymateb hyblyg i anghenion penodol y plant i ychwanegu at eu cyfleoedd dysgu cyn-ysgol.

4:6 Dylai ymarferwyr gydweithio'n agos â phob rhiant i wrando ar eu barn er mwyn adeiladu ar brofiadau blaenorol, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r plant, a darparu cyfleoedd ar gyfer:

- datblygiad personol a chymdeithasol
- datblygu sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd

¹⁷ 'Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol', ACCAC, 1999

- datblygiad mathemategol
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad corfforol
- datblygiad creadigol

4:7 Mae'r 'Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol' yn nodi beth y bydd y rhan fwyaf o blant wedi ei gyflawni ym mhob un o'r meysydd hyn erbyn iddynt ddechrau ym Mlwyddyn 1 addysg gynradd. Dyma'r canlyniadau a ddisgwylir os bydd addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i chynllunio, gan integreiddio chwarae a dysgu. Bydd plant yn symud ymlaen ar wahanol gyflymder yn ystod y cyfnod sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod hwn, bydd rhai wedi rhagori ar y disgwyliadau a nodir yn y Canlyniadau Dymunol, a bydd eraill, o bosib, yn dal i weithio tuag at y sgiliau hyn.

4:8 Ymysg y plant sy'n gwneud cynnydd arafach, efallai y bydd rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol neu rai sydd ag anawsterau dysgu penodol. Felly, ni ddylid cymryd yn ganiataol bod gan blant sy'n gwneud cynnydd arafach anghenion addysgol arbennig. Ond bydd angen cyfleoedd dysgu sydd wedi'u gwahaniaethu'n ofalus ar blant fel hyn i'w helpu i symud ymlaen a bydd angen monitro gofalus ar eu cynnydd yn rheolaidd ac yn aml.

Ymateb graddoledig

4:9 Mae monitro cynnydd plant unigol trwy'r blynyddoedd cynnar yn hanfodol bwysig. Lle'r ymddengys nad yw plentyn yn gwneud cynnydd naill ai'n gyffredinol neu mewn agwedd benodol ar ddysgu, efallai y bydd angen cynnig cyfleoedd gwahanol neu arfer dulliau gwahanol o ddysgu. Gall anawsterau parhaus ddangos bod angen lefel o help uwchlaw'r hyn sydd ar gael fel arfer i blant yn y sefydliad blynyddoedd cynnar hwnnw.

4:10 Gall arferion da fod ar lawer o ffurfiau gwahanol. Mater i'r sefydliadau unigol yw penderfynu pa drefniadau yn union y dylent eu mabwysiadu, a natur a chynnwys y ddarpariaeth addysgol arbennig. Dylai sefydliadau blynyddoedd cynnar fabwysiadu ymateb graddoledig fel y gallant ddarparu help penodol ar gyfer plant ifanc unigol. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod yna gontinwwm o anghenion addysgol arbennig a, lle bo raid, mae'n defnyddio medrau arbenigol cynyddol mewn ymateb i'r anawsterau y mae'r plentyn yn eu hwynebu.

4:11 Dylai fod sylfaen gadarn i'r dull graddoledig a ddisgrifir yn y Cod hwn yn y sefydliad. Cyn gynted ag y bydd ymarferwyr wedi canfod bod gan blentyn anghenion addysgol arbennig, dylai'r sefydliad ymyrryd trwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar*. Os nad yw'r ymyrryd yn galluogi'r plentyn i wneud cynnydd boddhaol efallai y bydd angen i'r Cydlynedd AAA geisio cyngor a chefnogaeth gan asiantaethau allanol. Cyfeirir at y mathau hyn o ymyriadau isod fel *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy*.

The setting has a duty to inform the child's parents that special educational provision is being made for the child.

Adran 317A, Deddf Addysg 1996 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf AAA ac Anableddau 2001

4:12 Gan fod sefydliadau mewn cysylltiad â rhieni o ddydd i ddydd, nhw sydd yn y sefyllfa orau i farnu sut y dylid gwneud hyn fel y gallant annog rhieni i gyfrannu eu gwybodaeth am eu plentyn a'u dealltwriaeth ohono, a chodi unrhyw bryderon sydd ganddynt am anghenion eu plentyn a'r ddarpariaeth a wneir ar ei gyfer.

4:13 Y prawf allweddol ar gyfer gweithredu yw tystiolaeth nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd digonol fel y mae. Ni ddylid tybio y bydd pob plentyn yn symud ymlaen ar yr un cyflymder. Mae'n rhaid barnu ym mhob achos beth y mae'n rhesymol disgwyl i'r plentyn neilltuol hwnnw ei gyflawni. Os nad yw'r cynnydd yn ddigonol, bydd angen cymryd camau ychwanegol neu wahanol i alluogi'r plentyn i ddysgu'n fwy effeithiol. Beth bynnag yw lefel anawsterau disgyblion, y prawf allweddol sy'n dangos i ba raddau y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu yw hyn: a ydynt yn gwneud *cynnydd digonol* ai peidio?

4:14 Gellir diffinio cynnydd digonol mewn sawl ffordd. Er enghraifft, gallai fod yn gynnydd sy'n:

- cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn a'i gyfoedion
- atal y bwlch cyrhaeddiad rhag lledu
- debyg i gynnydd cyfoedion sy'n dechrau o'r un man cychwyn o ran cyrhaeddiad, ond sy'n llai na chynnydd y rhan fwyaf o'u cyfoedion
- cyfateb i gyfradd cynnydd y plentyn o'r blaen neu'n rhagori ar hynny
- sicrhau ei fod yn gallu cymryd rhan yn y cwricwlwm cyfan
- dangos gwelliant mewn sgiliau hunan-gymorth, cymdeithasol neu bersonol
- dangos gwelliannau yn ymddygiad y disgybl.

Rôl y Cydlynnydd AAA

4:15 Bydd angen i sefydliadau blynyddoedd cynnar, ac eithrio darpariaeth AAA arbenigol, ddynodi aelod o'r staff i weithredu fel y cydlynnydd anghenion addysgol arbennig¹⁸. Yn achos gwarchodwyr plant achrededig sy'n rhan o rwydwaith a gymeradwywyd, gellir rhannu rôl y Cydlynnydd AAA rhwng gwarchodwyr unigol a chydlynnydd y rwydwaith. Dylai'r Cydlynnydd AAA fod yn gyfrifol am:

- **sicrhau cyswllt gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig**
- **cynghori a chefnogi ymarferwyr eraill yn y sefydliad**
- **sicrhau bod Cynlluniau Addysg Unigol priodol wedi eu sefydlu**
- **sicrhau bod gwybodaeth gefndir berthnasol yn cael ei chasglu, ei chofnodi a'i diweddarau am blant unigol sydd ag anghenion addysgol arbennig**
- **sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r gwasanaethau partneriaeth â rhieni yn lleol**

4:16 Y Cydlynnydd AAA ddylai arwain y gwaith o asesu cryfderau a gwendidau penodol y plentyn ymhellach; cynllunio cefnogaeth ar gyfer y plentyn i'r dyfodol

¹⁸ Dylid cymryd bod y cyfeiriad at y Cydlynnydd AAA yn golygu unrhyw ymarferydd sy'n gweithredu fel cydlynnydd AAA; gall hyn fod yn bennaeth y sefydliad.

drwy drafodaeth gyda chydweithwyr; monitro'r camau a gymerir ac adolygu hynny'n ddiweddarach. Dylai'r Cydlynnydd AAA sicrhau hefyd fod cofnodion priodol yn cael eu cadw, yn cynnwys cofnod o blant yn *Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar* a *Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar a Mwy* a phlant sy'n destun datganiad. Dylai'r ymarferydd sy'n gyfrifol am y plentyn fel arfer barhau i fod yn gyfrifol am weithio gyda'r plentyn o ddydd i ddydd ac am gynllunio a chyflwyno rhaglen unigol. Dylid ymgynghori â rhieni bob amser a rhoi gwybod iddynt yn rheolaidd am y camau a gymerwyd i helpu'r plentyn, ac am ganlyniad y camau hyn.¹⁹

Yr Amser sy'n Ofynnol i Gydlynnydd AAA

4:17 Dylai grŵp rheoli a phennaeth y sefydliad roi ystyriaeth fanwl i'r amser a ganiateir ar gyfer y Cydlynnydd AAA yng ngoleuni'r Cod ac yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael i'r sefydliad. Efallai y bydd sefydliadau yn gweld ei bod yn effeithiol i'r Cydlynnydd AAA fod yn aelod o'r uwch dim rheoli.

Cofnodion Unigolion

4:18 Yn ychwanegol at y wybodaeth y bydd pob sefydliad yn ei chofnodi am bob plentyn, dylai cofnod disgybl neu broffil plentyn sydd ag AAA gynnwys gwybodaeth am gynnydd ac ymddygiad y plentyn gan y sefydliad blynnyddoedd cynnar ei hun, y rhieni a'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Gallai hefyd gynnwys canfyddiad y plentyn ei hun o unrhyw anawsterau a sut y gellir mynd i'r afael â nhw. Efallai hefyd y bydd angen cofnodi gwybodaeth yn y proffil am anghenion y plentyn mewn perthynas â'r strategaethau cyffredinol sydd i'w defnyddio i'w alluogi i gymryd rhan mewn cwricwlwm addas ac, yn y dosbarth derbyn, i gymryd rhan yn y diwrnod ysgol.

4:19 Dylai'r wybodaeth a gesglir ddatgelu canfyddiadau gwahanol y rhai sy'n ymwneud â'r plentyn, unrhyw bryderon addysgol y mae angen rhoi sylw iddynt ar unwaith a darlun cyffredinol o gryfderau a gwendidau'r plentyn.

Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar

4:20 Pan fydd ymarferydd addysg gynnar sy'n gweithio gyda'r plentyn o ddydd i ddydd, neu'r Cydlynnydd AAA, yn canfod bod gan blentyn anghenion addysgol arbennig, dylent baratoi ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol a strategaethau'r sefydliad ac yn wahanol iddynt (*Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar*).

4:21 Ymhlith y ffactorau a all ysgogi ymyrryd ar ffurf *Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar* mae pryder yr ymarferydd neu riant am blentyn sydd, er iddo gael profiadau addysg gynnar priodol

- yn gwneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, hyd yn oed pan fo'r dulliau addysgu'n cael eu targedu'n benodol at fan gwan y plentyn
- yn dal i weithio ar lefelau sy'n sylweddol is na'r hyn a ddisgwyllir gan blant o oed cyffelyb mewn rhai meysydd
- yn amlygu anawsterau emosiynol a/neu ymddygiadol parhaus nad ydynt yn gwella o ddefnyddio'r technegau rheoli ymddygiad a arferir fel arfer yn y sefydliad

¹⁹ Mae rôl y Cydlynnydd AAA fel y'i nodir yn y bennod hon yn berthnasol i bob sefydliad sy'n cael cyllid Partneriaeth ar gyfer addysg blynnyddoedd cynnar ac eithrio ysgolion meithrin a gynhelir gan yr AALL lle bydd rôl y Cydlynnydd AAA yn debyg i'w rôl yn y cyfnod cynradd.

- yn cael problemau synhwyrdd neu gorfforol, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, er bod cymhorthion personol a chyfarpar wedi eu darparu ar ei gyfer
- yn cael anawsterau cyfathrebu a/neu ryngweithio, a bod angen ymyriadau unigol penodol arno er mwyn gallu manteisio ar ddysgu.

4:22 Os daw ymarferwyr, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, i'r casgliad y gallai fod angen cefnogaeth bellach ar blentyn i'w helpu i wneud cynnydd, dylai'r staff geisio help y Cydlynnydd AAA.

4:23 Fel rhan bwysig o *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar*, dylai'r Cydlynnydd AAA a chydweithwyr gasglu pob gwybodaeth sy'n hysbys am y plentyn a cheisio gwybodaeth newydd ychwanegol gan y rhieni. Mewn rhai achosion efallai y bydd gweithwyr proffesiynol allanol o'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol neu'r gwasanaeth seicoleg addysg eisoes yn ymwneud â'r plentyn. Dylai'r Cydlynnydd AAA adeiladu ar y wybodaeth sydd ganddynt eisoes am y plentyn; mae'r mewnbwn aml-asiantaethol yn aml yn bwysig iawn ar gyfer plant ifanc. Mae gan y seicolegydd addysg hefyd rôl allweddol ym mlynnyddoedd cynnar yr asesu a'r ymyrryd ac o ran rhoi cefnogaeth a chynghor i rieni. Gall seicolegwyr addysg helpu athrawon a rhieni i sylwi ar anghenion unigol plant a'u helpu i addasu eu hymateb yn unol â hynny. Mewn achosion felly mae'n arfer da i'r gweithwyr proffesiynol hyn gysylltu â'r darparwr blynyddoedd cynnar a rhoi gwybod iddo am unrhyw waith sydd ar y gweill. Os nad yw'r gweithwyr proffesiynol hyn eisoes wedi bod yn gweithio gyda'r ymarferwyr, dylai'r Cydlynnydd AAA gysylltu â nhw os yw'r rhieni'n cytuno.

4:24 Dylai'r Cydlynnydd AAA sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r gwasanaethau partneriaeth â rhieni yn lleol. Rhaid rhoi'r wybodaeth lawn i rieni yn rheolaidd am anghenion eu plentyn. Y rhieni yw'r brif ffynhonnell gwybodaeth mewn llawer o achosion. Gellir cadw'r wybodaeth a gesglir fel rhan o gofnod personol y plentyn a fydd hefyd yn cynnwys sylwadau blaenorol am y plentyn a wnaed fel rhan o'r systemau asesu a chofnodi rheolaidd o fewn y sefydliad blynyddoedd cynnar. Dylai sefydliadau sicrhau bod rhieni'n ymwneud cymaint ag y bo modd ag addysg eu plentyn a dylid rhoi gwybodaeth lawn iddynt bob amser am sut y mae'r sefydliad yn ceisio diwallu anghenion eu plentyn.

4:25 Os oes gan blentyn anhawster dysgu neu ei fod yn araf yn datblygu, ac nad yw ei rieni'n siarad y Gymraeg na'r Saesneg fel iaith gyntaf, neu nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg na'r Saesneg, neu eu bod yn anabl, mae'n debygol y bydd y plentyn o dan fwy o anfantais os na chaiff ei anghenion addysgol arbennig eu canfod cyn gynted fyth ag sy'n bosibl. Efallai na fydd y rhieni'n gallu lleisio eu pryderon eu hunain oherwydd diffyg cyfrwng cyfathrebu gyda'r darparwr blynyddoedd cynnar. Lle cyfyd anawsterau fel hyn, dylai AALLau sicrhau bod y rhieni a gweithwyr proffesiynol perthnasol yn gallu manteisio ar wasanaethau pobl sy'n gallu defnyddio iaith arwyddion neu gyfieithwyr a bod gwybodaeth wedi'i gyfieithu ar gael iddynt, fel y gellir rhannu pryderon cynnar am ymddygiad, iechyd a datblygiad y plentyn. Efallai y gallai staff cefnogi dwyieithog neu athrawon sy'n dysgu'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol helpu a dylid ceisio eu cefnogaeth o'r cychwyn. Bydd gwasanaethau partneriaeth â rhieni, a drafodwyd yn llawn ym Mhennod Dau, yn gallu darparu cynghor a chefnogaeth hefyd. Heb gefnogaeth o'r fath, gall gymryd mwy o amser i ganfod anawsterau ac ymyrryd a gall y gwaith fod yn aneffeithiol.

Natur yr Ymyrryd

4:26 Dylai'r Cydlynnydd AAA ac athro'r plentyn, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, benderfynu ar y *Gweithredu* sy'n ofynnol i helpu'r plentyn i symud ymlaen yng ngoleuni eu hasesiad blaenorol. Weithiau, mae disgwyl y bydd *Gweithredu* yn golygu defnyddio staff ychwanegol er mwyn gallu rhoi hyfforddiant un-i-un i'r plentyn. Efallai nad hon fydd y ffordd orau o helpu'r plentyn. Dylai'r *Gweithredu* alluogi plentyn ifanc iawn sydd ag anghenion addysgol arbennig i ddysgu a gwneud cynnydd hyd eithaf ei allu. Yr allwedd yw darparu trefniadau unigol effeithiol ar gyfer y dysgu a'r addysgu. Gallai'r adnoddau olygu caniatáu i oedolyn dreulio rhagor o amser yn dyfeisio natur yr ymyriad a gynllunnir ac yn monitro ei effeithiolrwydd; darparu deunyddiau dysgu gwahanol neu gyfarpar arbennig; rhywfaint o gefnogaeth grŵp neu gefnogaeth unigol neu ddatblygiad a hyfforddiant staff er mwyn cyflwyno strategaethau mwy effeithiol. Os gellir manteisio'n sydyn ar wasanaethau cefnogi'r AALL i gael cyngor unwaith-yn-unig neu gyngor achlysurol am strategaethau neu gyfarpar neu i gael hyfforddiant staff, efallai y bydd modd darparu ymyriadau effeithiol heb fod angen cyfraniadau rheolaidd na pharhaus gan asiantaethau allanol.

Cynlluniau Addysg Unigol

4:27 Dylid cofnodi'r strategaethau a ddefnyddir i alluogi'r plentyn i wneud cynnydd mewn Cynllun Addysg Unigol (CAU). Dylai hwn gynnwys gwybodaeth am y targedau tymor byr a osodwyd ar gyfer y plentyn, y strategaethau addysgu a'r ddarpariaeth y bwriedir eu defnyddio, pa bryd y mae'r cynllun i gael ei adolygu, a chanlyniad y camau a gymerwyd. Yr unig bethau y dylai'r CAU eu cofnodi yw'r hyn sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i gynllun y cwricwlwm gwahaniaethol, a sefydlwyd fel rhan o'r ddarpariaeth arferol. Dylid ysgrifennu'r CAU yn gryno gan ganolbwyntio ar dri neu bedwar targed allweddol. Dylid ysgrifennu'r CAU yn y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog os bydd hynny'n briodol. Dylid trafod CAUau, a'r ffyrdd y gallant helpu, gyda'r rhieni a'r plentyn.

Adolygu CAUau

4:28 Yn ddelfrydol, dylid cadw golwg ar y CAUau yn barhaus ac, os felly, ni ellir cael cyfarfod ffurfiol na 'chyfnod penodol' ar gyfer eu hadolygu. Fodd bynnag, dylid eu hadolygu'n rheolaidd, o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Nid oes raid i'r adolygiadau fod yn or-ffurfiol, ond dylid ceisio barn y rhieni am gynnydd y plentyn a dylid ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses adolygu. Ceir cyngor pellach ar CAUau ac ar gynnwys y disgyblion yn y broses adolygu yn Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA.

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy

4:29 Nodweddir *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy* gan gyfraniadau gwasanaethau cefnogi allanol a all helpu darparwyr addysg gynnar trwy roi cyngor ar CAUau a thargedau newydd, darparu asesiadau mwy arbenigol, rhoi cyngor ar ddefnyddio strategaethau neu ddeunyddiau newydd neu arbenigol ac, mewn rhai achosion, ddarparu cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau penodol. Bydd y mathau o gyngor a chefnogaeth sydd ar gael i sefydliadau blynyddoedd cynnar yn amrywio yn ôl polisiâu lleol. Mae pwerau gan AALLau, o dan adran 318(3) Deddf Addysg 1996, i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i helpu sefydliadau blynyddoedd cynnar y tu allan i'r sector a gynhelir yn y gwaith o gefnogi plant sydd ag anghenion addysgol arbennig sy'n gymwys i gael eu hariannu gan y Cynulliad ond nad ydynt yn destun datganiad.

4:30 Mae'n debygol mai o ganlyniad i benderfyniad gan y Cydlynnydd AAA a chydweithwyr, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, mewn cyfarfod i adolygu CAU y plentyn, y gwneir cais am help gan wasanaethau allanol. Dylai'r adolygiad ystyried:

- a gafwyd cynnydd?
- beth yw barn y rhieni?
- a oes angen mwy o wybodaeth neu gyngor am y plentyn?

4:31 Gellid penderfynu gofyn am gymorth asiantaethau allanol gan fod y plentyn, er iddo gael rhaglen unigol a/neu gefnogaeth ddwys:

- yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, mewn meysydd penodol dros gyfnod hir
- yn parhau i weithio ar gwricwlwm blynyddoedd cynnar sy'n sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir gan blant o oedran tebyg
- yn cael anawsterau emosiynol neu ymddygiadol sy'n amharu'n sylweddol ac yn rheolaidd ar addysg y plentyn ei hun neu'r grŵp, er bod ganddo ei raglen rheoli ymddygiad unigol ei hun
- ag anghenion synhwyrdd neu gorfforol, a bod angen cyfarpar ychwanegol neu ymweliadau rheolaidd arno gan ymarferwyr o wasanaeth arbenigol i ymyrryd yn uniongyrchol neu roi cyngor
- ag anawsterau cyfathrebu neu ryngweithio parhaus sy'n ei rwystro rhag datblygu perthnasoedd cymdeithasol a rhag dysgu.

4:32 Lle bo sefydliad addysg blynyddoedd cynnar yn ceisio help gwasanaethau cefnogi allanol, bydd angen i'r gwasanaethau hynny weld y cofnodion sydd gan y darparwr am y plentyn i ganfod pa strategaethau sydd wedi eu defnyddio'n barod a pha dargedau a osodwyd ac a gyflawnwyd. Fel rheol wedyn, byddant yn gweld y plentyn yn ei sefydliad addysgol os yw hynny'n briodol ac yn ymarferol, fel y gallant roi cyngor ynglŷn â thargedau newydd a phriodol i Gynllun Addysg Unigol y plentyn a strategaethau i fynd law yn llaw ag ef.

Ceisiadau am asesiad statudol

4:33 Yn achos ychydig iawn o blant, ni fydd yr help a roddir gan y darparwr addysg gynnar trwy *Gweithredu a Mwy* yn ddigon effeithiol i alluogi'r plentyn i wneud cynnydd boddhaol. Os felly, bydd gofyn i'r darparwr, mewn ymgynghoriad â'r rhieni ac unrhyw asiantaethau allanol sy'n ymwneud â'r plentyn yn barod, ystyried a fyddai asesiad aml-ddisgyblaethol statudol yn briodol.

4:34 Gall rhieni, ysgolion, yn cynnwys ysgolion meithrin, a sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar sy'n cael cyllid Partneriaeth wneud cais i'r AALL am asesiad statudol. Ar hyn o bryd, yr unig blant y mae gan sefydliadau sy'n cael cyllid Partneriaeth i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar, ac eithrio ysgolion meithrin a gynhelir neu ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir, hawl statudol i ofyn am asesiad ar eu cyfer yw plant pedair a phump oed y maent yn darparu addysg feithrin ar eu cyfer (y plant hynny y mae'n rhaid i AALL sicrhau addysg iddynt o dan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion).²⁰ Yr AALL sy'n gyfrifol wedyn am benderfynu a oes angen asesiad statudol.

20 Erbyn mis Medi 2004, bydd dyletswyddau AALLau o dan adran 118 yn cynnwys plant tair oed. Pan ddigwydd hyn, bydd yr hawl i ofyn am asesiadau'n cael ei ymestyn yn otomatig i gynnwys ceisiadau ar gyfer plant tair oed.

4:35 Lle gwneir cais i'r AALL am asesiad statudol, bydd y plentyn wedi dangos bod achos sylweddol i bryderu. Bydd yr AALL am gael tystiolaeth bod unrhyw strategaeth neu raglen a weithredwyd ar gyfer y plentyn dan sylw wedi parhau am gyfnod rhesymol o amser heb lwyddiant. Bydd angen dogfennau clir ar yr AALL mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig y plentyn ac unrhyw gamau a gymerwyd i ddelio â'r anghenion hynny. Bydd gan bob AALL ei systemau cyfeirio ei hunan. Lle bo hynny'n bosibl, wrth benderfynu a ddylid gwneud asesiad o blentyn penodol, dylai AALLau gymryd i ystyriaeth wybodaeth sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys CAUau, yn hytrach na gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig newydd ychwanegol.

4:36 Mewn ychydig iawn o achosion lle ceir anghenion dwys a chymhleth bydd yn amlwg bod gan y plentyn anghenion sylweddol. Mewn achosion felly, gellir gwneud cais am asesiad cyn unrhyw ymyriad addysg gynnar, ac ni ddylai fod angen cael adroddiadau gan yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r plentyn cyn y gall yr AALL ddod i benderfyniad. Dylai'r AALL weithredu ar adroddiadau'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud fwyaf â'r plentyn.

Gwasanaethau Iechyd Plant yn y blynyddoedd cynnar

Rhaid i Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS) hysbysu'r rhieni a'r AALL priodol pan fyddant yn barnu y gallai fod anghenion addysgol arbennig gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol. Rhaid iddynt hysbysu'r rhieni hefyd os credant ei bod yn debygol y gall mudiad gwirfoddol neilltuol roi cyngor neu gymorth i'r rhieni mewn perthynas ag unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod gan y plentyn.

Gweler Adran 332, Deddf Addysg 1996

4:37 Mae'n rhaid i'r gwasanaethau iechyd plant dynnu sylw'r rhieni a'r AALL at anawsterau posibl y plentyn. Gall canolfan neu dîm datblygiad plant roi barn aml-broffesiwn yn gynnar iawn. Bydd yn bwysig cael cysylltiad buan â'r gwasanaethau iechyd plant er mwyn sicrhau nad oes rheswm corfforol (megis nam ar y clyw neu'r golwg) dros yr anhawster dan sylw neu i gael cyngor am yr achos posibl a sut mae rheoli ymddygiad anodd yn effeithiol. Yn ogystal, mae iechyd cyffredinol plant yn effeithio ar eu datblygiad a'u cynnydd yn nes ymlaen yn yr ysgol. Dylai pob sefydliad blynyddoedd cynnar wybod sut mae cael gwybodaeth a chynghor ar faterion yn ymwneud ag iechyd drwy ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd ysgolion, meddyg teulu'r plentyn neu aelod perthnasol o'r ganolfan neu'r tîm datblygiad plant. Os yw'r sefydliad yn dymuno ceisio cyngor am blentyn neilltuol, dylent sicrhau bod y rhieni wedi rhoi caniatâd iddynt wneud hyn.

4:38 Lle bo awdurdod neu Ymddiriedolaeth iechyd (ar sail gwybodaeth a roddwyd gan feddyg teulu efallai) o'r farn y gallai fod gan blentyn anghenion addysgol arbennig, **rhaid** iddynt ddweud hynny wrth y rhieni a rhoi cyfle i'r rhieni drafod y farn honno gyda swyddog o'r awdurdod neu'r Ymddiriedolaeth iechyd (meddyg sydd â gwybodaeth a phrofiad priodol fel rheol). Wedyn, mae'n **rhaid** iddynt hysbysu'r AALL perthnasol.

Asesiad statudol i blant o dan oedran ysgol gorfodol

4:39 Mae Pennod Saith yn nodi'r trefnidau statudol ar gyfer asesu. Mae'r terfynau amser a'r trefniadau statudol eraill ar gyfer penderfynu a ddylid cynnal asesiad aml-ddisgyblaethol ar blentyn o dan oedran ysgol gorfodol (a thros ddwy oed) ai

peidio ac ar gyfer gwneud yr asesiad a llunio'r datganiad yr un fath ag i blant o oed ysgol.

4:40 Mae safbwynt y rhieni yn neilltuo'l o bwysig wrth asesu anghenion addysgol arbennig plant ifanc. Dylai AALLau ystyried defnyddio taflenni esboniadol neu ganllawiau i rieni i'w hannog i gymryd rhan. Gallai'r wybodaeth honno gynnwys esboniad o'r gefnogaeth sydd ar gael i blant mewn sefydliadau blynyddoedd cynnar drwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu a Mwy*, esboniad o hawliau rhieni o safbwynt gofyn am asesiad statudol, a gwybodaeth am yr amgylchiadau pryd y byddai AALL yn ystyried gwneud plentyn yn destun datganiad. Dylai AALLau sicrhau hefyd bod rhieni'n cael cynnig yr holl wasanaethau partneriaeth â rhieni sydd ar gael fel y disgrifir ym Mhennod Dau o'r Cod hwn.

Meini prawf ar gyfer asesiad statudol i blant o dan oedran ysgol gorfodol a thros ddwy oed

4:41 Wrth ystyried asesiad statudol, lle bo'r plentyn yn mynychu sefydliad blynyddoedd cynnar, dylai'r AALL ofyn y cwestiynau isod:

- a. pa anawsterau y mae'r sefydliad wedi eu canfod? A yw'r ymarferwyr wedi darparu strategaethau unigol trwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy* i gynorthwyo'r plentyn?
- b. a oes cyngor allanol wedi ei geisio, ynglŷn â:
 - iechyd a gweithrediad corfforol y plentyn
 - ei sgiliau cyfathrebu
 - ei sgiliau canfyddiad a motor
 - ei sgiliau hunangymorth
 - ei sgiliau cymdeithasol
 - ei ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol
 - ei ymateb i brofiadau dysgu
- c. a yw barn y rhieni wedi cael ei hystyried?

4:42 Os nad yw plentyn yn mynychu sefydliad blynyddoedd cynnar, dylai'r AALL geisio casglu cymaint o wybodaeth ag y gall cyn penderfynu a ddylid cynnal asesiad ai peidio.

4:43 Yna, bydd yr AALL yn asesu'r dystiolaeth ac yn penderfynu ai datganiad anghenion addysgol arbennig yw'r unig ffordd o fynd i'r afael ag anawsterau'r plentyn neu'r arafwch yn ei ddatblygiad. Os yw anghenion addysgol plentyn yn ymddangos yn ddigon difrifol neu gymhleth fel y bydd angen sylw arnynt am ran fawr o gyfnod y plentyn yn yr ysgol, neu os bydd y dystiolaeth yn dangos fod angen ymyriad cynnar arbenigol na all y sefydliad presennol ei ddarparu, mae'n debygol y daw'r AALL i'r casgliad bod angen asesiad.

Datganiadau ar blant o dan oedran ysgol gorfodol a thros ddwy oed

4:44 Lle bo gan blant rhwng dwy a phump oed anghenion mor ddwys a chymhleth fel bod dulliau gweithredu statudol yn hanfodol er mwyn gwneud y mwyaf o'u cyfleoedd, bydd y datganiad yn dilyn yr un ffurf â datganiad ar unrhyw blentyn arall. Mae cyfraniadau darparwyr gwasanaethau anaddysgol yn debygol o fod yn allweddol bwysig.

4:45 Dylai AALLau nodi y gall rhieni plant o dan bump oed a thros ddwy ddweud pa ysgol a gynhelir yr hoffent iddi gael ei henwi yn natganiad eu plentyn. Mae'n rhaid i'r AALL enwi'r un ysgol â'r rhieni cyhyd ag y bo'n bodloni'r meini prawf a nodir yn Atodlen 27 o Ddeddf Addysg 1996. (Gweler 8:58). Mae'n debygol mai un mater allweddol fydd a yw'r ysgol yn addas ar gyfer oedran y plentyn. Yn ogystal, gall y rhieni gyflwyno sylwadau o blaid ysgol nas cynhelir neu ysgol annibynnol neu sefydliad blynyddoedd cynnar preifat neu wirfoddol ar gyfer eu plentyn. Os yw'r AALL o'r farn bod ddarpariaeth o'r fath yn briodol, mae ganddo hawl i nodi hynny yn y datganiad ac, os yw'n gwneud hynny, mae'n rhaid iddo ariannu'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid oes diben gwneud hynny yn achos sefydliadau y tu allan i'r sector a gynhelir onid yw'r sefydliad yn cytuno gan na all yr AALL fynnu bod sefydliad annibynnol neu wirfoddol yn derbyn plentyn. Dylai'r AALL sicrhau bod gan rieni wybodaeth lawn am amrediad y ddarpariaeth sydd ar gael gan yr awdurdod a hwyrach y bydd am gynnig cyfle i rieni i ymweld â ddarpariaeth o'r fath a thrafod unrhyw agwedd ar y ddarpariaeth gyda'r Swyddog a Enwir gan yr AALL (gweler yr Eirfa).

4:46 Dylai AALLau ystyried adolygu datganiad ar blentyn o dan bump oed yn anffurfiol o leiaf bob chwe mis i wneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn dal yn briodol i anghenion y plentyn. Byddai adolygiadau o'r fath yn cyd-fynd â'r ddyletswydd statudol i gynnal adolygiad blynyddol yn unol â'r Rheoliadau ond ni fyddai'n rhaid wrth yr un ystod o ddogfennau, o anghenraid, cyhyd ag y byddai'r dogfennau'n adlewyrchu'r newidiadau o bwys a all ddigwydd yng nghynnydd plentyn o dan bump oed. Os oes angen, dylid newid y datganiad yn dilyn adolygiad chwe misol.

Asesiad statudol i blant o dan ddwy oed

Os yw AALL o'r farn bod gan blentyn o dan ddwy oed yn eu hardal anghenion addysgol arbennig ac mai'r AALL a ddylai benderfynu ar y ddarpariaeth addysgol arbennig ar ei gyfer, gall yr AALL gynnal asesiad o'i anghenion addysgol os yw'r rhiant yn cytuno i hynny, ac mae'n rhaid iddo gynnal asesiad o'r fath os yw'r rhiant yn gofyn am hynny. Cynhelir yr asesiad hwnnw yn y ffordd y mae'r awdurdod yn ei hystyried yn briodol. Yn dilyn yr asesiad, gall yr AALL wneud a chynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig y plentyn mewn ffordd y maent yn ei hystyried yn briodol.

Gweler Adran 331, Deddf Addysg 1996

4:47 Pan gyfeirir plentyn o dan ddwy oed at yr AALL, mae'n debygol mai ei rieni neu'r gwasanaethau iechyd plant fydd wedi canfod ei anghenion arbennig. Mewn rhai rhannau o'r wlad bydd rhaglenni Cychwyn Cadarn nid yn unig wedi canfod anghenion y plentyn ond hefyd wedi trefnu cysylltiad â'r gwasanaethau perthnasol. Byddant yn parhau i gynnig cefnogaeth i'r teulu ar ôl i'r gwasanaethau

statudol gael gwybod am y plentyn. Mae'n debygol y bydd y plentyn yn dioddef o gyflwr penodol neu broblem iechyd fawr sydd wedi peri pryder yn gynnar yn ei oes. Nid oes raid i'r gwaith o asesu plant o dan ddwy oed ddilyn y trefniadau statudol sy'n berthnasol i asesu plant sy'n ddwy oed a throsodd.

Datganiadau ar blant o dan ddwy oed

4:48 Bydd datganiadau ar blant o dan ddwy oed yn brin. Yn gyntaf, dylai'r AALL ystyried rhaglenni cefnogi unigol yn unol ag anghenion neilltuol y plentyn. Nid yw'r trefniadau wedi'u pennu mewn deddfwriaeth. Ond, er y gall fod yn well gan AALLau wneud cytundebau gwirfoddol ar gyfer trefniadau fel hyn, dylent fod yn ymwybodol y gall cais gan riant ar gyfer asesiad statudol ddangos bod y trefniadau hynny'n annigonol. Yn achos plant ifanc iawn, dylai AALLau ystyried rhaglenni cartref fel Portage, os ydynt ar gael, neu wasanaethau teithiol ar gyfer plant sydd â nam ar y clyw neu nam gweledol. Dylid ymgynghori â'r rhieni ynglŷn â natur y cymorth a'r gefnogaeth yr hoffent eu cael; efallai y byddai'n well gan rai fynychu canolfan neu gyfuno cefnogaeth gartref â chefnogaeth mewn canolfan.

4:49 Os penderfynir gwneud datganiad, oherwydd anghenion cymhleth y plentyn neu er mwyn ei alluogi i gael rhyw wasanaeth neilltuol fel dysgu yn y cartref neu raglen chwarae ddatblygiadol fel rheol, dylai gynnwys:

- **yr holl wybodaeth sydd ar gael am y plentyn, gyda manylion clir am anghenion addysgol arbennig y plentyn**
- **cofnod o farn y rhieni ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol**
- **adroddiad clir am y gwasanaethau a gynigir, yn cynnwys cyfraniad y gwasanaeth addysg a'r amcanion addysgol yr anelir atynt a chyfraniad unrhyw asiantaethau statudol a gwirfoddol**
- **disgrifiad o'r trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu.**

4:50 Dylai AALLau sicrhau bod unrhyw dargedau addysgol penodol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac, os oes angen, eu haddasu. Bydd angen cydweithio'n agos â'r gwasanaeth iechyd plant a'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn gwneud hyn.

Darpariaeth addysgol arbennig i blant o dan oedran ysgol gorfodol

4:51 I blant ifanc iawn, hwyrach mai rhaglen dysgu gartref, megis Rhaglen Addysgu Gartref Portage, neu wasanaethau athro teithiol ar gyfer plant â nam ar y clyw neu nam gweledol, fyddai'n darparu'r gefnogaeth neu'r cyngor mwyaf priodol. Yn achos plentyn sydd ag anhawster ymddygiad, hwyrach y gallai cyngor y seicolegydd clinigol mewn canolfan datblygiad plant neu seicolegydd addysg alluogi'r plentyn i aros yn y sefydliad y mae ynddo ar y pryd. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid penderfynu y caiff y plentyn fynychu, neu barhau i fynychu, darpariaeth blyneddodd cynnar brif ffrwd, ond gyda chefnogaeth neu adnoddau ychwanegol. Efallai y byddai'n fwy priodol i rai plant drosglwyddo i ddarpariaeth arbenigol. Dylid rhoi gwybod i rieni beth sy'n digwydd ac ymgynghori â nhw yn rheolaidd tra bydd penderfyniadau fel hyn yn cael eu gwneud.

4:52 Dylai fod gan y Bartneriaeth Datblygiad y Blyneddodd Cynnar a Gofal Plant a'r AALL wybodaeth am lefydd mewn ysgolion neu ddosbarthiadau meithrin ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig; ac am lefydd mewn grwpiau chwarae neu grwpiau cyfle, canolfannau teulu, meithrinfeydd dydd neu ddarpariaeth arall ar gyfer plant ifanc o fewn yr awdurdod hwnnw, yn y sector annibynnol a

gwirfoddol. Mae gofyn i bartneriaethau gynnwys y wybodaeth hon yng Nghynllun y Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Gall adrannau gwasanaethau cymdeithasol roi gwybodaeth am y ddarpariaeth ar gyfer plant ifanc 'mewn angen'. Mae'r hyn a nodir yn 1:7-1:15 o ran darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn berthnasol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant o dan oed ysgol gorfodol.

4:53 Os yw plentyn ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol, neu os oes pryder am les plentyn, dylai'r AALL a'r adran gwasanaethau cymdeithasol ystyried cytuno gyda'i gilydd ar drefniant i ganfod anghenion y plentyn a phennu a monitro'r ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny. Dylid gwneud hyn yn sensitif a chan ystyried cyfrinachedd y wybodaeth. Os yw'r plentyn yn derbyn gofal yr awdurdod lleol – yn byw gyda rhiant maeth neu mewn sefydliad preswyl – gallai asesiad yr AALL fod yn rhan o Gynllun Gofal y plentyn a chael ei adolygu'n rheolaidd.

Symud i ysgol gynradd

4:54 Mewn rhai achosion, efallai y bydd plentyn o dan bump oed wedi derbyn cefnogaeth sylweddol heb fod rhaid gwneud datganiad. Os penderfynir, oherwydd natur anghenion y plentyn, y bydd yn rhaid cael datganiad cyn iddo fynd i ysgol gynradd, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i farn y rhieni ac i'r wybodaeth sydd ar gael o'r gwahanol drefniadau asesu o fewn yr holl asiantaethau perthnasol sy'n darparu ar gyfer plant ifanc ag anghenion arbennig. Dylid talu sylw arbennig i iechyd a datblygiad cyffredinol y plentyn a'i amgylchiadau cartref er mwyn sicrhau nad oes a wnelo anhawster dysgu yn uniongyrchol â phroblemau teuluol ehangach. Os yw sefydliad blynyddoedd cynnar yn paratoi cofnod ar gyfer plentyn y gallai fod ganddo angen arbennig, dylid trosglwyddo'r cofnod hwnnw i'r ysgol gyda chaniatâd y rhiant. Dylid esbonio'n ofalus wrth y rhieni beth yw pwysigrwydd a manteision rhoi'r cofnodion hyn i'r ysgol.

4:55 Dylai'r AALL sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei darparu i'r rhieni er mwyn iddynt allu cyfrannu'n llawn at gynnydd eu plentyn yn yr ysgol. Dylid rhoi gwybodaeth lawn i'r rhieni i'w galluogi i ddweud pa ysgol gynradd yr hoffent i'w plentyn fynd iddi neu i fynegi barn o blaid ysgol annibynnol neu ysgol arbennig nas cynhelir. Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i'r mathau o ddarpariaeth a allai fod yn briodol yn y cyfnod cynradd yn fanwl fel rhan o'r broses adolygu flynyddol, fel y'i disgrifir ym Mhennod Naw.

5. Canfod, Asesu a Darparu yn y Cyfnod Cynradd

Cyflwyniad

5:1 Bydd y rhan fwyaf o blant a dderbynnir i ysgol babanod neu ysgol gynradd eisoes wedi mynychu sefydliad blynyddoedd cynnar. Bydd rhai heb wneud hynny. Os bydd plant sydd ag anghenion addysgol arbennig wedi mynychu dosbarth meithrin, cylch chwarae neu sefydliad blynyddoedd cynnar arall, dylai eu hanghenion fod wedi'u canfod eisoes. Efallai na fyddant. Felly, dylai ysgolion fod yn ymwybodol y gall unrhyw blentyn sy'n cychwyn yn y dosbarth derbyn fod ag anghenion addysgol arbennig sydd heb eu canfod. Mae'r un peth yn wir am blant sy'n trosglwyddo o'r naill ysgol i'r llall yn ystod y cyfnod cynradd.

5:2 Mae darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig yn fater i'r ysgol gyfan. Yn ogystal â'r corff llywodraethol, mae gan bennaeth yr ysgol, y Cydlynnydd AAA a phob aelod arall o'r staff gyfrifoldebau pwysig o ddydd i ddydd. *Mae pob athro yn athro ar blant sydd ag anghenion addysgol arbennig.* Felly, mae dysgu plant fel hyn yn gyfrifoldeb i'r ysgol gyfan. Yn ymarferol, mater i ysgolion yw'r ffordd y caiff y cyfrifoldeb hwn ei arfer gan staff unigol, a rhaid penderfynu arno yng ngoleuni amgylchiadau a maint, blaenoriaethau ac ethos yr ysgol.

5:3 Yn ganolog i waith pob dosbarth mewn ysgol gynradd ceir cylch parhaus o gynllunio, addysgu ac asesu sy'n cymryd holl alluoedd, doniau a diddordebau'r plant i ystyriaeth. Bydd y rhan fwyaf o blant yn dysgu ac yn gwneud cynnydd o fewn y trefniadau hyn.

5:4 Mae rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2 yn nodi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddisgwylir gan blant yn y grŵp oedran hwn. Fel rhan o drefniadau arferol yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio o raglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan ddefnyddio'r holl hyblygrwydd²¹ sydd ar gael a llunio barn am berfformiad y plant mewn perthynas â'r disgrifiadau am y lefelau priodol.

5:5 Trwy asesu yn erbyn disgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob pwnc, gall yr ysgol ystyried cyrhaeddiad y plentyn unigol a'i gynnydd yn erbyn y lefelau disgwyledig ar gyfer y rhan fwyaf o'i gyfoedion. Mae'r cynnydd mewn llythrennedd a mathemateg hefyd yn sylfaen ar gyfer asesu yn erbyn normau cenedlaethol. Efallai bod anghenion addysgol arbennig gan blant y mae eu cyrhaeddiad cyffredinol neu eu cyrhaeddiad mewn pynciau penodol yn sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir.

5:6 Dylai fod pedair elfen i'r broses asesu bob amser. Dylai ganolbwyntio ar:

- nodweddion dysgu'r plentyn,
- yr amgylchedd dysgu y mae'r ysgol yn ei ddarparu ar gyfer y plentyn,
- y dasg a'r
- arddull addysgu.

²¹ Mae Gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymru) 2000 yn cynnwys datganiad mynediad sy'n rhoi hyblygrwydd i alluogi athrawon i ddewis defnydd o raglenni astudio cyfnodau allweddol cynharach neu ddiweddarach os yw hynny'n addas ar gyfer anghenion disgyblion unigol

Dylid cydnabod y gall rhai anawsterau dysgu gael eu hachosi neu eu gwaethygu gan amgylchedd dysgu'r ysgol neu berthnasau rhwng oedolyn/oedolion a phlentyn. Mae hyn yn golygu edrych yn ofalus ar bethau fel trefniadaeth y dosbarth, deunyddiau addysgu, arddull addysgu a gwahaniaethu er mwyn penderfynu sut y gellir datblygu'r rhain i alluogi'r plentyn i ddysgu'n effeithiol.

Darpariaeth mewn ysgolion cynradd²²

5:7 Bydd pob ysgol yn dymuno asesu lefelau cyrhaeddiad pob plentyn pan fydd yn cael ei dderbyn er mwyn sicrhau ei bod yn adeiladu ar y patrwm dysgu a phrofiad a gafwyd eisoes yn ystod blynyddoedd cyn-ysgol y plentyn. Dylai ysgolion wneud defnydd llawn o'r wybodaeth a roddir iddynt pan fo'r plentyn yn trosglwyddo o ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar. Bydd sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar yn cadw cofnodion am bob plentyn, a bydd y rhain yn fan cychwyn buddiol ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn berthnasol hefyd i blant sy'n trosglwyddo rhwng ysgolion o fewn y cyfnod cynradd. Gall perfformiad rhai plant amrywio'n eithriadol rhwng sefydliadau. Felly, lle bo hynny'n bosibl, mae'n bwysig chwilio am nifer o ffynonellau tystiolaeth am berfformiad plant mewn gwahanol rolau a sefyllfaoedd.

5:8 Dylai ysgolion gofio bod gofyn i sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar roi sylw i'r Cod Ymarfer hwn a bod disgwyl iddynt gynllunio ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig ond nad oes ganddynt ddatganiadau trwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar* a *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy*. Felly, lle bo plentyn sy'n dechrau'r ysgol eisoes wedi'i ddynodi'n blentyn ag anghenion addysgol arbennig, dylai'r ysgol gael gweld cofnodion sy'n cynnwys Cynlluniau Addysg Unigol blaenorol y plentyn. Bydd y Cynlluniau hyn wedi'u hysgrifennu yng nghyd-destun y Canlyniadau Dymunol a'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gofnodi agweddau a oedd yn ychwanegol at ymdriniaethau gwahaniaethol a'r trefniadau dysgu a ddarperir fel arfer ar gyfer y plant i gyd neu'n wahanol iddynt.

5:9 Gall ffrwyth yr asesiad cychwynnol, a ystyrir yng nghyswllt pob plentyn yn fuan wedi iddynt ddechrau yn yr ysgol gynradd, ganfod meysydd sy'n peri pryder. Er nad yw'r asesiad wedi ei gynllunio'n benodol i ganfod y plant hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig, dylai dynnu sylw athrawon at blant sydd ag anawsterau neilltuol, a gallai rhai ohonynt fod ag anghenion arbennig.

5:10 Felly, os yw'n hysbys bod gan blentyn angen addysgol arbennig pan fydd yn dechrau yn yr ysgol gynradd, dylai'r pennaeth, y cydlynnydd AAA ac athro dosbarth y plentyn:

- **sicrhau bod arddulliau dysgu'r plentyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth**
- **defnyddio gwybodaeth sy'n deillio o brofiad addysgol blaenorol y plentyn yn fannau cychwyn ar gyfer datblygu cwricwlwm addas ar gyfer y plentyn**
- **canfod sgiliau'r plentyn a chanolbwyntio sylw arnynt ac amlygu meysydd lle mae angen gweithredu'n fuan i gefnogi'r plentyn yn y dosbarth**

²² Mae'r term 'ysgol gynradd' yn y Bennod hon yn cyfeirio at unrhyw ysgol gynradd neu ysgol ganol a gynhelir sy'n ysgol gymunedol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol. Mae hefyd yn cynnwys ysgolion cymunedol neu ysgolion sefydledig arbennig sydd â disgyblion o'r grŵp oedran perthnasol (ac eithrio ysgolion arbennig mewn ysbtyai).

- **defnyddio'r prosesau asesu cwricwlaidd a chychwynnol i alluogi'r plentyn i ddangos yr hyn y mae'n ei wybod a'i ddeall a'r hyn y mae'n gallu ei wneud, yn ogystal â chanfod unrhyw anawsterau dysgu**
- **sicrhau bod arsylwi ac asesu parhaus yn rhoi atborth rheolaidd i athrawon a'r rhieni am gyflawniadau a phrofiadau'r plentyn a bod canlyniadau'r asesu yn sylfaen ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn addysg y plentyn**
- **cynnwys rhieni yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu ffordd o ddysgu ar y cyd rhwng y cartref a'r ysgol.**

Canfod anghenion addysgol arbennig yn fuan

5:11 Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd canfod ac asesu anghenion addysgol arbennig a darparu ar eu cyfer cyn gynted ag y bo modd. Po gynharaf y gweithredir, mwyaf tebygol y mae'r plentyn o allu ymateb, a hawsaf oll y gellir ymyrryd heb darfu'n ormodol ar drefniadaeth yr ysgol. Ni ddylid edrych ar asesu fel un digwyddiad ond yn hytrach fel proses barhaus.

5:12 Os gwelir bod anawsterau'r plentyn yn diflannu, bydd yn gallu dysgu a gwneud cynnydd arferol. Os bydd anawsterau'r plentyn yn llai parod i ymateb i'r ddarpariaeth a wneir gan yr ysgol, yna gellir dechrau'n fuan ar y gwaith o ystyried pa help ychwanegol y gall fod ar y plentyn ei angen.

5:13 I helpu i ganfod plant a allai fod ag anghenion addysgol arbennig, gall ysgolion fesur cynnydd plant drwy gyfeirio at:

- eu perfformiad fel y caiff ei fonitro gan yr athro fel rhan o drefn arsylwi ac asesu barhaus
- deilliannau'r canlyniadau asesu cychwynnol
- eu cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd
- eu perfformiad yn erbyn y disgrifiadau lefelau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol
- dulliau sgrinio ac asesu safonol.

5:14 Dylai ysgolion fod yn agored a pharod eu hymateb hefyd pan fo rhieni'n mynegi pryder, a dylent ystyried unrhyw wybodaeth a roddir gan rieni am eu plentyn.

Y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol

5:15 Rhaid bod yn neilltuol o ofalus wrth ganfod ac asesu anghenion addysgol arbennig plant nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Rhaid ystyried y plentyn yng nghyd-destun ei gartref, ei ddiwylliant a'i gymuned. Lle bo ansicrwydd ynglŷn â phlentyn unigol, dylai ysgolion fanteisio'n llawn ar unrhyw ffynonellau cyngori lleol sy'n berthnasol i'r grŵp ethnig o dan sylw, gan droi at drefniadau cyswllt cymunedol os oes trefniadau o'r fath yn bod.

5:16 Os nad yw plentyn yn rhugl yn y Gymraeg neu'r Saesneg, rhaid peidio â chymryd bod ganddo/ganddi anawsterau dysgu fel y'u deallir yn y Cod hwn. Ar yr un pryd, pan fo plant sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn araf eu cynnydd, ni ddylid cymryd mai'r iaith yw'r unig reswm; gall fod

ganddynt anawsterau dysgu. Dylai ysgolion edrych yn ofalus ar bob agwedd ar berfformiad plentyn mewn gwahanol bynciau i weld a yw'r problemau sydd ganddo yn y dosbarth i'w priodoli i gyfyngiadau yn ei feistrolaeth ar yr iaith a ddefnyddir yno ynteu a ydynt yn deillio o anghenion addysgol arbennig. Dylid mynd ati'n fuan i asesu'n llawn faint o gysylltiad y mae wedi ei gael yn y gorffennol â phob un o'r ieithoedd y mae yn eu siarad, y defnydd a wna ohonynt ar hyn o bryd a'i ruglder ynddynt. Bydd y wybodaeth a geir trwy hyn am ei sgiliau iaith yn sylfaen ar gyfer unrhyw waith pellach gyda'r plentyn i roi help iddo gyda'i anawsterau dysgu ac o ran cynllunio unrhyw gymorth iaith ychwanegol sy'n ofynnol.

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

5:17 Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gorfod cael ei ddilyn gan bob²³ ysgol a gynhelir²⁴. Mae'n nodi'r meysydd dysgu a'u cynnwys ym mhob cyfnod allweddol. Mae'n sicrhau mynediad i feysydd dysgu hanfodol ac yn darparu ar gyfer datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen ar blant er mwyn dod yn ddinasyddion gweithgar a chyfrifol. Trwy eu cylch o arsylwi, asesu, cynllunio ac adolygu bydd pob ysgol yn darparu ar gyfer mwy o wahaniaethu yn y cwricwlwm, addasiadau i'r cwricwlwm, a threfniadau bugeiliol neu ddisgyblu, gan ddibynnu ar gryfderau a gwendidau'r plentyn. Dylid defnyddio dulliau amrywiol i hybu cyflawniadau pob disgybl i'r eithaf. Mae'r mathau hyn o drefniadau yn berthnasol i bob plentyn ac nid ydynt yn rhan o ddarpariaeth addysgol arbennig.

5:18 Gall rheolaeth effeithiol, ethos ac amgylchedd dysgu'r ysgol, a'r trefniadau cwricwlaidd, bugeiliol a disgyblu helpu i atal rhai anghenion addysgol arbennig rhag codi, a gwneud eraill yn llai. Bydd gwahaniaethu'r gweithgareddau dysgu y tu mewn i fframwaith y cwricwlwm cynradd yn helpu ysgolion i ddiwallu anghenion dysgu'r plant i gyd. Ni ddylai ysgolion gymryd yn ganiataol bod anawsterau dysgu plant bob amser yn deillio'n llwyr, neu hyn yn oed yn bennaf, o broblemau'r plentyn ei hunan. Mae arferion yr ysgol ei hun yn gwneud gwahaniaeth – er da neu er drwg. Dylai'r corff llywodraethol, y pennaeth a'r Cydlynnydd AAA fod yn effro i unrhyw batrymau neilltuol wrth i'r ysgol ganfod a chofnodi anghenion addysgol arbennig plant neu yn y pryderon a fynegir gan rieni, a dylent edrych ar arferion a pholisïau cyffredinol yr ysgol yng ngoleuni unrhyw batrymau o'r fath.

5:19 Felly, dylai pob ysgol gynradd ystyried y mathau o opsiynau a'r amrywiaeth gweithgareddau sydd ar gael o fewn y dosbarth i alluogi plant i fanteisio ar y Cwricwlwm Cenedlaethol. Dylai'r athrawon gynllunio mewn ffordd hyblyg er mwyn cydnabod anghenion y plant i gyd fel unigolion a sicrhau dilyniant, perthnasedd a gwahaniaethu. Mae Datganiad Mynediad y Cwricwlwm Cenedlaethol yn nodi pa mor bwysig yw dysgu'r rhaglen astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol i ddisgyblion mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer eu haeddfedrwydd a'u gallu. Mae hefyd y caniatáu hyblygrwydd i alluogi athrawon i ddewis defnydd o raglenni astudio cynharach/diweddarach er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion unigol. Yn ogystal, mae'r gofynion cyffredin yn darparu fframwaith i helpu athrawon i ddefnyddio pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gyd-destunau i ddiwallu anghenion mwy cymhleth y disgyblion.

²³ Mae'r fframwaith statudol wedi ei nodi yn Rhan V o Ddeddf Addysg 1996 a gorchmynion a wnaed o dan y darpariaethau hynny.

²⁴ Nid yw Gorchmynion Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymru) 2000 yn ofynnol ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion nac ysgolion arbennig mewn ysbytai.

Ymateb graddoledig

5:20 Er mwyn helpu plant sydd ag anghenion addysgol arbennig, dylai ysgolion yn y cyfnod cynradd fabwysiadu ymateb graddoledig sy'n cwmpasu amryw o strategaethau. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod yna gontinwwm o anghenion addysgol arbennig a, lle bo raid, mae'n cyflwyno arbenigedd cynyddol i ymdrin â'r anawsterau y gall plentyn fod yn eu hwynebu. Fodd bynnag, ac eithrio mewn achosion eithriadol, dylai'r ysgol wneud defnydd llawn o'r holl adnoddau sydd ar gael yn y dosbarth a chan yr ysgol cyn disgwyl galw ar adnoddau allanol.

5:21 Mae'r Cod hwn yn cyflwyno model gweithredu ac ymyrryd a fwriadwyd i helpu plant i ddysgu'n annibynnol. Yn benodol, mae'n nodi'r dulliau gweithredu y gallai ysgolion cymunedol, gwirfoddol a sefydledig eu mabwysiadu er mwyn cyflawni eu dyletswydd i ymdrechu i'r eithaf ar ran plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mewn llawer o achosion, bydd y camau a gymerir yn golygu bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu. Dim ond yn achos plant y mae eu cynnydd yn dal i achosi pryder y dylid cymryd camau ychwanegol. I blant yn y cyfnod cynradd, mae'r Cod hwn yn argymhell y dylai'r ysgol, pan ganfyddir bod gan blentyn anghenion addysgol arbennig, ymyrryd fel y disgrifir isod yn *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*.

5:22 Nid camau ar y ffordd tuag at asesiad statudol fydd yr ymyriadau hyn fel rheol. Nid rhwystrau ydynt chwaith i'w clirio cyn y gellir gwneud asesiad statudol. Bydd ar rai plant angen llai yn hytrach na mwy o help ychwanegol os bydd yr ymyriadau'n llwyddiant. Ffordd yw'r ymyriadau o gyfateb darpariaeth addysgol arbennig i anghenion y plentyn, ac maent felly'n rhan o'r cylch parhaus a systematig o gynllunio, gweithredu ac adolygu o fewn yr ysgol i alluogi pob plentyn i ddysgu a gwneud cynnydd.

5:23 Gall arferion da fod ar lawer o ffurfiau gwahanol. Efallai y bydd angen i hyd yn oed ysgolion sy'n penderfynu glynu'n glôs at fodel y Cod wneud addasiadau i adlewyrchu eu hamgylchiadau neilltuol. Mae'r model yn berthnasol i ysgolion cynradd a gynhelir ac eithrio ysgolion arbennig ond efallai y byddai ysgol gynradd wledig fechan yn ei weithredu mewn ffordd wahanol i ysgol drefol fawr, er enghraifft. Serch hynny, mae'r model yn cynnwys yr egwyddorion a nodir isod, sy'n ganolog i'r Cod hwn ac y mae'n **rhaid** i bob ysgol roi sylw iddynt:

- **dylai'r ddarpariaeth ar gyfer plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig gyfateb i natur ei anghenion**
- **dylai anghenion addysgol arbennig plentyn, y camau a gymerir a'r canlyniadau gael eu cofnodi'n rheolaidd**

Cadw cofnodion

5:24 Dylai ysgolion gofnodi'r camau a gymerir i ddiwallu anghenion plant unigol. Cydlynnydd AAA yr ysgol ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cadw'n briodol a'u bod ar gael yn ôl yr angen. Os yw ysgolion yn cyfeirio plentyn am asesiad statudol, dylent roi cofnod o'u gwaith gyda'r plentyn i'r AALL gan gynnwys yr adnoddau neu'r trefniadau arbennig y maent eisoes wedi eu darparu. Efallai y bydd AALLau ac ysgolion am ystyried defnyddio arddull cytunedig ar gyfer Cynlluniau Addysg Unigol pan geir *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*. Gall hyn fod yn neilltuol o fuddiol o ran sicrhau bod gwybodaeth yn trosglwyddo'n effeithiol rhwng ysgolion. O dan Reoliadau Addysg (Cyflawniadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) 1997 (fel y'u

diwygiwyd) mae'n ofynnol i ysgolion roi cofnodion llawn y disgybl i'r ysgol a fydd yn ei dderbyn hyd yn oed os nad yw'r ysgol newydd yn gofyn amdanynt. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys yr holl wybodaeth a gedwir gan y Cydlynnydd AAA gan gynnwys Cynlluniau Addysg Unigol.

5:25 Yn ychwanegol at y wybodaeth a gofnodir gan bob ysgol am bob plentyn, dylai cofnod neu broffil plentyn sydd ag AAA gynnwys gwybodaeth am gynnydd ac ymddygiad y plentyn a ddarparwyd gan yr ysgol ei hun, gan sefydliad blynyddoedd cynnar y plentyn neu ysgol flaenorol, gan y rhieni, a chan y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Dylai hefyd gynnwys canfyddiad y plentyn ei hun o unrhyw anawsterau a sut y gellid mynd i'r afael â nhw. Efallai hefyd y bydd yn rhaid cofnodi gwybodaeth yn y proffil am anghenion y plentyn mewn perthynas â'r strategaethau cyffredinol a ddefnyddir i'w alluogi i fanteisio ar y cwrwllwm a'r diwrnod ysgol.

5:26 Dylai'r wybodaeth a gesglir ddatgelu canfyddiadau gwahanol y bobl y mae a wnelont â'r plentyn, unrhyw bryderon addysgol y mae angen rhoi sylw iddynt ar unwaith ynghyd â darlun cyffredinol o gryfderau a gwendidau'r plentyn.

Gweithio gydag eraill sy'n darparu cefnogaeth

5:27 Mae gan lawer o blant sydd ag anghenion addysgol arbennig nifer o anawsterau ac mae'n debygol y bydd y plant yn cymryd mwy o amser i gyflawni eu hamcanion addysgol oni cheir partneriaeth rhwng pawb sydd a wnelont â nhw. Felly, er mwyn cefnogi plant sydd ag anghenion arbennig, rhaid sicrhau cydweithio rhwng gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, adrannau gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cefnogi arbenigol yr AALL ac eraill sy'n darparu gwasanaethau cefnogi. Dylai'r holl wasanaethau hyn anelu at ddarparu gwasanaeth integredig i'r plentyn fel bod y ddarpariaeth yn ymddangos yn ddi-fwlch i'r rhieni. Dylai'r gwasanaethau roi gwybodaeth lawn y naill i'r llall am gamau a gymerir i helpu'r plentyn. O dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Addysg 1996 mae'n ofynnol i ysgolion, AALLau, y gwasanaethau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol helpu ei gilydd mewn gwahanol ffyrdd. Ceir canllawiau pellach ar asiantaethau eraill ym Mhennod Deg.

Rhan y gwasanaethau cymdeithasol

5:28 Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r holl wasanaethau lleol a ddarperir gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol (AGCau). Mae ar AGCau ddyletswyddau o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 i ddarparu nifer o wasanaethau i blant yr ystyrir eu bod 'mewn angen' (gweler yr Eirfa). Er nad yw plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig o reidrydd 'mewn angen' yn ôl y diffiniad yn Neddf Plant 1989, mae'r Ddeddf honno yn caniatáu ymdrin mewn modd integredig ag anghenion addysgol, iechyd a lles plant ag anghenion addysgol arbennig sydd 'mewn angen'. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i AALLau ac eraill i helpu adrannau gwasanaethau cymdeithasol os yw plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol (adran 47 o Ddeddf Plant 1989).²⁵

5:29 Dylai athro dynodedig plant sy'n 'derbyn gofal' gydweithio'n agos â'r Cydlynnydd AAA pan fydd gan blentyn AAA. Dylai ysgolion sicrhau hefyd, os yw plentyn yn 'derbyn gofal'²⁶ yr awdurdod lleol, bod gweithiwr cymdeithasol y plentyn ac, os oes modd, y rhieni yn cael eu cynnwys yn addysg eu plentyn ac ym mhob proses sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig.

²⁵ Cyhoeddiad y Cynulliad Cenedlaethol 'Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen' 2001

²⁶ Canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol ar 'Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol'.

Rôl y Cydlynnydd AAA mewn ysgolion cynradd prif ffrwd²⁷

5:30 Mae'r Cydlynnydd AAA, mewn ymgynghoriad â'r pennaeth a'r corff llywodraethu, yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o benderfynu ar ddatblygiad strategol y polisi a'r ddarpariaeth AAA yn yr ysgol er mwyn gwella cyflawniadau disgyblion sydd ag AAA. Y Cydlynnydd AAA sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am roi'r polisi AAA ar waith ac am gydlynw'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer plant unigol sydd ag AAA, gan gydweithio'n agos â staff, rhieni a gofalwyr, ac asiantaethau eraill. Mae'r Cydlynnydd AAA hefyd yn rhoi arweiniad proffesiynol cysylltiedig i'w gydweithwyr gyda'r nod o sicrhau addysg o safon uchel ar gyfer plant ag AAA.

5:31 Gyda chefnogaeth y pennaeth a chydweithwyr, mae'r Cydlynnydd AAA yn ceisio datblygu ffyrdd effeithiol o oresgyn y rhwystrau sy'n llesteirio dysgu a chynnal addysgu effeithiol drwy ddadansoddi ac asesu anghenion plant, drwy fonitro ansawdd yr addysgu a safonau cyflawniadau'r disgyblion, a thrwy osod targedau ar gyfer gwelliannau. Dylai'r Cydlynnydd AAA gydweithio â chydlynwyr y cwricwlwm fel bod yr un flaenoriaeth yn cael ei rhoi i addysg pob plentyn, a bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn y modd sy'n creu'r effaith fwyaf.

5:32 Mewn ysgolion cynradd prif ffrwd, gall cyfrifoldebau allweddol y Cydlynnydd AAA gynnwys:

- **goruchwyllo gweithrediad polisi AAA yr ysgol o ddydd i ddydd**
- **cydlynw'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig**
- **cysylltu â chydathrawon a'u cynghori**
- **rheoli cynorthwywyr cefnogi dysgu**
- **goruchwyllo'r cofnodion am bob plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig**
- **trafod gyda rhieni plant sydd ag anghenion addysgol arbennig**
- **cyfrannu at hyfforddiant mewn swydd y staff**
- **trafod gydag asiantaethau allanol gan gynnwys gwasanaethau cefnogi a seicoleg addysg yr AALL, y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, a chyrrff gwirfoddol.**

Yr amser sy'n ofynnol i Gydlynw'r AAA

5:33 Bydd angen i gyrrff llywodraethu a phenaethiaid roi ystyriaeth ofalus i amserlen y Cydlynnydd AAA yng ngoleuni'r Cod ac yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael i'r ysgol. Mae profiad yn dangos bod angen amser ar Gydlynwyr AAA ar gyfer : cynllunio a chydlynw y tu allan i'r ystafell ddosbarth; cadw cofnodion priodol yn gynnwys cofnod o blant sy'n cymryd rhan yn Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a rhai sy'n destun datganiad; dysgu disgyblion sydd ag AAA; arsylwi ar ddisgyblion yn y dosbarth heb eu dysgu; rheoli, cefnogi a hyfforddi Cynorthwywyr Cefnogi Dysgu; trafod gyda chydweithwyr a chyd sefydliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion uwchradd. Mae'n ddymunol bod ffôn ac ystafell gyfweld ar gael os oes modd. Mewn llawer o ysgolion, mae'r corff

27 Mae cyhoeddiad yr Awdurdod Hyfforddi Athrawon, 'Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Addysg Arbennig' yn rhoi canllawiau ar hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Cydlynwyr AAA.

llywodraethol wedi gallu caniatáu i staff gweinyddol dreulio peth amser yn helpu'r Cydlynnydd AAA, gan alluogi'r Cydlynnydd AAA i ddefnyddio'i amser yn fwy effeithiol.

5:34 Yn y rhan fwyaf o ysgolion bydd dyletswyddau'r Cydlynnydd AAA yn gyfrifoldeb penodol un aelod o'r staff. Yn nhermau cyfrifoldeb, mae rôl y Cydlynnydd AAA o leiaf gyfwerth â rôl cydlynnydd cwricwlwm. Mae'r gwaith yn cymryd amser ac felly, fel rheol, ni ddylai'r Cydlynnydd AAA fod yn gyfrifol am feysydd eraill trwy'r ysgol gyfan. Mae llawer o ysgolion o'r farn ei bod yn effeithiol i'r Cydlynnydd AAA fod yn aelod o'r uwch dîm arwain. Mewn ysgolion bach iawn, gallai fod gofyn i'r pennaeth neu'r dirprwy ymgymryd â rôl y Cydlynnydd AAA, ond dylid ystyried penderfyniad o'r fath yn ofalus iawn.

5:35 Mae'n arfer da i gostau'r Cydlynnydd AAA (neu'r rhannau hynny o waith deilydd y swydd a neilltuir ar gyfer dyletswyddau Cydlynnydd AAA) gael eu rhoi yn erbyn cyllideb graidd neu sylfaenol yr ysgol yn hytrach nag yn erbyn yr arian ychwanegol a roddir i'r ysgol i gwrdd ag anghenion neilltuoel plant sydd ag AAA.

5:36 Dylai penaethiaid a llywodraethwyr gefnogi'r Cydlynnydd AAA o ran defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar gyfer systemau rheoli AAA ac i baratoi a chofnodi Cynlluniau Addysg Unigol. Dylai penaethiaid sicrhau hefyd lle bo modd bod y Cydlynnydd AAA yn gallu cyfathrebu â Chydlynwyr AAA eraill trwy'r Fforwm Cydlynwyr AAA a gydlynir gan y 'British Educational and Technology Communications Agency' (BECTA).²⁸

Monitro cynnydd plant

5:37 Mae'r ffordd y mae ysgol yn cwrdd ag anghenion y plant **i gyd** yn dylanwadu'n uniongyrchol ar natur yr help ychwanegol y mae ei angen ar blant sydd ag anghenion addysgol arbennig, a phryd y bydd angen help ychwanegol. Mae'r allwedd i ddiwallu anghenion pob plentyn i'w chanfod yng ngwybodaeth yr athro am sgiliau a gallu'r plant ac yng ngallu'r athro i ddefnyddio'r wybodaeth hon i ganfod ffyrdd o ddarparu cyfleoedd i bob plentyn fanteisio ar y cwricwlwm.

5:38 Mater i ysgolion unigol yw penderfynu pa ddulliau y dylent eu defnyddio i ddiwallu anghenion pob plentyn, i arsylwi ar eu cynnydd a'i asesu, ac i benderfynu ar natur y ddarpariaeth addysgol arbennig y dylid ei gwneud. Mae'n hanfodol bod y dulliau hyn yn cael eu rheoli a'u monitro'n ofalus, a bod yna drefniadau effeithiol i'r staff gyfathrebu a thrafod gyda'i gilydd.

5:39 Dylai system ysgol ar gyfer arsylwi ar gynnydd plant unigol a'i asesu roi gwybodaeth am feysydd lle nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd boddhaol er bod yr arddull addysgu wedi ei wahaniaethu. Yn ogystal ag arsylwi fel hyn, dylid defnyddio gwybodaeth a gasglwyd dros amser am gryfderau a gwendidau plentyn unigol. Gyda'r dystiolaeth hon, gall athrawon dosbarth ddod i deimlo nad yw'r strategaethau y maent yn eu defnyddio gyda'r plentyn ar y pryd yn peri i'r plentyn ddysgu mor effeithiol ag sy'n bosibl. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen iddynt ymgynghori â'r Cydlynnydd AAA i ystyried beth arall y gellid ei wneud. Y man cychwyn bob amser fydd adolygu'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio ar y pryd ac ystyried sut y gellid datblygu'r rhain. Gallai'r adolygiad arwain i'r casgliad bod ar y disgybl angen help y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael fel arfer yn y dosbarth neu'r pwnc hwnnw. Dylid rhoi ystyriaeth wedyn i helpu'r disgybl trwy *Gweithredu gan yr Ysgol*.

28 Ceir mynediad i Fforwm y Cydlynwyr AAA trwy fynd i www.becta.org.uk/senco/sources/senfor ac i fforwm Cymraeg trwy fynd i <http://www.becta.org.uk/inclusion/discussion/fforwmaaa.html>

Mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i roi gwybod i rieni'r plentyn bod darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei gwneud ar gyfer y plentyn gan fod ganddo/ganddi AAA.

Gweler Adran 317A, Deddf Addysg 1996

5:40 Gan fod y rhan fwyaf o ysgolion mewn cysylltiad â rhieni o ddydd i ddydd, nhw sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i ddweud wrth rieni bod eu plentyn yn cael darpariaeth addysgol arbennig gan fod ganddo/ganddi AAA. Dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n annog y rhieni i gyfrannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u plentyn, ac i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt am anghenion eu plentyn a'r ddarpariaeth a wneir ar ei gyfer/chyfer. Er mai cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw sicrhau bod y rhieni'n cael gwybod, fel rheol dylid dirprwyo'r gwaith i'r pennaeth a fydd yn penderfynu pa ran y dylai aelodau eraill o'r staff ei chwarae o ran rhoi gwybod i'r rhieni.

5:41 Y prawf allweddol ar gyfer gweithredu yw tystiolaeth nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd digonol fel y mae. Ni ddylid tybio y bydd pob plentyn yn symud ymlaen ar yr un cyflymder. Mae'n rhaid barnu ym mhob achos beth y mae'n rhesymol disgwyl i'r plentyn neilltuoel hwnnw ei gyflawni. Os nad yw'r cynnydd yn ddigonol, bydd angen cymryd camau ychwanegol neu wahanol i alluogi'r plentyn i ddysgu'n fwy effeithiol. Beth bynnag yw lefel anawsterau disgyblion, y prawf allweddol sy'n dangos i ba raddau y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu yw hyn: a ydynt yn gwneud cynnydd digonol ai peidio?

5:42 Gellir diffinio cynnydd digonol mewn sawl ffordd. Er enghraifft, gallai fod yn gynnydd sy'n:

- cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn a'i gyfoedion
- atal y bwlch cyrhaeddiad rhag lledu
- debyg i gynnydd cyfoedion sy'n dechrau o'r un man cychwyn o ran cyrhaeddiad, ond sy'n llai na chynnydd y rhan fwyaf o'i gyfoedion
- cyfateb i gyfradd cynnydd y plentyn o'r blaen neu'n rhagori ar hynny
- sicrhau ei fod yn gallu cymryd rhan yn y cwricwlwm cyfan
- dangos gwelliant mewn sgiliau hunan-gymorth, cymdeithasol neu bersonol
- dangos gwelliannau yn ymddygiad y disgybl.

Gweithredu gan yr Ysgol

5:43 Pan fydd athro dosbarth neu'r Cydlynnydd AAA yn canfod bod gan blentyn anghenion addysgol arbennig, dylai'r athro dosbarth baratoi ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm gwahaniaethol a strategaethau arferol yr ysgol ac yn wahanol iddynt (*Gweithredu gan yr Ysgol*).

5:44 Ymysg y ffactorau sy'n peri ymyrryd ar ffurf Gweithredu gan yr Ysgol gallai fod pryder yr athro neu eraill, a hwnnw wedi ei seilio ar dystiolaeth, am blentyn sydd, er iddo gael cyfleoedd dysgu gwahaniaethol:

- yn gwneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, hyd yn oed pan fo'r dulliau addysgu'n cael eu targedu'n benodol at fan gwan y plentyn

- yn dangos arwyddion ei fod yn cael anhawster i ddatblygu sgiliau llythrennedd neu fathemateg, sy'n arwain at gyrhaeddiad isel mewn rhai meysydd cwricwlaidd
- yn amlygu anawsterau emosiynol neu ymddygiadol parhaus nad ydynt yn gwella o ddefnyddio technegau rheoli ymddygiad arferol yr ysgol
- yn cael problemau synhwyrdd neu gorfforol, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, er bod offer arbennig wedi'u darparu ar ei gyfer
- yn cael anawsterau cyfathrebu a/neu ryngweithio, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd neu ddim o gwbl, er bod cwricwlwm gwahaniaethol wedi'i ddarparu ar ei gyfer.

5:45 Os daw athro dosbarth disgybl i'r casgliad, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, y gall fod angen cefnogaeth bellach ar y plentyn i helpu ei gynnydd, dylai'r athro geisio help y Cydlynnydd AAA. Dylai'r athro a'r Cydlynnydd AAA ystyried y rhesymau pam y mae'r athro'n pryderu ochr yn ochr ag unrhyw wybodaeth am y plentyn sydd ar gael i'r ysgol yn barod.

5:46 Er mwyn helpu i benderfynu pa fath o help ychwanegol y gallai fod ei angen ar y plentyn trwy *Gweithredu gan yr Ysgol* dylai'r athro dosbarth a'r Cydlynnydd AAA gasglu'r holl wybodaeth sydd ar gael am y plentyn a cheisio gwybodaeth ychwanegol gan y rhieni. Mewn rhai achosion, efallai bod gweithwyr proffesiynol o'r gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol eisoes yn ymwneud â'r plentyn. Mewn achosion felly mae'n arfer da i'r gweithwyr proffesiynol hyn gadw mewn cysylltiad â'r ysgol gan ddweud beth y maent yn ei wneud. Os nad yw'r gweithwyr proffesiynol hyn wedi bod yn gweithio gyda staff yr ysgol eisoes, dylai'r Cydlynnydd AAA gysylltu â nhw os yw'r rhieni'n cytuno.

5:47 Y Cydlynnydd AAA ddylai arwain y gwaith o asesu cryfderau a gwendidau neilltuol y plentyn ymhellach; cynllunio cefnogaeth ar gyfer y plentyn i'r dyfodol trwy drafodaeth gyda chydweithwyr; a monitro'r camau a gymerir a'u hadolygu wedyn. Dylai athro dosbarth y plentyn barhau i fod yn gyfrifol am weithio gyda'r plentyn o ddydd i ddydd ac am gynllunio a chyflwyno rhaglen unigol. Dylid ymgynghori â'r rhieni bob amser, rhoi gwybod iddynt beth a wneir i helpu'r plentyn, ac am ganlyniad y gweithredu hwn.

5:48 Gellir cynnwys y wybodaeth a gesglir am y plentyn, a manylion yr help ychwanegol a roddir iddo, yng nghofnod unigol y plentyn. Yn ogystal, dylai'r cofnod gynnwys sylwadau blaenorol am y plentyn a wnaed fel rhan o'r systemau asesu a chofnodi ar gyfer pob plentyn.

Natur yr ymyrryd

5:49 Dylai'r Cydlynnydd AAA ac athro dosbarth y plentyn benderfynu ar y *Gweithredu* sy'n ofynnol i helpu'r plentyn i wneud cynnydd yng ngoleuni ei asesiad blaenorol. Weithiau mae disgwyl y bydd yr help hwn ar ffurf staff ychwanegol fel y gellir rhoi hyfforddiant un-i-un i'r plentyn. Fodd bynnag, efallai nad hon fydd y ffordd orau o helpu'r plentyn. Efallai y byddai'n well darparu deunyddiau dysgu gwahanol neu gyfarpar arbennig; cyflwyno rhywfaint o gefnogaeth grŵp neu gefnogaeth unigol; caniatáu i oedolyn neilltuo rhagor o amser yn dyfeisio natur yr ymyriad a gynllunnir ac yn monitro ei effeithiolrwydd; neu ymgymryd â datblygiad a hyfforddiant staff er mwyn cyflwyno strategaethau

mwy effeithiol. Os gellir manteisio'n sydyn ar wasanaethau cefnogi'r AALL i gael cyngor unwaith-yn-unig neu gyngor achlysurol am strategaethau neu gyfarpar neu i gael hyfforddiant staff, efallai y bydd modd darparu ymyriadau effeithiol heb fod angen cyfraniadau rheolaidd na pharhaus gan asiantaethau allanol.

Cynlluniau Addysg Unigol

5:50 Dylid cofnodi'r strategaethau a ddefnyddir i alluogi'r plentyn i wneud cynnydd mewn Cynllun Addysg Unigol. Ceir canllawiau pellach ar reoli Cynlluniau Addysg Unigol a Chynlluniau Addysg Grŵp yn Llawlyfr Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA. Dylai'r CAU gynnwys gwybodaeth am:

- y targedau tymor byr a osodir ar gyfer y plentyn neu gan y plentyn
- y strategaethau addysgu sydd i'w defnyddio
- y ddarpariaeth y bwriedir ei gwneud
- pa bryd y mae'r cynllun i gael ei adolygu
- meini prawf llwyddiant a/neu ymadael
- canlyniadau (i'w cofnodi pan adolygir y CAU).

5:51 Yr unig bethau y dylai'r CAU eu cofnodi yw'r hyn sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i gynllun y cwricwlwm gwahaniaethol, a sefydlwyd fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer y plant i gyd. Dylid ysgrifennu'r CAU yn gryno gan ganolbwyntio ar dri neu bedwar targed unigol, wedi eu dewis o blith y rhai sy'n ymwneud â meysydd allweddol cyfathrebu, llythrennedd, mathemateg, a sgiliau ymddygiadol a chymdeithasol sy'n cyfateb i anghenion y plentyn. Dylid trafod y CAU gyda'r plentyn a'r rhieni.

5:52 Lle bo plentyn sydd wedi ei ddynodi ag AAA mewn perygl difrifol o golli diddordeb yn llwyr neu gael ei wahardd dylai'r CAU adlewyrchu strategaethau priodol i ddiwallu ei anghenion²⁹. Ni ddylid defnyddio Cynllun Cefnogi Bugeiliol i ddisodli'r ymateb graddoledig i anghenion addysgol arbennig.

Adolygu CAUau

5:53 Dylid adolygu CAUau o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Yn ddelfrydol, dylid eu hadolygu bob tymor, neu'n amlach yn achos rhai plant. Gallai o leiaf un adolygiad y flwyddyn ddigwydd mewn Noson Rhieni arferol, er y dylai ysgolion gydnabod y byddai'n well gan rai rhieni gael cyfarfod preifat. Nid oes raid i'r adolygiadau fod yn or-ffurfiol, ond dylid ceisio barn y rhieni am gynnydd y plentyn a dylid ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses adolygu. Dylai ysgolion annog rhieni i fynegi eu barn. Os oes modd yn y byd, dylai'r plentyn hefyd gymryd rhan yn y broses adolygu ac yn y gwaith o bennu'r targedau. Os na fydd y plentyn yn cymryd rhan yn yr adolygiad, dylid ystyried ei farn/barn hyd y bo'n hysbys mewn unrhyw drafodaeth.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

5:54 Mae'n debygol mai o ganlyniad i benderfyniad gan y Cydlynnydd AAA a chydweithwyr, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, mewn cyfarfod i adolygu CAU y plentyn, y gwneir cais am help gan wasanaethau allanol. Dylai ysgolion bob amser ymgynghori ag arbenigwyr pan fyddant yn gweithredu ar ran plentyn trwy

²⁹ Gwelir y canllawiau yng Nghylchlythyr 3/99 y Cynulliad Cenedlaethol 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol'.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Ond nid yw'n rhaid cyfyngu cyfraniad arbenigwyr i blant o'r fath. Gall arbenigwyr allanol chwarae ran bwysig yn canfod anghenion addysgol arbennig yn gynnar iawn ac yn rhoi cyngor i ysgolion ynglŷn â darpariaeth effeithiol a gynllunnir i atal anghenion mwy sylweddol rhag datblygu. Gallant weithredu fel ymgynghorwyr a bod yn ffynhonnell cyngor mewn-swydd i bob athro ar strategaethau dysgu a rheoli ymddygiad.

5:55 Pan geir *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, bydd gwasanaethau cefnogi allanol a ddarperir gan yr AALL a chan asiantaethau allanol, yn gweld y plentyn fel rheol, yn yr ysgol os yw hynny'n briodol ac yn ymarferol, fel y gallant gynghori athrawon am CAUau newydd gyda thargedau ffres a strategaethau cysylltiedig, darparu asesiadau mwy arbenigol a all fod o gymorth wrth gynllunio a mesur cynnydd y plentyn, rhoi cyngor ar ddefnyddio strategaethau neu ddeunyddiau newydd neu arbenigol ac, mewn rhai achosion, ddarparu cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau penodol. Bydd y mathau o gyngor a chefnogaeth sydd ar gael i ysgolion yn amrywio yn ôl polisïau lleol.

5:56 Gellid penderfynu dilyn trywydd *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* gan fod y plentyn, er iddo gael rhaglen unigol a/neu gefnogaeth ddwys yn ystod cyfnod o *Weithredu gan yr Ysgol*:

- yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, mewn meysydd penodol dros gyfnod hir
- yn parhau i weithio ar lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n sylweddol is na'r lefel a ddisgwyllir gan blant o oedran tebyg
- yn parhau i gael anhawster i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- yn cael anawsterau emosiynol neu ymddygiadol sy'n amharu'n sylweddol ac yn rheolaidd ar addysg y plentyn ei hun neu addysg grŵp y dosbarth, er bod ganddo ei raglen rheoli ymddygiad ei hun
- ag anghenion synhwraidd neu gorfforol, a bod arno angen cyfarpar arbenigol ychwanegol neu gyngor neu ymweliadau rheolaidd gan wasanaeth arbenigol
- yn cael anawsterau cyfathrebu neu ryngweithio parhaus sy'n amharu ar ddatblygiad perthnasoedd cymdeithasol ac yn rhwystr sylweddol rhag dysgu.

5:57 Lle bo ysgolion yn ceisio help gwasanaethau cefnogi allanol, bydd angen i'r gwasanaethau hynny weld cofnodion y plentyn i ganfod pa strategaethau sydd wedi eu defnyddio'n barod a pha dargedau a osodwyd ac a gyflawnwyd. Wedyn, gallant roi cyngor ynglŷn â thargedau newydd a phriodol i CAU y plentyn a strategaethau cysylltiedig. Efallai y bydd y targedau a osodir yn golygu bod angen trefniadau asesu arbenigol i fesur cynnydd y plentyn. Os felly, efallai y bydd angen arbenigwyr allanol, seicolegwyr addysg er enghraifft, i wneud hyn.

5:58 Dylai'r Cydlynnydd AAA ac athrawon dosbarth, ynghyd â chydlynnydd y cwricwlwm ac arbenigwyr allanol, ystyried nifer o wahanol ddulliau addysgu a chyfarpar a deunyddiau addysgu priodol, gan gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth. Gall yr arbenigwr allanol weithredu fel ymgynghorydd, neu gall ddarparu asesiad arbenigol ychwanegol neu fod â rhan yn y gwaith o ddysgu'r plentyn yn uniongyrchol. Mewn rhai achosion gellir lleihau anghenion addysgol

arbennig y plentyn yn sylweddol trwy sicrhau gwell rheolaeth neu drefniadau amgen wedi'u seilio ar gyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol.

5:59 Dylai'r CAU newydd sy'n deillio o hyn nodi strategaethau newydd i gefnogi cynnydd y plentyn. Er iddynt gael eu datblygu gyda help arbenigwyr allanol, dylai'r strategaethau a nodir yn y CAU gael eu gweithredu, fel rheol, yn rhannol o leiaf a hyd y bo modd, mewn dosbarth cyffredin. Yr athro dosbarth sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gyflwyno'r ymyriadau a gofnodir yn y CAU.

5:60 Os yw'r Cydlynnydd AAA a'r arbenigwr allanol o'r farn bod y wybodaeth a gasglwyd am y plentyn yn annigonol, a'i bod yn rhaid cael cyngor mwy manwl gan weithwyr proffesiynol allanol eraill, yna rhaid ceisio caniatâd rhieni'r plentyn.

5:61 Dylai'r Cydlynnydd AAA nodi yng nghofnodion y plentyn:

- pa gyngor pellach a geisir
- pa gefnogaeth a roddir i'r plentyn hyd nes y daw'r cyngor i law.

Yr ysgol yn gofyn am asesiad statudol

5:62 Os yw'r ysgol yn gofyn i'r AALL am asesiad statudol, bydd y plentyn wedi dangos bod cryn achos i bryderu. Bydd yr AALL yn ceisio tystiolaeth gan yr ysgol bod unrhyw strategaeth neu raglen a weithredwyd ar gyfer y plentyn wedi parhau am gyfnod rhesymol o amser heb lwyddiant ac y rhoddwyd cynnig ar ddulliau gwahanol, neu pam na ddigwyddodd hyn. Bydd angen gwybodaeth ar yr AALL am gynnydd y plentyn dros amser, a bydd angen dogfennau clir hefyd mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig y plentyn ac unrhyw gamau a gymerwyd i ddelio â'r anghenion hynny, yn cynnwys unrhyw adnoddau a ddefnyddiwyd neu drefniadau arbennig a wnaed. Mewn rhai achosion bydd adroddiadau neu gyngor ysgrifenedig ar gael oddi wrth asiantaethau allanol a dylid cynnwys y rheini yn y dogfennau. Fodd bynnag, lle nad oes tystiolaeth o'r fath ni ddylai AALLau fynnu ei bod yn cael ei darparu cyn penderfynu a oes angen asesiad.

5:63 Disgrifir y dystiolaeth y bydd ar yr AALL ei hangen wrth benderfynu a ddylid gwneud asesiad statudol ym Mhennod Saith. Mae'r meini prawf y gall AALLau eu mabwysiadu wrth benderfynu a ddylid llunio datganiad ar blentyn neilltuol wedi eu nodi ym Mhennod Wyth. Dylai cysylltiadau rheolaidd rhwng yr AALL ac ysgolion sicrhau bod pawb yn gwybod pa wybodaeth y bydd yr AALL yn gofyn amdani pan ofynnir am asesiad.

5:64 Erbyn i'r pennaeth ystyried gofyn am asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig plentyn, dylai'r ysgol fod yn gallu darparu tystiolaeth ysgrifenedig neu wybodaeth am:

- **y camau a gymerwyd gan yr ysgol trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy**
- **cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgybl**
- **cofnodion adolygiadau rheolaidd a'u canlyniadau**
- **iechyd y disgybl yn cynnwys ei hanes meddygol lle mae'n berthnasol**
- **lefelau cyrhaeddiad y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys y lefelau mewn llythrennedd a mathemateg**

- **asesiadau addysgol ac asesiadau eraill, er enghraifft gan athro cefnogi arbenigol ymgynghorol neu seicolegydd addysg**
- **barn y rhieni a'r plentyn**
- **ymwneud gweithwyr proffesiynol eraill**
- **unrhyw ymwneud gan y gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaeth lles addysg**

5:65 Y disgrifiad o anhawster dysgu'r plentyn a'i gynnydd ynghyd â gwybodaeth am y ddarpariaeth addysgol arbennig a wnaed fydd yn rhoi'r sylfaen i alluogi'r AALL i ystyried a yw asesiad statudol yn angenrheidiol. Os bu gwasanaethau cefnogi'r AALL ac, yn arbennig, seicolegwyr addysg yr AALL yn ymwneud eisoes ag asesu'r plentyn ac adolygu'r ddarpariaeth, dylai'r AALL allu penderfynu'n weddol gyflym a oes angen asesiad statudol. Yn y cyfamser – a thra bo unrhyw asesiad statudol dilynol yn cael ei wneud – dylai'r plentyn barhau i gael ei gefnogi trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Newid ysgolion

5:66 Pan fo plant yn newid ysgol, naill ai ar ddiwedd cyfnod addysgol neu ar unrhyw adeg arall, mae gofyn i ysgolion cynradd drosglwyddo cofnodion ysgol pob disgybl cyn pen 15 diwrnod ar ôl i enw'r plentyn ddod oddi ar gofrestr yr ysgol.³⁰ Fodd bynnag, pan wneir trefniadau trosglwyddo ymlaen llaw mae'n arfer da i'r wybodaeth gael ei darparu'n ddigon buan fel y gall yr ysgol dderbyn gynllunio'n briodol. Dylai ysgolion uwchradd neu ysgol gynradd newydd gael cofnodion ysgol pob disgybl y mae eu hysgolion cynradd wedi canfod bod ganddynt anghenion addysgol arbennig. Pan dderbynnir disgybl fel hyn i ysgol newydd, dylai fod gan yr ysgol lawer o wybodaeth ddefnyddiol am y plentyn, yn cynnwys gwybodaeth gefndir fanwl a gasglwyd ynghyd gan Gydlynnydd AAA yr ysgol gynradd; copïau o CAUau a baratowyd yn gefn i'r ymyriadau trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*; ac unrhyw ddatganiad anghenion addysgol arbennig.

Gweithio gyda phlant sy'n destun datganiad anghenion addysgol arbennig

5:67 Dylid pennu targedau tymor byr ar gyfer pob plentyn sy'n destyn datganiad anghenion addysgol arbennig, boed hynny mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Gan amlaf, caiff y strategaethau ar gyfer cyrraedd y targedau hyn eu nodi mewn CAU. Fel gyda Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, yr unig bethau y dylai'r CAU eu cofnodi yw'r hyn sy'n ychwanegol at gynllun y cwricwlwm gwahaniaethol neu'n wahanol iddo.

Adolygiad blynyddol

5:68 Eglurir ym Mhennod Naw pa ddulliau gweithredu sydd i'w dilyn wrth adolygu'r datganiadau bob blwyddyn. Serch hynny, ceir adegau yng ngyrfa ysgol plentyn pryd y gall fod angen amrywio'r trefniadau ar gyfer yr adolygiadau blynyddol.

5:69 Dylai pawb sy'n ymwneud â'r plentyn feddwl yn ofalus am oblygiadau symud o'r naill ysgol i'r llall ar ddiwedd cyfnod addysgol. Mae cynllunio ymlaen

30 Rheoliadau Addysg (Cofnodion Disgyblion) (Cymru) 2001

llaw yn hanfodol bwysig. Dylai'r symud gael ei ystyried i ddechrau yn y cyfarfod adolygu cyn y flwyddyn olaf yn yr ysgol bresennol. Felly bydd angen dechrau ystyried symud o addysg gynradd i addysg uwchradd yn adolygiad Blwyddyn 5.

5:70 Yn ystod adolygiad Blwyddyn 5 dylai fod yn bosibl, gan amlaf, roi argymhellion clir ynglŷn â'r math o ddarpariaeth y bydd ar y plentyn ei hangen yn y cyfnod uwchradd. Yna, bydd modd i'r rhieni ymweld ag ysgolion uwchradd ac ystyried opsiynau priodol tua'r un pryd â rhieni eraill.

5:71 Mewn nifer fechan iawn o achosion, efallai na fydd yr opsiynau'n glir ar adeg adolygiad Blwyddyn 5, a gall fod angen cynnal adolygiad interim neu adolygiad blynyddol cynnar yn hydref Blwyddyn 6. Yn anaml iawn, gall anghenion plentyn newid i'r fath raddau ar ôl adolygiad Blwyddyn 5 fel y bydd yn rhaid newid yr argymhellion ynglŷn â'r math o ddarpariaeth. Dylid gwneud hyn drwy adolygiad interim neu adolygiad Blwyddyn 6.

5:72 Felly, yn achos pob plentyn sy'n trosglwyddo ar ddiwedd cyfnod addysgol, ac eithrio o sefydliadau blynyddoedd cynnar, dylid gwneud argymhelliad amodol yn y flwyddyn cyn y trosglwyddiad fel y gall rhieni ystyried opsiynau ar yr un pryd â rhieni eraill. Yna, mae'n **rhaid** newid datganiad y plentyn erbyn 15 Chwefror yn y flwyddyn drosglwyddo yng ngoleuni argymhellion yr adolygiad blynyddol, barn a dewis y rhieni a'r ymateb i ymgynghoriad yr AALL â'r ysgol neu'r ysgolion perthnasol. Ni fydd angen cynnal adolygiad blynyddol y plant hyn yn gynharach nag arfer oherwydd gellir defnyddio'r wybodaeth o'r adolygiad blaenorol. Felly, dylai'r holl drefniadau ar gyfer lleoliad plentyn fod wedi'u cwblhau erbyn dechrau'r mis Mawrth cyn y trosglwyddo fan bellaf. Mae'n bwysig bod lleoliadau'n cael eu penderfynu'n derfynol cyn gynted ag y bo modd fel y gellir gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer y lleoliad a sicrhau bod y rhieni a'r plant yn teimlo'n hyderus a sicr am y trefniadau.

5:73 Dylid gwahodd Cydlynnydd AAA yr ysgol sy'n derbyn i fynychu adolygiad blynyddol olaf disgyblion â datganiadau mewn ysgolion cynradd lle bo'r ysgol honno wedi'i henwi. Wedyn gall yr ysgol sy'n derbyn gynllunio ymateb cwricwlaidd gwahaniaethol a CAU priodol a fydd yn cychwyn ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Bydd hefyd yn golygu y gellir tawelu meddyliau'r disgybl a'r rhieni y ceir trosglwyddiad effeithiol a chefnogol.

6 Canfod, Asesu a Darparu yn y Sector Uwchradd

Cyflwyniad

6:1 Bydd pob ysgol uwchradd brif ffrwd yn derbyn disgyblion y canfuwyd eisoes fod ganddynt anghenion addysgol arbennig. Bydd rhai o'r disgyblion wedi'u dynodi gan eu hysgol gynradd ac wedi cael help trwy *Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, a bydd gan nifer fechan ddatganiadau, o bosib. Bydd angen i ysgolion uwchradd fod yn ymwybodol y gall unrhyw ddisgybl a dderbynnir i Flwyddyn 7 fod ag anghenion addysgol arbennig sydd heb eu canfod. Dylent gydnabod hefyd bod anghenion addysgol arbennig plant ar gontinwrm ac y gallant, hefyd, newid dros amser; ac y gall y cyfnod o symud i ysgol newydd ac addasu iddi, sy'n gyfnod pwysig i bob disgybl, fod yn her neilltuol i ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig.

6:2 Mae darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig yn fater i'r ysgol gyfan. Yn ogystal â'r corff llywodraethu, mae gan bennaeth yr ysgol, y Cydlynnydd AAA a'r tîm cefnogi dysgu, a phob aelod arall o'r staff gyfrifoldebau gweithredol pwysig. *Mae pob athro yn athro ar blant ag anghenion addysgol arbennig*. Felly, mae dysgu plant fel hyn yn gyfrifoldeb i'r ysgol gyfan, a rhaid i'r ysgol gyfan ymateb. Yn ymarferol, mater i ysgolion yw'r ffordd y caiff y cyfrifoldeb hwn ei arfer gan staff unigol, a rhaid penderfynu arno yng ngoleuni amgylchiadau a maint, blaenoriaethau ac ethos yr ysgol.

6:3 Yn ganolog i waith pob dosbarth a phob pwnc ceir cylch parhaus o gynllunio, addysgu, asesu a gwerthuso sy'n cymryd holl alluoedd, doniau a diddordebau'r disgyblion i ystyriaeth. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu ac yn gwneud cynnydd o fewn y trefniadau hyn.

6:4 Mae'n ofynnol i bob ysgol gynllunio cwricwlwm sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n statudol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Dylai athrawon gyflwyno rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol *mewn ffyrdd sy'n cwrdd ag anghenion dysgu neilltuol eu disgyblion*.³¹ Caniateir rhai amrywiadau yn y gofynion yng nghyfnod allweddol 4 trwy ddefnyddio'r rheoliadau o dan Adran 363 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n caniatáu datgymhwyso pynciau sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol at ddibenion penodol.³²

6:5 Trwy asesu disgyblion yn erbyn disgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob pwnc gall yr ysgol ystyried cyrhaeddiad a chynnydd y disgybl unigol yn erbyn y lefelau disgwyliedig ar gyfer y rhan fwyaf o'u cyfoedion. Efallai bod anghenion addysgol arbennig gan ddisgyblion y mae eu cyrhaeddiad cyffredinol neu eu cyrhaeddiad mewn pynciau penodol yn sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir.

31 Mae Gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymru) 2000 yn cynnwys datganiad mynediad sy'n caniatáu hyblygrwydd i alluogi athrawon i ddewis defnydd o raglenni astudio cyfnodau allweddol blaenorol neu ddiweddarach os yw hynny'n addas ar gyfer anghenion disgyblion unigol

32 Cwricwlwm Cymru 2000: Cyfnod Allweddol 4 – Canllaw ar gyfer Uwch Reolwyr yn Ysgolion Cymru, ACCAC, 2000

Darpariaeth mewn ysgolion uwchradd³³

6:6 Bydd pob ysgol uwchradd yn dymuno asesu lefelau cyrhaeddiad **pob** disgybl pan fyddant yn cael eu derbyn er mwyn sicrhau eu bod yn adeiladu ar y patrwm dysgu a phrofiad a gafwyd eisoes yn ystod blynyddoedd y plentyn yn y cyfnod cynradd. Dylai ysgolion uwchradd fod yn ymwybodol ei bod yn ofynnol i ysgolion cynradd drosglwyddo cofnodion ysgol pob disgybl iddynt cyn pen 15 diwrnod ar ôl i enw'r plentyn ddod oddi ar gofrestr yr ysgol. Felly, dylai ysgolion uwchradd gael cofnodion ysgol pob disgybl ym Mlwyddyn 7 y canfu eu hysgolion cynradd fod ganddynt anghenion addysgol arbennig. Dylent gael copïau o ddatganiadau disgyblion sy'n trosglwyddo iddynt hefyd.

6:7 Pan dderbynnir disgybl fel hyn i ysgol uwchradd, dylai fod gan yr ysgol lawer o wybodaeth ddefnyddiol am y plentyn, yn cynnwys gwybodaeth gefndir fanwl a gasglwyd ynghyd gan Gydlynedd AAA yr ysgol gynradd; copïau o CAUau a *baratowyd yn gefn i ymyriadau trwy Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*; ac unrhyw ddatganiad anghenion addysgol arbennig. Gall y wybodaeth hon helpu i lywio'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth fugeiliol ar gyfer y plentyn yn ystod ei fisoedd cyntaf yn yr ysgol uwchradd. Mae llawer o ysgolion uwchradd prif ffrwd yn ychwanegu at y wybodaeth a dderbynnir oddi wrth ysgolion cynradd trwy gynnal eu hasesiadau eu hunain o ddisgyblion newydd a dderbynnir.

6:8 Dylai ysgolion wneud defnydd llawn o'r wybodaeth a roddir iddynt gan ysgolion cynradd. Mae'n arfer da i ysgolion uwchradd gadw mewn cysylltiad clôs â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo a threfnu diwrnodau cynefino yn nhymor yr haf ar gyfer disgyblion a fydd yn trosglwyddo. Mae hyn yn help i sicrhau trawsnewid esmwyth a llwyddiannus i bob disgybl. Dylid gwahodd Cydlynwyr AAA uwchradd i fynychu adolygiadau blynyddol Blwyddyn 6 disgyblion sydd â datganiad i sicrhau trawsnewid esmwyth a gwneud yn siŵr bod cwricwlwm y disgybl a'i CAU cyntaf ym Mlwyddyn 7 yn cael eu cynllunio'n briodol..

6:9 Os yw'n hysbys fod gan ddisgybl anghenion addysgol arbennig pan fydd yn cyrraedd yr ysgol, dylai'r pennaeth, y Cydlynedd AAA a chydweithwyr adrannol a bugeiliol:

- **sicrhau bod arddulliau dysgu'r plentyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth**
- **ddefnyddio'r wybodaeth oddi wrth ysgol gynradd y disgybl yn fan cychwyn ar gyfer datblygu cwricwlwm priodol ar gyfer y disgybl**
- **canfod sgiliau'r plentyn a chanolbwyntio sylw arnynt ac amlygu meysydd lle mae angen gweithredu'n fuan i gefnogi'r plentyn yn y dosbarth**
- **sicrhau bod arsylwi ac asesu parhaus yn rhoi atborth rheolaidd i'r holl athrawon a'r rhieni am gyflawniadau a phrofiadau'r disgybl a bod canlyniadau'r asesu hwnnw yn sylfaen ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn addysg y disgybl**
- **sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfleoedd anffurfiol priodol i'r disgybl ddangos yr hyn y mae'n ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud trwy'r rhaglen fugeiliol**

³³ Mae'r term "ysgol uwchradd" yn cyfeirio at unrhyw ysgol uwchradd a gynhelir sy'n ysgol sirol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol. Mae hefyd yn cynnwys ysgolion canol a gynhelir ac ysgolion arbennig cymunedol a sefydledig (ac eithrio ysgolion arbennig mewn ysbytai) sydd â disgyblion oed uwchradd.

- **cynnwys y disgybl yn y gwaith o gynllunio a chytuno ar dargedau i ddiwallu ei (h)anghenion**
- **cynnwys rhieni yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu ffordd o ddysgu ar y cyd rhwng y cartref a'r ysgol.**

Canfod anghenion addysgol arbennig yn fuan

6:10 Ni ellir gor-bwysleisio pwysigrwydd canfod ac asesu anghenion addysgol arbennig yn fuan yn y sector uwchradd hefyd. Po gynharaf y gweithredir, cyntaf yn y byd y gellir darparu help priodol heb darfu'n ormodol ar drefniadaeth yr ysgol, a mwyaf tebygol y mae'r plentyn o allu ymateb. Yn aml, mae ysgolion yn defnyddio dulliau sgrinio neu asesu priodol i'w helpu i ganfod anghenion yn gynnar. Pa systemau bynnag a ddefnyddir, fodd bynnag, ni ddylid edrych ar asesu fel un digwyddiad ond yn hytrach fel proses barhaus.

6:11 Os gwelir mai anawsterau dros dro sydd gan y disgybl, efallai na fydd yn gwneud cynnydd ar yr un cyflymder a'i gyfoedion am gyfnod er y bydd yn gallu dysgu a gwneud cynnydd ochr yn ochr â nhw. Os bydd anawsterau'r plentyn yn llai parod i ymateb i'r ymyriadau a wneir gan yr ysgol, yna gellir dechrau'n gynnar ar y gwaith o ystyried pa help ychwanegol y gall fod ar y plentyn ei angen.

6:12 I helpu i ganfod disgyblion a all fod ag anghenion addysgol arbennig, gall ysgolion fesur cynnydd plant drwy gyfeirio at:

- i. dystiolaeth o arsylwadau ac asesiadau athrawon
- ii. eu perfformiad yn erbyn y disgrifiadau lefelau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol
- iii. dulliau sgrinio ac asesu safonol.

6:13 Dylai ysgolion fod yn agored a pharod eu hymateb hefyd pan fo rhieni yn mynegi pryder, a dylent ystyried unrhyw wybodaeth a roddir gan rieni am eu plentyn. Dylai ysgolion sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r gwasanaeth Partneriaeth â Rhieni Lleol a fydd yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i rieni. Efallai hefyd y bydd rhai pobl ifanc yn codi pryderon am eu cynnydd eu hunain a dylid trin eu barn o ddifrif. Yn ogystal, efallai y daw gweithwyr proffesiynol eraill yn ymwybodol o faterion wrth iddynt weithio gyda phobl ifanc i roi sylw i broblemau a gysylltir yn arbennig â blynyddoedd yr arddegau.

Y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol

6:14 Rhaid bod yn neilltuol o ofalus wrth ganfod ac asesu anghenion addysgol arbennig pobl ifanc nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Rhaid ystyried y person ifanc yng nghyd-destun ei gartref, ei ddiwylliant a'i gymuned. Lle bo ansicrwydd ynglŷn â disgybl unigol, dylai ysgolion fanteisio'n llawn ar unrhyw ffynonellau cynghori lleol sy'n berthnasol i'r grŵp ethnig o dan sylw, gan droi at drefniadau cyswllt cymunedol os oes trefniadau o'r fath yn bod.

6:15 Os nad yw plentyn yn rhugl yn y Gymraeg neu'r Saesneg, rhaid peidio â chymryd bod ganddo/ganddi anawsterau dysgu fel y'u deallir yn y Cod hwn. Ar yr un pryd, pan fo disgyblion sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn araf eu cynnydd, ni ddylid cymryd mai'r iaith yw'r unig reswm; gall fod ganddynt anawsterau dysgu. Dylai ysgolion edrych yn ofalus ar bob agwedd ar berfformiad disgybl mewn gwahanol bynciau i weld a yw'r problemau sydd

ganddo yn y dosbarth i'w priodoli i gyfyngiadau yn ei feistrolaeth ar yr iaith a ddefnyddir yno ynteu a ydynt yn deillio o anghenion addysgol arbennig.

6:16 Dylid mynd ati'n fuan i asesu'n llawn faint o gysylltiad y mae wedi ei gael yn y gorffennol â phob un o'r ieithoedd y mae yn eu siarad, y defnydd a wna ohonynt ar hyn o bryd a'i ruglder ynddynt. Bydd y wybodaeth a geir trwy hyn am ei sgiliau iaith yn sylfaen ar gyfer unrhyw waith pellach gyda'r disgybl i roi help iddo gyda'i anawsterau dysgu ac o ran cynllunio unrhyw gymorth iaith ychwanegol sy'n ofynnol. Os oes gwybodaeth fel hyn ar gael o ysgol gynradd yn achos plant y gwyddys eu bod mewn perygl, dylid gwneud pob ymdrech i gael y wybodaeth honno wrth iddynt drosglwyddo.

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

6:17 Mae'n rhaid i bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol³⁴ sy'n nodi'r meysydd dysgu a'u cynnwys ym mhob cyfnod allweddol. Mae'n sicrhau mynediad i feysydd dysgu hanfodol ac yn darparu ar gyfer datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen ar bobl ifanc i ddod yn ddinasyddion gweithgar a chyfrifol.

6:18 Gall rheolaeth effeithiol, ethos ac amgylchedd dysgu'r ysgol, a'r trefniadau cwricwlaidd, bugeiliol a disgyblu helpu i atal rhai anghenion addysgol arbennig rhag codi, a gwneud eraill yn llai. Bydd gwahaniaethu'r gweithgareddau dysgu y tu mewn i fframwaith y cwricwlwm uwchradd yn helpu ysgolion i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion i gyd. Ni ddylai ysgolion gymryd yn ganiataol bod anawsterau dysgu disgyblion bob amser yn deillio'n llwyr, neu hyd yn oed yn bennaf, o broblemau'r person ifanc ei hunan. Gall cyfraddau cynnydd disgyblion ddibynnu weithiau ar yr hyn a ddysgir iddynt, neu'r ffordd y cânt eu dysgu. Mae arferion yr ysgol ei hun yn gwneud gwahaniaeth – er da neu er drwg. Dylai'r corff llywodraethu, y pennaeth, y Cydlynnydd AAA, penaethiaid adrannau a staff bugeiliol fod yn effro i unrhyw batrymau neilltuol wrth i'r ysgol ganfod a chofnodi anghenion addysgol arbennig neu yn y pryderon a fynegir gan rieni. Efallai y bydd angen i ysgolion ailystyried eu polisiau a'u hymarfer yng ngoleuni patrwm a nifer yr anghenion addysgol arbennig a ganfyddir.

6:19 Dylai athrawon ddefnyddio rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol i ddysgu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n briodol i allu disgyblion unigol. I rai disgyblion bydd yn rhaid dewis gwaith o gyfnodau allweddol cynharach fel y gallant wneud cynnydd a dangos eu bod yn cyflawni.

6:20 Mae Datganiad Mynediad y Cwricwlwm Cenedlaethol yn nodi pa mor bwysig yw galluogi plant i fanteisio ar y Cwricwlwm Cenedlaethol yn gyfan a defnyddio'r hyblygrwydd sydd i'w gael i sicrhau bod y cyfleoedd dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion unigol. Yn ogystal, mae'r gofynion cyffredin yn darparu fframwaith i helpu athrawon i ddefnyddio pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gyd-destunau i ddiwallu anghenion mwy cymhleth y disgyblion.

6:21 Dylai pob ysgol uwchradd ystyried yr opsiynau sydd ar gael yn nhrefniadaeth yr ysgol i alluogi pob disgybl i fanteisio ar y Cwricwlwm Cenedlaethol. Gellir rhoi sylw i wahaniaethu trwy ystyried natur ac amrywiaeth y gweithgareddau a'r gofynion deallusol sy'n cael eu rhoi ar y disgybl unigol. Dylai'r athrawon pwnc gynllunio mewn ffordd hyblyg er mwyn cydnabod anghenion y

34 Mae Gorchmynion Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymru) 2000 yn cynnwys datganiad mynediad sy'n caniatáu hyblygrwydd i alluogi athrawon i ddewis defnydd o raglenni astudio cyfnodau allweddol blaenorol neu ddiweddarach os yw hynny'n addas ar gyfer anghenion disgyblion unigol.

disgyblion i gyd fel unigolion a sicrhau dilyniant, perthnasedd a gwahaniaethu. Mae llawer o ysgolion yn dewis helpu'r gwaith o gynllunio a gwahaniaethu'r cwricwlwm trwy roi disgyblion mewn setiau a ffrydiau yn ofalus. Dylid nodi y gall disgybl unigol wneud cynnydd ar gyflymdra gwahanol mewn pynciau gwahanol ac felly dylid ystyried lleoli disgyblion mewn setiau fesul pwnc. Lle bo disgyblion yn cael eu rhannu'n setiau neu'n ffrydiau, dylid amrywio cynnwys y cwricwlwm neu gyflymdra'r wers i adlewyrchu anghenion y grŵp penodol a ddysgir.

Ymateb graddoledig

6:22 Er mwyn helpu plant sydd ag anghenion addysgol arbennig, dylai ysgolion yn y sector uwchradd fabwysiadu ymateb graddoledig sy'n cwmpasu amryw o strategaethau. Bydd y dull hwn yn debyg iawn i'r un a ddefnyddir mewn ysgolion cynradd. Er bod yr ymateb hwn yn cydnabod bod yna gontinwwm o anghenion addysgol arbennig, mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael yn y dosbarth a chan yr ysgol cyn dod i mewn ag arbenigedd allanol cynyddol, os oes raid, i helpu gyda'r anawsterau y gall disgybl fod yn eu hwynebu.

6:23 Mae'r Cod hwn yn cyflwyno model gweithredu ac ymyrryd a fwriadwyd i helpu disgyblion i ddysgu'n annibynnol; yn enwedig y dulliau gweithredu y gallai ysgolion eu mabwysiadu er mwyn cyflawni eu dyletswydd i ymdrechu i'r eithaf ar ran disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mewn llawer o achosion, bydd y camau a gymerir yn golygu bod anghenion y disgybl yn cael eu diwallu. Dim ond yn achos disgyblion y mae eu cynnydd yn dal i achosi pryder y dylid cymryd camau ychwanegol. I blant yn y cyfnod uwchradd mae'r Cod hwn yn argymhell y dylai'r ysgol, pan ganfyddir bod anghenion addysgol arbennig gan berson ifanc, ymyrryd fel y disgrifir isod trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*. Mae'r model a argymhellir yn debyg iawn i'r hyn sy'n cael ei gymhell ar gyfer y cyfnod cynradd, ond mae'n cymryd y drefniadaeth wahanol mewn addysg uwchradd i ystyriaeth.

6:24 Nid camau ar y ffordd tuag at asesiad statudol fydd yr ymyriadau hyn fel arfer. Nid rhwystrau ydynt chwaith i'w clirio cyn y gellir gwneud asesiad statudol. Bydd ar rai disgyblion angen llai yn hytrach na mwy o help ychwanegol wrth fynd ymlaen os bydd yr ymyriadau'n llwyddiant. Ffordd yw'r ymyriadau o helpu ysgolion a rhieni i gyfateb darpariaeth addysgol arbennig i anghenion y disgybl unigol, ac felly maent yn rhan o'r cylch parhaus a systematig o gynllunio, gweithredu, adolygu a gwerthuso o fewn yr ysgol i alluogi pob disgybl i ddysgu a gwneud cynnydd.

6:25 Gall arferion da fod ar lawer o ffurfiau gwahanol. Efallai y bydd angen i hyd yn oed ysgolion sy'n penderfynu glynu'n glòs at y Cod wneud addasiadau i adlewyrchu eu hamgylchiadau neilltuol. Mae'r model yn berthnasol i ysgolion uwchradd a gynhelir ac eithrio ysgolion arbennig ond efallai y byddai ysgol ddetholiadol neu rannol-ddetholiadol yn ei weithredu mewn ffordd wahanol i ysgol gyfun fawr yng nghanol dinas. Mae'r model yn cynnwys yr egwyddorion a nodir isod, sy'n ganolog i'r Cod hwn ac y dylai pob ysgol roi sylw iddynt:

- **dylai'r ddarpariaeth ar gyfer disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig gyfateb i natur ei anghenion**
- **dylai anghenion addysgol arbennig plentyn, y camau a gymerir a'r canlyniadau gael eu cofnodi'n rheolaidd**

Cadw cofnodion

6:26 Dylai ysgolion gofnodi'r camau a gymerir i ddiwallu anghenion plant unigol. Dylai Cydlynnydd AAA yr ysgol fod yn gyfrifol am sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cadw'n briodol a'u bod ar gael yn ôl yr angen. Os yw ysgolion yn cyfeirio disgybl am asesiad statudol, dylent roi cofnod o'u gwaith gyda'r disgybl i'r AALL, gan gynnwys yr adnoddau neu'r trefniadau arbennig sydd eisoes ar gael i'r disgybl. Efallai y bydd AALLau ac ysgolion am ystyried defnyddio arddull cytunedig ar gyfer CAUau pan geir *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*. Gall hyn fod yn neilltuol o fuddiol o ran sicrhau bod yr un math o wybodaeth yn trosglwyddo'n effeithiol rhwng ysgolion. O dan Reoliadau Addysg (Cofnodion Ysgol) 2000 mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu cofnodion llawn am ddisgyblion i'r ysgol dderbyn hyd yn oed os nad yw'r ysgol newydd yn gofyn amdanynt. Dylai cofnodion o'r fath gynnwys yr holl wybodaeth a gedwir gan y Cydlynnydd AAA gan gynnwys CAUau.

6:27 Yn ychwanegol at y wybodaeth a gofnodir gan ysgolion am bob disgybl, dylai cofnod neu broffil plentyn sydd ag AAA gynnwys gwybodaeth am gynnydd ac ymddygiad y disgybl gan yr ysgol ei hun, gan ysgol gynradd y disgybl neu unrhyw ysgol flaenorol, gan y rhieni, a chan y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac asiantaethau eraill perthnasol. Dylai hefyd gynnwys canfyddiad y disgybl ei hun o unrhyw anawsterau a sut y gellid mynd i'r afael â nhw. Efallai hefyd y bydd yn rhaid cofnodi gwybodaeth yn y proffil am anghenion y plentyn mewn perthynas â'r strategaethau cyffredinol sydd i'w defnyddio i'w alluogi i fanteisio ar y cwricwlwm a'r diwrnod ysgol.

6:28 Dylai'r wybodaeth a gesglir ddatgelu canfyddiadau gwahanol y bobl y mae a wnelont â'r plentyn, unrhyw bryderon addysgol y mae angen rhoi sylw iddynt ar unwaith ynghyd â darlun cyffredinol o gryfderau a gwendidau'r plentyn.

Gweithio gydag eraill sy'n darparu cefnogaeth

6:29 Mae gan lawer o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig nifer o anawsterau ac mae'n debyg y byddant yn cymryd mwy o amser i gyflawni eu hamcanion addysgol oni cheir partneriaeth rhwng pawb sydd a wnelont â nhw. Felly, er mwyn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion arbennig, rhaid sicrhau cydweithio rhwng gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, adrannau gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cefnogi arbenigol yr AALL ac eraill sy'n darparu gwasanaethau cefnogi, yn cynnwys Gyrfa Cymru. Dylai'r holl wasanaethau hyn anelu at ddarparu gwasanaeth integredig i'r plentyn fel bod y ddarpariaeth yn ymddangos yn unedig i'r rhieni a'r disgybl. Dylai'r rhwydwaith o ymarferwyr sicrhau bod yr holl wasanaethau sy'n gweithio gyda'r plentyn yn cael gwybodaeth lawn am y camau a gymerir i'w gefnogi. Mae Deddf Plant 1989 a Deddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar ysgolion, AALLau, y gwasanaethau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i helpu ei gilydd. Ceir canllawiau pellach ar asiantaethau eraill ym Mhennod Deg.

Rhan y gwasanaethau cymdeithasol³⁵

6:30 Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r holl o wasanaethau lleol a ddarperir gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol (AGCau). Mae gan AGCau ddyletswyddau o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 i ddarparu nifer o wasanaethau i blant yr ystyrir eu bod 'mewn angen' (gweler yr Eirfa). Er nad yw plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig o reidrwydd 'mewn angen' yn ôl y

35 Cyhoeddiad y Cynulliad Cenedlaethol 'Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen' (2001).

diffiniad yn Neddf Plant 1989, mae'r Ddeddf honno yn caniatáu ymdrin mewn modd integredig ag anghenion addysgol, iechyd a lles plant ag anghenion addysgol arbennig sydd 'mewn angen'. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i AALLau ac eraill i helpu adrannau gwasanaethau cymdeithasol os yw plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol (adran 27 o Ddeddf Plant 1989).

6:31 Dylai athro dynodedig plant sy'n 'derbyn gofal' gydweithio'n agos â'r Cydlynnydd AAA pan fydd gan blentyn AAA. Dylai ysgolion sicrhau hefyd, os yw plentyn yn 'derbyn gofal'³⁶ yr awdurdod lleol, bod gweithiwr cymdeithasol y plentyn ac, os oes modd, y rhieni yn cael eu cynnwys yn addysg eu plentyn ac ym mhob proses sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig.

Rôl y Cydlynnydd AAA mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd³⁷

6:32 Mae'r Cydlynnydd AAA, mewn ymgynghoriad â'r pennaeth a'r corff llywodraethu, yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o benderfynu ar ddatblygiad strategol y polisi a'r ddarpariaeth AAA yn yr ysgol er mwyn gwella cyflawniadau disgyblion sydd ag AAA. Y Cydlynnydd AAA sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am roi'r polisi AAA ar waith ac am gydlynw'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer disgyblion unigol sydd ag AAA, gan gydweithio'n agos â staff, rhieni, Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill. Mae'r Cydlynnydd AAA hefyd yn rhoi arweiniad proffesiynol cysylltiedig i'w gydweithwyr gyda'r nod o sicrhau addysg o safon uchel ar gyfer disgyblion ag AAA.

6:33 Gyda chefnogaeth y pennaeth a chydweithwyr, mae'r Cydlynnydd AAA yn ceisio datblygu ffyrdd effeithiol o oresgyn y rhwystrau sy'n llesteirio dysgu a chynnal addysgu effeithiol drwy ddadansoddi ac asesu anghenion disgyblion, drwy fonitro ansawdd yr addysgu a safonau cyflawniadau'r disgyblion, a thrwy osod targedau ar gyfer gwelliannau.

6:34 Dylai'r Cydlynnydd AAA gydweithio â Phenaethiaid Adrannau neu Gyfadranau a chydweithwyr bugeiliol i sicrhau bod yr un flaenoriaeth yn cael ei rhoi i addysg pob plentyn, a bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn y modd sy'n creu'r effaith fwyaf.

6:35 Mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd gall cyfrifoldebau allweddol y Cydlynnydd AAA gynnwys:

- **goruchwyllo gweithrediad polisi AAA yr ysgol o ddydd i ddydd**
- **cysylltu â chyd-athrawon a'u cynghori**
- **rheoli'r tim AAA o athrawon a chynorthwywyr cefnogi dysgu**
- **cydlynw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig**
- **goruchwyllo'r cofnodion am bob disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig**
- **trafod gyda rhieni disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig**
- **cyfrannu at hyfforddiant mewn swydd y staff**

³⁶ Canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol 'Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol'

³⁷ Mae cyhoeddiad yr Awdurdod Hyfforddi Athrawon, 'Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Addysg Arbennig' yn rhoi canllawiau ar hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Cydlynwyr AAA.

- **trafod gydag asiantaethau allanol gan gynnwys gwasanaethau cefnogi a seicoleg addysg yr AALL, Gyrfa Cymru, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, a chyrff gwirfoddol.**

Yr amser sy'n ofynnol i Gydlynwyr AAA

6:36 Bydd angen i gyrff llywodraethu a phenaethiaid roi ystyriaeth ofalus i amserlen y Cydlynwyr AAA yng ngoleuni'r Cod ac yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael i'r ysgol. Mae profiad yn dangos bod angen amser ar Gydlynwyr AAA ar gyfer: cynllunio a chydlynwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth; cadw cofnodion priodol yn cynnwys cofnod o blant sy'n cymryd rhan yn *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* a rhai sy'n destun datganiad; dysgu plant sydd ag AAA; arsylwi ar ddisgyblion yn y dosbarth heb eu dysgu; rheoli defnydd effeithiol o'r athrawon eraill o fewn y tîm AAA; rheoli, cefnogi a hyfforddi Cynorthwyr Cefnogi Dysgu; cysylltu â chydweithwyr adrannol a bugeiliol; trafod gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwyd o'r ysgol a gweithio gyda Gyrfa Cymru i gynllunio ar gyfer gadael yr ysgol. Mae'n ddymunol bod ffôn ac ystafell gyfnewid ar gael os oes modd. Mewn llawer o ysgolion mae'r corff llywodraethol wedi gallu caniatáu i staff gweinyddol dreulio peth amser yn helpu'r Cydlynwyr AAA, gan alluogi'r Cydlynwyr AAA i ddefnyddio ei arbenigedd yn fwy effeithiol.

6:37 Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd bydd Cydlynwyr AAA yn gyfrifoldeb penodol un aelod o'r staff. Mae'r gwaith yn cymryd amser ac felly, fel rheol, ni ddylai'r Cydlynwyr AAA fod yn gyfrifol am feysydd eraill trwy'r ysgol gyfan. O ran lefel y cyfrifoldeb ar amser sy'n ofynnol ar gyfer y dasg, mae rôl y Cydlynwyr AAA yn cyfateb yn fras i rôl Pennaeth Adran neu Gyfadran neu Bennaeth Blwyddyn. Mae llawer o ysgolion o'r farn ei bod yn effeithiol i'r Cydlynwyr AAA fod yn aelod o'r uwch dîm rheoli.

6:38 Mae'n arfer da i gostau'r Cydlynwyr AAA (neu'r rhannau hynny o waith deilydd y swydd a neilltuir i ddyletswyddau Cydlynwyr AAA) gael eu rhoi yn erbyn cyllideb graidd neu sylfaenol yr ysgol yn hytrach nag yn erbyn yr arian ychwanegol a roddir i'r ysgol i gwrdd ag anghenion neilltuoel plant sydd ag AAA.

6:39 Dylai penaethiaid a llywodraethwyr gefnogi'r Cydlynwyr AAA o ran defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar gyfer systemau rheoli AAA ac i baratoi a chofnodi CAUau. Dylai penaethiaid sicrhau hefyd lle bo modd bod y Cydlynwyr AAA yn gallu cyfathrebu â Chydlynwyr AAA eraill er enghraifft drwy'r Fforwm Cydlynwyr AAA a gydlynir gan y 'British Educational and Technology Communications Agency' (BECTA).³⁸ Dylai strwythurau rheoli'r ysgol sicrhau bod modd cyflawni holl swyddogaethau'r Cydlynwyr AAA yn effeithiol.

6:40 Ceir nifer o strwythurau trefniadol mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd, sy'n helpu i weithredu'r polisi AAA yn effeithiol. Gan fod ysgolion uwchradd yn aml yn fawr iawn, mae gan lawer o ysgolion staff, ychwanegol at y Cydlynwyr AAA, sydd â chyfrifoldebau AAA. Pa drefniadau bynnag sydd mewn grym, rhaid i bawb o'r staff wybod a deall beth yw eu rôl, a dylai'r rheolwyr sicrhau ei bod yn rhan annatod o swydd ddisgrifiadau aelodau perthnasol y staff.

Monitro cynnydd disgyblion

6:41 Mae'r ffyrdd a ddefnyddir gan ysgol uwchradd i ddiwallu anghenion unigol y disgyblion i **gyd** yn dylanwadu'n uniongyrchol ar natur yr help ychwanegol y mae ei angen ar blant sydd ag anghenion addysgol arbennig a pha mor aml y mae

38 Mae Fforwm Saesneg ar gyfer Cydlynwyr AAA i'w weld o dan: www.becta.org.uk/senco/sources/senfor_a_fforwm_Cymraeg_yn: <http://www.becta.org.uk/inclusion/discussion/fforwmaaa.html>

angen yr help hwnnw. Mae'r allwedd i ddiwallu anghenion pob disgybl i'w chanfod yng ngwybodaeth yr athro am sgiliau a gallu'r disgyblion ac yng ngallu'r athro i ddefnyddio'r wybodaeth hon i ganfod ffyrdd o ddarparu cyfleoedd priodol i bob disgybl fanteisio ar y cwricwlwm.

6:42 Trwy eu cylch o arsylwi, asesu, cynllunio ac adolygu bydd pob ysgol yn gwneud darpariaeth i wahaniaethu'r cwricwlwm fwyfwy. Gallant benderfynu y byddai trefniadau mwy hyblyg yn briodol i rai disgyblion yng nghyfnod allweddol 4.³⁹

6:43 Dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau i hybu cyflawniadau pob disgybl i'r eithaf. Bydd ysgol effeithiol yn pennu strategaethau ac ymatebion cyffredin ar gyfer pob disgybl ar draws y cwricwlwm uwchradd, gyda'r nod o wella canlyniadau dysgu'r disgyblion, eu disgwyliadau a'u profiadau. Bydd y mathau o ymateb cwricwlaidd sydd ar gael i **bob** disgybl yn effeithio'n uniongyrchol ar yr angen i ymyrryd ar lefel unigol.

6:44 Dylai pob disgybl wybod beth a ddisgwylir ganddo. Er enghraifft, dylai polisïau marcio cyffredinol ysgolion uwchradd fod yn gyson ym mhob pwnc. Yn yr un modd, dylai ysgolion fod yn gyson mewn meysydd eraill, gan ei gwneud yn glir er enghraifft sut y maent yn disgwyl i bob disgybl ymddwyn a chyflwyno eu gwaith. Bydd y pwyslais ar lythrennedd ar draws y cwricwlwm yn help i gael cysondeb mewn llawysgrifen, sillafu, atalnodi a chyflwyniad. Felly, ar gyfer pob maes pwnc a phob disgybl, yn cynnwys rhai sydd ag AAA, bydd yna set gyffredin o ddisgwyliadau ar draws yr ysgol sy'n hysbys i bawb, ac ymrwymiad pellach i gefnogi'r disgyblion hynny sy'n cael anhawster i gyflawni'r disgwyliadau hynny.

6:45 Mater i ysgolion unigol yw penderfynu pa ddulliau y dylent eu defnyddio i ddiwallu anghenion pob disgybl, i arsylwi ar eu cynnydd a'i asesu, ac i benderfynu ar natur y ddarpariaeth addysgol arbennig y dylid ei gwneud. Mae'n hanfodol bod y dulliau hyn yn cael eu rheoli a'u monitro'n ofalus, a bod yna drefniadau effeithiol i'r staff gyfathrebu a thrafod gyda'i gilydd.

6:46 Dylai systemau'r ysgol a'r adrannau ar gyfer arsylwi ar gynnydd disgyblion unigol a'i asesu roi gwybodaeth am feysydd lle nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd er bod yr arddull addysgu wedi ei wahaniaethu. Yn ogystal ag arsylwi fel hyn, dylid defnyddio gwybodaeth a gasglwyd dros amser am gryfderau a gwendidau disgybl unigol. Gyda'r dystiolaeth hon, gall athrawon pwnc ddod i'r casgliad nad yw'r strategaethau y maent yn eu defnyddio gyda'r disgybl ar y pryd yn peri i'r disgybl ddysgu mor effeithiol ag sy'n bosibl. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen iddynt ymgynghori â'r Cydlynedd AAA i ystyried beth arall y gellid ei wneud. Y man cychwyn bob amser fydd adolygu'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio ar y pryd a'r ffordd y gellid datblygu'r rhain. O werthuso'r strategaethau sydd ar waith gellid dod i'r casgliad bod ar y disgybl angen help y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael fel arfer yn y dosbarth neu'r pwnc hwnnw. Dylid rhoi ystyriaeth wedyn i helpu'r disgybl trwy *Gweithredu gan yr Ysgol*.

39 Mae Gorchmynion Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymru) 2000 yn cynnwys datganiad mynediad sy'n caniatáu hyblygrwydd i alluogi athrawon i ddewis defnydd o raglenni astudio cyfnodau allweddol blaenorol neu ddiweddarach os yw hynny'n addas ar gyfer anghenion disgyblion unigol.

Mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i roi gwybod i rieni'r plentyn bod darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei gwneud ar gyfer y plentyn gan fod ganddo/ganddi AAA.

Gweler Adran 317A, Deddf Addysg 1996

6:47 Gan fod ysgolion mewn cysylltiad rheolaidd â rhieni, nhw sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i ddweud wrth rieni bod eu plentyn yn cael darpariaeth addysgol arbennig gan fod ganddo/ganddi AAA. Dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n annog y rhieni i gyfrannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u plentyn, ac i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt am anghenion eu plentyn a'r ddarpariaeth a wneir ar ei gyfer/chyfer. Er mai cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw sicrhau bod y rhieni'n cael gwybod, fel rheol dylid dirprwyo'r gwaith i'r pennaeth a fydd yn penderfynu ar y ffordd fwyaf addas o roi gwybod i'r rhieni ac i ba raddau y dylai aelodau eraill o'r staff chwarae rhan.

6:48 Y prawf allweddol ar gyfer gweithredu yw tystiolaeth nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd digonol fel y mae. Ni ddylid tybio y bydd pob plentyn yn symud ymlaen ar yr un cyflymder. Mae'n rhaid barnu ym mhob achos beth y mae'n rhesymol disgwyl i'r plentyn neilltuol hwnnw ei gyflawni. Os nad yw'r cynnydd yn ddigonol, bydd angen cymryd camau ychwanegol neu wahanol i alluogi'r plentyn i ddysgu'n fwy effeithiol. Beth bynnag yw lefel anawsterau disgyblion, y prawf allweddol sy'n dangos i ba raddau y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu yw hyn: a ydynt yn gwneud *cynnydd digonol* ai peidio?

6:49 Gellir diffinio cynnydd digonol mewn sawl ffordd. Er enghraifft, gallai fod yn gynnydd sy'n:

- cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn a'i gyfoedion
- atal y bwlch cyrhaeddiad rhag lledu
- debyg i gynnydd cyfoedion sy'n dechrau o'r un man cychwyn o ran cyrhaeddiad, ond sy'n llai na chynnydd y rhan fwyaf o'i gyfoedion
- cyfateb i gyfradd cynnydd y plentyn o'r blaen neu'n rhagori ar hynny
- sicrhau ei fod yn gallu cymryd rhan yn y cwricwlwm cyfan
- dangos gwelliant mewn sgiliau hunan-gymorth, cymdeithasol neu bersonol
- dangos gwelliannau yn ymddygiad y disgybl
- debygol o arwain at achredu priodol
- debygol o arwain at gyfle i gymryd rhan mewn addysg bellach, hyfforddiant a/neu waith.

Gweithredu gan yr Ysgol

6:50 Pan fydd athro pwnc, aelod o'r tîm bugeiliol neu'r Cydlynnydd AAA yn canfod bod gan blentyn AAA, dylent ddarparu ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm gwahaniaethol a strategaethau arferol yr ysgol neu'n wahanol iddynt (*Gweithredu gan yr Ysgol*).

6.51 Ymysg y ffactorau sy'n peri ymyrryd ar ffurf *Gweithredu gan yr Ysgol* gallai fod pryder yr athro neu bryder o du pobl eraill, a hwnnw wedi ei seilio ar dystiolaeth, am blentyn sydd, er iddo gael cyfleoedd dysgu gwahaniaethol:

- yn gwneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, hyd yn oed pan fo'r dulliau addysgu'n cael eu targedu'n benodol at fan gwan y plentyn
- yn dangos arwyddion ei fod yn cael anhawster i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, sy'n arwain at gyrhaeddiad isel mewn rhai meysydd cwricwlaidd
- yn amlygu anawsterau emosiynol a/neu ymddygiadol parhaus nad ydynt yn gwella o ddefnyddio technegau rheoli ymddygiad arferol yr ysgol
- yn cael problemau synhwyraidd neu gorfforol, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, er bod cyfarpar arbenigol wedi'u ddarparu ar ei gyfer
- yn cael anawsterau cyfathrebu a/neu rymgweithio, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, er bod cwricwlwm gwahaniaethol wedi'i ddarparu ar ei gyfer.

6.52 Os daw staff i'r casgliad, ar ôl ymgynghori â'r rhieni, y gall fod angen cefnogaeth bellach ar ddisgybl i helpu ei gynnydd, dylent geisio help y Pennaeth Adran neu'r Cydlynnydd AAA ac ystyried y rhesymau sy'n gwneud iddynt bryderu ochr yn ochr ag unrhyw wybodaeth am y plentyn sydd ar gael i'r ysgol yn barod.

6.53 Dylai Cydlynnydd AAA yr ysgol hwyluso'r gwaith o asesu cryfderau a gwendidau neilltuol y disgybl ymhellach; cynllunio cefnogaeth ar gyfer y plentyn i'r dyfodol trwy drafodaeth gyda chydweithwyr; a monitro'r camau a gymerir a'u hadolygu wedyn. Dylai athrawon pwnc a bugeiliol y disgybl barhau i fod yn gyfrifol am weithio gyda'r disgybl o ddydd i ddydd ac am gynllunio a chyflwyno rhaglen unigol.

6.54 Rhan bwysig o *Gweithredu gan yr Ysgol* yw casglu'r holl wybodaeth hysbys am y disgybl ynghyd â cheisio gwybodaeth newydd ychwanegol gan y rhieni ac eraill. Dylai Cydlynnydd AAA yr ysgol hwyluso'r broses hon trwy'r system fugeiliol fel sy'n briodol. Mewn rhai achosion efallai y bydd gweithwyr proffesiynol allanol o'r gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol eisoes yn ymwneud â'r plentyn. Mewn achosion felly mae'n arfer da i'r gweithwyr proffesiynol hyn gadw mewn cysylltiad â'r ysgol gan ddweud beth y maent yn ei wneud. Os nad yw'r gweithwyr proffesiynol hyn wedi bod yn gweithio gyda'r staff eisoes, dylai'r Cydlynnydd AAA gysylltu â nhw. Bydd y wybodaeth hon yn sylfaen i gynllunio unrhyw ymyriadau priodol arni.

6.55 Cydlynnydd AAA yr ysgol neu'r Cydlynnydd AAA cyswllt ddylai fod yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o gynllunio CAU y disgybl ac, yn neilltuol, y gwaith o osod targedau priodol. Ar y llaw arall, dylai dyfeisio strategaethau a phenderfynu ar ddulliau mynediad priodol i'r cwricwlwm ddod o fewn maes arbenigedd a chyfrifoldeb athrawon pwnc unigol. Felly, dylai'r holl staff fod â rhan yn y gwaith o ddarparu cymorth pellach i ddisgyblion trwy *Gweithredu gan yr Ysgol*. Am y rheswm hwn dylid cynllunio'r trefniadau ar gyfer dyfeisio a chofnodi Cynlluniau Addysg Unigol a chytuno arnynt gyda phawb o'r staff, a dylai'r uwch reolwyr eu cadarnhau.

6:56 Dylid ymgynghori â'r rhieni bob amser a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y camau sy'n cael eu cymryd i helpu'r plentyn, ac am ganlyniadau'r camau hynny. Yn wir, y rhieni yn aml yw prif ffynhonnell gwybodaeth bellach am eu plentyn. Gellir cadw'r wybodaeth a gesglir fel rhan o gofnod unigol y disgybl a fydd hefyd yn cynnwys sylwadau blaenorol am y plentyn a wnaed fel rhan o'r systemau asesu a chofnodi a ddefnyddir ar gyfer y disgyblion i gyd.

Natur yr ymyrryd

6:57 Dylai'r Cydlynnydd AAA ac athrawon pwnc y disgybl benderfynu ar y Gweithredu sy'n ofynnol i helpu'r disgybl i wneud cynnydd yng ngoleuni ei asesiad blaenorol. Weithiau mae disgwyl y bydd yr help hwn ar ffurf staff ychwanegol fel y gellir rhoi hyfforddiant un-i-un i'r disgybl. Fodd bynnag, efallai nad hon fydd y ffordd orau o helpu'r disgybl. Efallai y byddai'n well darparu deunyddiau dysgu gwahanol neu gyfarpar arbennig; cyflwyno rhywfaint o gefnogaeth grŵp neu gefnogaeth unigol; caniatáu i oedolyn neilltuo rhagor o amser yn dyfeisio natur yr ymyriad a gynllunnir ac yn monitro ei effeithiolrwydd; neu ymgymryd â datblygiad a hyfforddiant staff er mwyn cyflwyno strategaethau mwy effeithiol. Os gellir manteisio'n sydyn ar wasanaethau cefnogi'r AALL i gael cyngor unwaith-yn-unig neu gyngor achlysurol am strategaethau neu gyfarpar neu i gael hyfforddiant staff, efallai y bydd modd darparu ymyriadau effeithiol heb fod angen cyfraniadau rheolaidd na pharhaus gan asiantaethau allanol.

Cynlluniau Addysg Unigol

6:58 Dylid cofnodi'r strategaethau a ddefnyddir i alluogi'r disgybl i wneud cynnydd mewn Cynllun Addysg Unigol (CAU). Ceir gwybodaeth am reoli CAUau a Chynlluniau Addysg Grŵp yn Llawlyfr Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA. Dylai'r CAU gynnwys gwybodaeth am:

- y targedau tymor byr a osodir ar gyfer y plentyn neu gan y plentyn
- y strategaethau addysgu sydd i'w defnyddio
- y ddarpariaeth y bwriedir ei gwneud
- pa bryd y mae'r cynllun i gael ei adolygu
- meini prawf llwyddiant a/neu gadael
- canlyniadau (i'w cofnodi pan adolygir y CAU).

6:59 Yr unig bethau y dylai'r CAU eu cofnodi yw'r hyn sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r cwricwlwm gwahaniaethol a ddarperir, a sefydlwyd fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer y plant i gyd. Dylid ysgrifennu'r CAU yn gryno a gall ganolbwyntio ar dri neu bedwar targed unigol, wedi eu dewis o blith y rhai sy'n ymwneud â meysydd allweddol cyfathrebu, llythrennedd, mathemateg, a sgiliau ymddygiadol a chymdeithasol sy'n cyfateb i anghenion y plentyn. Gall y strategaethau fod yn draws-gwricwlaidd neu, weithiau, yn bwnc-benodol. Dylid trafod y CAU gyda'r plentyn a'r rhieni.

6:60 Lle bo disgybl sydd wedi ei ddynodi ag AAA mewn perygl difrifol o golli diddordeb yn llwyr neu gael ei wahardd dylai'r CAU adlewyrchu strategaethau priodol i ddiwallu ei anghenion⁴⁰. Ni ddylid defnyddio Cynllun Cefnogi Bugeiliol i ddisodli'r ymateb graddoledig i anghenion addysgol arbennig.

⁴⁰ Cylchlythyr 3/99 y Cynulliad Cenedlaethol 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol'.

Adolygu CAUau

6:61 Dylid adolygu'r CAU o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Yn ddelfrydol, dylid ei adolygu bob tymor, neu'n amlach yn achos rhai plant, o bosib. Gallai o leiaf un adolygiad y flwyddyn ddigwydd mewn Noson Rhieni arferol, er y dylai ysgolion gydnabod y gallai fod yn well gan rai rhieni gael cyfarfod mwy preifat. Nid oes raid i'r adolygiadau fod yn or-ffurfiol, ond dylid ceisio barn y rhieni am gynnydd eu plentyn a dylid ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses adolygu. Dylai'r plentyn hefyd gymryd rhan yn y broses adolygu ac yn y gwaith o osod y targedau. Os na fydd y plentyn yn cymryd rhan yn y cyfarfod adolygu, dylid ystyried ei farn/barn hyd y bo'n hysbys mewn unrhyw drafodaeth. Ceir canllawiau pellach ar adolygu CAUau yn Llawlyfr Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

6:62 Mae'n debygol mai o ganlyniad i benderfyniad gan y Cydlynnydd AAA a chydweithwyr, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, mewn cyfarfod i adolygu CAU y plentyn, y gwneir cais am help gan wasanaethau allanol. Dylai ysgolion bob amser ymgynghori ag arbenigwyr pan fyddant yn gweithredu ar ran plentyn trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*. Ond nid yw'n rhaid cyfyngu cyfraniad arbenigwyr i blant o'r fath. Gall arbenigwyr allanol chwarae ran bwysig yn canfod anghenion addysgol arbennig yn gynnar iawn ac yn rhoi cyngor i ysgolion ynglŷn â darpariaeth effeithiol a gynllunnir i atal anghenion mwy sylweddol rhag datblygu. Gallant weithredu fel ymgynghorwyr a bod yn ffynhonnell cyngor mewn-swydd i bob athro ar strategaethau dysgu a rheoli ymddygiad.

6:63 Pan geir *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, bydd gwasanaethau cefnogi allanol a ddarperir gan yr AALL a chan asiantaethau allanol, yn gweld y plentyn fel rheol, yn yr ysgol os yw hynny'n briodol ac yn ymarferol, fel y gallant gynghori athrawon pwnc a staff bugeiliol am CAUau newydd gyda thargedau ffres a strategaethau cysylltiedig, darparu asesiadau mwy arbenigol a all fod o gymorth wrth gynllunio a mesur cynnydd y disgybl, rhoi cyngor ar ddefnyddio strategaethau neu ddeunyddiau newydd neu arbenigol ac, mewn rhai achosion, ddarparu cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau penodol. Bydd y mathau o gyngor a chefnogaeth sydd ar gael i ysgolion yn amrywio yn ôl polisïau lleol.

6:64 Gellid penderfynu dilyn trywydd *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* gan fod y plentyn, er iddo gael rhaglen unigol a/neu gefnogaeth ddwys:

- yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, mewn meysydd penodol dros gyfnod hir
- yn parhau i weithio ar lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n sylweddol is na'r lefel a ddisgwyllir gan ddisgyblion o oedran tebyg
- yn parhau i gael anhawster i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- yn cael anawsterau emosiynol neu ymddygiadol sy'n amharu'n sylweddol ac yn rheolaidd ar addysg y plentyn ei hun neu addysg grŵp y dosbarth, er bod ganddo ei raglen rheoli ymddygiad ei hun
- ag anghenion synhwraidd neu gorfforol, a bod arno angen cyfarpar arbenigol ychwanegol neu gyngor neu ymweliadau rheolaidd gan wasanaeth arbenigol sy'n darparu ymyriad uniongyrchol ar gyfer y disgybl neu gyngor i'r staff

- yn cael anawsterau cyfathrebu neu ryngweithio parhaus sy'n amharu ar ddatblygiad perthnasodd cymdeithasol ac yn rhwystro sylweddol rhag dysgu.

6:65 Lle bo ysgolion yn ceisio help gwasanaethau cefnogi allanol, bydd angen i'r gwasanaethau hynny weld cofnodion y disgybl i ganfod pa strategaethau sydd wedi eu defnyddio'n barod a pha dargedau a osodwyd ac a gyflawnwyd. Wedyn, gallant roi cyngor ynglŷn â thargedau newydd a phriodol i CAU y disgybl ac ar strategaethau cysylltiedig. Efallai hefyd y byddant yn darparu asesiad arbenigol ychwanegol a all fod o gymorth wrth gynllunio a mesur cynnydd y disgybl.

6:66 Dylai'r Cydlynnydd AAA ac arbenigwyr pwnc ynghyd â'r arbenigwyr allanol, ystyried nifer o wahanol ddulliau addysgu a chyfarpar a deunyddiau addysgu priodol, gan gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth. Gall yr arbenigwr allanol weithredu fel ymgynghorydd, gall ddarparu asesiad arbenigol ychwanegol neu fod â rhan yn y gwaith o ddysgu'r disgybl yn uniongyrchol. Mewn rhai achosion gellir lleihau anghenion addysgol arbennig y plentyn yn sylweddol trwy sicrhau gwell rheolaeth neu drefniadau amgen wedi'u seilio ar gyngor gan weithwyr ieuchyd proffesiynol.

6:67 Dylai'r CAU newydd sy'n deillio o hyn nodi strategaethau newydd i gefnogi cynnydd y plentyn. Er iddynt gael eu datblygu gyda help arbenigwyr allanol, dylai'r strategaethau a nodir yn y CAU gael eu gweithredu, fel rheol, yn rhannol o leiaf a hyd y bo modd, mewn dosbarth cyffredin. Cyfrifoldeb athrawon pwnc felly fydd rhoi'r CAU ar waith.

6:68 Os yw'r Cydlynnydd AAA a'r arbenigwr allanol o'r farn bod y wybodaeth a gasglwyd am y disgybl yn annigonol, a bod yn rhaid cael cyngor mwy manwl gan weithwyr proffesiynol allanol eraill, yna rhaid ceisio caniatâd rhieni'r disgybl.

6:69 Dylai'r Cydlynnydd AAA nodi yng nghofnodion y disgybl pa gyngor pellach a geisir a'r gefnogaeth a roddir i'r plentyn hyd nes y daw'r cyngor i law.

Yr ysgol yn gofyn am asesiad statudol

6:70 Yn achos nifer fechan iawn o ddisgyblion, efallai na fydd yr help a roddir gan ysgolion trwy *Gweithredu a Mwy* yn ddigon i alluogi'r disgybl i wneud cynnydd digonol. Os felly, bydd yn rhaid i'r ysgol, mewn ymgynghoriad â'r rhieni ac unrhyw asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r disgybl yn barod, ystyried a ddylid gofyn i'r AALL gychwyn asesiad statudol.

6:71 Os yw'r ysgol yn gofyn i'r AALL am asesiad statudol, bydd y disgybl wedi dangos bod cryn achos i bryderu. Bydd yr AALL yn ceisio tystiolaeth gan yr ysgol bod unrhyw gamau a gymerwyd i helpu'r disgybl wedi parhau am gyfnod rhesymol o amser heb lwyddiant ac y rhoddwyd cynnig ar ddulliau gwahanol. Bydd angen gwybodaeth ar yr AALL am gynnydd y plentyn dros amser, a bydd angen dogfennau clir hefyd mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig y plentyn ac unrhyw gamau a gymerwyd i ddelio â'r anghenion hynny, yn gynnwys unrhyw adnoddau a ddefnyddiwyd neu drefniadau arbennig a wnaed. Mewn rhai achosion bydd y wybodaeth hon yn gynnwys adroddiadau neu gyngor ysgrifenedig oddi wrth asiantaethau allanol. Disgrifir y dystiolaeth y bydd ar yr AALL ei hangen wrth benderfynu a ddylid gwneud asesiad statudol ym Mhennod Saith. Mae'r meini prawf y gall AALLau eu mabwysiadu wrth benderfynu a ddylid llunio datganiad ar blentyn neilltuol wedi eu nodi ym Mhennod Wyth. Dylai

cysylltiadau rheolaidd rhwng yr AALL ac ysgolion sicrhau bod pawb yn gwybod pa wybodaeth y bydd yr AALL yn gofyn amdani pan ofynnir am asesiad.

6:72 Erbyn i'r pennaeth ystyried gofyn am asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig disgybl, dylai'r ysgol fod yn gallu darparu tystiolaeth ysgrifenedig neu wybodaeth am:

- **y camau a gymerwyd gan yr ysgol trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy***
- **cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgybl**
- **cofnodion adolygiadau rheolaidd a'u canlyniadau**
- **iechyd y disgybl yn cynnwys ei hanes meddygol lle mae'n berthnasol**
- **lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys y lefelau mewn llythrennedd a rhifedd**
- **asesiadau addysgol ac asesiadau eraill, er enghraifft gan athro cefnogi arbenigol ymgynghorol neu seicolegydd addysg**
- **barn y rhieni a'r plentyn**
- **ymwneud gweithwyr proffesiynol eraill**
- **unrhyw ymwneud gan y gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaeth lles addysg**

6:73 Y disgrifiad o anhawster dysgu'r disgybl a'i gynnydd ynghyd â gwybodaeth am y ddarpariaeth addysgol arbennig a wnaed fydd yn rhoi'r sylfaen i alluogi'r AALL i ystyried a oes angen asesiad statudol. Os bu gwasanaethau cefnogi'r AALL ac, yn neilltuol, seicolegwyr addysg yr AALL yn ymwneud eisoes ag asesu'r plentyn ac adolygu'r ddarpariaeth, dylai'r AALL allu penderfynu'n weddol gyflym a oes angen asesiad statudol. Yn y cyfamser – a thra bo unrhyw asesiad statudol dilynol yn cael ei wneud – dylid parhau i gefnogi'r plentyn trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*.

Gweithio gyda phlant sy'n destun datganiad anghenion addysgol arbennig

6:74 Dylid pennu targedau tymor byr ar gyfer pob plentyn sy'n destun datganiad anghenion addysgol arbennig, boed hynny mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Gan amlaf, caiff y strategaethau ar gyfer cyrraedd y targedau hyn eu nodi mewn CAU. Fel gyda *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, yr unig bethau y dylai'r CAU eu cofnodi yw'r hyn sy'n ychwanegol at gynllun y cwricwlwm gwahaniaethol arferol neu'n wahanol iddo.

Adolygiad blynyddol o ddatganiad anghenion addysgol arbennig

6:75 Nodir y trefniadau cyffredinol sydd i'w dilyn yn ystod adolygiadau blynyddol y datganiadau a'r trefniadau neilltuol ar gyfer adolygiadau blynyddol a gynhelir ym Mlwyddyn 9 ac ar gyfer cynllunio ar gyfer y cyfnod trawsnewid ym Mhennod Naw.

7 Asesiad Statudol o Anghenion Addysgol Arbennig

Cyflwyniad:

Rhaid i AALLau ganfod a gwneud asesiad statudol o'r plant y maent yn gyfrifol amdanynt sydd ag anghenion addysgol arbennig ac y mae'n debygol y bydd angen datganiad arnynt.

Gweler Adrannau 321 a 323, Deddf Addysg 1996

7:1 Dylai anghenion addysgol arbennig y mwyafrif helaeth o blant gael eu diwallu'n effeithiol mewn sefydliadau prif ffrwd trwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy* neu *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, heb fod angen asesiad statudol gan yr awdurdod addysg lleol. Mewn nifer fechan iawn o achosion bydd angen i'r AALL wneud asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig ac yna ystyried a ddylid llunio datganiad ai peidio.

7:2 Mewn asesiad statudol:

- mae'r AALL, yn gweithio ar y cyd â'r rhieni, ysgol y plentyn⁴¹ ac, fel sy'n briodol, asiantaethau eraill, yn ystyried a oes angen asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig y plentyn

ac, os oes angen

- mae'n cynnal yr asesiad, mewn cydweithrediad agos â'r rhieni, ysgolion ac asiantaethau eraill.

7:3 Dylai'r egwyddorion sy'n sail i'r asesiad hwn gyfateb yn fras i'r rhai a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer asesu plant mewn angen.⁴²

7:4 Yr **unig** bryd y dylid gwneud asesiad o dan adran 323 o Ddeddf Addysg 1996 yw os yw'r AALL o'r farn ei bod yn debygol fod gan y plentyn anghenion addysgol arbennig a bod angen, neu ei bod yn debygol bod angen, i'r AALL ei hun benderfynu ar ddarpariaeth addysgol arbennig ar gyfer y plentyn trwy wneud datganiad.

7:5 Wrth ystyried a oes angen asesiad, efallai y daw'r AALL i'r casgliad bod ymyrryd trwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy* neu *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* yn briodol; neu efallai y gall yr AALL benderfynu ar ffyrdd gwahanol y gall yr ysgol helpu'r plentyn trwy ymyrryd fel hyn. Os felly, byddai'r AALL yn dod i'r casgliad nad oes angen asesiad statudol.

7:6 Ni fydd asesiad statudol ynddo'i hun bob amser yn arwain at ddatganiad. Gall y wybodaeth a gesglir yn ystod asesiad awgrymu ffyrdd i'r ysgol ddiwallu anghenion y plentyn heb fod angen i'r AALL bennu darpariaeth addysgol arbennig trwy ddatganiad. Efallai y byddai'r ysgol yn gallu darparu darn neilltuol o gyfarpar a fyddai'n ei galluogi, dan gyfarwyddyd priodol arbenigwyr, i ddiwallu anghenion y plentyn neu efallai y byddai modd galluogi'r plentyn i wneud cynnydd trwy ddefnyddio strategaethau amgen, yn unol â chyngor gwasanaethau cefnogi'r AALL.

⁴¹ Yn y bennod hon mae 'ysgolion' yn cyfeirio at sefydliadau addysg gynnar a phob ysgol (yn cynnwys ysgolion nas cynhelir).

⁴² Ceir canllawiau manwl ar asesu plant mewn angen yng nghyhoeddiad y Cynulliad Cenedlaethol 'Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd' 2001.

Llwybrau ar gyfer cyfeirio plant

7:7 Caiff plentyn y gall fod arno angen asesiad ei ddwyn i sylw'r AALL trwy:

- gais am asesiad gan ysgol neu sefydliad y plentyn
- cais am asesiad gan riant

neu

- bod y plentyn yn cael ei gyfeirio gan asiantaeth arall.⁴³

7:8 Mae'n bwysig bod pob cais a chyfeiriad am asesiad yn cael ei ystyried cyn gynted â phosibl ni waeth pwy sy'n eu gwneud.⁴⁴

Cais gan ysgol neu sefydliad y plentyn

7:9 Mewn rhai achosion, bydd ysgolion neu sefydliadau yn dod i'r casgliad, ar ôl iddynt geisio datrys anawsterau dysgu plentyn, bod anghenion y plentyn yn dal mor sylweddol fel na ellir eu diwallu'n effeithiol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael fel arfer i'r ysgol neu'r sefydliad.

Mae gan ysgolion a darparwyr addysg feithrin perthnasol hawl statudol i ofyn i'r AALL gynnal asesiad statudol neu ailasesiad o anghenion addysgol plentyn.

Gweler Adran 329A, Deddf Addysg 1996

7:10 Yn y cyd-destun hwn, mae 'ysgolion' yn cynnwys:

- ysgolion a gynhelir (prif ffrwd ac arbennig, ac eithrio ysgolion arbennig mewn ysbytai)
- ysgolion meithrin a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- pob ysgol annibynnol yn cynnwys Academiâu Dinas, Colegau Technoleg Dinas, Colegau Dinas ar gyfer Technoleg y Celfyddydau
- ysgolion a gymeradwyir o dan Ddeddf Addysg 1996, adran 342
- pob sefydliad addysg gynnar sy'n cael cymorth ariannol gan eu AALL ac sy'n darparu addysg feithrin berthnasol at ddibenion adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 – i blant pedair a phump oed mewn gwirionedd⁴⁵

7:11 Dylai ysgolion a sefydliadau ymgynghori â'r rhieni cyn gwneud cais am asesiad. Mae'n rhaid i'r AALL gydymffurfio â chais o'r fath, oni bai ei fod wedi gwneud asesiad statudol o fewn chwe mis i ddyddiad y cais neu oni ddaw i'r casgliad, o archwilio unrhyw dystiolaeth sydd o'i flaen neu unrhyw sylwadau a

43 Er enghraifft, gall awdurdodau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol wneud ceisiadau i gyfeirio plant.

44 Mae Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 yn nodi terfynau amser penodol mewn perthynas â cheisiadau am asesiadau.

45 Nid oes hawl statudol gan sefydliadau blynyddoedd cynnar sy'n cael cyllid Partneriaeth ac sy'n darparu addysg feithrin i blentyn tair oed, neu blentyn o dan dair oed, i ofyn am asesiad neu ailasesiad ond gallant gyfeirio plentyn. Erbyn mis Medi 2004, bydd dyletswyddau AALLau o dan adran 118 yn cynnwys plant tair oed. Pan ddigwydd hyn, bydd yr hawl i ofyn am asesiadau yn cael ei ymestyn yn otomatig i gynnwys plant tair oed.

gyflwynwyd iddo, nad oes angen asesiad statudol. Os bydd y pennaeth yn barnu bryd hynny nad yw'r Cwricwlwm Cenedlaethol llawn yn diwallu anghenion y disgybl, gall datgymhwysiad dros dro fod yn briodol.⁴⁶

7:12 Os bydd yr AALL yn gwrthod cytuno i'r cais, mae gan rieni hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA. Mae'n **rhaid** i AALLau sicrhau bod rhieni yn cael gwybod am eu hawl i apelio a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno apêl, y ffaith bod gwasanaeth partneriaeth â rhieni a gwasanaeth datrys anghytundeb ar gael, a'r ffaith na all gweithgareddau datrys anghytundeb effeithio ar hawl rhiant i apelio.

Y dystiolaeth sydd i'w darparu gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg gynnar

7:13 Wrth wneud cais am asesiad statudol, dylai'r ysgol neu'r sefydliad ddatgan y rhesymau dros y cais yn glir a chyflwyno'r dystiolaeth isod:

- **barn y rhieni fel y'i cofnodwyd yn ystod *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy***
- **barn y plentyn, hyd y gellir ei chanfod**
- **copïau o CAUau yn ystod *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy***
- **tystiolaeth o gynnydd dros amser**
- **lle cafwyd cyngor gan y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, copïau o gyngor o'r fath**
- **tystiolaeth o ymwneud a barn gweithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth a medr arbenigol perthnasol sydd y tu hwnt i gymhwysedd arferol yr ysgol neu'r sefydliad**
- **tystiolaeth yn dangos i ba raddau y mae'r ysgol neu'r sefydliad wedi dilyn y cyngor a gafwyd gan weithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth arbenigol berthnasol.**

7:14 Yn achos rhai plant ifanc iawn sydd ag anghenion cymhleth, dylai'r AALL dderbyn un adroddiad hollgwmpasog gan y gweithiwr proffesiynol arweiniol sy'n ymwneud â'r plentyn fel dystiolaeth. Efallai y byddai'r drefn hon yn briodol hefyd i blentyn hŷn sydd, o ganlyniad i ddamwain neu afiechyd yn sydyn yn datblygu anghenion cymhleth hawdd eu canfod y mae angen i'r AALL eu hasesu a darparu ar eu cyfer.

Cyfeirio gan asiantaeth arall

7:15 Gall gwasanaethau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ddwyn plant i sylw'r AALL. Mae hyn yn fwyaf tebygol gyda phlant o dan bump oed sydd ag anghenion cymhleth, nad ydynt eto yn mynychu'r ysgol ond a all fod mewn sefydliad addysg gynnar. Yna, bydd angen i'r AALL gasglu dystiolaeth cyn ystyried a oes angen asesu'r plentyn.

46 Rheoliadau Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion Unigol (Cymru) 1999.

Hysbysiad bod AALL yn ystyried a ddylid gwneud asesiad statudol

7:16 Cyn penderfynu a ddylid gwneud asesiad, mae'n rhaid i'r AALL gyflwyno hysbysiad o dan adran 323(1) neu 329A(3) o Ddeddf Addysg 1996.

- i. Mae'n **rhaid** i'r AALL roi gwybod i'r rhieni ei fod yn ystyried a ddylid gwneud asesiad statudol
- ii. Mae'n **rhaid** i'r AALL esbonio wrth y rhieni pa drefniadau a ddilyniir os bernir bod angen asesiad statudol ar trefniadau ar gyfer llunio datganiad wedi hynny os bernir bod angen gwneud hynny
- iii. Dylai'r AALL egluro amseriad manwl pob un o wahanol gamau'r asesiadau o fewn y cyfnod o chwe mis a ganiateir ar gyfer y broses gyfan; nodi sut y gall y rhieni gynorthwyo'r AALL i gadw y tu mewn i'r terfynau amser; ac egluro'r eithriadau i'r terfynau amser
- iv. Mae'n **rhaid** i'r AALL roi i'r rhieni enw swyddog yn yr AALL y gellir cael gwybodaeth bellach ganddo. (Yn aml, gelwir y person hwn yn Swyddog a Enwir yn yr AALL)
- v. Mae'n **rhaid** i'r AALL ddweud wrth rieni am eu hawl i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu sylwadau llafar (y naill ar llall yn y Gymraeg neu'r Saesneg) i ddweud pam y credant y dylai neu na ddylai eu plentyn gael ei asesu. Mae'n **rhaid** i'r AALL osod terfyn amser ar gyfer derbyn barn y rhieni, ac ni chaiff fod yn llai na 29 diwrnod
- vi. Dylai'r AALL annog rhieni i ymateb a chyflwyno tystiolaeth, gan ddweud pa mor bwysig yw eu cyfraniad. Pan fydd rhieni'n gwneud sylwadau llafar, dylai'r AALL gytuno ar grynodedig ysgrifenedig gyda'r rhieni. Gall yr AALL wahodd rhieni i nodi'n ffurfiol os nad ydynt yn dymuno gwneud sylwadau nac ychwanegu at sylwadau blaenorol, fel y gall yr AALL fynd ati ar unwaith i ystyried a oes angen asesiad statudol
- vii. Mae'n **rhaid** i'r AALL roi gwybodaeth i rieni, yn y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog, am y gwasanaeth partneriaeth â rhieni lleol a ddylai roi gwybodaeth am ffynonellau eraill o gyngor annibynnol, fel mudiadau gwirfoddol lleol neu genedlaethol a grwpiau cefnogi lleol, a allai eu helpu i ystyried sut y maent yn teimlo am anghenion eu plentyn
- viii. Dylai'r AALL ofyn i'r rhieni a fyddent yn hoffi i'r AALL ymgynghori ag unrhyw un yn ychwanegol at y sawl y mae'n rhaid i'r AALL gysylltu â nhw am gyngor addysgol, meddygol, seicolegol neu gyngor gwasanaethau cymdeithasol, os penderfynar AALL fwrw ymlaen â'r asesiad statudol
- ix. Dylai'r AALL ddweud wrth y rhieni y gallant hefyd ddarparu unrhyw gyngor neu farn breifat, sydd ganddynt neu y gallant eu cael, ac y caiff y cyngor hwn ei gymryd i ystyriaeth.

7:17 Dylai'r hysbysiad hwn i'r rhieni gael ei ysgrifennu mewn iaith glir fel bod rhieni'n gallu deall ei ystyr yn hawdd. **Rhaid** i'r hysbysiad ei gwneud yn glir nad yw'r AALL wedi penderfynu eto a ddylid cynnal asesiad ond ei fod, yn hytrach, yn ystyried a ddylai gwneud hynny. Os nad yw'r hysbysiad yn glir ynglŷn â hyn, bydd rhai rhieni, o ddarllen yr holl ddogfennau, yn credu bod yr AALL eisoes wedi dechrau gwneud asesiad a gallant deimlo'n ddryslyd os bydd yr AALL yn eu hysbysu'n ddiweddarach iddo benderfynu peidio â gwneud asesiad.

7:18 Bydd asesiad statudol yn brofiad newydd a dieithr i'r rhan fwyaf o rieni. Mae'n bwysig iawn felly fod AALLau yn ceisio gwneud y broses mor hygyrch â phosibl i bob rhiant. Rhoddir cyngor ac awgrymiadau ynglŷn â'r gefnogaeth y gellir ei rhoi i rieni drwy gydol y broses asesu statudol ym Mhennod Dau ac yn Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA.

Hysbysu asiantaethau eraill o fwriad i asesu

7:19 Mae'n **rhaidd** i'r AALL anfon copi o'r hysbysiad at swyddog dynodedig adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r awdurdod iechyd. Dylai'r AALL egluro y gofynnir am eu cyngor os cynhelir yr asesiad. Dylent anfon copi hefyd at eu gwasanaeth seicoleg addysg eu hunain ac unrhyw asiantaethau perthnasol eraill, fel y gwasanaeth lles addysg, y gellir gofyn am eu cyngor os cynhelir yr asesiad.

7:20 Nid yw AALLau yn gofyn i'r asiantaethau hyn roi cyngor ar hyn o bryd, dim ond eu rhybuddio o'r posibilrwydd y gallent gael cais am gyngor yn y dyfodol agos. Mae'r wybodaeth gynnar hon yn rhoi'r cyfle i'r asiantaethau gasglu cofnodion ynghyd ac ymgynghori ag eraill a allai hefyd fod â rhan yn y gwaith o roi cyngor. Bydd gweithredu buan yn y cyfnod hwn yn y gwasanaeth iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn golygu i bob diben bod mwy o amser ar gael i'r asiantaethau hyn i gasglu cyngor, gan eu helpu i gadw at y terfynau amser statudol.

Cais gan riant

7:21 Gall rhieni ofyn i'r AALL gynnal asesiad statudol, o dan adran 328 neu 329 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'n rhaidd i'r AALL gydymffurfio â chais o'r fath, oni bai ei fod wedi gwneud asesiad statudol o fewn chwe mis i ddyddiad y cais neu oni ddaw i'r casgliad, o archwilio'r holl dystiolaeth a ddarperir iddo, nad oes angen asesiad statudol.

7:22 Lle bo ysgolion, arbenigwyr allanol, yn cynnwys gwasanaethau cefnogi a seicoleg addysg yr AALL, a rhieni wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth yn ystod *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, fel rheol byddant wedi trafod cais riant am asesiad statudol. Felly, mae'r cais yn debygol o fod yn gam y cytunwyd arno gan bawb sy'n ymwneud â'r plentyn. Yna, efallai y gall y rhieni, gyda help yr ysgol, roi'r dystiolaeth a restrir ym mharagraff 7.13 uchod i'r AALL. Weithiau, fodd bynnag, gall cais gan riant am asesiad statudol adlewyrchu anfodlonrwydd â'r camau a gymerwyd gan yr ysgol. Beth bynnag fo'r rheswm, dylai'r AALL gymryd pob cais gan riant o ddifrif a chymryd y camau priodol.

7:23 Gall rhieni benderfynu gofyn am asesiad os ydynt yn credu bod gan eu plentyn anghenion sydd naill ai heb gael eu diwallu trwy ymyriad yn yr ysgol, neu mor sylweddol fel na allai ysgol brif ffrwd eu diwallu'n effeithiol gan ddefnyddio'i hadnoddau ei hunan. Gall rhieni plant ifanc iawn sydd ag anghenion cymhleth ofyn am asesiad hefyd. Mae o gymorth i'r AALL os gall y rhiant nodi'n glir pam y mae'n gwneud y cais, a rhoi gwybodaeth am y ddarpariaeth y mae'r plentyn wedi ei derbyn eisoes. Mewn llawer o achosion, gall ysgol y plentyn neu weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn yn barod roi gwybodaeth i'r rhieni i'w hanfon at yr AALL. Os oes angen, dylai'r AALL fynd ati i geisio tystiolaeth briodol ychwanegol gan yr ysgol.

7:24 Os yw plentyn yn mynychu ysgol annibynnol (gweler yr Eirfa), efallai mai cais gan riant neu, yn wir, gais gan yr ysgol, am asesiad statudol fydd y tro cyntaf y

bydd AALL yn clywed am y plentyn hwnnw. Dylai'r AALL ddilyn yr un drefn ac ystyried yr un ffactorau wrth benderfynu a oes angen gwneud asesiad â phe bai'r plentyn mewn ysgol a gynhelir. Bydd yr AALL yn dymuno ystyried tystiolaeth a roddir gan ysgol a rhieni'r plentyn am ei anawsterau dysgu, yn cynnwys tystiolaeth am unrhyw gamau a gymerwyd gan yr ysgol i ddatrys yr anawsterau hynny. Gallai fod o fudd i AALLau hysbysu ysgolion annibynnol yn eu hardal am ddyletswydd yr AALL i ganfod plant y mae'n gyfrifol amdanynt ac y gallai fod arnynt angen datganiadau anghenion addysgol arbennig. Dylai AALLau esbonio wrth yr ysgolion hynny beth yw'r trefniadau lleol ar gyfer darpariaeth yn yr ysgol a'r trefniadau asesu a pha wybodaeth y byddent yn disgwyl ei chael.

7:25 O dro i dro, gall rhieni sy'n addysgu eu plentyn gartref ofyn am asesiad. Dylai'r AALLau geisio tystiolaeth gan y rhieni a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn fel y gallant ystyried a oes angen asesu.

7:26 Pan gaiff plentyn ei ddwyn i sylw'r AALL trwy gais am asesiad statudol, mae'n **rhaid** i'r AALL benderfynu cyn pen chwe wythnos a yw'n mynd i gynnal asesiad o'r fath. Nid yw'n ofynnol iddo gyflwyno hysbysiad i'r rhieni i ddweud ei fod yn ystyried a yw am wneud asesiad o dan adran 323(1). Fodd bynnag, dylai'r AALL gysylltu â'r rhieni ar unwaith er mwyn:

- ymchwilio ymhellach i natur eu pryder
- canfod i ba raddau y maent wedi bod yn ymwneud â'r ddarpariaeth addysgol arbennig a wnaed eisoes yn yr ysgol ar gyfer eu plentyn ac i ba raddau y maent yn cytuno â'r ddarpariaeth honno
- rhoi manylion llawn iddynt am y broses asesu a'r wybodaeth a nodir ym mharagraff 7.16 uchod.

7:27 Mae'n **rhaid** i'r AALL roi gwybod i bennaeth ysgol y plentyn fod y rhieni wedi gwneud cais am asesiad statudol. Os nad yw'r rhiant eisoes wedi ei darparu, dylai'r AALL ofyn i'r ysgol am dystiolaeth ysgrifenedig am y plentyn ac, yn enwedig, asesiad yr ysgol o anhawster dysgu'r plentyn a chofnod yr ysgol o unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig a wnaed.

7:28 Ar yr un pryd, mae'n rhaid i'r AALL hysbysu'r gwasanaeth seicoleg addysg, swyddogion dynodedig adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r awdurdod iechyd ac unrhyw asiantaethau eraill y gellid gofyn iddynt am gyngor yn nes ymlaen. Felly byddant wedi eu 'hysbysu' ac, os penderfynir bwrw ymlaen ag asesiad yn ddiweddarach, byddant yn gallu rhoi cyngor i'r AALL o fewn y terfynau amser penodedig.

7:29 Wedyn, mae'n **rhaid** i'r AALL benderfynu a yw am wneud asesiad o dan adran 323 ai peidio. Dylai'r AALL ymateb mewn modd cyson i geisiadau gan rieni, ysgolion a sefydliadau am asesiadau a dylai benderfynu mewn modd agored a gwrthrychol a ddylid llunio datganiad. Dylai'r AALL wneud ei benderfyniad cyn gynted ag y gellir ar ôl rhoi ystyriaeth drylwyr i'r holl faterion. Dylid gwneud hynny bob amser, ar wahân i rai eithriadau penodedig, o fewn y terfynau amser statudol. Os bydd yr AALL yn gwrthod cytuno i gais gan riant, ysgol neu sefydliad, mae gan rieni hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA. Mae'n **rhaid** i AALLau sicrhau bod rhieni'n cael gwybod am eu hawl i apelio a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno apêl. Yn ogystal, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod rhieni'n cael gwybod bod gwasanaeth partneriaeth â rhieni a gwasanaeth datrys anghytundeb ar gael ac na all y ffaith eu

bod yn cymryd rhan mewn proses ddatrys anghytundeb effeithio ar hawl rhieni i apelio.

Plant y gallai fod angen eu cyfeirio am asesiad statudol ar unwaith

7:30 Yn y mwyafrif helaeth o achosion, cyn y gwneir cais i'r AALL am asesiad statudol, bydd yr ysgol wedi asesu anawsterau dysgu'r plentyn ac wedi gwneud darpariaeth addysgol arbennig i ddiwallu ei anghenion. Fodd bynnag, yn anaml iawn, gall anawsterau plant fod mor sylweddol fel bod yr ysgol o'r farn ei bod yn amhosibl neu'n amhriodol i'r drefn asesu o'u dewis nhw gael ei chynnal yn llawn. Er enghraifft, efallai fod pryderon yr ysgol wedi arwain at archwiliad neu asesiad diagnostig pellach sy'n dangos bod gan blentyn nam synhwyraidd neu nam arall difrifol a fydd, oni cheir ymyriad arbenigol sydd y tu hwnt i allu'r ysgol, a hynny ar unwaith, yn arwain at fwy o anawsterau dysgu, neu efallai fod gan blentyn anawsterau emosiynol neu ymddygiadol difrifol lle mae'n rhaid cael ymateb ar frys o'r tu allan i'r ysgol. (Gweler hefyd baragraff 8.23). Mae angen ymateb cyflym gan yr AALL ar gyfer plant fel hyn.

7:31 Bydd bron pob disgybl yn aros yn ei ysgol brif ffrwd yn ystod y broses asesu. Mewn ychydig iawn o achosion eithriadol, efallai y byddai anghenion y plentyn yn golygu y byddai'n cael gwell cefnogaeth yn ystod yr asesiad pe bai mewn ysgol arbennig. Yn aml, bydd hyn yn wir os oes angen cefnogaeth ar unwaith neu ar frys neu pe gallai unrhyw oedi amharu ar ddatblygiad y plentyn. Fel rheol, mae'n rhaid i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig ond sydd heb ddatganiad gael eu haddysgu mewn ysgol brif ffrwd. Mae Adran 316A(2) yn caniatáu hyblygrwydd fel y gall plentyn nad yw'n destun datganiad fynychu ysgol arbennig o dan rai amgylchiadau eithriadol, sef:

- os yw'r plentyn yn cael ei asesu i benderfynu a oes angen datganiad
- os bu newid yn yr amgylchiadau
- os yw'r plentyn mewn ysbyty ac yn mynychu ysgol arbennig yn yr ysbyty.

7:32 Er mwyn lleoli plentyn mewn ysgol arbennig yn ystod y broses asesu, mae'n rhaid i rieni'r plentyn, pennaeth yr ysgol arbennig y caiff y plentyn ei leoli ynddi, yr awdurdod addysg lleol ac unrhyw un sy'n rhoi cyngor fel rhan o'r broses asesu gytuno i'r lleoliad. Os caiff plentyn ei dderbyn i ysgol arbennig yn dilyn newid yn ei amgylchiadau, mae'n rhaid i rieni'r plentyn, pennaeth yr ysgol arbennig y caiff y plentyn ei leoli ynddi a'r awdurdod addysg lleol gytuno i'r hynny hefyd. Dylai'r AALL ei gwneud yn glir wrth y rhieni beth yw'r rheswm dros y lleoliad asesu ac am ba hyd y bydd yn para.

Ystyried a yw asesiad statudol yn angenrheidiol

7:33 Y dasg gyntaf i'r AALL, ar ôl hysbysu'r rhieni y gallai fod angen asesiad statudol neu ar ôl derbyn cais gan y rhieni, yr ysgol neu'r sefydliad am asesiad o'r fath, yw penderfynu a yw'n rhaid gwneud asesiad statudol.

7:34 Wrth benderfynu a ddylid gwneud asesiad statudol, y cwestiwn holl bwysig yw hyn: a oes tystiolaeth gref bod anawsterau dysgu'r plentyn yn parhau neu heb eu datrys yn ddigonol, er bod yr ysgol, gyda help arbenigwyr allanol, wedi cymryd camau perthnasol a phwrpasol i'w goresgyn, ac y gallai fod gofyn i'r AALL bennu darpariaeth addysgol arbennig i'r plentyn? Bydd angen i AALLau ystyried ystod eang o dystiolaeth. Dylent ystyried asesiad yr ysgol o anghenion y plentyn, yn

cynnwys cyfraniad gweithwyr proffesiynol eraill fel seicolegwyr addysg ac athrawon cefnogi arbenigol, a'r camau a gymerwyd gan yr ysgol i ddiwallu'r anghenion hynny. Bydd AALLau bob amser am weld tystiolaeth o lefelau cyrhaeddiad academaidd y plentyn a'i gyfradd cynnydd ac ystyried y ffactorau cysylltiedig. Gall y dystiolaeth ychwanegol y dylai'r awdurdodau ei cheisio a'r cwestiynau y mae angen eu gofyn amrywio yn ôl oed y plentyn a natur yr anhawster dysgu.

Tystiolaeth ar gyfer penderfynu a ddylid gwneud asesiad statudol

7:35 Wrth ystyried a oes angen asesiad statudol, dylai AALLau dalu sylw arbennig i:

- dystiolaeth bod yr ysgol wedi ymateb yn briodol i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol
- tystiolaeth a ddarperir gan ysgol y plentyn, y rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill lle buont yn ymwneud â'r plentyn, ynglŷn â natur, maint ac achos anawsterau dysgu'r plentyn
- tystiolaeth am y camau a gymerwyd eisoes gan ysgol y plentyn i ateb a goresgyn yr anawsterau hynny
- tystiolaeth am gyfradd ac arddull cynnydd y plentyn
- lle bo rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, tystiolaeth mai dim ond o ganlyniad i lawer o ymdrech a chyfarwyddyd ychwanegol dros gyfnod hir, sy'n fwy nag a ddarperir fel rheol trwy *Gweithredu a Mwy*, y gwnaed hynny.

7:36 Felly, mae'r canllawiau isod yn canolbwyntio ar y dystiolaeth y dylai AALLau ei cheisio gan ysgolion, sefydliadau a rhieni ac yn nodi'r cwestiynau allweddol y dylai AALLau eu hystyried. Nid yw'r rhestr gwestiynau'n gyflawn: bydd yna ffactorau eraill neilltuoel i blentyn unigol y bydd yr AALL am fynd ar eu trywydd. Nid yw'r canllawiau chwaith yn pennu rheolau caeth sy'n golygu, os caiff pob cwestiwn ei ateb yn gadarnhaol, ei bod yn rhaid gwneud asesiad bob amser. Yn sicr iawn, ni ddylid cymryd bod ateb cadarnhaol i un cwestiwn yn unig yn dangos bod angen asesiad statudol. Rhaid i awdurdodau addysg lleol wneud penderfyniadau yng ngoleuni holl amgylchiadau pob achos unigol a, bob amser, gan ymgynghori'n agos iawn â'r rhieni a'r ysgolion.

7:37 Er mwyn penderfynu ar ddehongliad lleol y cytunir arno, gall AALLau gynnal grwpiau safoni i gynorthwyo'r AALL i sicrhau cysondeb yn ei benderfyniadau. Gall grwpiau o'r fath gynnwys penaethiaid ysgolion, Cydlynwyr AAA, llywodraethwyr, seicolegwyr addysg a chydweithwyr o'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Gall AALLau ddefnyddio grwpiau tebyg o weithwyr proffesiynol i ystyried y dystiolaeth am bob achos a gyfeirir am asesiad statudol, fel bod gan yr AALL gyngor a chefnogaeth tîm aml-broffesiwn wrth benderfynu a ddylai gynnal asesiad ai peidio. Mewn achosion o'r fath ni all y grŵp wneud penderfyniadau am unigolion heb gael gwybodaeth lawn am y plentyn neilltuoel a chael gweld y dystiolaeth i gyd. Mae prosesau fel hyn y cytunir arnynt yn lleol yn arferion da, ond rhaid i rôl y grwpiau hyn fod yn glir, yn gyhoeddus ac yn agored i'w harchwilio. Gallant helpu ysgolion ac AALLau i sicrhau cysondeb a thryloywder wrth wneud penderfyniadau.

Tystiolaeth o gyrhaeddiad

7:38 Bydd angen tystiolaeth o gyrhaeddiad academiaidd y plentyn ym mhob maes dysgu ar AALLau bob amser. Mae canlyniadau'r asesiadau a'r profion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd y cyfnodau allweddol, deilliannau asesiadau cychwynnol neu wybodaeth am gynnydd yn y 'Canlyniadau Dymunol Dysgu', lle bo hynny'n briodol, yn rhoi dangosyddion allweddol iddynt.

7:39 Fodd bynnag, nid yw cyrhaeddiad academiaidd ynddo'i hun yn ddigon i AALLau i benderfynu a oes angen asesiad statudol ai peidio. Rhaid deall cyrhaeddiad plentyn unigol bob amser yng nghyd-destun cyraeddiadau ei gyfoedion, cyfradd cynnydd y plentyn dros amser a, lle bo hynny'n briodol, y disgwyliadau o ran perfformiad y plentyn. O edrych ar y dystiolaeth, hwyrach y gwelir bod perfformiad sy'n ymddangos yn wan i'w briodoli i ffactorau ehangach yn ymwneud â threfniadaeth yr ysgol. O ystyried tystiolaeth o gyrhaeddiad isel yn ofalus efallai y datgelir cynnydd da o sylfaen isel.

7:40 Serch hynny, cyrhaeddiad yw'r man cychwyn hanfodol wrth ystyried y dystiolaeth. Dylai AALLau bob amser fod yn effro i arwyddion y gallai anawsterau dysgu plentyn fod yn neilltuol o gymhleth neu anodd eu trin. Dylent, felly, fod yn effro i anghysondebau o bwys rhwng:

- cyraeddiadau plentyn mewn asesiadau a phroffion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol a chyrhaeddiad y rhan fwyaf o blant o'r un oedran
- cyraeddiadau plentyn mewn asesiadau a phroffion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r perfformiad a ddisgwylir gan y plentyn fel y dengys consensws ymysg y sawl sydd wedi ei ddysgu ac wedi arsylwi arno, gan gynnwys ei r(h)ieni, ynghyd â pha brofion safonol bynnag y gellir eu cynnal mewn ffordd ddibynadwy
- cyrhaeddiad plentyn yn un o bynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol neu rhwng un pwnc craidd ac un arall
- cyrhaeddiad plentyn yn y 'canlyniadau dymunol dysgu' o'i gymharu â chyrhaeddiad y rhan fwyaf o blant yr un oedran.

7:41 Felly, dylai AALLau geisio tystiolaeth sydd wedi'i chofnodi'n glir am gyrhaeddiad academiaidd y plentyn a gofyn, er enghraifft:

- a yw'r plentyn yn methu ag elwa o weithio ar raglenni astudio perthnasol i'r cyfnod allweddol sy'n briodol i'w oed neu raglenni astudio o gyfnodau allweddol cynharach, neu a yw wedi'i eithrio dros dro o'r Cwricwlwm Cenedlaethol o dan adran 364 o Ddeddf Addysg 1996
- a yw'r plentyn yn gweithio ar lefel sy'n sylweddol is na lefel ei gyfoedion yn unrhyw un o bynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol neu gwricwlwm y cyfnod sylfaen
- a oes tystiolaeth bod y plentyn yn disgyn fwyfwy ar ôl y rhan fwyaf o'r plant o'r un oedran ag ef o ran cyrhaeddiad academiaidd yn unrhyw un o bynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, a fesurir gan brofion safonol ac asesiadau o waith dosbarth y plentyn a gofnodir gan yr athrawon eu hunain, yn cynnwys unrhyw bortffolio o waith y plentyn.

Ffactorau eraill

7:42 Er bod asesiadau academaidd yn rhoi tystiolaeth bwysig, ni ddylai AALLau aros hyd nes y bydd y canlyniadau asesu diweddaraf ar gael cyn ystyried plentyn. Yn ogystal, dylai AALLau roi sylw i'r asesiadau o waith dosbarth plentyn a gofnodir gan yr athrawon eu hunain, canlyniadau Cynlluniau Addysg Unigol ac unrhyw bortffolio o waith y plentyn a luniwyd i ddangos ei gynnydd.

7:43 Dylai AALLau hefyd geisio tystiolaeth o unrhyw ffactorau eraill canfyddadwy a allai effeithio ar ganlyniadau dysgu yn cynnwys:

- tystiolaeth glir, wedi'i chofnodi, o letchwithdod; anawsterau sylweddol i roi pethau mewn dilyniant neu o ran canfyddiad gweledol; diffygion yn y cof gwaith; neu arafwch sylweddol o ran gweithrediad iaith
- unrhyw dystiolaeth o anawsterau o ran rhyngweithio cymdeithasol neu gyfathrebu, neu o stoc gyfyngedig iawn o weithgareddau, diddordebau a datblygiad y dychymyg;
- tystiolaeth o anawsterau emosiynol neu ymddygiadol o bwys, fel y dengys enghreifftiau sydd wedi'u cofnodi'n glir o ymddygiad encilgar neu aflonyddol; anallu amlwg a pharhaus i ganolbwyntio; arwyddion bod y plentyn yn profi rhwystredigaeth neu loes sylweddol oherwydd ei anawsterau dysgu; anawsterau i sefydlu a chynnal perthnasau cytbwys gyda'i gyd-ddisgyblion neu gydag oedolion; ac unrhyw dystiolaeth arall bod yna arafwch sylweddol o ran datblygu sgiliau byw a sgiliau cymdeithasol.

7:44 Gall **rhai** ffactorau, gan gynnwys problemau sylweddol yn amgylchiadau cartref neu deuluol y plentyn neu ei record presenoldeb yn yr ysgol, gyfrannu tuag at dangyflawni ond nid ydynt bob amser o reidrwydd yn dangos bod ganddo/ganddi anghenion addysgol arbennig. Felly, dylai AALLau geisio unrhyw dystiolaeth am ffactorau canfyddadwy o'r fath a allai effeithio ar ganlyniadau dysgu yn cynnwys:

- unrhyw dystiolaeth bod perfformiad y plentyn yn wahanol mewn amgylcheddau gwahanol
- tystiolaeth am broblemau meddygol sy'n cyfrannu at yr anawsterau
- tystiolaeth o asesiadau neu ymyriadau gan y gwasanaethau iechyd plant neu'r gwasanaethau cymdeithasol

7:45 Bydd angen i AALLau ystyried a yw'r dystiolaeth yn dangos bod y plentyn yn tangyflawni yn hytrach na bod ganddo anghenion addysgol arbennig ac, os felly, a oes yna ffyrdd amgen a mwy addas o helpu'r plentyn i fanteisio ar addysg, fel ei gyfeirio at y gwasanaeth lles addysg, neu at y gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol.

Y ddarpariaeth addysgol arbennig ar gyfer y plentyn

7:46 Ar ôl ystyried tystiolaeth am gyrhaeddiad y plentyn ar y cyd â'r ffactorau eraill y cyfeiriwyd atynt yn y paragraff blaenorol, efallai y gall yr AALL benderfynu ar atebion i'w rhoi ar waith ar unwaith a fyddai'n golygu na fydd angen asesiad statudol. Gallai atebion o'r fath gynnwys gwellar ddarpariaeth yn yr ysgol trwy gyfeirio'r plentyn at asiantaethau allanol nad oes a wnelont â'r plentyn eisoes neu

ddyfeisio ffurfiau gwahanol o ymyriadau addysgu trwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*. Ar y llaw arall, o ystyried y dystiolaeth i gyd mae'n bosibl y deuai'r AALL i'r casgliad y byddai asesiad statudol yn helpu i ganfod anghenion addysgol arbennig y plentyn yn llawn.

7:47 Er mwyn dod i benderfyniad, dylai AALLau werthuso'r camau a gymerwyd eisoes gan yr ysgol i helpu'r plentyn, yn enwedig y ddarpariaeth addysgol arbennig a wnaed eisoes. Ac eithrio lle bo cyflwr y plentyn wedi newid yn sydyn, bydd AALLau yn dymuno gweld tystiolaeth glir o'r anawsterau dysgu a ganfuwyd a'r ymyriadau a wnaed gan athrawon y plentyn a gweithwyr proffesiynol eraill trwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, ynghyd â gwerthusiad y Cydlynnydd AAA o'r ymyriadau hyn. Hefyd, dylai AALLau ofyn am gael gweld tystiolaeth bod gwybodaeth a syniadau a gafwyd gan y rhieni wedi'u defnyddio a bod y rhieni, hyd y bo modd, wedi eu cynnwys yn y broses o oresgyn anawsterau dysgu'r plentyn.

7:48 Os mai'r rhieni yw'r cyntaf i fynegi pryder wrth yr ysgol neu'r sefydliad am gynnydd y plentyn, dylai'r AALL ofyn am gael gweld tystiolaeth bod ymchwiliad trwyadl wedi'i gynnal i'r pryder hwnnw, yn yr un ffordd â phe bai athro'r plentyn wedi mynegi pryder. Hefyd, dylai AALLau geisio unrhyw wybodaeth feddygol sydd ar gael i'r ysgol neu'r sefydliad am y plentyn, a byddant yn dymuno ceisio gwybodaeth gan rieni'n plentyn ynglŷn ag unrhyw gyflwr meddygol a all fod yn effeithio ar ddysgu'r plentyn.

7:49 Yng ngoleuni'r dystiolaeth hon am anhawster dysgu'r plentyn, dylai AALLau ystyried y camau a gymerwyd ac, yn benodol, dylid gofyn:

- a yw'r ysgol neu'r sefydliad, mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr allanol, wedi llunio a monitro CAUau a'u gwerthuso'n rheolaidd ac a yw cynnydd y plentyn, o'i fesur yn erbyn profion sy'n seiliedig ar feini prawf neu brofion safonol, yn parhau i fod gryn dipyn yn llai, trwy'r amser, na'r hyn a ddisgwyli'r gan y rhan fwyaf o blant sy'n dilyn rhaglenni o'r fath
- a yw'r ysgol neu'r sefydliad wedi ceisio barn rhieni'r plentyn ac wedi eu cynnwys
- a yw'r ysgol neu'r sefydliad wedi gwneud ymdrech i geisio barn y plentyn, fel sy'n briodol i'w oed a'i ddealltwriaeth
- a yw'r ysgol wedi ymchwilio i fanteision posibl technoleg gwybodaeth briodol, er enghraifft cyfleusterau prosesu geiriau, gan gynnwys gwirwyr sillafu, meddalwedd a bysellfyrddau tros-haen, switshis arbenigol a, lle bo hynny'n ymarferol, wedi sicrhau cyfle i'r plentyn ei defnyddio, gan ddysgu'r plentyn, ei rieni a'r staff i ddefnyddio'r dechnoleg honno, fel bod y plentyn yn gallu defnyddio'r dechnoleg ar draws y cwricwlwm yn yr ysgol a, lle bo hynny'n briodol, gartref
- a yw'r ysgol wedi rhoi ei pholisi ar ofal a chyfarwyddyd bugeiliol ar waith ac wedi ceisio cyngor allanol i ateb unrhyw anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol

- a yw'r ysgol neu'r sefydliad, gyda chaniatâd y rhieni, wedi hysbysu meddyg yr ysgol a/neu feddyg teulu'r plentyn, fel sy'n briodol, a cheisio'u cymorth

7:50 Os yw'r dystiolaeth a gyflwynir i'r AALL ac a asesir ganddo, at ei gilydd, yn awgrymu:

- nad yw anawsterau dysgu'r plentyn wedi ymateb i fesurau perthnasol a phwrpasol a gymerwyd gan yr ysgol neu'r sefydliad ac arbenigwyr allanol

ac

- y gall fod angen darpariaeth addysgol arbennig na ellir ei darparu'n rhesymol o fewn yr adnoddau sydd ar gael fel arfer i ysgolion a sefydliadau prif ffrwd a gynhelir yn yr ardal. Dylai'r AALL ystyried yn ofalus iawn yr achos dros gynnal asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig y plentyn.

7:51 Mae'r ystyriaethau hyn yn berthnasol i bob plentyn a gyfeirir at AALLau gan eu rhieni neu gan eu hysgolion neu eu sefydliadau. Ond efallai y bydd union natur y dystiolaeth y dylai AALLau ei cheisio am anhawster dysgu'r plentyn, yr hyn a'i hachosodd yn ôl pob tebyg a'r ddarpariaeth addysgol arbennig a wneir yn dibynnu i raddau ar natur anhawster neu anabledd dysgu'r plentyn, a'i oed.

7:52 Nid yw'r canllawiau hyn yn tybio bod yna gategorïau pendant o anghenion addysgol arbennig. Maent yn cydnabod, fel y bydd AALLau yn cydnabod, fod pob plentyn yn unigryw ac y dylai'r cwestiynau a ofynnir gan AALLau adlewyrchu amgylchiadau neilltuol y plentyn hwnnw. Dylai AALLau gydnabod bod yna sbectrwm eang o anghenion addysgol arbennig sydd, yn aml, yn gydgyssylltiedig, er bod yna hefyd anghenion penodol sydd, fel rheol, yn deillio'n uniongyrchol o fathau neilltuol o nam. Gall anghenion a gofynion plant ddisgyn i o leiaf un o bedwar maes a bydd gan lawer o blant anghenion cydgysylltiedig. Dylid talu sylw i effaith y cyfuniadau hyn ar allu'r plentyn i weithredu, dysgu a llwyddo. Ceir anghenion yn y meysydd canlynol:

- cyfathrebu a rhyngweithio
- gwybyddiaeth a dysgu
- ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol
- anghenion synhwyrdd a/neu gorfforol

7:53 Er ei bod yn ddefnyddiol dosbarthu anghenion a gofynion i wahanol feysydd, mae'n eithaf posibl y bydd gan ddisgyblion unigol anghenion sy'n rhychwantu dau neu ragor o feysydd. Er enghraifft, gall fod gan ddisgybl sydd ag anawsterau dysgu cyffredinol anawsterau ymddygiad neu nam synhwyrdd hefyd. Os oes gan blentyn anghenion cymhleth fel hyn, mae'n bwysig cynnal asesiad manwl o ddisgyblion unigol a'u sefyllfaoedd. Fodd bynnag, os oes gan blentyn nifer o anawsterau llai difrifol efallai y gall yr ysgol ei hunan ddarparu ar gyfer ei anghenion. Mewn rhai achosion, bydd gan ddisgyblion anghenion sy'n ddifrifol yn ogystal ag yn gymhleth.

7:54 Wrth ystyried tystiolaeth i benderfynu a oes angen cynnal asesiad statudol ai peidio, dylai AALLau gadw mewn cof ofynion neilltuol y plentyn unigol, ac a ellir bodloni'r gofynion hyn gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael eisoes i

sefydliadau ac ysgolion prif ffrwd yn eu hardal yng nghyd-destun trefniadau ymyrryd, monitro ac adolygu yr ysgol neu'r sefydliad ei hunan.

Cyfathrebu a Rhyngweithio

7:55 Mae gan y rhan fwyaf o blant sydd ag anghenion addysgol arbennig gryfderau ac anawsterau mewn un, rhai neu bob un o'r meysydd hyn: lleferydd, iaith a chyfathrebu. Gall eu hanghenion cyfathrebu fod yn amrywiol a chymhleth. Bydd angen iddynt barhau i ddatblygu eu medrau ieithyddol er mwyn cynnal eu prosesau meddwl yn ogystal â'u cyfathrebu. Bydd yr anawsterau'n cynnwys plant a phobl ifanc sy'n hwyr yn siarad neu'n defnyddio iaith neu sydd â nam neu anhwylder ar eu lleferydd a'u hiaith, anawsterau dysgu penodol fel dyslecsia a dyspracsia, nam ar y clyw a'r rheini sy'n dangos nodweddion o fewn y sbectrwm awtistig; gall yr anawsterau hyn effeithio'n ogystal ar rai plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu cymhedrol, dwys neu ddifrifol. Mewn rhai achosion, bydd anawsterau iaith a chyfathrebu yn deillio o nam synhwyaidd neu gorfforol parhaol.

7:56 Gall fod ar y plant hyn angen rhai, neu'r cyfan, o'r isod:

- trefniadau addysgu hyblyg
- help i gaffael, deall a defnyddio iaith
- help gydag ynganu
- help i gaffael sgiliau llythrennedd
- help i ddefnyddio dulliau cyfathrebu ychwanegol neu amgen
- help i ddefnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol yn hyderus a medrus at wahanol ddibenion yn cynnwys sefyllfaoedd ffurfiol
- help i drefnu a chydlynua iaith lafar ac ysgrifenedig
- cefnogaeth i wneud iawn am effaith anhawster cyfathrebu ar ddysgu yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol
- help i fynegi, deall a defnyddio eu hiaith eu hunain, lle nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt

7:57 Os yw'r AALL o'r farn y gallai rhai o'r rhaglenni hyn, neu bob un ohonynt, gael eu darparu ar gyfer plentyn gan yr ysgol mewn cydweithrediad â'r AALL neu wasanaethau cefnogi allanol, gall yr AALL ddod i'r casgliad y dylid ymyrryd trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* a monitro hynny i weld a fu'r gweithredu yn effeithiol. Wedyn, byddai'n briodol i'r AALL ddod i'r casgliad nad oedd angen asesiad statudol. Ar y llaw arall, os oedd yr ysgol a'r gwasanaethau cefnogi eisoes wedi darparu'r ymyriadau hyn trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* ac nad oedd y plentyn wedi gwneud cynnydd derbyniol, yna dylid ystyried asesiad statudol.

Gwybyddiaeth a Dysgu

7:58 Os yw plant yn dangos arwyddion o anawsterau dysgu cymhedrol, difrifol neu ddwys neu anawsterau dysgu penodol fel dyslecsia neu ddyspracsia, bydd angen rhaglenni penodol i'w helpu ym meysydd gwybyddiaeth a dysgu. Gallai hyn fod yn wir i ryw raddau hefyd am blant â nam synhwyaidd neu gorfforol neu rai ar y sbectrwm awtistig. Efallai y bydd gan rai o'r plant hyn anawsterau

synhwyrdd, corfforol neu ymddygiadol cysylltiedig sy'n ychwanegu at eu hanghenion. Gall fod ar y plant hyn angen rhai o'r isod neu bob un ohonynt:

- trefniadau addysgu hyblyg
- help i brosesu sgiliau iaith, cofio ac ymresymu
- help a chefnogaeth i gaffael sgiliau llythrennedd
- help i drefnu a chydlyn Cymraeg neu Saesneg llafar ac ysgrifenedig i gynorthwyo gwybyddiaeth
- help gyda sgiliau dilyniant a threfnu
- help i ddatrys problemau a datblygu cysyniadau
- rhaglenni i helpu i wella eu medrau motor manwl
- cefnogaeth i ddefnyddio termau technegol a syniadau haniaethol
- help i ddeall syniadau, cysyniadau a phrofiadau lle na ellir cael gwybodaeth trwy brofiadau synhwyrdd neu gorfforol uniongyrchol

7:59 Fel y dangoswyd ym mharagraffau 7.46 a 7.47, bydd angen i'r AALL ystyried, yn achos pob plentyn unigol, a ellir darparu'r rhaglenni hyn trwy ymyrryd ar ffurf *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, neu a ddylai'r AALL gynnal asesiad statudol. Gall y penderfyniad ddibynnu ar ddifrifoldeb anghenion y plentyn o ran ei allu gwybyddol ac unrhyw anghenion cysylltiedig sy'n ei gwneud yn anos i'r plentyn fanteisio ar y cwricwlwm. Os yw'r atebion ar gyfer plentyn wedi symud y tu hwnt i wahaniaethu cyffredin at ateb lle mae'n rhaid cael mewnbwn penodol nid yn unig i roi mynediad i ddysgu ond, yn bwysicach, i sicrhau dysgu neu ddatblygu strategaethau i oresgyn meysydd penodol o wendid, efallai y bydd angen asesiad.

Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol

7:60 Os yw plant a phobl ifanc yn dangos arwyddion o anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, yn encilgar neu wedi'u hynysu, yn tarfu ac yn aflonyddu, yn orfywiog ac yn methu canolbwyntio; os yw eu sgiliau cymdeithasol yn anaeddfed; neu os yw eu hymddygiad yn her o ganlyniad i anghenion arbennig cymhleth eraill, efallai bod arnynt angen help ar ffurf rhai o'r isod neu bob un ohonynt:

- trefniadau addysgu hyblyg
- help i ddatblygu medr cymdeithasol ac aeddfedrwydd emosiynol
- help i ymaddasu i ddisgwyliadau a threfn ysgol
- help i feithrin sgiliau rhyngweithio positif gyda chyfoedion ac oedolion
- cymorth arbenigol ar gyfer eu hymddygiad neu eu gwybyddiaeth
- ailsianelu neu ailgyfeirio er mwyn lleddfu ymddygiad ailadroddus neu hunan-anafu
- darparu systemau dosbarth ac ysgol sy'n rheoli neu'n ceryddu ymddygiad negyddol neu anodd ac yn annog ymddygiad cadarnhaol
- darparu amgylchedd diogel a chefnogol

7:61 Bydd angen i'r AALL ystyried, ar gyfer pob achos yn unigol, a ellir darparu'r ymyriadau hyn trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* ynteu a oes angen i'r AALL wneud asesiad statudol.

Anghenion synhwyrdd a/neu gorfforol

7:62 Mae yna sbectrwm eang o anawsterau synhwyrdd, aml-synhwyrdd a chorfforol. Mae'r ystod synhwyrdd yn ymestyn o fyddardod a nam gweledol dwys a pharhaol drwodd i lefelau llai o golled, dros dro o bosib. Gall fod achosion corfforol, niwrolegol neu fetabolaidd i nam corfforol. Weithiau, ni fydd angen dim mwy na chyfle i ddefnyddio cyfleusterau a chyfarpar addysgol priodol; dro arall, ceir anghenion dysgu a chymdeithasol mwy cymhleth; bydd gan nifer fechan o blant anawsterau aml-synhwyrdd, rhai ohonynt ag anawsterau corfforol cysylltiedig. I rai plant mae'r anallu i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol yn achosi straen emosiynol neu flinder corfforol sylweddol. Bydd ar lawer o'r plant a'r bobl ifanc hyn angen rhai o'r isod:

- trefniadau addysgu hyblyg
- seddau, cyfleusterau acwstig a goleuadau priodol
- addasiadau i adeiladwaith yr ysgol ac ati
- addasiadau i bolisiau a dulliau gweithredu'r ysgol
- cyfle i ddefnyddio dulliau cyfathrebu amgen neu ychwanegol
- darparu deunyddiau cyffwrddol a chinesthetig
- cyfle i ddefnyddio gwahanol systemau chwyddo sain
- cyfle i ddefnyddio cymhorthion gweledol
- cyfle i ddilyn pob rhan o'r cwricwlwm trwy gymhorthion, cyfarpar neu ddodrefn arbenigol
- cyfle i fanteisio ar gefnogaeth arbenigol yn rheolaidd ac yn aml.

7:63 Yn achos y plant sydd â'r anghenion corfforol mwyaf cymhleth a'r anawsterau synhwyrdd mwyaf difrifol, mae'n debygol y bydd yr AALL o'r farn bod angen asesiad statudol. Mae'n debygol mai'r ffactorau llywodraethol yw faint o addysgu arbenigol, cymhorthion neu addasiadau sy'n ofynnol. Fodd bynnag, yn achos llawer o blant gydag anghenion synhwyrdd neu gorfforol llai difrifol, bydd ymyrryd trwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* yn briodol.

Cyflyrau meddygol

7:64 Nid yw diagnosis meddygol neu anabledd, o anghenraid, yn golygu bod gan blentyn anghenion addysgol arbennig. Efallai na fydd angen i blentyn neu berson ifanc sydd â diagnosis neu gyflwr meddygol neilltuol gael datganiad nac unrhyw fath o ddarpariaeth addysgol ychwanegol ar unrhyw gyfnod o'i addysg. Dylid ystyried anghenion addysgol y plentyn yn hytrach na'r diagnosis meddygol. Efallai na fydd ar rai disgyblion angen datganiadau na ddarpariaeth AAA yn yr ysgol ond bod ganddynt gyflyrau meddygol a allai amharu ar eu haddysg os na chânt eu rheoli'n iawn.⁴⁷

⁴⁷ Mae Cylchlythyr y Cynulliad Cenedlaethol 34/97, (Cylchlythyr Iechyd Cymru 97/31): 'Cefnogi Disgyblion sydd ag Anghenion Meddygol mewn Ysgolion' yn rhoi cyngor i ysgolion ar lunio polisiau meddyginiaethau a sicrhau systemau rheoli effeithiol i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion meddygol.

7:65 Mewn rhai achosion, gall cyflyrau meddygol gael effaith sylweddol ar brofiadau'r plentyn a'r ffordd y mae'n gweithredu yn yr ysgol. Gall yr effaith fod yn un uniongyrchol yn yr ystyr y gall y cyflwr meddygol effeithio ar allu gwybyddol y plentyn, ei allu corfforol, ei ymddygiad neu ei gyflwr emosiynol. Gall cyflwr meddygol gael effaith anuniongyrchol hefyd, er enghraifft: drwy darfu ar gyfle plentyn i gymryd rhan mewn addysg; drwy effeithiau annymunol triniaeth; a thrwy'r effeithiau seicolegol y gall salwch difrifol neu gronig neu anabledd eu cael ar blentyn a'i deulu. Gall effeithiau cyflwr meddygol fod yn ysbeidiol a gall eu heffaith ar weithrediad plentyn yn yr ysgol amrywio ar wahanol adegau yn ystod ei yrfa ysgol. Gall hyn adlewyrchu newidiadau yng nghwricwlwm yr ysgol, newidiadau yn y plentyn unigol a newidiadau yn y grŵp cyfoedion, er enghraifft gyda dyfodiad glasoes.

7:66 Bydd yn hanfodol sicrhau ymgynghori a thrafod agored rhwng rhieni'r plentyn, yr ysgol, meddyg yr ysgol neu feddyg teulu'r plentyn, y paediatregydd cymuned ac unrhyw wasanaethau arbenigol sy'n darparu triniaeth ar gyfer y plentyn er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cyflawni i'r eithaf. Dylai cydweithredu o'r fath sicrhau hefyd nad yw'r plentyn o reidrwydd yn cael ei gau allan heb angen o unrhyw ran o'r cwricwlwm na gweithgaredd yr ysgol oherwydd pryderon ynglŷn â'i ofal a'i driniaeth.

7:67 Dylai ysgolion sicrhau bod eu trefniadau gofal bugeiliol nhw yn caniatáu i blant a phobl ifanc drafod unrhyw broblemau iechyd neu broblemau eraill gyda gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol, seicolegydd addysg, swyddog lles addysg, cwnselydd neu weithiwr proffesiynol arall. Dylai'r ysgol a'r teulu drafod gyda'i gilydd er mwyn darparu cymaint o gefnogaeth ag sy'n bosibl ar gyfer y plentyn.

Penderfynu bod asesiad statudol yn angenrheidiol

7:68 Cyn pen chwe wythnos ar ôl hysbysu rhieni bod asesiad statudol yn cael ei ystyried neu cyn pen chwe wythnos ar ôl i rieni, ysgolion a sefydliadau ofyn am asesiad, mae'n rhaid i'r AALL ddweud wrth y rhieni a'r ysgol neu'r sefydliad (os mai nhw a wnaeth y cais) a fydd yn gwneud asesiad statudol ai peidio. Mae'r cyfnod o 29 diwrnod sydd gan rieni i gyflwyno sylwadau yn rhan o'r chwe wythnos.

7:69 *Penderfynu peidio â gwneud asesiad statudol:* os yw'r AALL yn penderfynu nad oes angen cynnal asesiad statudol, mae'n **rhaid** iddo roi gwybod i'r rhieni gan esbonio'r rhesymau; dylai hefyd nodi'r ddarpariaeth a fyddai ym marn yr awdurdod yn diwallu anghenion y plentyn yn briodol. Gall y penderfyniad i beidio â gwneud asesiad statudol fod yn siom fawr i rieni'r plentyn ac efallai na fydd ysgol y plentyn yn ei groesawu chwaith. Pwy bynnag a soniodd i ddechrau y gallai fod angen asesiad – yr AALL ar y naill law neu'r rhieni neu'r ysgol ar y llaw arall – dylai'r AALL ysgrifennu at yr ysgol ac at rieni'r plentyn yn rhoi'r rhesymau llawn am ei benderfyniad.

7:70 Dylai'r AALL ymdrechu i sicrhau bod y rhieni yn deall darpariaeth yr ysgol a'r trefniadau monitro ac adolygu. Mewn rhai achosion, gallai fod yn fuddiol i'r Swyddog a Enwir yn yr AALL gwrdd â'r rhieni i egluro'r sefyllfa'n fanwl. Efallai y bydd yr AALL o'r farn y byddai'n briodol i bennaeth ysgol y plentyn neu'r Cydlynnydd AAA fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r fath. Bydd cyfarfod fel hyn yn neilltuo o ddefnyddiol os yw'n amlwg bod anghytuno rhwng y rhieni a'r ysgol ynglŷn â chynnydd a chyraeddiadau'r plentyn yn yr ysgol, priodolrwydd darpariaeth yr ysgol neu'r angen am asesiad statudol.

7:71 Os yw'r rhieni wedi gofyn yn ffurfiol am asesiad statudol o dan adran 328 neu 329, neu os yw ysgol neu sefydliad eu plentyn wedi gwneud cais o dan 329(A), gall y rhieni apelio i'r Tribiwnlys AAA yn erbyn penderfyniad i beidio â gwneud asesiad. Mae'n **rhaid** i AALLau hysbysu rhieni am yr hawl i apelio a'r terfynau amser ar gyfer apelio, y ffaith bod gwasanaethau datrys anghytundeb ar gael ac nad yw'r rhain yn amharu ar hawl y rhieni i apelio.

Terfynau amser ar gyfer gwneud asesiadau

7:72 Mae er budd pawb dan sylw bod asesiadau statudol yn cael eu cynnal cyn gynted ag sy'n rhesymol. Mae'n bwysig bod pob rhan o'r broses yn cael ei chynnal yn rhesymol o gyflym. Gall yr AALL benderfynu, ar ôl dweud ei fod yn bwriadu cynnal asesiad, nad oes angen gwneud yr asesiad hwnnw, neu, ar ôl asesu'r plentyn, nad oes angen llunio datganiad arfaethedig. Dylid hysbysu'r rhieni cyn gynted â phosibl am benderfyniadau o'r fath ac am y trefniadau amgen priodol a wneir. Mae'n **rhaid** i AALLau roi gwybod i rieni am eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA ar bob cam priodol o'r broses statudol.

7:73 Mae rheoliadau'n nodi'r terfynau amser arferol ar gyfer gwahanol rannau'r broses o wneud asesiadau statudol a datganiadau. Effaith grynodol y terfynau amser hyn yw na ddylai'r cyfnod o'r adeg y derbynnir cais am asesiad statudol neu y cyflwynir hysbysiad i rieni o dan adran 323(1) neu adran 329A(3) hyd nes y cyflwynir y copi terfynol o'r datganiad fod yn fwy na 26 wythnos fel arfer. Gwelir siart lif yn 8:134.

Gwneud yr asesiad

7:74 Ar ôl penderfynu gwneud asesiad statudol, mae'n **rhaid** i'r AALL geisio cyngor gan y rhieni, cyngor addysgol, meddygol a seicolegol a chynghor gan y gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid iddo hefyd geisio unrhyw gyngor arall y mae'n ei ystyried yn briodol⁴⁸ a, lle bo hynny'n rhesymol, dylai ymgynghori â'r sawl a enwyd gan y rhieni. Dylai wneud hynny ar unwaith a dylai ofyn i bawb dan sylw ymateb cyn pen chwe wythnos.

7:75 Ar yr adeg hon, mae'n **rhaid** hysbysu'r rhieni ei bod yn bosibl y caiff eu plentyn ei alw am archwiliad neu asesiad fel rhan o'r broses o ddwyn yr holl gyngor perthnasol ynghyd. Os bwriedir cynnal asesiad neu archwiliad ar y plentyn, mae'n **rhaid** rhoi gwybod i rieni hefyd bod ganddynt hawl i fod yn bresennol gyda'u plentyn mewn unrhyw gyfweiliad, prawf, asesiad meddygol neu asesiad arall sy'n cael ei gynnal a dylid dweud wrthynt ym mhle y cynhelir yr apwyntiadau, am faint o'r gloch a beth yw eu diben. Yn ogystal, mae'n **rhaid** rhoi enw swyddog o'r AALL iddynt y gallant gysylltu ag ef/hi i gael rhagor o wybodaeth a dweud wrthynt bod ganddynt hawl i gyflwyno gwybodaeth i'r AALL os dymunant. Dylid dweud wrth rieni, er bod ganddynt hawl i fod yn bresennol, y gallai fod yn wrthgynhyrchiol o dan rai amgylchiadau: er enghraifft, os bwriedir arsylwi yn y dosbarth fel rhan o'r asesiad, bydd plentyn yn ymddwyn yn wahanol os bydd ei rieni yn bresennol, a byddai hynny'n negyddu diben yr arsylwi.

7:76 Fel rheol, mae'n **rhaid** i'r gwasanaethau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ymateb o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y cânt gais am gyngor. Bydd yr AALL wedi hysbysu'r swyddog meddygol dynodedig a'r swyddog gwasanaethau cymdeithasol dynodedig cyn hynny ei bod yn bosibl y gwneir asesiad.

⁴⁸ Os yw plentyn yn destun achos cyfraith gyhoeddus ar y pryd byddai'n ddoeth i'r AALL gynnwys y Gwarcheidwad Plant (a elwid gynt yn warcheidwad ad litem) yn y broses asesu.

7:77 Nid oes raid i'r gwasanaethau ieuchyd na'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol ymateb cyn pen chwe wythnos os nad oedd ganddynt wybodaeth berthnasol am y plentyn o dan sylw cyn i'r AALL eu hysbysu ei fod yn ystyried a ddylid gwneud asesiad, neu cyn i'r AALL hysbysu'r gwasanaethau ieuchyd a chymdeithasol ei fod wedi cael cais am asesiad. O dan yr amgylchiadau hynny, fodd bynnag, dylai'r gwasanaeth ieuchyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol wneud pob ymdrech i ymateb yn brydlon.

Ceisiadau am gyngor

7:78 Mae'n rhaid i'r AALL fwrw ymlaen yn awr i geisio'r cyngor sy'n ofynnol fel rhan o broses yr asesiad statudol. Mae bob amser yn ofynnol i'r AALL roi copïau o unrhyw sylwadau a wnaed gan rieni'r plentyn neu dystiolaeth a ddarparwyd ganddynt o dan adran 323(1)(d) neu adran 329A(3)(d) i'r sawl y mae'n ceisio cyngor ganddynt.

7:79 Dylai AALLau nodi'n glir bod y Rheoliadau⁴⁹ yn mynnu ei bod yn **rhaid** i'r cyngor ymwneud â nodweddion addysgol, meddygol, seicolegol neu nodweddion eraill sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn ar y pryd ac yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n **rhaid** i'r cyngor nodi sut y gallai'r nodweddion hyn effeithio ar anghenion addysgol y plentyn a pha ddarpariaeth a ystyrir yn briodol yng ngoleuni'r nodweddion hynny. Efallai y bydd y sawl sy'n rhoi cyngor yn sôn am faint o ddarpariaeth y barnant ei bod yn briodol. Felly, ni ddylai AALLau gael polisïau cyffredinol sy'n atal y sawl sy'n rhoi cyngor rhag sôn am faint o ddarpariaeth y mae ar blentyn ei hangen yn eu barn nhw.

7:80 Fodd bynnag, **ni ddylai** ystyriaeth o enw'r ysgol lle gallai'r plentyn gael ei leoli maes o law ddylanwadu ar y cyngor a roddir gan y gweithwyr proffesiynol. Mae'n rhaid peidio ag awgrymu ysgolion penodol na mathau penodol o ysgolion. Yr AALL fydd yn penderfynu ar y lleoliad yn ddiweddarach ac yng ngoleuni unrhyw ddewis sy'n cael ei ffafrio gan y rhieni neu sylwadau a wneir ganddynt. Ond efallai y bydd trafodaethau rhwng ymgynghorwyr a rhieni am anghenion y plentyn yn cynnwys ystyried gwahanol opsiynau, yn eu plith y posibilrwydd o addysg brif ffrwd ar gyfer y plentyn a'r math o ysgol lle câi ei anghenion eu diwallu orau, er enghraifft ysgol brif ffrwd, arbennig neu breswyl. Ond ni ddylai trafodaethau fel hyn rwymo'r AALL, ac ni ddylid cymryd yn ganiataol beth fydd barn y rhieni cyn iddynt ei datgan neu gyflwyno'u sylwadau, na phenderfyniad yr AALL maes o law.

7:81 Dylai'r AALL nodi wrth wneud ceisiadau am gyngor erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid cyflwyno'r cyngor.

7:82 Er mwyn gwneud asesiad statudol, mae'n **rhaid** i'r AALL geisio, ar ffurf ysgrifenedig:

- A. Cyngor y rhieni**
- B. Cyngor addysgol**
- C. Cyngor meddygol**
- D. Cyngor seicolegol**
- E. Cyngor y gwasanaethau cymdeithasol**

49 Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002

F. Unrhyw gyngor arall (megis dymuniadau'r plentyn hyd y bo hynny'n hysbys) y mae'r AALL neu unrhyw gorff arall y ceisir cyngor ganddo o'r farn y byddai'n ddymunol ei gael. Yn arbennig, mae'n rhaid ceisio cyngor gan gorff Addysg Plant y Lluoedd Arfog (SCE) (gweler yr Eirfa) os yw rhiant y plentyn yn aelod sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog.

7:83 Yng ngoleuni'r cyngor addysgol a geir oddi wrth yr ysgol neu'r sefydliad addysg gynnar, dylai'r AALL ystyried a ddylid ceisio cyngor ar wahân oddi wrth athro neu weithiwr proffesiynol o wasanaeth cefnogi sydd wedi bod yn gweithio gyda'r plentyn ar ysgol neu'r sefydliad cyn y cais am asesiad statudol.

7:84 Os ymddengys i'r AALL bod gan y plentyn anawsterau synhwyrdd, mae'n **rhaid** i'r AALL gael cyngor addysgol gan athro sy'n gymwys i ddysgu plant sydd â nam gweledol neu nam ar eu clyw yn ogystal â chan yr ysgol neu'r sefydliad.

Barn y plentyn

7:85 *Yn ogystal, dylai AALLau geisio canfod barn plant a phobl ifanc fel rhan o'r asesiad.* Gallant gyfrannu gwybodaeth werthfawr amdany'n nhw'u hunain ar ffyrdd yr hoffent weld eu hanghenion yn cael eu diwallu. Os oes modd, dylid cofnodi barn plentyn am ei anghenion a'i ddyheadau fel rhan o'r broses asesu statudol. Gall yr AALL ystyried darparu ffurflen gofnodi i'r disgybl at y diben hwn. Os ydynt yn abl i wneud hynny, gallai disgyblion gofnodi eu barn eu hunain ar y ffurflen. Os bydd angen help ar blant neu bobl ifanc, gallai'r trefniadau arbennig ar gyfer casglu barn y plentyn gynnwys gofyn i rieni, seicolegwyr addysg, athrawon neu diwtoriaid dosbarth ac oedolion eraill sy'n adnabod y plentyn yn dda. Awgrymir canllawiau ar gyfer rhoi cyngor ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA.

Y camau nesaf

7:86 Wedi derbyn y cyngor i gyd, mae'n **rhaid** i'r AALL benderfynu a oes angen iddo wneud datganiad neu ddiwygio datganiad sy'n bod eisoes. Mae'n rhaid iddo wneud y penderfyniad hwnnw cyn pen deg wythnos ar ôl cyflwyno'r hysbysiad o dan adran 323(4) neu 329A(7).

7:87 Os penderfyna'r AALL bod angen gwneud neu ddiwygio datganiad, mae'n rhaid iddo ddrafftio datganiad arfaethedig neu ddatganiad diwygiedig arfaethedig ac anfon copi at rieni'r plentyn cyn pen pythefnos. Dylid cynnwys y cyngor a gafwyd fel rhan o'r asesiad gydag ef. Mae'n arfer da hefyd i anfon copi o'r drafft at y sawl a roddodd gyngor; yna, byddai modd cywiro unrhyw gamdybiaeth sydd wedi codi wrth ddehongli'r cyngor cyn penderfynu'n derfynol ar y datganiad.

7:88 Os penderfyna'r AALL nad oes angen datganiad na datganiad diwygiedig, mae'n **rhaid** iddo hysbysu'r rhieni gan roi rhesymau a dylai hysbysu'r ysgol o'r penderfyniad hwnnw hefyd gan roi'r rhesymau, a gorau oll os rhoddir nodyn yn lle'r datganiad, a hynny hefyd cyn pen pythefnos. Felly, fel rheol, ni ddylai'r cyfnod rhwng cyhoeddi'r hysbysiad o dan adran 323(4) neu adran 329A(7) a chyhoeddi datganiad arfaethedig neu nodyn yn lle datganiad fod yn hwy na 12 wythnos.

7:89 Dylai'r AALL gael yr holl gyngor angenrheidiol cyn pen chwe wythnos ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o dan adran 323(4) neu adran 329A(7), er bod y canllawiau'n pennu uchafswm o ddeg wythnos. Felly, mae'n rhaid i'r AALL benderfynu a yw'n mynd i wneud datganiad erbyn diwedd y deg wythnos; ac anfon datganiad

arfaethedig neu'r rhesymau ysgrifenedig pam na fydd yn gwneud datganiad, ar ffurf nodyn yn lle datganiad os oes modd, at y rhieni cyn pen pythefnos arall. Ceir canllawiau pellach ar ysgrifennu nodyn yn lle datganiad ym mharagraff 8.15 – 8.22.

7:90 Y pwynt holl bwysig yw ei bod yn rhaid i rieni dderbyn hysbysiad ffurfiol o ganlyniad yr asesiad cyn pen 12 wythnos i ddechrau'r asesiad statudol fel rheol. Os yw'r AALL yn penderfynu peidio ag asesu, mae'n **rhaid** rhoi gwybod i'r rhieni am eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA, y terfynau amser ar gyfer cyflwyno apêl, y ffaith bod gwasanaethau partneriaeth â rhieni a datrys anghytundeb ar gael, ac nad yw'r ffaith eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth datrys anghytundeb yn effeithio ar hawl y rhieni i apelio.

Eithriadau i'r terfynau amser

7:91 Wrth ddisgrifio rôl AALLau, y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn y broses o wneud asesiad statudol, mae'r bennod hon wedi tynnu sylw at y terfynau amser y mae'n rhaid i'r cyrff hyn gadw atynt fel rheol. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau ni fydd yn rhesymol disgwyl i'r cyrff dan sylw gadw at yr amserlenni hynny ac felly ni fydd y terfynau amser arferol yn berthnasol. Mae'n arfer da i hysbysu rhieni'n o dan amgylchiadau felly er mwyn iddynt ddeall y rhesymau am unrhyw oedi.

7:92 Mae'r Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 yn pennu'r eithriadau i'r:

- uchafswm o chwe wythnos sydd gan AALLau i roi gwybod i rieni a fyddant yn cynnal asesiad statudol ai peidio
- uchafswm o ddeg wythnos sydd gan AALLau i gynnal asesiad
- uchafswm o chwe wythnos sydd gan y gwasanaethau iechyd a'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol i roi gwybodaeth.

7:93 Dylai AALLau ymdrechu bob amser i sicrhau bod yr eithriadau'n achosi cyn lleied o oedi ag y bo modd. Cyn gynted ag y bydd y sefyllfa sydd wedi arwain at eithriad wedi darfod, dylai'r AALL ymdrechu i gwblhau'r broses cyn gyflymed â phosibl. Wrth gwrs, mae'n rhaid i unrhyw elfennau o'r broses sy'n weddill gael eu cwblhau o fewn eu cyfnodau penodedig, hyd yn oed os oes eithriadau wedi dal elfennau blaenorol yn ôl.

Ceisiadau am asesiadau statudol pellach

7:94 O dan adran 328 o Ddeddf Addysg 1996, gall rhieni plentyn sy'n destun datganiad wneud cais am asesiad newydd o'r plentyn hwnnw o dan adran 323 o'r Ddeddf. Mae'n **rhaid** i'r AALL gydymffurfio â chais o'r fath, ar yr amod:

- nad oes asesiad o'r fath wedi'i wneud yn ystod y chwe mis blaenorol; a
- bod yr AALL yn dod i'r casgliad bod angen asesiad pellach.

7:95 O dan adran 329A o Ddeddf Addysg 1996, gall ysgol neu sefydliad y plentyn ofyn am asesiad newydd o'r plentyn. Mae'n **rhaid** i'r AALL gydymffurfio â chais o'r fath, ar yr amod:

- nad oes asesiad o'r fath wedi'i wneud yn ystod y chwe mis blaenorol; a

- bod yr AALL yn dod i'r casgliad bod angen asesiad pellach.

7:96 Mae'n rhaid i'r AALL ddilyn y dulliau gweithredu a nodir ym mharagraff 7.16. Dylai'r AALL ystyried pob cais o'r fath yn ofalus. Yn neilltuol, dylent ystyried a fu yna newidiadau sydd wedi effeithio'n sylweddol ar anghenion addysgol arbennig y plentyn. Os yw'r cais am asesiad pellach yn deillio o adolygiad blynyddol, bydd llawer o'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i'r AALL seilio'i benderfyniad arni ar gael iddo eisoes.

7:97 Os daw'r AALL i'r casgliad nad oes angen asesiad pellach, mae'n **rhaid** iddo hysbysu'r rhieni o'r penderfyniad ac o'u hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA, y terfynau amser, y ffaith bod trefniadau datrys anghytundeb ar gael ac nad yw'r ffaith eu bod yn cymryd rhan yn y trefniadau hynny'n effeithio ar hawl rhieni i apelio. Mae'n **rhaid** i'r AALL roi rhesymau llawn am ei benderfyniad i rieni bob amser. Efallai y bydd yr AALL am drefnu cyfarfod rhwng y rhieni a'r ysgol. Os mai'r ysgol neu'r sefydliad a wnaeth y cais, mae'n **rhaid** i'r AALL roi gwybod iddynt am ei benderfyniad a'r rhesymau drosto.

7:98 Os penderfyna'r AALL fod angen asesiad pellach, mae'r dulliau gweithredu a'r terfynau amser a nodir yn y bennod hon yn sefyll. Bydd y datganiad sy'n deillio o'r asesiad yn disodli'r datganiad blaenorol.

8 Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig

Lle mae'n angenrheidiol, yng ngoleuni asesiad adran 323, i'r AALL bennu'r ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n ofynnol ar gyfer anhawster dysgu'r plentyn, mae'n rhaid i'r AALL lunio a chynnal datganiad o'i hanghenion addysgol arbennig.

Gweler adran 324(1), Deddf Addysg 1996

Cyflwyniad

8:1 Unwaith y bydd yr holl gyngor y gofynnir amdano ar gyfer yr asesiad statudol wedi dod i law, fel y disgrifir ym Mhennod Saith, mae'n rhaid i'r AALL benderfynu a yw am lunio datganiad. Gall yr AALL benderfynu bod maint anhawster dysgu'r plentyn a natur y ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i ddiwallu ei anghenion addysgol arbennig gyfryw fel bod gofyn i'r AALL bennu darpariaeth addysgol arbennig y plentyn trwy lunio datganiad.

8:2 Bydd yr AALL yn gwneud y penderfyniad hwn pan fydd o'r farn na all y ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y plentyn gael ei darparu'n rhesymol o fewn yr adnoddau sydd ar gael fel arfer i ysgolion prif ffrwd a sefydliadau addysg gynnar⁵⁰ yn yr ardal.

8:3 Dylai fod gan ysgolion a gynhelir, ac eithrio ysgolion arbennig, rywfaent o arian yn eu cyllideb ddirprwyedig sy'n adlewyrchu anghenion ychwanegol disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn cael yr arian hwn trwy fformiwla ariannu sy'n adlewyrchu nifer yr achosion o AAA, wedi'u mesur mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n rhaid i'r datganiadau cyllideb y mae'n ofynnol i AALLau eu paratoi o dan adran 52 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ddangos cyllideb dybiannol pob ysgol ar gyfer AAA.

8:4 O dan Reoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2002, mae'n ofynnol i AALLau gyhoeddi, o fis Ebrill 2002 ymlaen, fanylion o'r mathau o drefniadau cefnogi y gallai ysgolion a gynhelir yn eu hardal ddarparu fel rheol o'u cyllidebau o dan Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Yn ogystal, mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi eu cynlluniau eu hunain ar gyfer darparu cefnogaeth AAA briodol – yn enwedig o dan Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

8:5 Lle bo angen adnoddau ychwanegol i alluogi ysgol i wneud y ddarpariaeth a bennir mewn datganiadau, gall yr AALL ddarparu'r adnoddau hynny'n uniongyrchol o'r ddarpariaeth ganolog, gall ddatganoli adnoddau wedi'u clustnodi at y diben i ysgolion, neu gall eu dirprwyo. Dirprwywyd cyllid ar gyfer disgyblion sy'n destun datganiadau mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig mewn nifer o awdurdodau addysg lleol gyda manteision amlwg e.e. trefniadau staffio mwy sefydlog, y gallu i ymateb yn brydlon ac mewn ffordd hyblyg i anghenion sydd newydd eu canfod, gwell hyfforddiant a gwell sgiliau i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig.

8:6 Sut bynnag y darperir adnoddau, mae gan ysgolion ac AALLau ddyletswyddau penodol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig a dylai'r cyllid ar gyfer AAA gefnogi'r dyletswyddau hynny. O dan adran 317 o Ddeddf Addysg 1996, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion

⁵⁰ Yn y bennod hon mae ysgolion yn cyfeirio hefyd at sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar, ac eithrio mewn perthynas â threfniadau ariannu.

cymunedol, sefydledig a gwirfoddol wneud eu gorau i sicrhau bod disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael y cymorth angenrheidiol ar gyfer eu hanawsterau dysgu. Maent yn atebol, trwy eu hadroddiadau i rieni am y ffordd y caiff adnoddau eu dyrannu i ddisgyblion sydd ag AAA ac yn eu plith, ac am effeithlonrwydd eu darpariaeth ar gyfer AAA. Mae'n ddyletswydd ar AALLau o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996 i drefnu'r ddarpariaeth addysgol arbennig yn natganiad plentyn. Gall trefniadau ariannu AALLau gynnwys cyfleuster i ymyrryd os nad yw disgybl yn cael y ddarpariaeth a nodir yn ei ddatganiad ac i wneud y trefniadau eu hunain, gan godi tâl am hynny o gyllideb yr ysgol.

8:7 Yng ngoleuni eu dyletswyddau statudol, dylai AALLau ac ysgolion gydweithio i sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer monitro ac atebolrwydd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i wella cyrhaeddiad disgyblion sydd ag AAA. Dylai'r trefniadau hyn arwain at fwy o dryloywder a dylid eu seilio ar ddatganiad clir sy'n nodi gwahanol gyfrifoldebau AALLau a chyrrff llywodraethu ac yn esbonio sut y cefnogir y cyfrifoldebau hyn trwy drefniadau'r AALL i ariannu ysgolion. Dylent ganolbwyntio ar effeithioldeb y ddarpariaeth a wneir ar gyfer plant sydd ag AAA a dylent geisio sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda, bod y ddarpariaeth a nodir yn y datganiadau'n cael ei gwneud, a bod cyfraniad yr AALL a gwasanaethau cefnogi eraill yn effeithiol.

Meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid llunio datganiad

8:8 Fel gyda'r dystiolaeth ar gyfer penderfynu a oes angen asesiad statudol, mae'r canllawiau isod yn darparu fframwaith ac mae'n bwysig bod ysgolion, AALLau ac asiantaethau eraill perthnasol yn datblygu manylion y dehongliad lleol oddi mewn i'r fframwaith hwnnw.

8:9 Mae'n fuddiol i AALLau sefydlu grwpiau safoni er mwyn helpu i sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Gall grwpiau o'r fath sicrhau cysondeb yn y penderfyniadau a wneir o ran gwneud neu beidio â gwneud datganiadau. Trwy samplu a chymharu sefyllfaoedd blaenorol, gall grwpiau safoni helpu AALLau i sicrhau bod eu harferion yn gadarnach ac yn haws i ysgolion, sefydliadau addysg gynnar a rhieni ei ddeall.

8:10 Wrth benderfynu a ddylid llunio datganiad dylai'r AALL ystyried yr holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr asesiad statudol a'i chysylltu â'r wybodaeth a gyflwynwyd gan yr ysgol pan wnaed y cais am asesiad.

8:11 Felly, efallai y bydd AALLau am ystyried yr isod:

a. anawsterau dysgu'r plentyn

- a yw'r wybodaeth am anawsterau dysgu'r plentyn a ddarparwyd yn y cyngor ar gyfer yr asesiad statudol yn cyfateb yn fras i'r dystiolaeth wreiddiol a gyflwynwyd gan yr ysgol?
- os nad yw, a oes agweddau ar anawsterau dysgu'r plentyn y gallai'r ysgol fod heb sylwi arnynt ac y gallai'r ysgol, o gael cyngor, cyfarpar neu ddarpariaeth arall, roi sylw iddynt yn effeithiol trwy *Gweithredu gan yr Ysgol* neu *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy?*

b. darpariaeth addysgol arbennig y plentyn

- a yw'r cynigion ar gyfer darpariaeth addysgol arbennig y plentyn, sy'n deillio o unrhyw elfen o'r cyngor asesu, yn awgrymu bod y ddarpariaeth addysgol arbennig a wneir gan yr ysgol, gan gynnwys y strategaethau addysgu neu ddulliau gweithredu eraill, yn briodol ar gyfer anawsterau dysgu'r plentyn?

- os nad ydynt, oes yna bethau y gallai'r ysgol, o gael cyngor, cyfarpar neu ddarpariaeth arall, eu gwneud yn effeithiol o fewn ei hadnoddau ei hun trwy *Gweithredu gan yr Ysgol* neu *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*?

Ystyried y ddarpariaeth y gallai fod angen ei gwneud

8:12 Os bydd yr asesiad statudol yn cadarnhau bod yr asesu a'r ddarpariaeth a wneir gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg gynnar yn briodol, ond nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd serch hynny, neu nad yw'n gwneud cynnydd digonol, dylai'r AALL ystyried pa ddarpariaeth bellach a allai fod yn ofynnol ac a ellid gwneud y ddarpariaeth honno o fewn adnoddau'r ysgol neu'r sefydliad neu a oes angen datganiad.

8:13 Isod, ceir enghreifftiau o rai ymatebion posibl:

Os daw'r AALL i'r casgliad, er enghraifft, fod anawsterau dysgu'r plentyn yn galw am:

- gyngor achlysurol neu afreolaidd i'r ysgol gan arbenigwr allanol
- cefnogaeth achlysurol neu afreolaidd gyda gofal personol
- cyfle i ddefnyddio darn neilltuol o gyfarpar fel dyfais prosesu-geiriau gludadwy, bysellfwrdd electronig neu recordydd tâp, neu
- newidiadau bach i'r adeilad fel gwellar amgylchedd acwstig⁵¹

efallai y bydd yr AALL yn teimlo y gellid disgwyl yn rhesymol i'r ysgol wneud darpariaeth o'r fath o fewn ei hadnoddau ei hun drwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*. Os felly, bydd angen i'r AALL nodi'r rhesymau pam y daeth i'r casgliad hwn yn glir mewn nodyn yn lle datganiad (a ddisgrifir mewn mwy o fanylder isod).

Os daw'r AALL i'r casgliad y gellid awgrymu newid lleoliad i'r plentyn, hyd yn oed os yw newid o'r fath yn golygu symud o ysgol brif ffrwd i adnodd arbenigol yn yr un ysgol neu ysgol brif ffrwd arall, dylai ystyried llunio datganiad.

Os daw'r AALL i'r casgliad, er enghraifft, fod anawsterau dysgu'r plentyn yn galw am:

- addysgu uniongyrchol rheolaidd a mynych gan athro arbenigol
- cefnogaeth unigol feunyddiol gan gynorthwyydd cefnogi dysgu
- darn sylweddol o gyfarpar megis teledu cylch caeedig neu gyfrifiadur neu ddyfais CD-ROM gydag ategion a meddalwedd priodol
- mewnbwn rheolaidd gan asiantaeth o'r tu allan i faes addysg

efallai y daw'r AALL i'r casgliad na ellid disgwyl yn rhesymol i'r ysgol wneud darpariaeth o'r fath o'i hadnoddau ei hun a bod natur y ddarpariaeth yn awgrymu y dylai'r AALL nodi'n ffurfiol mewn datganiad anghenion y plentyn, yr holl ddarpariaeth sydd i'w gwneud a'r trefniadau adolygu. Bydd casgliadau'r AALL, wrth gwrs, yn dibynnu ar union amgylchiadau pob achos, gan gymryd i ystyriaeth y trefniadau i ariannu ysgolion yn yr ardal.

Os daw'r AALL i'r casgliad y gallai lleoliad mewn ysgol arbennig ddydd neu breswyl fod yn ofynnol, dylai lunio datganiad.

⁵¹ Bydd y cyfrifoldeb rhwng yr AALL a'r ysgol am waith adeiladu neilltuol yn dibynnu ar gwmpas

8:14 Dylai'r penderfyniad pa un i wneud datganiad ai peidio ddibynnu ar anghenion addysgol arbennig canfyddadwy'r plentyn yng nghyd-destun y trefniadau ar gyfer ariannu ysgolion yr ardal. Wrth gwrs, dylai AALLau drefnu bod y ddarpariaeth a bennir yn natganiad y plentyn yn cael ei gwneud mewn modd cost-effeithiol, ond mae'n rhaid i'r ddarpariaeth honno gyfateb i anghenion y plentyn fel y'u haseswyd. Rhaid cymryd defnydd effeithlon o adnoddau i ystyriaeth pan fydd AALL yn ystyried lleoli plentyn sydd â datganiad, ar ôl i'r rhieni gael cyfle i fynegi'r hyn y maent hwy yn ei ffafrio – gweler paragraffau 8.58-69.

Penderfynu peidio â llunio datganiad: nodyn yn lle datganiad

8:15 Cyn pen pythefnos ar ôl cwblhau'r asesiad statudol, mae'n rhaid i'r AALL benderfynu a fydd yn gwneud datganiad ai peidio. Gall ddod i'r casgliad y gellir diwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn o adnoddau'r ysgol ei hun, gydag ymyriad gwasanaeth proffesiynol o'r tu allan i'r ysgol neu hebddo – hynny yw, gellir gwneud darpariaeth addysgol arbennig trwy Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Lle bo AALL yn penderfynu peidio â gwneud datganiad, mae'n rhaid iddo ysgrifennu at y rhieni yn dweud wrthynt am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto cyn pen pythefnos ar ôl cwblhau'r asesiad. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r AALL ddweud wrth y rhieni am eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA yn erbyn y penderfyniad gan nodi'r terfynau amser ar gyfer apelio, y ffaith bod gwasanaethau datrys anghytundeb ar gael a'r ffaith na all trefn ddatrys anghytundeb effeithio ar hawl y rhieni i apelio.

8:16 Gall y penderfyniad i beidio â llunio datganiad fod yn siom i'r rhieni a gellir ei weld fel ffordd o wrthod adnoddau ychwanegol i'w plentyn. Dylai'r AALL sicrhau bod y rhieni (a'r ysgol) yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael o fewn pob ysgol a gynhelir i ddiwallu anghenion addysgol arbennig; bod y rhieni'n deall darpariaeth yr ysgol ar gyfer AAA; a'u bod yn deall hefyd fod yna drefniadau monitro ac adolygu mewn ysgolion a gynhelir a fydd yn sicrhau bod anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu gan yr ysgol, gyda chefnogaeth allanol os oes raid, mewn modd priodol.

8:17 Bydd yr asesiad statudol wedi cyfrannu'n sylweddol at wybodaeth yr ysgol, y rhieni a'r AALL am y plentyn. Felly, dylai'r AALL ystyried cyflwyno nodyn yn lle datganiad. Mewn nodyn o'r fath, dylai'r AALL nodi'r rhesymau dros ddod i'r casgliadau y daethant iddynt, gyda thystiolaeth gefnogol o asesiad statudol y plentyn. Dylid anfon yr holl gyngor a gasglwyd fel rhan o'r asesiad statudol at y rhieni ac, os ydynt yn cytuno, at ysgol y plentyn ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill a roddodd gyngor yn ystod y broses asesu. Bydd y drefn hon yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth a ddaeth i'r amlwg yn ystod asesiad statudol y plentyn. Gall y sawl sy'n gweithio gyda'r plentyn yn yr ysgol i ychwanegu at eu strategaethau ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn ddefnyddio'r wybodaeth. Fel enghraifft o arfer da, efallai y bydd AALLau am ystyried trefnu i'r rhieni gwrdd â'r Swyddog a Enwir yn yr AALL ac â phennaeth neu Gydlynnydd AAA ysgol y plentyn, er mwyn sicrhau bod pawb ohonynt yn deall y rhesymau dros benderfyniad yr AALL, y nodyn yn lle datganiad a'r ddarpariaeth sydd i'w gwneud.

8:18 Mewn rhai achosion, efallai y gall yr AALL benderfynu'n sydyn iawn nad oes angen gwneud datganiad: dylid hysbysu'r rhieni ar unwaith trwy gyflwyno nodyn ysgrifenedig o dan adran 325(1) neu 329A(8). Mae'n rhaid i'r AALL roi ei resymau bob amser. Ond, yn aml, bydd ysgrifennu nodyn cynhwysfawr a buddiol yn lle

datganiad yn golygu llawn cymaint o feddwl ac amser â drafftio datganiad arfaethedig. Yn wir, efallai mai dim ond pan fydd swyddog yr AALL yn casglu'r holl wybodaeth ynghyd ac yn nodi anghenion addysgol ac anghenion eraill y plentyn a'r ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hynny y daw'n glir a ddylid llunio datganiad arfaethedig ynteu nodyn yn lle datganiad.

8:19 Gall fod yn briodol i ffurf y nodyn yn lle datganiad ddilyn fformat statudol y datganiad yn fras, er y bydd yn hanfodol gwneud y gwahaniaeth rhwng statws cyfreithiol y ddwy ddogfen yn glir bob amser.

8:20 Er mai mater i'r AALL dan sylw yw ffurf nodyn yn lle datganiad, mae'n arfer da i'r rhan gyntaf ddisgrifio anghenion addysgol arbennig y plentyn, ar sail tystiolaeth gefnogi a amgaeir ar ffurf yr holl gyngor a gasglwyd yn ystod yr asesiad. Dylai ail ran y nodyn roi rhesymau'r AALL dros benderfynu peidio â llunio datganiad a chynnig canllawiau o ran y ddarpariaeth addysgol arbennig y gellid yn briodol ei gwneud ar gyfer y plentyn o adnoddau'r ysgol, gyda chyngor arbenigol os bydd angen, ond heb i'r ddarpariaeth gael ei phennu gan yr AALL. Yna, gallai'r drydedd ran ddisgrifio unrhyw anghenion anaddysgol a darpariaeth briodol, gan adlewyrchu unwaith eto y cyngor a gafwyd ac a amgaeir a'r cytundeb rhwng yr AALL a'r asiantaethau perthnasol.

8:21 Daw'r broses asesu statudol i ben pan fydd yr AALL yn penderfynu a fydd yn gwneud datganiad ai peidio. Fel rheol, mae'n rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw cyn pen deg wythnos ar ôl cyflwyno hysbysiad o dan adran 323(4) neu 329A(7). Yr un yw'r terfynau amser statudol y mae'n rhaid i'r AALL gadw atynt wrth hysbysu rhieni na fydd yn gwneud datganiad neu wrth gyflwyno datganiad arfaethedig iddynt: fel rheol, dim mwy na phythefnos ar ôl iddynt wneud eu penderfyniad.

8:22 Felly, fel rheol cyn pen 12 wythnos ar ôl iddynt gyhoeddi hysbysiad o dan adran 323(4) neu 329A(7) y bydd yn gwneud asesiad statudol, mae'n rhaid i'r AALL naill ai:

- a. gyhoeddi hysbysiad o dan adran 325(1) yn dweud na fydd yn gwneud datganiad ac yn esbonio ei resymau (ar ffurf nodyn yn lle datganiad neu fel arall), neu
- b. gyhoeddi datganiad arfaethedig, ynghyd â hysbysiad ysgrifenedig o dan Atodlen 27, paragraff 2.

Asesu a lleoliadau brys

8:23 Mewn achosion eithriadol efallai y bydd angen trefnu lleoliad brys i blentyn, er enghraifft os yw:

- a. amgylchiadau meddygol y plentyn wedi newid yn sydyn, gan achosi dirywiad cyflym a difrifol yn iechyd neu ddatblygiad y plentyn
- b. y rhieni, yr ysgol, gweithwyr proffesiynol perthnasol a'r AALL yn cytuno bod dirywiad sydyn a difrifol yn ymddygiad y plentyn yn golygu na ellir cynnal lleoliad presennol y plentyn neu nad yw'n ddiogel;
- c. plentyn yn cyrraedd ardal yr AALL yn annisgwyl gydag anawsterau dysgu sylweddol a fyddai'n golygu fel rheol bod datganiad yn cael ei baratoi, dylai'r AALL ymgynghori â'r rhieni a'r sawl sydd a wnelont yn uniongyrchol a'r plentyn, gan gynnwys yr AALL blaenorol, ynglŷn â'r lleoliad mwyaf priodol

- d. person ifanc yn dychwelyd adref o uned gadarn neu sefydliad troseddwy'r ifanc.

8:24 Yr unig adeg pryd y dylid gwneud lleoliad brys yw pan fo'r AALL, y rhieni, yr ysgol a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i gyd yn cytuno bod anghenion y plentyn yn golygu ei bod yn rhaid gweithredu ar unwaith ac mai lleoliad brys yw'r ffordd orau ymlaen.

8:25 Pan wneir lleoliad brys, dylai'r AALL fynd ati i gynnal asesiad statudol neu ailasesiad ar unwaith. Mae'n debygol y daw'r asesiad i'r casgliad y dylid gwneud datganiad neu wneud newidiadau i ddatganiad sy'n bod eisoes. Os yw'r plentyn wedi'i leoli mewn ysgol arbennig, ac y bydd yn aros yno, dylid gwneud datganiad bob amser. Trafodir yr amgylchiadau pryd y caniateir lleoli plentyn heb ddatganiad mewn ysgol arbennig yn 7:30 – 33.

8:26 Fodd bynnag, os daw'r asesiad i'r casgliad nad oes angen datganiad, dylid ailystyried lleoliad brys y plentyn. Ni ddylai natur y lleoliad brys ragfarnu penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd orau o ddiwallu anghenion y plentyn yn y tymor hwy. Os bydd plentyn heb ddatganiad wedi'i leoli mewn ysgol arbennig i gael ei asesu ond y penderfynir nad oes angen datganiad, dim ond am 10 diwrnod ysgol ar ôl i'r AALL roi gwybod i'r rhiant nad yw'n bwriadu gwneud datganiad y caiff y plentyn aros yn yr ysgol.

8:27 Dylai datganiadau a lunnir neu a newidir yn dilyn lleoliad brys gynnwys amcanion manwl a dylent nodi'n glir pa drefniadau adolygu a wnaed i fonitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth a wneir ar gyfer y plentyn. Er ei bod yn ddyletswydd ar yr AALL i adolygu'r datganiad yn flynyddol, efallai y bydd am ddefnyddio ei bwerau i'w adolygu'n amlach ac i ofyn am adroddiadau interim ar gynnydd y plentyn.

8:28 Os yw adran gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud lleoliad brys allan o'i chyllideb ei hun ar gyfer plentyn sydd â datganiad AAA, dylai hysbysu'r AALL ar unwaith, yn enwedig pan fo'r lleoliad mewn ysgol annibynnol.

Ysgrifennu'r Datganiad

Lle bo AALL, ar ôl gwneud asesiad o blentyn, yn penderfynu gwneud datganiad, rhaid iddo gyflwyno copi o ddatganiad arfaethedig a hysbysiad ysgrifenedig i riant y plentyn cyn pen pythefnos i'r dyddiad y cwblhawyd yr asesiad.

Gweler Atodlen 27, Deddf Addysg 1996, a Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru) 2002

8:29 Mae'n rhaid i'r hysbysiad fod ar y ffurf a bennir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Mae'n rhaid i'r datganiad anghenion addysgol arbennig ddilyn y fformat a chynnwys y wybodaeth a bennir gan y Rheoliadau (gweler Atodlen 2 i'r Rheoliadau):

Rhan 1 Cyflwyniad: Enw a chyfeiriad y plentyn a'i ddyddiad geni. Iaith a chrefydd cartref y plentyn. Enwau a chyfeiriad(au) rhieni'r plentyn.

Rhan 2 Anghenion Addysgol Arbennig: Manylion pob un o anghenion addysgol arbennig y plentyn a ganfuwyd gan yr AALL yn ystod yr asesiad statudol a'r cyngor a gafwyd ac a amgaeir fel atodiadau i'r datganiad.

Rhan 3 *Darpariaeth Addysgol Arbennig*: Y ddarpariaeth addysgol arbennig y mae'r AALL o'r farn ei bod yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn.

- a. Yr *amcanion* y dylai'r ddarpariaeth addysgol arbennig geisio eu cyflawni.
- b. Y *ddarpariaeth addysgol arbennig* a ystyrir yn briodol gan yr AALL i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn Rhan 2 ac i gyflawni'r amcanion.
- c. Y trefniadau sydd i'w gwneud i fonitro cynnydd o ran cyflawni'r amcanion hynny, yn enwedig i osod targedau tymor byr ar gyfer cynnydd y plentyn ac i adolygu ei gynnydd yn rheolaidd.

Rhan 4 *Lleoliad*: Y math o ysgol ac enw'r ysgol lle y bwriedir gwneud y ddarpariaeth addysgol arbennig a nodwyd yn Rhan 3 neu drefniadau'r AALL i ddarparu'r addysg mewn rhywle ar wahân i ysgol.

Rhan 5 *Anghenion Anaddysgol*: Holl anghenion anaddysgol perthnasol y plentyn y cytunwyd arnynt rhwng y gwasanaethau iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau eraill a'r AALL.

Rhan 6 *Darpariaeth Anaddysgol*: Manylion y ddarpariaeth anaddysgol berthnasol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion anaddysgol y plentyn y cytunwyd arnynt rhwng y gwasanaethau iechyd a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol a'r AALL, gan gynnwys y trefniadau y cytunwyd arnynt i'w darparu.

Llofnod a dyddiad

8:30 Mae'n rhaid i'r holl gyngor a gafwyd ac a gymerwyd i ystyriaeth yn ystod y broses asesu gael ei gynnwys fel atodiadau at y datganiad:

Mae'n rhaid i'r cyngor a atodir at y datganiad gynnwys:

- A. **Tystiolaeth y rhieni**⁵²
- B. **Cyngor addysgol**
- C. **Cyngor meddygol**
- D. **Cyngor seicolegol**
- E. **Cyngor gan y gwasanaethau cymdeithasol**
- F. **Unrhyw gyngor arall, fel barn y plentyn, y mae'r AALL neu unrhyw gorff arall y ceisiwyd cyngor ganddo, yn ei ystyried yn ddymunol. Yn arbennig, lle bo rhiant y plentyn yn aelod sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog, cyngor gan Service Children's Education (SCE).**

8:31 Dylai AALLau ddrafftio datganiadau clir, diamwys. Lle bo termau diagnostig neu dechnegol yn angenrheidiol neu o gymorth, er enghraifft wrth gyfeirio at anableddau penodol, dylid esbonio'u hystyr mewn termau y bydd rhieni ac eraill nad ydynt yn weithwyr proffesiynol yn eu deall yn hawdd. Dylai AALLau gymryd gofal neilltuoel i sicrhau bod y testun yn cael ei roi yn y rhan gywir, fel ei fod yn cyfateb i'r ffurf a nodir yn Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol

52 Bydd tystiolaeth gan rieni yn cynnwys sylwadau a gyflwynir i'r AALL gan rieni wrth iddo ystyried yr angen am asesiad, a barn a thystiolaeth rhieni a gyflwynir fel rhan o'r asesiad a, phan fydd y datganiad yn cael ei gwblhau'n derfynol, unrhyw sylwadau a wneir gan y rhieni mewn ymateb i'r datganiad arfaethedig.

Arbennig) (Cymru) 2002. Ceir cyngor manwl pellach yn Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer plant ag AAA.

Rhan 2: Anghenion addysgol arbennig

8:32 Dylai Rhan 2 o'r datganiad ddisgrifio holl anawsterau dysgu'r plentyn a ganfuwyd yn ystod yr asesiad statudol. Dylai gynnwys hefyd ddisgrifiad o weithrediad y plentyn ar y pryd – yr hyn y gall ac na all y plentyn ei wneud. Dylai'r disgrifiad yn Rhan 2 adlewyrchu'r cyngor proffesiynol sydd ynghlwm yn yr atodiadau, a gall gyfeirio ato. Lle bo'r AALL yn mabwysiadu'r cyngor hwnnw yn ei ddisgrifiad o anawsterau dysgu'r plentyn, dylai ddweud ei fod wedi gwneud hynny. Ond nid yw'n ddigon datgan yn foel ei fod yn mabwysiadu'r cyngor yn yr atodiadau. Gall y cyngor a geir gynnwys barn groes neu farn sy'n agored i'w dehongli. Mae'n rhaid i'r AALL ei datrys, gan roi rhesymau am y casgliadau y daethpwyd iddynt. Mae'n rhaid ystyried pob cyngor a'i gynnwys fel atodiad i'r datganiad. Dylid cyflwyno Rhan 2 mewn modd y gellir ei gysylltu'n uniongyrchol â'r disgrifiad o'r ddarpariaeth a roddir yn Rhan 3 (b).

Rhan 3: Darpariaeth addysgol arbennig

8:33 Unwaith y bydd anghenion addysgol arbennig plentyn wedi'u hasesu a'u nodi'n llawn yn Rhan 2, mae'n rhaid i'r AALL nodi, yn Rhan 3, pa ddarpariaeth addysgol arbennig a wneir i ddiwallu'r anghenion hynny. Y nod allweddol wrth nodi darpariaeth yw helpu'r plentyn i ddysgu ac i ddatblygu.

8:34 Rhennir Rhan 3 y datganiad yn dair is-adran:

- a. dylai'r **is-adran gyntaf** nodi'r prif amcanion y mae'r ddarpariaeth yn ceisio'u cyflawni. Dylai fod cysylltiad uniongyrchol rhwng yr amcanion hyn a'r anghenion a nodir yn Rhan 2 a dylid eu disgrifio mewn termau a fydd yn caniatáu i'r AALL a'r ysgol fonitro ac adolygu cynnydd y plentyn dros amser. Yn gyffredinol dylent fod yn amcanion dros dymor hwy na'r targedau penodol, tymor-byr a geir yng Nghynllun Addysg Unigol y plentyn.
- b. dylai'r **ail is-adran** nodi'r holl ddarpariaeth addysgol arbennig y mae'r AALL yn ei hystyried yn briodol ar gyfer yr holl anawsterau dysgu a nodir yn Rhan 2, hyd yn oed os gwneir rhan o'r ddarpariaeth trwy i'r awdurdod ymyrryd uniongyrchol, rhan ohoni gan ysgol y plentyn o'i hadnoddau ei hun a rhan, o bosibl, gan yr awdurdod iechyd. Yr AALL sy'n gyfrifol am drefnu'r ddarpariaeth a nodir yn y datganiad, ni waeth pwy sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth, onid yw'r AALL wedi'i argyhoeddi bod rhieni'r plentyn wedi gwneud trefniadau addas ar eu liwt eu hunain.

8:35 Mae Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 yn dweud ei bod yn **rhaid** i ddatganiad nodi:

- (a) unrhyw gyfleusterau ac offer, trefniadau staffio a chwricwlwm priodol
- (b) unrhyw addasiadau priodol i'r ffordd y caiff y Cwricwlwm Cenedlaethol ei weithredu
- (c) unrhyw eithriadau priodol i'r ffordd y caiff y Cwricwlwm Cenedlaethol ei weithredu, yn fanwl, a'r ddarpariaeth y bwriedir ei gwneud yn lle unrhyw eithriadau o'r math er mwyn cynnig cwricwlwm cytbwys ac eang; a

(d) os yw llety preswyl yn briodol, y ffaith honno.

8:36 Dylai datganiad nodi'n glir pa ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plentyn. Dylai nodi darpariaeth briodol i ddiwallu pob angen a ganfuwyd. Bydd o gymorth i rieni ac athrawon y plentyn os cyflwynir y ddarpariaeth yn yr is-adran hon yn yr un drefn â'r disgrifiadau o'r anghenion yn Rhan 2.

8:37 Mae'n rhaid i AALLau benderfynu pa gamau a darpariaeth sy'n addas ar gyfer disgyblion unigol. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid asesu anawsterau'r disgyblion yn ofalus ac ystyried y sefydliad addysgol y gellid eu haddysgu ynddo. Fel rheol, dylid nodi faint o ddarpariaeth a roddir (e.e. o ran oriau o ddarpariaeth, trefniadau staff) er y dylid cadw peth hyblygrwydd mewn rhai achosion er mwyn ymateb i'r newidiadau yn anghenion addysgol arbennig y plentyn dan sylw. Bydd angen i AALLau fonitro, gyda'r ysgol neu sefydliad arall, gynnydd y plentyn tuag at ganlyniadau penodol bob amser, sut bynnag y disgrifir y ddarpariaeth. Mae'n bwysig nad oes gan AALLau, o dan unrhyw amgylchiadau, bolisiau cyffredinol i beidio â nodi faint o ddarpariaeth a roddir.

8:38 Dylai AALLau nodi hefyd, yn unol ag adran 364 o Ddeddf Addysg 1996 unrhyw ddatgymhwyso neu addasu i ddarpariaethau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (o ran targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio a threfniadau asesu) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn, gan nodi'n fanwl sut y bwriedir cynnal cwricwlwm eang a chytbwys. Nid yw'n rhaid addasu darpariaethau'r Cwricwlwm Cenedlaethol i alluogi plentyn i astudio ar lefel is na'r lefel y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o fewn yr un cyfnod allweddol arni. Nid oes raid cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol i ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref gan eu rhieni. Yn achos disgyblion sydd yn y cyfnod sylfaen, dylai'r adran hon nodi sut y bydd y ddarpariaeth addysgol arbennig yn galluogi'r plentyn i fanteisio ar y cwricwlwm gan gyfeirio at y 'canlyniadau dymunol'.

8:39 Yn achos disgyblion a asesir pan fyddant ar fin paratoi ar gyfer arholiadau TGAU neu arholiadau galwedigaethol, dylai'r AALI nodi hefyd unrhyw ddarpariaeth arbennig a argymhellir ar gyfer yr arholiadau i alluogi'r disgybl i gymryd rhan lawn yn yr arholiadau ac i ddangos ei gyrhaeddiad yn gywir. Mewn rhai achosion, bydd angen caniatâd ymlaen llaw gan y Corff Dyfarnu. *Gan amlaf, nid yw hon yn broses gymhleth ac fe wneir y trefniadau gan y ganolfan lle mae'r disgybl yn sefyll ei arholiadau - yr ysgol fel rheol.*⁵³

- c. dylai'r **drydedd is-adran** nodi'r trefniadau sydd i'w gwneud i osod targedau addysgol a datblygiadol tymor byr ar gyfer y plentyn. Ni ddylai'r targedau eu hunain fod yn rhan o'r datganiad, ond dylent fod yn rhan annatod o Gynllun Addysg Unigol (CAU) y plentyn. O ran eu natur, bydd angen adolygu targedau o'r fath yn fwy rheolaidd na'r amcanion tymor hwy yn is-adran 1. Dylai ysgol y plentyn ddyfeisio'r CAU cyntaf, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, a'r plentyn os yw'n briodol, cyn pen dau fis ar ôl ei leoli mewn ysgol wahanol, neu yn syth ar ôl paratoi'r fersiwn derfynol o'r datganiad os bydd y plentyn yn aros yn yr un ysgol. Dylai'r ysgol adolygu cyflawniadau'r plentyn, yng ngoleuni'r CAU, o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a dylid eu hystyried yn llawn yn adolygiad blynyddol cyntaf y datganiad pryd y gellir gosod targedau pellach.

⁵³ Nid yw'n rhaid i ddisgybl fod yn destun datganiad er mwyn elwa o unrhyw gonsesiynau y gall Grŵp Arholi eu caniatáu i ddisgybl ag anghenion addysgol arbennig.

8:40 Dylai'r is-adran hon hefyd nodi unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer adolygiad blynyddol y datganiad a chydabod yr angen i'r ysgol fonitro a gwerthuso cynnydd y plentyn yn ystod y flwyddyn. Mae'n rhaid i AALLau adolygu datganiad plentyn o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai'r adolygiad ystyried cynnydd y plentyn tuag at yr amcanion yn is-adran 1 ac mewn perthynas â'r amcanion a'r targedau tymor byrrach a bennwyd gan yr ysgol yng Nghynllun Addysg Unigol y plentyn. Dylai ystyried hefyd a oes angen newid y ddarpariaeth o ystyried cynnydd y plentyn.

8:41 *Dylid ysgrifennu'r holl wybodaeth yn Rhan 3 mewn ffordd sy'n hawdd i'w deall i bawb sy'n ymwneud ag addysg y plentyn, yn cynnwys y rhieni.*

Rhan 4: Lleoli

8:42 Yn y datganiad terfynol, bydd Rhan 4 yn nodi'r math o ysgol ac unrhyw ysgol neilltuol y mae'r AALL yn ei hystyried yn briodol ar gyfer y plentyn, neu drefniadau y mae'r AALL yn eu hystyried yn briodol i ddarparu addysg mewn rhywle ar wahân i ysgol. Ond mae'n rhaid gadael y Rhan hon yn wag pan gyhoeddir y datganiad arfaethedig, fel nad yw'r AALL yn mynegi barn cyn rhoi cyfle i'r rhieni ystyried a ydynt yn ffafrio rhyw ysgol neilltuol a gynhelir a mynegi hynny, neu cyn i'r rhieni allu cyflwyno unrhyw sylwadau y maent am eu gwneud o blaid ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol annibynnol (gweler yr Eirfa).

Rhan 5: Anghenion anaddysgol

8:43 Dylai Rhan 5 nodi unrhyw anghenion anaddysgol sydd gan y plentyn y mae'r AALL naill ai'n cynnig eu diwallu neu'n argyhoeddedig y cânt eu diwallu, trwy drefniant neu fel arall, gan y gwasanaethau iechyd, adran y gwasanaethau cymdeithasol neu ryw gorff arall.

Rhan 6: Darpariaeth anaddysgol

8:44 Dylai Rhan 6 nodi'r ddarpariaeth anaddysgol sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn Rhan 5 ac y mae'r AALL naill ai'n cynnig ei ddarparu neu'n argyhoeddedig y caiff ei ddarparu gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol wedi'i chomisiynu gan yr awdurdod iechyd mewn trafodaeth â'r Grŵp Iechyd Lleol neu'r Ymddiriedolaeth NHS ar gyfer yr ardal, neu gan ddarparwyr eraill. Dylai swyddog dynodedig y gwasanaethau cymdeithasol gydweithio â'r AALL i gadarnhau darpariaeth y gwasanaethau cymdeithasol a dylai'r swyddog meddygol ar gyfer anghenion addysgol arbennig drafod fel sy'n ofynnol i sicrhau bod cyfraniad y gwasanaeth iechyd wedi'i gadarnhau.

8:45 Dylai Rhan 6 ddatgan hefyd yr amcanion sydd i'w cyflawni gan ddarpariaeth anaddysgol o'r fath a dylai nodi'r trefniadau y cytunodd yr AALL a'r corff ddarparu arnynt o ran cyflwyno'r ddarpariaeth.

8:46 Wrth ddisgrifio anghenion a darpariaeth addysgol ac anaddysgol y plentyn, dylai'r AALL sicrhau bod yr anghenion yn cael eu disgrifio'n glir a chywir a bod yna gytundeb llawn ynglŷn â natur y ddarpariaeth sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny, gan ymgynghori â'r gweithwyr proffesiynol cyfrifol perthnasol yn ôl y gofyn.

8:47 Dylai AALLau esbonio wrth rieni bod Rhannau 2, 3 a 4 o'r datganiad yn rhwymo'r AALL yn gyfreithiol ond nad yw hynny'n wir am Rhannau 5 a 6 ac nad oes hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA am y rhannau hyn.

8:48 Ceir awgrymiadau pellach ar ysgrifennu datganiadau yn Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA.

Therapi iaith a lleferydd

8:49 Sefydlwyd trwy gyfraith achosion bod modd ystyried therapi iaith a lleferydd naill ai'n ddarpariaeth addysgol neu'n ddarpariaeth anaddysgol, neu'r ddau, gan ddibynnu ar iechyd neu hanes datblygiadol pob plentyn. Felly, gallai ymddangos naill ai yn Rhan 3 neu Ran 6 y datganiad neu yn y ddwy ran. Fodd bynnag, gan fod cyfathrebu mor bwysig o ran dysgu a gwneud cynnydd, dylid cofnodi camau i roi sylw i nam ar leferydd ac iaith fel darpariaeth addysgol fel arfer onid oes rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny.

8:50 Mae'r cyfrifoldeb pennaf am ddarparu gwasanaethau therapi iaith a lleferydd i blant yn gorffwys gyda'r NHS. Mae hyn yn wir yn gyffredinol a hefyd am unrhyw gyfeiriad at wasanaethau o'r fath mewn datganiad anghenion addysgol arbennig, boed hynny yn Rhan 3 fel darpariaeth addysgol neu yn Rhan 6 fel darpariaeth anaddysgol neu yn y ddwy ran. Awdurdodau iechyd sy'n gyfrifol am brynu gwasanaethau therapi trwy'r contractau a luniant gyda darparwyr gofal iechyd (Ymddiriedolaethau NHS). Mae'r NHS yn cyflenwi gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith a reolir yn broffesiynol, sy'n darparu ar gyfer grwpiau oedran cyn-ysgol, oed-ysgol ac oedolion, ac sydd â chysylltiadau clôs â'r gwasanaethau iechyd plant eraill.

8:51 Lle nad yw'r NHS yn darparu therapi lleferydd ac iaith i blentyn y mae ei ddatganiad yn cyfeirio at therapi o'r fath fel darpariaeth addysgol, yr AAL sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei gwneud, oni bai fod rhieni'r plentyn wedi gwneud trefniadau amgen priodol. Dylai ysgolion, AALLau a'r NHS gydweithio'n agos i ddiwallu anghenion plant sydd ag anawsterau cyfathrebu.

8:52 Mae'n bwysig bod natur a maint y ddarpariaeth sy'n ofynnol ar gyfer plant unigol yn cael ei hystyried yn ofalus iawn ac y rhoddir ystyriaeth lawn i'r ffordd orau o gyflenwi darpariaeth o'r fath a pha iaith i'w defnyddio'n gyfrwng. Mewn rhai achosion, er enghraifft, efallai y bydd angen help rheolaidd a pharhaus gan therapydd lleferydd ar blant, naill ai'n unigol neu mewn grŵp. Mewn achosion eraill, efallai y bydd yn briodol i staff yn ysgol y plentyn gyflwyno rhaglen ymyriadau reolaidd, ar wahân, o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth therapydd lleferydd ac iaith.

8:53 I rai plant, mae rhaglen iaith sy'n rhan annatod o'r diwrnod ysgol cyfan yn fwy priodol. Bydd rhaglenni iaith o'r fath yn cael eu cyflwyno gan staff yr ysgol, ond gall fod angen monitro a gwerthuso rheolaidd gan therapydd lleferydd ac iaith. Mae'n arfer da i weithwyr addysg proffesiynol sydd wedi derbyn datblygiad proffesiynol digonol a phriodol ym maes anawsterau lleferydd ac iaith gefnogi a chynorthwyo gwaith therapyddion lleferydd ac iaith mewn sefydliadau addysgol. Mae'n hanfodol cydweithio er mwyn cynnal ymyriadau llwyddiannus gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith. Bydd yr hyblygrwydd gweithredol a gyflwynwyd o dan Ddeddf Iechyd 1999 ar gyfer gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol yn help i hybu mwy o gydweithio.

Y datganiad arfaethedig

8:54 Mae'n rhaid i'r AALL lunio datganiad arfaethedig, gan gwblhau pob Rhan ac eithrio Rhan 4. Mae'n rhaid i'r datganiad arfaethedig beidio â chynnwys unrhyw fanylion ynglŷn â ble y dylid gwneud y ddarpariaeth addysgol arbennig arfaethedig. Mae'n rhaid i'r AALL anfon y datganiad arfaethedig a chopiau o'r cyngor a gyflwynwyd yn ystod yr asesiad at rieni'r plentyn; dylid anfon copïau o'r datganiad arfaethedig hefyd at bawb a gyflwynodd gyngor.

8:55 Ar yr un pryd, mae'n rhaid i'r AALL anfon hysbysiad at y rhieni sy'n nodi'r trefniadau i'w dilyn, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer dewis ysgol, hawl y rhieni i gyflwyno sylwadau am gynnwys y datganiad, eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA yn erbyn cynnwys y datganiad terfynol a'r terfynau amser o ran apelio. Mae'n rhaid i'r hysbysiad gydymffurfio i raddau sylweddol â'r hysbysiad a nodir yn Rhan A o Atodlen 1 i'r Rheoliadau.

8:56 Wrth lunio datganiad, dylai AALLau gofio anghenion rhieni a phlant nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Lle bo gan blant gefndiroedd ieithyddol a diwylliannol gwahanol, dylai AALLau geisio cyngor gan staff cefnogi dwyieithog, athrawon sy'n dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol, dehonglwyr a chyfieithwyr a ffynonellau help lleol eraill fel sy'n briodol, i sicrhau bod rhieni a phlant yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd o'r broses.

Terfynau amser

8:57 Ar ôl cael y datganiad arfaethedig, mae gan rieni hawl i ddatgan pa ysgol a gynhelir y byddai'n well ganddynt i'w plentyn ei mynychu, cyflwyno sylwadau i'r AALL, a chynnal cyfarfodydd gyda ef. Mae'n rhaid esbonio wrth y rhieni hefyd bod ganddynt hawl i godi unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â chorff y datganiad. Fel rheol, mae'n rhaid i'r AALL gyflwyno'r datganiad terfynol cyn pen wyth wythnos ar ôl cyflwyno'r datganiad arfaethedig. Nodir eithriadau i'r cyfnod hwn o wyth wythnos yn Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002.

Enwi ysgol

Caiff rhieni fynegi pa ysgol a gynhelir (ond nid Uned Cyfeirio Disgyblion nac ysgol arbennig mewn ysbyty) y byddai'n well ganddynt i'w plentyn ei mynychu, neu gyflwyno sylwadau o blaid lleoliad mewn unrhyw ysgol arall. Mae'n rhaid i AALLau gydymffurfio â dewis y rhieni os nad yw'r ysgol yn anaddas ar gyfer oedran, gallu, tueddfryd neu anghenion addysgol arbennig y plentyn, neu y byddai'r plentyn yn cael ei addysgu gyda nhw neu'n anghydnaws â defnydd effeithlon o adnoddau. Mae'n rhaid i AALLau ystyried sylwadau rhieni a threfnu unrhyw gyfarfod(ydd) a geisir gan y rhieni gydag ymgynghorwyr neu swyddogion yr AALL, cyn cyhoeddi'r datganiad terfynol.

Gweler Atodlen 27, Deddf Addysg 1996

Onid yw rhiant yn nodi nad yw'n dymuno i'w blentyn gael ei addysg mewn ysgol brif ffrwd (naill ai trwy ddweud pa ysgol y mae'n ffafrio neu trwy gyflwyno sylwadau o blaid ysgol neilltuoel fel arall) mae'n rhaid i AALL sicrhau bod plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd onid yw hynny'n anghydnaws ag addysg effeithlon plant eraill.

Gweler Adran 316, Deddf Addysg 1996

8:58 Os yw AALL o'r farn y byddai addysgu plentyn neilltuol yn y brif ffrwd yn anghydnaws ag addysg effeithlon plant eraill, mae'n rhaid iddo ystyried a oes camau rhesymol y gallai eu cymryd i osgoi'r effaith honno pe bai'r plentyn yn cael ei gynnwys. Mewn perthynas ag ysgol neilltuol a gynhelir, mae'n rhaid iddo ystyried y camau rhesymol y gallai'r AALL neu'r corff llywodraethu eu cymryd.

8:59 Os yw AALL yn penderfynu ei bod yn bosib y gallai ysgol neilltuol a gynhelir wneud y ddarpariaeth addysgol arbennig a nodir mewn datganiad, yr unig sail y gall corff llywodraethu'r ysgol honno ei ddefnyddio i ddadlau yn erbyn lleoli'r plentyn yno yw y byddai addysgu'r plentyn yno yn anghydnaws ag addysg effeithlon i blant eraill. Mae'n rhaid iddynt ystyried hefyd a oes camau rhesymol y gallent hwy (neu'r AALL) eu cymryd i osgoi'r effaith honno pe bai'r plentyn yn cael ei gynnwys.

8:60 Gall rhieni ddweud pa ysgol a gynhelir y byddai'n well ganddynt i'w plentyn ei mynychu, neu wneud sylwadau o blaid lleoliad mewn unrhyw ysgol arall. Mae'n **rhaid** i AALLau gydymffurfio â dewis y rhieni yn unol â darpariaethau Atodlen 27 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'n rhaid i AALLau ystyried sylwadau rhieni a threfnu unrhyw gyfarfod(ydd) a geisir gan y rhieni gydag ymgynghorwyr neu swyddogion yr AALL, cyn cyhoeddi'r datganiad terfynol. Wrth ystyried sylwadau rhieni o blaid lle mewn ysgol neu sefydliad nad yw'n ysgol a gynhelir, mae'n rhaid i AALLau sicrhau bod yr ysgol neu'r sefydliad a gynigir yn gallu gwneud y ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn, a darpariaethau adran 9 o Ddeddf Addysg 1996: hynny yw, mae'n rhaid iddynt roi sylw i ddymuniadau'r rhieni i'r graddau y bo hynny'n gydnaws ag addysg a hyfforddiant effeithlon y plentyn ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

8:61 Mae'n rhaid i'r AALL esbonio wrth rieni beth yw'r trefniadau ar gyfer mynegi pa ysgol neilltuol y byddai'n well ganddynt i'w plentyn ei mynychu o dan baragraff 3 o Atodlen 27 a dyletswydd yr AALL i gydymffurfio â'r dewis hwnnw ac eithrio mewn nifer fechan o achosion. Mae paragraff 4 o'r un Atodlen yn rhoi'r hawl i rieni gyflwyno sylwadau, y mae'n rhaid i'r AALL eu hystyried, am gynnwys y datganiad; a'r hawl i ofyn am gyfarfodydd i drafod unrhyw agwedd ar gynnwys y datganiad arfaethedig, yn cynnwys y cyngor a gafwyd yn ystod yr asesiad statudol. Dylid hysbysu rhieni bod y gwasanaeth partneriaeth â rhieni yn gallu rhoi gwybodaeth am ysgolion, esbonio sut y mae'r gyfraith yn gweithio a rhoi cefnogaeth ar gyfer cyfarfodydd gyda'r AALL. Dylid rhoi gwybod i rieni hefyd bod gwasanaethau datrys anghytundeb ar gael.

8:62 Os yw'r AALL yn bwriadu cyhoeddi datganiad neu newid rhan 4 o ddatganiad sy'n bod eisoes, mae'n **rhaid** iddo enwi'r ysgol a gynhelir – ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig – y mae'r rhieni'n ei ffafrio ar yr amod:

- bod yr ysgol yn addas ar gyfer oedran, gallu a thueddfryd y plentyn a'r anghenion addysgol arbennig a nodir yn Rhan 2 o'r datganiad
- na fyddai'r ffaith bod y plentyn yn mynychu'r ysgol yn anghydnaws ag addysg effeithlon y plant eraill yn yr ysgol, a
- bod y lleoliad yn ddefnydd effeithiol o adnoddau'r AALL.

8:63 Mae'n **rhaid** i'r AALL ymgynghori â'r ysgol y mae'r rhiant yn ei ffafrio ac, os yw'r ysgol yn ardal AALL arall, mae'n rhaid iddo ymgynghori â'r AALL hwnnw hefyd. Mae'n **rhaid** iddo ddarparu, fel rhan o'r ymgynghoriad, naill ai gopi o'r datganiad arfaethedig a'r atodiadau iddo neu, os yw'n bwriadu newid Rhan 4 o ddatganiad

sy'n bod eisoes, naill ai'r datganiad diwygiedig arfaethedig neu'r hysbysiad diwygio ynghyd â chopi o'r datganiad presennol ac, yn y naill achos a'r llall, yr atodiadau.

8:64 Os na ellir lleoli'r plentyn yn yr ysgol a ddewisir gan y rhiant, dylai'r AALL ddewis ysgol brif ffrwd ac ymgynghori â hi. Eto, mae'n rhaid anfon y datganiad arfaethedig neu'r datganiad diwygiedig arfaethedig neu'r datganiad presennol a hysbysiad diwygio a'r atodiadau i'r ysgol a'r AALL perthnasol os nad yw'r ysgol yn cael ei chynnal gan yr AALL sy'n lleoli'r plentyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r AALL enwi'r ysgol honno onid yw'n anghydnaws â darparu addysg effeithlon i blant eraill ac nad oes camau rhesymol y gallai'r AALL neu'r ysgol neu Awdurdod arall eu cymryd i atal yr anghydnawsedd hwnnw.

8:65 Dylai'r AALL ystyried yn ofalus iawn pan fo rhieni yn datgan eu bod yn ffafrio ysgol brif ffrwd enwadol a gynhelir a phan gyflwynir sylwadau gan rieni o blaid ysgol arbennig enwadol nas cynhelir neu ysgol annibynnol enwadol. Ni chaniateir rhoi mwy o bwys ar ystyriaethau enwadol nag ar ofynion adran 316 o Ddeddf Addysg 1996.

8:66 Os enwir Colegau Technoleg Dinas, Colegau Dinas ar gyfer Technoleg y Celfyddydau neu Academiâu Dinas mewn datganiad, nid oes angen i'r Cynulliad Cenedlaethol roi caniatâd ar gyfer lleoli'r plentyn yno cyhyd ag y bo'r disgybl yn cydymffurfio â'r telerau a gymeradwyir yn gyffredinol ar gyfer yr ysgol.

8:67 Atodlen 27 i Ddeddf Addysg 1996 sy'n penderfynu a gaiff plentyn fynychu ysgol neilltuol a gynhelir y mae ei riant yn ei ffafrio. Wrth gwrs, gall rhieni ddatgan eu bod yn ffafrio ysgol arbennig a gynhelir. Os gwnânt hynny, nid yw'n ddyletswydd bellach ar yr AALL o dan adran 316A i sicrhau addysg brif ffrwd i'r plentyn. Mae'n rhaid i'r AALL gydymffurfio â dymuniad y rhiant os yw'n ffafrio ysgol arbennig neilltuol a gynhelir cyhyd ag y bo'r amodau yn Atodlen 27 yn berthnasol i'r achos.

8:68 Dylai'r AALL roi gwybod i rieni ei bod yn rhaid i bob ysgol a gynhelir gyhoeddi gwybodaeth am eu polisïau ar anghenion addysgol arbennig. Dylid rhoi cefnogaeth i rieni wrth iddynt wneud dewisiadau. Trafodir ffyrdd o helpu rhieni ym Mhennod Dau.

8:69 Pan fo AALLau yn anfon copi o'r datganiad arfaethedig at rieni, mae'n rhaid iddynt ddweud wrth y rhieni bod yr hawl ganddynt i gyflwyno sylwadau i'r AALL o blaid ysgol nas cynhelir ac, os ydynt yn dymuno gwneud sylwadau o'r fath, y dylent wneud hynny cyn pen 15 diwrnod ar ôl iddynt gael y datganiad arfaethedig. Os nad yw'r AALL yn cytuno â sylwadau'r rhieni, dylai hysbysu'r rhieni o'i benderfyniad cyn enwi unrhyw ysgol arall yn y datganiad terfynol. Yna, caiff y rhieni gyfle i ddatgan pa ysgol a gynhelir y maent yn ei ffafrio o dan Atodlen 27 os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Lleoliadau Preswyl

Mae'n rhaid i'r AALL hysbysu Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr ardal lle mae teulu'r plentyn yn byw neu Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ardal yr ysgol breswyl.

Gweler Adran 85, Deddf Plant 1989

Os yw plentyn yn derbyn gofal a bod Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu lleoli'r plentyn mewn sefydliad addysgol, mae'n rhaid iddynt, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, ymgynghori â'r AALL priodol cyn gwneud hynny.

Gweler Adran 28, Deddf Plant 1989

8:70 Os cytunir y dylid enwi ysgol breswyl yn y datganiad, dylai'r AALL a'r rhiant gytuno hefyd ar y trefniadau ar gyfer y cysylltiad rhwng y plentyn a'i deulu ac unrhyw help arbennig, megis cludiant, a allai fod yn ofynnol er mwyn cynnal cysylltiad rhwng y cartref a'r ysgol.

8:71 Pryd bynnag y lleolir plentyn mewn ysgol breswyl gyda'r bwriad y bydd hynny am fwy na thri mis, mae'n rhaid i'r AALL hysbysu naill ai adran y gwasanaethau cymdeithasol yn yr ardal lle mae teulu'r plentyn yn byw neu'r adran yn ardal yr ysgol breswyl. Mae'n arfer da i hysbysu'r naill a'r llall.

8:72 Efallai y bydd AALLau yn dymuno cydweithio â chydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu cysondeb mewn polisïau lleoli ledled yr awdurdod lleol. Bydd adrannau gwasanaethau cymdeithasol, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol o fewn rheswm ac er lles y plentyn, yn ceisio sicrhau bod lleoliadau preswyl yn agos at gartref y plentyn.

8:73 Lle bo Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud lleoliad unochrog o'u cyllideb eu hunain ar gyfer plentyn sy'n destun datganiad AAA, dylent roi gwybod ar unwaith i'r AALL, yn enwedig lle bo'r lleoliad mewn ysgol annibynnol.

8:74 Yn gyffredinol, mae AALLau yn debygol o ystyried bod angen darpariaeth breswyl lle ceir cytundeb aml-asiantaethol:

- bod gan y plentyn anghenion addysgol arbennig difrifol neu luosog na ellir eu diwallu gan ddarpariaeth ddydd yn lleol;
- bod gan y plentyn anghenion addysgol arbennig difrifol neu luosog sy'n golygu ei bod yn rhaid cael rhaglen gyson yn ystod oriau ysgol ac wedi hynny ac na all y rhieni ddarparu'r rhaglen honno gyda chymorth asiantaethau eraill;
- bod gan blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol anghenion cymdeithasol a dysgu cymhleth, a bod y lleoliad yn cael ei ariannu ar y cyd ag adran y gwasanaethau cymdeithasol;
- bod gan y plentyn anghenion meddygol cymhleth yn ogystal ag anghenion dysgu na ellir eu rheoli mewn darpariaeth ddydd yn lleol a bod y lleoliad yn cael ei ariannu ar y cyd â'r awdurdod iechyd.

8:75 Os yw'r amodau hyn yn berthnasol, dylid sefydlu cynllun aml-asiantaethol sy'n galluogi ariannu teiran.

8:76 Efallai y daw'r AALL a rhieni'r plentyn i'r casgliad y dylid lleoli'r plentyn mewn ysgol annibynnol nad yw wedi ei chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 347. Mewn achosion felly, mae'n rhaid i'r AALL geisio caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol i leoliad o'r fath a dylai wneud hynny cyn enwi'r ysgol yng nghopi terfynol y datganiad. Nod y Cynulliad Cenedlaethol yw gwneud penderfyniad cyn pen 15 diwrnod gwaith o'r dyddiad pryd yr anfonir cais am ganiatâd. Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd mwy na thair wythnos, ni

fydd yr AALL wedi'i rwymo gan yr uchafswm o wyth wythnos a ganiateir i gyhoeddi'r datganiad terfynol. Ni fydd yr uchafswm hwn yn sefyll chwaith os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gwrthod caniatâd i leoliad arfaethedig a bod cais yn cael ei wneud am ganiatâd y Cynulliad Cenedlaethol i leoliad mewn ysgol annibynnol arall nad yw wedi'i chymeradwyo o dan adran 347.

8:77 Lle bo'r AALL yn penderfynu na fydd y datganiad terfynol yn enwi'r ysgol sy'n ddewis cyntaf i'r rhieni, dylai'r AALL egluro'r penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig i'r rhieni, ac mae'n **rhaidd** iddo roi gwybod i'r rhieni am eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno apêl, y ffaith bod gwasanaethau partneriaeth â rhieni a datrys anghytundeb ar gael, ac na all y ffaith eu bod yn cymryd rhan mewn proses datrys anghytundeb effeithio ar hawl y rhieni i apelio.

8:78 Gall ymweliadau gan y rhieni â'r ysgol a gynigir gan yr AALL, gyda chyfle i drafod anghenion arbennig eu plentyn gyda'r pennaeth, y Cydlynnydd AAA neu unrhyw staff dysgu arbenigol fod o gymorth. Dylid cymryd pryderon a siom rhieni o ddifrif, a dylid gwneud pob ymdrech i ddarparu unrhyw wybodaeth a chynghor ychwanegol neu i drefnu ymweliadau pellach, a fydd yn eu helpu i ddod i benderfyniad gwybodus am ddyfodol eu plentyn.

8:79 Ceir esboniad manwl yng Nghanelllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol ar Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol o'r rheolau sy'n pennu ar ba sail y gellir gwneud taliadau rhwng AALLau am leoliadau y tu allan i'r awdurdod yng nghyswllt addysg plant sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig ac sydd hefyd yn derbyn gofal yr awdurdod lleol.

Ymgynghori cyn enwi ysgol a gynhelir mewn datganiad

Cyn enwi unrhyw ysgol a gynhelir mewn datganiad, mae'n rhaid i awdurdod addysg lleol ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol ac, os yw'r ysgol yn cael ei chynnal gan awdurdod addysg lleol arall, â'r awdurdod hwnnw.

Mae'n rhaid i'r AALL gyflwyno copi o'r datganiad arfaethedig neu'r datganiad diwygiedig, neu'r datganiad presennol a'r hysbysiad diwygio i'r ysgol(ion) y mae'n ymgynghori â nhw ac, os yw'r ysgol yn cael ei chynnal gan awdurdod addysg lleol arall, i'r awdurdod hwnnw.

Gweler Atodlen 27, Deddf Addysg 1996

8:80 Mae'n **rhaidd** i'r AALL ymgynghori â chorff llywodraethu ysgol cyn ei henwi mewn datganiad. Os mai awdurdod arall sy'n cynnal yr ysgol, mae'n rhaid i'r AALL ymgynghori â'r awdurdod hwnnw hefyd. Dylai'r AALL ddisgwyl i ysgolion ac AALLau eraill ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith, onid yw'r cyfnod yn disgyn o fewn gwyliau ysgol sy'n para mwy na phythefnos. Dylai'r AALL ystyried unrhyw sylwadau oddi wrth gyrff llywodraethu ac AALLau eraill yn ofalus.

8:81 Os gwneir yr ymgynghoriad o ganlyniad i'r ffaith bod y rhieni'n ffafrio ysgol neilltuol, dylai'r AALL ystyried unrhyw bryderon sydd gan y corff llywodraethu am ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn neu'r effaith y gallai presenoldeb y plentyn ei chael ar addysg plant eraill yn yr ysgol neu'r defnydd effeithiol o adnoddau. Fodd bynnag, yr AALL sydd i benderfynu'n derfynol a ddylid enwi'r ysgol ai peidio.

8:82 Os na wneir yr ymgynghoriad o ganlyniad i'r ffaith bod y rhieni'n ffafrio ysgol neilltuol, dylai'r AALL ystyried unrhyw bryderon sydd gan y corff llywodraethu y gallai presenoldeb y plentyn fod yn anghydnaws ag addysg effeithiol plant eraill yn yr ysgol ac ystyried a all y corff llywodraethu neu'r AALL gymryd camau rhesymol i atal yr anghydnawsedd hwnnw. Fodd bynnag, yr AALL sydd i benderfynu'n derfynol a ddylid enwi'r ysgol ai peidio.

8:83 Mae'n ddyletswydd ar yr AALL i enwi'r ysgol a gynhelir a ffafrir gan y rhieni yn y datganiad cyhyd ag y bo'r amodau yn Atodlen 27 (a nodir ym mharagraff 8.62) yn sefyll. Er enghraifft, ni ddylai'r AALL enwi ysgol a gynhelir mewn datganiad os yw'r ysgol yn un ddetholiadol, ac nad yw'r plentyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y dethol. Ni all corff llywodraethu'r ysgol wrthod derbyn plentyn dim ond am y rheswm fod ganddo anghenion addysgol arbennig.

8:84 Os yw'r AALL, ar ôl derbyn sylwadau gan y rhieni, yn penderfynu enwi ysgol annibynnol neu ysgol arbennig nas cynhelir, bydd, wrth gwrs, fel rhan o'r broses o gytuno ar y lleoliad, yn ymgynghori â'r ysgol.

8:85 Dylai'r AALL ystyried yn ofalus hefyd a fyddai derbyn y plentyn i ysgol brif ffrwd a gynhelir yn mynd â nifer y plant a dderbynnir i'r ysgol uwchlaw'r nifer a bennwyd fel y nifer o dderbyniadau a fwriadwyd am y flwyddyn, na chaiff fod yn llai na'r 'nifer safonol' neu'r 'nifer derbyniadau a gymeradwywyd', mewn geiriau eraill, a yw'r ysgol yn llawn eisoes mewn enw. Gallai derbyn plant y tu hwnt i'r nifer hwn fod yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Mewn rhai ysgolion, byddai plentyn ychwanegol mewn dosbarth yn anghydnaws ag addysg effeithlon plant eraill gan ei bod yn bosib na fyddai digon o le yno, yn enwedig os oes angen cymhorthion neilltuol ar y plant i gyd a'r rheiny'n cymryd llawer o le. Yn ogystal, mae'n rhaid i AALLau gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â maint dosbarthiadau mewn dosbarthiadau babanod (gweler paragraffau 1:33 - 38). Dylai'r AALL ystyried y pwyntiau hyn yn ofalus iawn mewn achosion lle nad yw'n awdurdod derbyn i'r ysgol dan sylw: hynny yw, bod awdurdod arall yn ei chynnal neu ei bod yn ysgol a gynorthwyr yn wirfoddol neu'n ysgol sefydledig.

8:86 Mewn ysgolion arbennig, gall derbyn plant sy'n mynd â nifer y disgyblion uwchlaw nifer y derbyniadau a bennwyd fod yn fwy cymhleth oherwydd mynegir nifer y derbyniadau fel cyfanswm cyffredinol yn hytrach na'r nifer i bob dosbarth neu flwyddyn. Mewn achosion felly, dylai'r AALL ystyried y nifer yn y dosbarth y câi'r plentyn ei dderbyn iddo yn hytrach na'r cyfanswm yn yr ysgol gyfan.

Costau cludiant i blant â datganiadau

8:87 Efallai y bydd yr ysgol a ffafrir gan y rhieni yn bellach o gartref y plentyn nag ysgol arall a all ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn. Mewn achos felly, efallai y gallai'r AALL enwi'r ysgol agosach pe bai hynny'n gydnaws â defnyddio adnoddau'r AALL yn effeithlon. Yn ogystal, gallai'r AALL enwi'r ysgol a ffafrir gan rieni'r plentyn, ar yr amod bod y rhieni'n cytuno i gwrdd â'r costau cludiant yn gyfan neu'n rhannol.

8:88 Mae'n rhaid i'r ysgol a enwir yn natganiad plentyn fod yn gallu diwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn. Felly, ni ddylai AALLau arddel polisïau cludiant cyffredinol sy'n ceisio cyfyngu ar yr ysgolion y gall rhieni plant sy'n destun datganiad fynegi eu bod yn eu ffafrio os darperir cludiant am ddim.

8:89 Dim ond mewn achosion eithriadol lle bo gan y plentyn anghenion cludiant neilltuol y dylid cofnodi cludiant yn y datganiad yn Rhan 6. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd gan AALLau bolisiau clir mewn perthynas â chludiant ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Dylai'r rhieni gael gweld y rhain. Byddai angen i bolisiau o'r fath nodi'r trefniadau cludiant sy'n ychwanegol at y rhai sy'n ofynnol yn ôl Deddf Addysg 1996, adran 509.

8:90 Lle bo'r AALL yn enwi darpariaeth breswyl gryn bellter o gartref y rhieni a'r awdurdod lleol, dylai'r AALL ddarparu cludiant neu gymorth i deithio; gallai'r olaf olygu ad-dalu costau cludiant cyhoeddus, costau petrol neu ddarparu tocyn teithio.

Addysg mewn rhywle ar wahân i ysgol

8:91 Gall plant sy'n destun datganiad gael eu haddysgu mewn rhywle ar wahân i ysgol oherwydd:

(a) bod yr AALL wedi gwneud trefniadau eraill

neu

(b) bod y rhieni wedi gwneud trefniadau addas eu hunain.

8:92 Mae adran 319 o Ddeddf Addysg 1996 yn rhoi'r grym i'r AALL i drefnu bod rhywfaint neu'r cyfan o ddarpariaeth addysgol arbennig plentyn yn cael ei gwneud yn rhywle ar wahân i'r ysgol. Byddai trefniadau fel hyn yn cynnwys addysg mewn uned cyfeirio disgyblion, dysgu gartref neu addysg sy'n adlewyrchu pwyntiau hyblyg cyfnod allweddol 4.

8:93 Mae adran 320 yn galluogi'r AALL i wneud trefniadau i blentyn sy'n destun datganiad fynychu sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr: lle gwneir hynny, gall yr AALL gyfrannu at ffioedd y sefydliad a chostau teithio a chostau eraill y plentyn ac unrhyw un, gan gynnwys rhiant, sy'n mynd gyda'r plentyn, neu eu talu'n gyfan.

8:94 Dylai'r AALL ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau a wneir gan rieni o blaid trefnu i'w plentyn fynychu sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr. Os yw'r AALL o'r farn y dylai rhywfaint neu'r cyfan o ddarpariaeth addysgol arbennig plentyn gael ei gwneud mewn rhywle ar wahân i ysgol, yn cynnwys mynychu sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr, gall nodi'r trefniadau hynny yn Rhan 4 o'r datganiad.

8:95 Mae Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 yn cydnabod hawl rhieni i ddewis addysgu eu plentyn gartref. Disgrifir trefniadau felly fel 'addysg yn rhywle ar wahân i'r ysgol'. Mewn achosion felly, os yw'r plentyn yn destun datganiad anghenion addysgol arbennig, mae'n dal yn ddyletswydd ar yr AALL i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu. Mae'n rhaid i'r datganiad barhau mewn grym ac mae'n rhaid i'r AALL sicrhau y gall y rhieni wneud darpariaeth addas, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig y plentyn. Os yw trefniadau'r rhieni'n addas, mae'r AALL yn cael ei ryddhau o'i ddyletswydd i drefnu'r ddarpariaeth a nodir yn y datganiad. Fodd bynnag, os yw ymgais y rhieni i addysgu eu plentyn gartref yn golygu bod y ddarpariaeth yn syrthio'n brin o ateb anghenion y plentyn, yna nid yw'r rhieni'n gwneud 'trefniadau addas' ac ni allai'r AALL ddod i'r casgliad ei fod yn cael ei ryddhau o'i ddyletswydd i drefnu'r ddarpariaeth a nodir yn y datganiad. Hyd yn oed os yw'r AALL yn fodlon, mae'n dal yn ddyletswydd ar yr AALL i gynnal datganiad y plentyn a'i adolygu'n flynyddol, gan ddilyn y trefniadau a nodir ym Mhennod Naw.

8:96 Mewn sefyllfaoedd felly, nid yw adran 324 (4A) o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol **enwi'r** ysgol yn Rhan 4 o'r datganiad. Dylai Rhan 4 nodi'r math o ysgol y mae'r AALL yn ei chyfrif yn addas a dylai fynd ymlaen i ddweud bod y "*rhieni wedi gwneud eu trefniadau eu hunain o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996.*" Yn ogystal, gall datganiad nodi unrhyw ddarpariaeth y mae'r AALL wedi cytuno i'w gwneud o dan adran 319 i helpu rhieni i ddarparu addysg addas ar gyfer eu plentyn yn y cartref.

Plant a addysgir ar gost eu rhieni

8:97 Gall rhieni ddewis lleoli plentyn sy'n destun datganiad mewn ysgol annibynnol (boed honno wedi ei chymeradwyo o dan adran 347 neu beidio) neu mewn ysgol arbennig nas cynhelir ar eu cost eu hunain. Os yw rhieni'n dewis gwneud darpariaeth o'r fath ar gyfer eu plentyn, mae'n rhaid i'r AALL fod yn fodlon bod yr ysgol yn gallu gwneud darpariaeth addysgol arbennig sy'n diwallu anghenion addysgol arbennig plentyn cyn iddo gael ei ryddhau o'i ddyletswydd i drefnu darpariaeth mewn ysgol briodol. Nid yw'n ofynnol i'r AALL enwi'r ysgol yn Rhan 4 o ddatganiad y plentyn os yw'n fodlon bod rhieni'r plentyn wedi gwneud trefniadau addas ond, o dan yr amgylchiadau hynny, mae'n **rhaid** iddo nodi'r math o ddarpariaeth. Ni ddylid trin rhieni fel pe baent wedi gwneud trefniadau addas os nad yw'r trefniadau'n cynnwys posibilrwydd realistig y caiff y trefniadau hynny eu hariannu dros gyfnod rhesymol o amser. Pa un bynnag a oes ysgol yn cael ei henwi yn y datganiad ai peidio, mae'n dal yn ddyletswydd ar yr AALL i gynnal datganiad y plentyn a'i adolygu'n flynyddol, yn unol â'r trefniadau a nodir ym Mhennod Naw.

Plant a leolir gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol neu'r Llysoedd

8:98 Mae'n arfer da i awdurdodau lleol, yn eu swyddogaeth fel rhiant corfforaethol, i sicrhau bod adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio ag AALLau, fel bod unrhyw ddarpariaeth addysgol a wnânt yn diwallu anghenion y plentyn hyd y bo modd o dan ei amgylchiadau neilltuol.

8:99 Os yw plentyn yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol a bod addysg y plentyn yn cael ei drefnu gan y gwasanaethau cymdeithasol, dylai'r AALL ystyried a yw'r awdurdod lleol, fel rhiant y plentyn, wedi gwneud darpariaeth addas o dan adran 324(5)(a). Os felly, ni fydd yn rhaid i'r AALL drefnu'r ddarpariaeth a nodir yn y datganiad. Nid yw adran 324(4A) o Ddeddf Addysg 1996 yn mynnu bod Rhan 4 o'r datganiad yn enwi ysgol ond, mewn achosion felly, mae'n **rhaid** i'r AALL enwi'r **math** o ddarpariaeth.

8:100 Os yw plentyn yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol ac yn cael ei leoli mewn cartref cymunedol gydag addysg neu gartref plant arall sy'n darparu addysg, neu gydag asiantaeth faethu annibynnol sy'n darparu addysg, gall yr AALL ddod i'r casgliad bod trefniadau addas wedi'u gwneud a bod yr AALL yn cael ei ryddhau o'i ddyletswydd i drefnu'r ddarpariaeth a nodir yn y datganiad.

8:101 Mewn sefyllfaoedd felly, dylai Rhan 4 nodi'r math o ysgol y mae'r AALL yn ei ystyried yn addas ond dylai fynd ymlaen i ddweud bod y "*rhieni wedi gwneud eu trefniadau eu hunain o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996.*"

8:102 Dylai AALLau sicrhau bob amser eu bod yn chwarae rhan yn y gwaith o gynllunio i newid lleoliad y plentyn fel y gellir trefnu darpariaeth addysgol arbennig yn ôl yr angen pan fydd y plentyn yn gadael ei leoliad presennol.

8:103 Lle bo person ifanc sy'n destun datganiad yn cael ei gadw o dan orchymyn llys (er enghraifft mewn llety cadarn) neu orchymyn adalw gan yr Ysgrifennydd Gwladol, nid yw'r AALL yn gyfrifol amdano bellach ac nid yw'n ddyletswydd arno gynnal y datganiad (gweler adran 562 o Ddeddf Addysg 1996). Fodd bynnag, dylai awdurdodau wneud trefniadau a fydd yn golygu y gellir ailddechrau datganiad y person ifanc ar y diwrnod cyntaf y caiff ei ailintegreiddio i'w gymuned.

8:104 Er nad oes dyletswydd statudol arnynt i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y bobl ifanc hyn, gall AALLau ddarparu cyfleusterau addysgol ar eu cyfer a dylent sicrhau bod y sefydliadau'n cael gwybodaeth am anghenion addysgol arbennig y bobl ifanc, yn cynnwys copi o unrhyw ddatganiad a'r adroddiad adolygu blynyddol diwethaf. Dylai'r sefydliadau ymdrechu i wneud darpariaeth addysgol briodol. Fel yn achos plant sy'n 'derbyn gofal', dylai'r AALL fod â rhan yng nghynllun ymadael y person ifanc.

Sylwadau rhieni ar y datganiad arfaethedig

8:105 Os ymgynghorwyd yn llawn â rhieni trwy gydol y broses, maent yn fwy tebygol o ystyried bod y datganiad arfaethedig yn werthusiad positif a chywir o anghenion addysgol arbennig eu plentyn a bod y ddarpariaeth a awgrymir yn ymateb priodol i'r anghenion hynny. Fodd bynnag, dylai'r AALL hysbysu'r rhieni, gan ddefnyddio'r Hysbysiad i Rieni yn Rhan A o Atodlen 1 i Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002.

- a. y cânt, cyn pen 15 diwrnod, gyflwyno sylwadau i'r AALL, a mynnu bod cyfarfod yn cael ei drefnu gyda swyddog o'r AALL i drafod cynnwys y datganiad
- b. y cânt, cyn pen 15 diwrnod ar ôl cwrdd â'r swyddog, wneud sylwadau pellach neu, os ydynt yn anghytuno ag unrhyw ran o'r asesiad, gallant fynnu bod cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu gyda phobl briodol yn yr AALL i drafod y cyngor a roddwyd
- c. y cânt, cyn pen 15 diwrnod terfynol o'r cyfarfod diwethaf, wneud sylwadau pellach i'r AALL.

8:106 Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod rhieni'n fodlon â'r datganiad arfaethedig, eu bod yn deall y cefndir i'r cynigion a wnaed ar gyfer eu plentyn a'u bod o'r farn bod eu dymuniadau a'u teimladau wedi cael eu hystyried yn llawn ac mewn modd sensitif. Dylid gwneud ymdrech gyffelyb i sicrhau, hyd y bo modd, bod barn y plentyn yn cael ei hadlewyrchu yn y datganiad arfaethedig a bod y plentyn yn deall y rhesymau dros y cynigion.

8:107 Mewn unrhyw gyfarfodydd sy'n deillio o'r datganiad arfaethedig, dylai swyddogion yr AALL roi digon o amser a gwybodaeth i rieni i drafod eu pryderon gyda'r Swyddog a Enwir o'r AALL, a cheisio dod i gytundeb sy'n dderbyniol i'r naill ochr â'r llall, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl. Gall y broses asesu achosi straen mawr i rai rhieni a gall fod angen cefnogaeth bersonol ychwanegol arnynt. Dylai AALLau hysbysu rhieni y caiff ffrindiau neu berthnasau, neu aelodau o'r gwasanaeth partneriaeth â rhieni (gweler Pennod Dau) ddod gyda nhw. Efallai y bydd yr AALL am gyfeirio'r rhieni at weithwyr proffesiynol ym maes iechyd neu

mewn gwasanaethau eraill er mwyn iddynt gael eglurhad ar unrhyw agwedd berthnasol ar y ddarpariaeth a awgrymir sy'n peri pryder iddynt.

Y datganiad terfynol

8:108 Mae'n **rhaid** i'r AALL anfon copi o'r datganiad terfynol at rieni'r plentyn a rhoi hysbysiad ysgrifenedig iddynt o'u hawl i apelio i'r Tribiwnlys a'r terfynau amser ar gyfer apelio, y ffaith bod gwasanaethau partneriaeth â rhieni a datrys anghytundeb ar gael, ac na all y ffaith bod rhieni'n manteisio ar y gwasanaeth datrys anghytundeb amharu ar eu hawl i apelio. Gall rhieni apelio yn erbyn y disgrifiad yn natganiad anghenion addysgol arbennig y plentyn, y ddarpariaeth addysgol arbennig yn y datganiad, a'r ysgol a enwir neu, os nad oes ysgol yn cael ei henwi, yn erbyn y ffaith honno.

8:109 Pan awgrymir newidiadau i'r datganiad arfaethedig a bod yr AALL a'r rhieni yn cytuno ar hynny, dylid cyhoeddi'r datganiad terfynol ar unwaith. Mae'n **rhaid** i AALLau drefnu'r ddarpariaeth addysgol arbennig, a gallant drefnu unrhyw ddarpariaeth anaddysgol a bennir yn y datganiad, o'r dyddiad y gwneir y datganiad. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod rhieni'n deall arwyddocâd unrhyw newidiadau a natur y ddarpariaeth a gynigir i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn. Os yw'r rhieni, er gwaethaf cyfleoedd i drafod y sefyllfa gyda swyddog o'r AALL ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol, yn amharod i dderbyn newidiadau eraill i'r datganiad arfaethedig neu os yw'r AALL yn gwrthod awgrymiadau'r rhieni am newidiadau i'r datganiad arfaethedig, gall yr AALL serch hynny fwrw ymlaen i gyhoeddi'r datganiad terfynol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r AALL roi gwybod i'r rhieni am eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA ynghylch y ddarpariaeth a bennir yn y datganiad, gan gynnwys yr ysgol a enwir, a'u hysbysu am y trefniadau i'w dilyn os ydynt am wneud hynny.

8:110 Gall mynd i'r Tribiwnlys AAA beri straen i'r rhieni a chymryd llawer o amser yr AALL dan sylw. Er mwyn cadw nifer yr apelïadau i'r Tribiwnlys cyn ised â phosibl, dylai AALLau sicrhau bod cymaint ag y bo modd o wybodaeth a chefnogaeth ar gael i'r rhieni yn ystod y broses asesu statudol a'u bod yn cael cyfrannu cymaint ag y bo modd at ddatganiad eu plentyn. Trafodir y bartneriaeth gyda rhieni ym Mhennod Dau.

Cadw, dadlennu a throsglwyddo datganiadau

8:111 Ni ddylid dadlennu datganiad heb ganiatâd rhieni'r plentyn neu, os yw'r plentyn dros 18 oed, ac eithrio at ddibenion statudol neu er budd y plentyn. Mae dibenion statudol yn cynnwys dadlennu i'r Tribiwnlys AAA pan fo rhieni'n apelio, ac i'r Cynulliad Cenedlaethol os bydd rhieni'n gwneud cwyn i'r Cynulliad o dan Ddeddf 1996; dadlennu ar orchymyn unrhyw lys neu at ddibenion unrhyw achos troseddol; dadlennu at ddibenion ymchwiliadau i gamweinyddu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1974; dadlennu i alluogi unrhyw awdurdod i gyflawni dyletswyddau sy'n deillio o Ddeddf Pobl Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986, neu o Ddeddf Plant 1989 mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant; a dadlennu i dimau arolygu Estyn fel rhan o'u gwaith yn arolygu ysgolion ac AALLau.

8:112 Mae budd y plentyn yn cynnwys darparu gwybodaeth i ysgol ac athrawon y plentyn. Mae'n bwysig bod gan athrawon sy'n gweithio'n agos gyda'r plentyn, a Gyrfa Cymru, wybodaeth lawn am ddatganiad y plentyn. Yn ogystal, gall AALLau ganiatáu i bobl sy'n gwneud ymchwil ar anghenion addysgol arbennig weld y

datganiad ar yr amod nad yw'r ymchwilwyr yn cyhoeddi unrhyw beth sy'n deillio o'r datganiad neu sy'n gynnwysedig ynddo a fyddai'n golygu ei bod yn bosibl adnabod y plentyn neu'r rhieni dan sylw. Dylai fod gan gyrff llywodraethu ysgolion hawl i weld datganiad plentyn sy'n gymesur â'u dyletswyddau tuag at ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a dylent gofio bob amser bod angen sicrhau cyfrinachedd y plentyn dan sylw. Mae dadlennu er budd y plentyn hefyd yn cynnwys dadlennu i unrhyw asiantaethau ar wahân i'r AALL y cyfeirir atynt yn y datganiad fel asiantaethau sy'n gwneud darpariaeth addysgol neu anaddysgol.

8:113 Pan fo'r cyfrifoldeb am blentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig yn newid o'r AALL sy'n cynnal y datganiad (yr hen awdurdod) i AALL arall (yr awdurdod newydd), mae'n rhaid i'r hen awdurdod drosglwyddo'r datganiad i'r awdurdod newydd. Gall hefyd drosglwyddo unrhyw farn a gafodd o dan Ddeddf Pobl Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 bod y plentyn yn anabl. Pan drosglwyddir y datganiad, daw'r awdurdod newydd yn gyfrifol am gynnal y datganiad ac am wneud y ddarpariaeth addysgol arbennig a bennir yn y datganiad.

8:114 Felly, mae'r ddyletswydd i gynnal y plentyn yn yr ysgol a bennwyd yn Rhan 4 o'r datganiad hefyd yn trosglwyddo i'r awdurdod newydd. Gall yr awdurdod newydd leoli'r plentyn dros dro mewn ysgol ar wahân i'r un a bennir yn Rhan 4 os yw'n briodol a synhwyrol gwneud hynny – er enghraifft, lle byddai'r pellter rhwng cartref newydd y plentyn a'r ysgol yn rhy fawr – cyn i'r datganiad gael ei newid yn unol â'r trefniadau statudol. Fel arall, ni chaiff yr AALL newydd wrthod talu'r ffioedd na chynnal y plentyn fel arall mewn ysgol annibynnol neu ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol breswyl a enwir yn y datganiad, oni bai ei fod wedi newid y datganiad yn ffurfiol a hyd nes y bydd wedi gwneud hynny.

8:115 Pan drosglwyddir y datganiad, caiff yr awdurdod newydd ddwyn y trefniadau i adolygu'r datganiad ymlaen, a gall gynnal asesiad newydd ni waeth pryd y cynhaliwyd yr asesiad blaenorol. Rhaid i'r awdurdod newydd ddweud wrth y rhieni, cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad trosglwyddo, pryd y bydd yn adolygu'r datganiad ac a yw'n bwriadu gwneud asesiad o dan adran 323 ai peidio. Dylai'r hen awdurdod ac ysgol y plentyn roi gwybod i'r rhieni am oblygiadau addysgol eu bwriad i symud a dylai'r hen awdurdod a'r awdurdod newydd fod yn barod i drafod y goblygiadau hynny gyda'r rheini. Lle bo plentyn sy'n destun datganiad yn symud i Loegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban, dylai'r AALL anfon copi o ddatganiad y plentyn at yr awdurdod neu'r bwrdd newydd.

Cynnal datganiad

8:116 Pan wneir datganiad, dylai'r AALL ddweud wrth y 'person cyfrifol' mewn ysgol a gynhelir – gweler paragraff 1.19 – a'r pennaeth mewn unrhyw ysgol arall ac mewn sefydliadau addysg gynnar. Yna, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod anghenion addysgol arbennig y plentyn yn cael eu gwneud yn hysbys i bawb fydd yn ei ddysgu. Dylai ysgolion sicrhau bod athrawon yn monitro ac yn adolygu cynnydd y plentyn yn anffurfiol yn ystod y flwyddyn. Dylai athrawon ddefnyddio'r trefniadau monitro cwricwlaidd a bugeiliol arferol ar gyfer pob disgybl yn ogystal â llunio Cynlluniau Addysg Unigol (CAUau) lle bo'n briodol. Mae'n hynod bwysig, os yw anghenion addysgol arbennig plentyn yn newid, bod adolygiad yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl i sicrhau bod y ddarpariaeth a bennwyd yn y datganiad yn dal yn briodol.

Rhoi'r gorau i gynnal y datganiad

8:117 Ar ôl i AALL wneud datganiad, ni ddylid cymryd yn ganiataol y dylai ei gynnal hyd nes na fydd yn gyfrifol mwyach am y person ifanc. Dim ond pan fydd angen y dylid cynnal datganiadau. Ond dylai'r AALL ystyried yr holl amgylchiadau'n ofalus ac ymgynghori'n agos â'r rhieni cyn penderfynu rhoi'r gorau i gynnal datganiad.

8:118 Cyn y gall yr AALL roi'r gorau i gynnal datganiad ar gyfer plentyn, mae'n rhaid ei fod o'r farn nad yw'n angenrheidiol ei gynnal bellach. Dylai'r AALL ystyried canlyniadau'r adolygiadau blynyddol diweddaraf, a yw amcanion y datganiad wedi'u cyflawni ac a ellid diwallu anghenion y plentyn o hyn ymlaen o adnoddau ysgolion prif ffrwd yn yr ardal heb fod angen i'r AALL barhau i oruchwylio'r mater. Felly, dylai'r AALL bob amser ystyried a fydd cynnydd y plentyn yn cael ei atal neu a fydd yn symud yn ôl yn lle ymlaen heb y ddarpariaeth addysgol arbennig a nodwyd yn y datganiad neu ddarpariaeth wedi'u haddasu a oedd yn cyfiawnhau cynnal datganiad, hyd yn oed os yw rhai o amcanion y datganiad, neu hyd yn oed yr amcanion i gyd, wedi'u cyflawni.

8:119 Gall yr AALL ystyried a yw'r canlynol yn berthnasol wrth ystyried a oes angen cynnal datganiad:

- a. a yw amcanion y datganiad wedi'u cyflawni
- b. a ellir diwallu anghenion y plentyn yn y dyfodol o adnoddau ysgol brif ffrwd
- c. a yw anghenion addysgol arbennig y plentyn gyfryw fel nad ydynt bellach yn ei atal rhag dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol i raddau sylweddol
- d. a yw'r plentyn wedi cyrraedd man lle nad oes angen goruchwyliaeth oedolyn arno bob dydd nac addasu sylweddol ar ddefnyddiau dysgu cyn y gall gymryd rhan lawn yn y Cwricwlwm
- e. a all y plentyn ymdopi â chymdeithasu arferol yn yr ysgol
- f. a yw'r plentyn yn rhydd o anawsterau hunan-gymorth sylweddol sy'n golygu bod arno angen mwy o ddarpariaeth nag sydd ar gael fel rheol yn yr ysgol.

8:120 Unwaith y bydd AALL wedi penderfynu rhoi'r gorau i gynnal datganiad, mae'n rhaid iddo ysgrifennu at rieni'r plentyn i roi gwybod iddynt am ei benderfyniad, ac esbonio bod gan y rhieni hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno apêl, y ffaith bod gwasanaeth partneriaeth â rhieni a gwasanaeth datrys anghytundeb ar gael, ac na all y ffaith eu bod yn cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghytundeb effeithio ar hawl rhieni i apelio. Mae'n rhaid i'r AALL esbonio'r rhesymau dros ei benderfyniad bob amser a sicrhau bod y rhieni'n cael copïau o unrhyw dystiolaeth a arweiniodd at y penderfyniad hwnnw. Mae'n arfer da i gynnig cyfarfod i esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad ac i drafod y ddarpariaeth y bydd y plentyn yn ei derbyn pan ddaw'r datganiad i ben. Dylid cynnal y cyfarfod hwnnw cyn i'r datganiad a'i ddarpariaethau ddod i ben. Mae'n **rhaid** cynnal y ddarpariaeth os bydd y rhieni'n cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys AAA, tan ar ôl i'r Tribiwnlys wneud penderfyniad.

8:121 Fel rheol, bydd datganiad yn aros mewn grym hyd nes y bydd yr AALL yn rhoi'r gorau i'w gynnal, neu oni wna hynny. Mae datganiad yn darfod yn otomatig pan fydd person ifanc yn symud i addysg bellach neu addysg uwch. Felly, os yw'r person ifanc, y rhieni, yr AALL a'r sefydliad addysg bellach i gyd yn cytuno ynglŷn â throsglwyddiad y person ifanc, nid oes angen dod â'r datganiad i ben yn ffurfiol gan y bydd y person ifanc yn peidio â bod yn ddisgybl y mae'r AALL yn gyfrifol amdano ar ôl ymadael â'r ysgol, ac felly bydd y datganiad yn dod i ben.

8:122 Gall person ifanc adael yr ysgol yn 16 oed neu drosodd i chwilio am waith neu hyfforddiant. Unwaith eto, nid oes angen rhoi'r gorau'n ffurfiol i gynnal y datganiad gan y byddai'r person ifanc yn peidio â bod yn ddisgybl y mae'r AALL yn gyfrifol amdano unwaith y mae'n ymadael â'r ysgol. Ar y llaw arall, lle bo pawb yn cytuno y dylai'r disgybl aros yn yr ysgol ar ôl cyrraedd 16 oed, a bod gan yr AALL neu AALLau eraill ddarpariaeth ysgol briodol, fel rheol dylai'r AALL barhau i gynnal y datganiad.

8:123 Os yw rhieni'n dymuno i'w plentyn aros yn yr ysgol ar ôl cyrraedd 16 oed, ond bod yr AALL o'r farn y byddai anghenion addysgol arbennig y person ifanc yn cael eu diwallu'n well mewn sefydliad addysg bellach, ni all yr AALL wybod a oes angen datganiad ar y plentyn o hyd tan y bydd wedi cysylltu â'r sefydliad addysg bellach dan sylw ac wedi cadarnhau y bydd yn gallu diwallu anghenion y person ifanc a'i fod wedi cynnig lle iddo. Dylai'r AALL fodloni ei hunan o'r ddau beth cyn cymryd camau ffurfiol i roi'r gorau i gynnal datganiad y person ifanc. Bryd hynny, mae'n rhaid i'r AALL hysbysu rhieni'r person ifanc hefyd o'u hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno apêl, y ffaith bod gwasanaeth partneriaeth â rhieni a gwasanaeth datrys anghytundeb ar gael, ac na all y ffaith eu bod yn cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghytundeb effeithio ar hawl rhieni i apelio. Nid yw'n ddigon i AALLau ddisgwyl yn gyffredinol bod sefydliad addysg bellach yn gallu diwallu anghenion person ifanc.

8:124 Os nad yw ysgol bresennol y person ifanc yn darparu ar gyfer plant 16 oed a throsodd, dylai'r AALL ystyried a ddylid diwygio'r datganiad i enwi ysgol arall neu ddod â'r datganiad i ben os canfyddir cwrs addysg bellach addas. Dylai'r AALL wneud cynnig ffurfiol i ddiwygio'r datganiad i enwi'r ysgol arall neu wneud cynnig ffurfiol i ddod â'r datganiad i ben. Yn y naill achos a'r llall, mae'n rhaid i'r AALL hysbysu'r rhieni o'u hawl i apelio i'r Tribiwnlys a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno'r apêl.

Diwygio datganiad sy'n bod eisoes

8:125 Yr unig bryd y caiff yr AALL ddiwygio datganiad yw yn unol â gorchymyn gan y Tribiwnlys AAA, ar gyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol, neu yn unol ag Atodiad 27.

8:126 Os yw'r AALL yn cynnig diwygio datganiad yn dilyn adolygiad blynyddol neu ar unrhyw adeg arall, boed hynny i newid enw'r ysgol yn Rhan 4 neu am unrhyw reswm arall, rhaid iddo ysgrifennu at rieni'r plentyn, yn eu hysbysu o'r bwriad hwnnw ac o'u hawl i gyflwyno sylwadau am y datganiad a'r newidiadau cyn pen 15 diwrnod ar ôl cael y cynnig a'u hawl i ofyn am gyfarfod gydag un o swyddogion yr AALL.

8:127 Yn achos newidiadau yn dilyn ailasesiad, yr un yw'r drefn â phan wneir datganiad newydd fel y nodwyd eisoes yn y bennod hon.

8:128 Yn achos newidiadau yn dilyn adolygiad, ac eithrio ar ôl ailasesiad, mae'n rhaid i AALLau anfon hysbysiad diwygio i rieni sy'n nodi manylion y newidiadau arfaethedig. Dylid cynnwys yr hysbysiad diwygio fel atodiad i'r Hysbysiad i Rieni. Mae'n rhaid iddynt esbonio'r rhesymau dros yr hyn a gynigir a sicrhau bod gan y rhieni gopiau o unrhyw dystiolaeth a arweiniodd at y cynnig. Lle bo cynnig i ddiwygio'r datganiad yn deillio o'r adolygiad blynyddol, dylai'r rhieni fod wedi derbyn copiau o adroddiad yr adolygiad ac argymhellion yr ysgol eisoes.

8:129 Mae'n rhaid i'r AALL ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan y rhieni cyn penderfynu a yw am ddiwygio'r datganiad a sut i wneud hynny. Os daw'r awdurdod i'r casgliad y dylid ei ddiwygio, rhaid iddo wneud hynny cyn pen wyth wythnos ar ôl anfon yr hysbysiad diwygio at y rhieni. Os bydd yr AALL yn penderfynu peidio â mynd ymlaen â'r diwygio, dylai ysgrifennu at y rhieni yn esbonio pam, eto cyn pen wyth wythnos o'r llythyr gwreiddiol yn nodi'r bwriad i ddiwygio'r datganiad.

8:130 Pan fydd plentyn yn trosglwyddo o un ysgol i ysgol arall, naill ai am ei fod wedi symud i gyfeiriad gwahanol ond ei fod yn dal yn yr un awdurdod neu am ei fod yn newid cyfnod ysgol (er enghraifft o ysgol gynradd i ysgol uwchradd), bydd angen newid Rhan 4 o'r datganiad bob amser. Gall gwybodaeth ac argymhellion o gyfarfod adolygu blynyddol hefyd ddangos bod angen gwneud newidiadau i ddatganiad. Os yw'r cynnig yn cynnwys diwygio Rhan 4 o'r datganiad, mae gan y rhieni hawl i ddweud pa ysgol y maent yn ei ffafrio neu wneud sylwadau fel y disgrifir ym mharagraff 8:58.


8:131 Pan gaiff y datganiad ei ddiwygio, mae'n rhaid cyhoeddi dogfen newydd sy'n datgan yn glir ei bod yn Ddatganiad Terfynol Diwygiedig, y dyddiad pryd y cafodd ei diwygio a dyddiad y datganiad gwreiddiol. Dylai gwybodaeth ychwanegol, fel cofnodion cyfarfod adolygu blynyddol a'r adroddiadau cysylltiedig, a gyfrannodd at y penderfyniad i ddiwygio'r datganiad, gael eu cynnwys yn atodiad i'r datganiad diwygiedig yn yr un ffordd a'r gwybodaeth a gafwyd yn ystod yr asesiad statudol. Dylai'r datganiad diwygiedig nodi'n glir hefyd pa rannau o'r datganiad a ddiwygiwyd, fel y gall y rhieni a gweithwyr proffesiynol weld y newidiadau'n glir a'u deall.

8:132 Pan fydd plentyn yn symud i ysgol newydd, yn enwedig wrth newid o un cyfnod ysgol i'r llall, dylid diwygio Rhan 4 o'r datganiad i enwi'r lleoliad cyfredol a'r lleoliad newydd, gan nodi dyddiad cychwyn priodol ar gyfer yr ail. Bydd hyn yn sicrhau bod rhieni, plant a'r ysgol sy'n derbyn yn gallu cynllunio mewn da bryd cyn i'r plentyn newid ysgol, ac y gall rhieni apelio i'r Tribiwnlys AAA mewn da bryd os byddant yn anghytuno â'r ysgol a enwyd. Pan fydd plant yn newid ysgol ar ddiwedd cyfnod, ac eithrio o sefydliadau addysg gynnar i'r cyfnod cynradd, mae'n rhaid diwygio'r datganiad erbyn 15fed Chwefror fan bellaf ym mlwyddyn y trosglwyddo. Dylai'r datganiad diwygiedig nodi ysgol bresennol y plentyn (os yw'n mynychu'r ysgol) a'r ysgol newydd, a dweud ar ba ddyddiad y bydd y plentyn yn symud yno.

8:133 Pan gyhoeddir y datganiad diwygiedig, mae'n rhaid rhoi gwybod i rieni am eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn Rhannau 2, 3 a 4 o'r datganiad a'r terfynau amser ar gyfer apelio, y ffaith bod gwasanaeth partneriaeth â rhieni a gwasanaeth datrys anghytundeb ar gael, ac na all y ffaith bod rhieni'n manteisio ar y gwasanaeth datrys anghytundeb effeithio ar eu hawl i apelio.

Crynodeb

8:134 Mae'r terfynau amser ar gyfer gwneud asesiadau a datganiadau fel a ganlyn:



9 Adolygiad Blynyddol

Cyflwyniad

9:1 Mae'n rhaid adolygu pob datganiad (ac eithrio rhai ar gyfer plant o dan ddwy oed) o leiaf bob blwyddyn. Mae'r adolygiad blynyddol o ddatganiad disgybl yn sicrhau, unwaith y flwyddyn, bod y rhieni, y disgybl, yr AALL, yr ysgol⁵⁴, a phob gweithiwr proffesiynol sydd a wnelont â'r disgybl, yn ystyried y cynnydd a wnaed gan y disgybl dros y 12 mis blaenorol ac a oes angen newid y disgrifiad o'i anghenion neu'r ddarpariaeth addysgol arbennig a bennwyd yn y datganiad. Mae'n ffordd o fonitro a gwerthuso'r datganiad i wneud yn siŵr ei fod yn dal yn effeithiol a phriodol. Mae'n rhaid i AALLau sicrhau bod adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal cyn pen 12 mis ar ôl gwneud y datganiad neu gynnal yr adolygiad blaenorol.

9:2 Pan gaiff datganiad ei ddiwygio yn dilyn adolygiad blynyddol, dylid pennu dyddiad yr adolygiad blynyddol nesaf yn ôl y dyddiad y gwnaed y datganiad yn hytrach na'r dyddiad pryd y cafodd ei ddiwygio. Pan fydd ail asesiad statudol neu asesiad dilynol yn arwain at ddatganiad newydd, dylid cynnal yr adolygiad cyn pen 12 mis i ddyddiad y datganiad newydd.

9:3 Er bod AALLau yn cael trefnu adolygiad o ddatganiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, dylent geisio sicrhau cytundeb yr ysgol a rhieni'r plentyn cyn gwneud hynny. Dylai amseriad adolygiadau blynyddol adlewyrchu amgylchiadau'r plentyn a'r camau a allai ddeillio o'r adolygiad, er enghraifft symud i ysgol uwchradd. Yn ogystal, dylai'r amseriad adlewyrchu'r amgylchiadau yn ysgol y plentyn. Yn achos ysgolion arbennig yn neilltuol, efallai na fydd yn rhesymol adolygu pob datganiad ar yr un pryd. Dylai AALLau geisio cytuno gyda'r ysgol bod dyddiadau'r adolygiadau blynyddol yn cael eu gwasgaru'n rhesymol. Dylid hysbysu'r rhieni bob amser cyn gynted ag y bo modd.

9:4 Diben adolygiad blynyddol yw integreiddio amrywiaeth o safbwyntiau ar gynnydd plant, i sicrhau eu bod yn cael y canlyniadau a ddymunir ac, os oes angen, i newid datganiad er mwyn adlewyrchu anghenion a darpariaeth sydd newydd eu canfod a'u dynodi. Mewn rhai achosion, daw'r AALL i'r casgliad bod amcanion y datganiad wedi'u cyflawni ac y dylai roi'r gorau i gynnal y datganiad. Dylai'r adolygiad blynyddol ganolbwyntio ar yr hyn y mae'r plentyn wedi'i gyflawni yn ogystal ag ar unrhyw anawsterau y mae angen eu datrys. Mae adolygiad blynyddol Blwyddyn 9 yn neilltuol o bwysig o ran paratoi ar gyfer trosglwyddiad y disgybl i'r sector addysg bellach, hyfforddiant mewn gwaith, addysg uwch a bywyd fel oedolyn.

9:5 Er ei bod yn rhaid adolygu datganiadau'n flynyddol, yn ystod y flwyddyn dylai ysgolion, a'r AALL fel sy'n briodol, fonitro cynnydd y plentyn tuag at y targedau a bennwyd yn fuan ar ôl i'r datganiad gael ei lunio gyntaf neu adeg yr adolygiad blynyddol diwethaf. Fel rheol, y CAU fydd y cyfrwng ar gyfer y broses hon, ochr yn ochr â threfniadau arferol yr ysgol i fonitro cynnydd ei holl ddisgyblion.

9:6 Lle bo plant yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol neu 'mewn angen', dylid ystyried cynnal yr adolygiad AAA a'r adolygiad 'plentyn sy'n derbyn gofal' neu 'blentyn mewn angen' ar yr un pryd. Anaml y bydd yn ddoeth i bawb fynychu'r adolygiad cyfan ond mae cyd-drefnu o'r fath yn debygol o gyfrannu at gydweithredu effeithiol.

⁵⁴ Yn y bennod hon mae 'ysgolion' yn cyfeirio hefyd at sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar.

Diben yr Adolygiad Blynyddol

9:7 Dylai'r adolygiad blynyddol geisio:

- i. asesu cynnydd y plentyn tuag at gyflawni'r amcanion a bennwyd yn y datganiad a chasglu a chofnodi gwybodaeth y gall yr ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill ei defnyddio wrth gynllunio eu cefnogaeth i'r plentyn
- ii. yn achos yr adolygiad blynyddol cyntaf, asesu cynnydd y plentyn tuag at y targedau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yn y CAU ar ôl gwneud y datganiad; ac yn achos pob adolygiad arall, asesu'r cynnydd tuag at y targedau yn y CAU a bennwyd yn yr adolygiad blynyddol blaenorol
- iii. adolygu'r ddarpariaeth arbennig a wnaed ar gyfer y plentyn, gan ystyried pa mor briodol yw unrhyw gyfarpar arbennig a ddarperir, yng nghydestun y Cwricwlwm Cenedlaethol a threfniadau asesu ac adrodd cysylltiedig. Lle bo hynny'n briodol, dylai'r ysgol ystyried darparu proffil o lefelau cyrhaeddiad cyfredol y plentyn mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau byw sylfaenol, ynghyd â chrynodeb o'r cynnydd a wnaed mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, yn cynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol. Lle bo'r datganiad yn golygu newid neu ddatgymhwysu'r Cwricwlwm Cenedlaethol, dylai'r ysgol nodi pa drefniadau arbennig sydd wedi'u gwneud ar gyfer y plentyn
- iv. ystyried a yw'r datganiad yn dal yn briodol yn wyneb perfformiad y plentyn yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig ychwanegol a allai fod wedi dod yn amlwg yn ystod y cyfnod hwnnw, gan ystyried felly a ddylid rhoi'r gorau i gynnal y datganiad ynteu a ddylid gwneud unrhyw newidiadau, gan gynnwys unrhyw newidiadau neu ddatgymhwysu pellach ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac
- v. os bwriedir dal i gynnal y datganiad, pennu targedau newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod: gellir ystyried y cynnydd tuag at y targedau hynny yn yr adolygiad blynyddol nesaf.

9:8 Weithiau gall amgylchiadau'r plentyn newid yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, efallai y bydd wedi cael addysg mewn ysgol ysbyty neu uned cyfeirio disgyblion neu trwy hyfforddiant gartref. Efallai y bydd asesiad parhaus yn ystod y flwyddyn flaenorol wedi canfod neu gadarnhau problem feddygol neu gymdeithasol neu anhawster dysgu o bwys y bydd gofyn cael cefnogaeth ac ymyrraeth wahanol neu barhaus er mwyn rhoi sylw iddynt. Dylid rhoi sylw i natur a chanlyniadau darpariaeth o'r fath yn yr adolygiad blynyddol a dylid cael adroddiadau gan bawb a fu'n ymwneud â chynnydd addysgol y plentyn yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Yr adolygiad blynyddol i blant yn yr ysgol

9:9 Mae'r adran hon yn berthnasol i bob adolygiad blynyddol ac eithrio'r adolygiad ym Mlwyddyn 9, a ddisgrifir yn fanwl yn 9.45. Mae'r dulliau gweithredu sydd i'w dilyn wedi eu nodi mewn Rheoliadau ac maent yn berthnasol i bob ysgol⁵⁵ a sefydliad lle mae plentyn sy'n destun datganiad wedi'i gofrestru.

9.10 Mae'n **rhaid** i'r AALL ysgrifennu at bob pennaeth o leiaf dymor ymlaen llaw gyda rhestr o'r holl ddisgyblion ar gofrestr ei (h)ysgol y bydd angen adolygiad

⁵⁵ At ddibenion adolygiad blynyddol, mae 'ysgolion' yn cyfeirio at bob ysgol, yn cynnwys ysgolion meithrin a gynhelir.

blynyddol arnynt. Rhaid i'r AALL hysbysu'r pennaeth erbyn pa ddyddiad y bydd angen adroddiad o gyfarfod adolygiad blynyddol pob plentyn. Efallai y bydd AALLau'n gweld ei bod yn fuddiol darparu rhestrau cyfunol tebyg ar gyfer y swyddog meddygol dynodedig ac adran y gwasanaethau cymdeithasol ac, yn achos disgyblion yn y cyfnod uwchradd, ar gyfer Gyrfa Cymru.

9.11 Byddai gwybodaeth gynnar fel hyn yn help i weithwyr ym meysydd iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a gyrfaedd i drefnu i fynd i'r adolygiadau y tybiant fod angen iddynt fod yn bresennol ynddynt.

Ceisio gwybodaeth ysgrifenedig

9.12 Y pennaeth sy'n cychwyn y broses adolygu ar ôl derbyn y rhestr o adolygiadau blynyddol oddi wrth yr AALL bob tymor. Gall y pennaeth ddirprwyo rhai neu bob un o'r dyletswyddau a'r swyddogaethau a bennwyd ar ei gyfer/chyfer yn y Rheoliadau i athro yn yr ysgol. Pan ddirprwyir y dyletswyddau a'r swyddogaethau hyn, dylai'r pennaeth roi enw'r athro dan sylw i'r AALL, y rhieni ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r adolygiad. Dylai'r pennaeth sicrhau bod yr athro dynodedig yn ymwybodol o holl gynrychiolwyr perthnasol y gwasanaethau iechyd a'r adran gwasanaethau cymdeithasol, Gyrfa Cymru, ac unrhyw weithwyr proffesiynol unigol y dylid eu gwahodd i'r adolygiad.

9.13 I baratoi ar gyfer y cyfarfod adolygu, mae'n rhaid i'r pennaeth ofyn am wybodaeth ysgrifenedig gan:

- rieni'r plentyn
- y sawl a bennwyd gan yr awdurdod
- ac unrhyw un arall y mae'r pennaeth yn ei ystyried yn briodol.

Yn ogystal, mae'n rhaid i'r pennaeth

- ddosbarthu copi o'r holl wybodaeth a gafwyd i bawb a wahoddwyd i'r cyfarfod adolygu o leiaf bythefnos cyn dyddiad y cyfarfod, yn gwahodd sylwadau ychwanegol, gan gynnwys sylwadau gan y sawl na allant fod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

9.14 Defnyddir y wybodaeth ysgrifenedig yn sylfaen i'r drafodaeth yn y cyfarfod adolygu ac fe'i hanfonir, gyda'r adroddiad ar y cyfarfod ac argymhellion y pennaeth, at yr AALL i'w hystyried. Dylai'r wybodaeth ymdrin â:

- cynnydd y plentyn tuag at gyflawni'r amcanion yn y datganiad a'r targedau tymor byr a bennwyd i helpu i gyflawni'r amcanion;
- y defnydd a wnaed o'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- a yw'r datganiad yn dal yn briodol;
- unrhyw Gynllun Trawsnewid (gweler paragraff 9.51);
- unrhyw newidiadau i'r datganiad; ynteu
- a ddylid rhoi'r gorau i gynnal y datganiad.

9.15 O dan adran 322(1) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ymateb i gais y pennaeth am wybodaeth ysgrifenedig, onid yw'r eithriadau yn adran 321(2) a (3) yn berthnasol. Dylai pobl

eraill y mae'r pennaeth yn gofyn iddynt am wybodaeth ysgrifenedig o dan Reoliad 21(4) ymateb hefyd, er nad oes arnynt ddyletswydd statudol i wneud hynny. Mae'n rhaid i benaethiaid geisio gwybodaeth yn unol â Rheoliad 21(4). Nid yw'n ofynnol iddynt geisio gwybodaeth ar bob un o'r pwyntiau hynny gan **bawb** y gofynnant iddynt am wybodaeth, ar wahân i'r rhieni. Yn hytrach, gall penaeithiaid ofyn am wybodaeth benodol gan bobl benodol, neu gallant ofyn am gyngor yn gyffredinol. Y dystiolaeth a gesglir, a sylwadau ar y dystiolaeth honno, ynghyd ag adroddiad ar y cyfarfod adolygu, fydd sylfaen adroddiad yr adolygiad.

Y cyfarfod adolygu blynyddol

9:16 Cyn llunio'r adroddiad adolygu, mae'n rhaid i'r pennaeth alw cyfarfod. Rhaid i'r pennaeth wahodd:

- rhieni'r plentyn (os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, o dan orchymyn gofal, dylid gwahodd gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr gofal preswyl neu'r rhieni maeth, fel sy'n briodol)
- athro perthnasol (athro dosbarth neu diwtor dosbarth/blwyddyn y plentyn o bosib), y Cydlynnydd AAA, neu rywun arall sy'n gyfrifol am ddarparu addysg i'r plentyn – y pennaeth sydd i ddewis
- cynrychiolydd o'r AALL sy'n lleoli
- unrhyw un y mae'r AALL yn barnu eu bod yn briodol ac yn nodi hynny mewn hysbysiad
- unrhyw un arall y mae'r pennaeth yn barnu eu bod yn briodol.

9:17 Mae'n rhaid dosbarthu copïau o'r holl wybodaeth a gafwyd o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod.

9:18 Dylid annog rhieni i gyfrannu eu barn i'r broses adolygu flynyddol, i ddod i'r cyfarfod adolygu, ac i gyfrannu at drafodaethau ynglŷn ag unrhyw gynigion am dargedau newydd mewn perthynas â chynnydd y plentyn. Efallai y bydd angen cefnogaeth ar y rhieni wrth fynychu adolygiadau a help i ysgrifennu gwybodaeth, yn enwedig ar gyfer yr adolygiad cyntaf. Cyfeirir ym Mhennod Dau at ffyrdd posibl o helpu'r rhieni gyda hyn. Os nad yw rhiant yn ymateb i wahoddiadau i gyfrannu'n ysgrifenedig at yr adolygiad, neu i ddod i gyfarfod adolygu, dylid cofnodi hyn yn adroddiad yr adolygiad ynghyd ag unrhyw resymau a roddir.

9:19 Os oes modd, dylai disgyblion hefyd chwarae rhan yn y broses adolygu, gan fod yn bresennol trwy gydol y cyfarfod adolygu neu mewn rhan ohono. Dylid eu hannog i roi eu barn am eu cynnydd yn ystod y flwyddyn flaenorol; i drafod unrhyw anawsterau a wynebwyd; ac i rannu eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Trafodir ffyrdd o helpu'r disgybl i gymryd rhan ym Mhennod Tri.

9:20 Lle bo hynny'n briodol, dylai'r AALL ddweud wrth y pennaeth ei bod yn rhaid gwahodd cynrychiolwyr o'r gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud yn agos â'r plentyn i gyfrannu at yr adolygiad ac i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Yn ogystal, gall y pennaeth wahodd cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill fel y gwêl yn dda, hyd yn oes os nad yw'r AALL yn gofyn iddo/iddi wneud hynny. Mewn rhai achosion gall y gweithwyr proffesiynol eu hunain feddwl y dylent fod yn bresennol, neu deimlo y dylent ddarparu adroddiad ar eu hymwneud â'r plentyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

9:21 Mae'n annhebygol y bydd yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol yn gallu bod yn bresennol ym mhob cyfarfod adolygu. Gallai fod yn fuddiol felly, wrth eu gwahodd, i nodi'r flaenoriaeth a roddir i'w presenoldeb. Dylai cysylltiad rhwng y partion gwahanol, dros amser ac mewn da bryd cyn y cyfarfod, helpu gweithwyr proffesiynol i benderfynu a yw'n briodol iddynt fod yn bresennol a rhoi rhybudd digonol iddynt ymlaen llaw. Dylai ysgolion egluro wrth rieni na fydd gweithwyr proffesiynol bob amser yn gallu mynychu pob cyfarfod adolygu ac, os yw'r rhieni am drafod materion yn adroddiadau gweithwyr proffesiynol sy'n peri pryder iddynt ar ôl y cyfarfod adolygu, y dylent gysylltu â'r Swyddog a Enwir yn yr AAA yn gyntaf. Dylid egluro hyn i'r rhieni yn y cyfarfod adolygu.

9:22 Lle bo plentyn wedi'i leoli y tu allan i ardal yr AALL sy'n gyfrifol am y datganiad, dylai cynrychiolydd o'r AALL sy'n lleoli fod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu os oes modd. Dylid cymell rhieni i fod yn bresennol. O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd AALLau o'r farn ei bod yn briodol helpu rhieni gyda'u trefniadau teithio.

9:23 Pan fo'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol i blentyn ag anghenion addysgol arbennig neu ei deulu, dylai'r amserlen ar gyfer cynllunio'r adolygiad blynyddol gymryd i ystyriaeth yr angen i:

- gyfieithu unrhyw ddogfennau perthnasol i iaith gyntaf y teulu;
- sicrhau bod cyfieithwyr ar gael i'r plentyn a'r teulu yn ystod y camau i baratoi ar gyfer y cyfarfod adolygu ac yn y cyfarfod adolygu ei hun;
- sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu cyffelyb ar lafar ac ar bapur ar gael i unrhyw weithwyr proffesiynol o gymuned y plentyn er mwyn iddynt allu cyfrannu gymaint ag y bo modd at y broses adolygu;
- sicrhau, os yw hynny'n bosibl, bod athro cefnogi dwyieithog neu athro sy'n dysgu'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol ar gael i'r plentyn a'r teulu.

9:24 Lle bo gan blentyn neu aelod o'i deulu broblem gyfathrebu oherwydd nam synhwyrdd neu gorfforol, dylid rhoi sylw cyffelyb i sicrhau bod gwybodaeth ar gael iddynt a'u bod yn cael eu cynrychioli trwy ddehonglwyr yn y cyfarfod adolygu. Lle defnyddir systemau cyfathrebu amgen, dylid ystyried yr angen i ganiatáu amser digonol ar gyfer cyfieithu wrth drefnu'r cyfarfod. Lle bo gan blentyn neu aelod o'i deulu nam ar eu golwg, dylid rhoi sylw cyffelyb i ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol mewn Braille, print bras neu ar dâp fel sy'n briodol.

Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol

9:25 Lle bo plentyn sydd â datganiad yn destun gorchymyn gofal, bydd yr awdurdod lleol a ddynodwyd gan y gorchymyn yn rhannu'r cyfrifoldebau riant gyda rhieni naturiol y plentyn. Gall y plentyn fod yn derbyn gofal yr awdurdod lleol mewn lleoliad preswyl neu faeth, neu gall fod yn byw gartref. Dylai maint cyfraniad rhieni'r plentyn, y gweithiwr gofal preswyl neu'r rhieni maeth a'r gweithiwr cymdeithasol gael ei bennu gan bennaeth yr ysgol mewn ymgynghoriad ag adran y gwasanaethau cymdeithasol. Os bydd y rhieni a'r gweithiwr gofal preswyl neu'r rhieni maeth yn dod i gyfarfod adolygu, dylai pennaeth yr ysgol ystyried gofyn i'r gweithiwr cymdeithasol helpu i baratoi'r rhieni neu'r gofalcwyr ar gyfer yr adolygiad a rhoi cefnogaeth iddynt cyn ac ar ôl yr adolygiad ei hun. Lle

bo'r awdurdod lleol yn lletya'r plentyn sydd â datganiad, mae rhieni'r plentyn yn cadw'r cyfrifoldeb riant am y plentyn hwnnw.

9:26 Dylai pennaeth yr ysgol ymgynghori hefyd ag adran y gwasanaethau cymdeithasol os yw plentyn sydd â datganiad yn destun achos gofal ar y pryd. Efallai mai doeth fyddai gwahodd y Gwarcheidwad Plant (gweler yr Eirfa) i'r adolygiad.

9:27 Lle bo plentyn yn destun gorchymyn gofal, gorchymyn goruchwyllo addysg, neu'n cael ei letya gan yr awdurdod lleol, mae'n rhaid i adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol gynnwys gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer addysg y plentyn yn y Cynllun Gofal Plant, fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau ar gyfer Trefnu Lleoliadau i Blant a wnaed o dan Ddeddf Plant 1989. Mae'n rhaid i adran y gwasanaethau cymdeithasol adolygu'r Cynllun Gofal Plant a chynnwys y plentyn neu'r person ifanc yn y broses honno. Rhaid i'r Cynllun Gofal Plant gynnwys Cynllun Addysg Personol sy'n nodi'r trefniadau addysgol ar gyfer y plentyn a dylai gynnwys gwybodaeth o'r datganiad, yr adolygiad blynyddol a CAUau. Efallai, felly y bydd AALLau ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol am gysylltu adolygiad blynyddol y datganiad gydag adolygiad o'r Cynllun Gofal Plant er mwyn ymdrin mewn modd holistaidd â'r trefniadau i ddiwallu anghenion y plentyn.⁵⁶

Y modd y cynhelir y cyfarfod adolygu

9:28 Fel rheol, cynhelir y cyfarfod adolygu yn ysgol y plentyn a dylai gael ei gadeirio gan y pennaeth neu'r athro y dirprwywyd y cyfrifoldeb am ran yr ysgol yn yr adolygiad iddo/iddi. Ceir wybodaeth bellach ynglŷn ag adolygiadau blynyddol yn Llawlyfr Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA.

9:29 Yng ngoleuni'r materion a godir yn yr adroddiadau fel y nodir yn 9:14, dylai'r sawl sy'n bresennol yn y cyfarfod ystyried:

- a yw'r datganiad yn dal yn briodol?
- a oes angen unrhyw newidiadau i'r datganiad?
- a ddylai'r AALL barhau i gynnal y datganiad, ynteu a ddylid argymhell bod yr AALL yn rhoi'r gorau i gynnal y datganiad, a bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu'n briodol trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy?
- unrhyw dargedau newydd i'w pennu i gyflawni'r amcanion a nodir yn y datganiad
- a oes angen ychwanegu at Gynllun Trawsnewid presennol neu ei newid mewn rhyw ffordd.

9:30 Gall cyfarfod adolygu wneud argymhellion ar unrhyw rai o'r materion a restrir uchod. Mae'n debygol yr argymhellir gwneud newidiadau i ddatganiad:

- i. os oes anghenion sylweddol wedi'u cofnodi yn y datganiad nad ydynt yn bresennol mwyach;
- ii. os dylid newid y ddarpariaeth i ateb anghenion y plentyn fel y maent yn newid a'r targedau a bennwyd yn y cyfarfod adolygu, neu

⁵⁶ Ceir cyngor mwy manwl yng Nghynllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol ar Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol

- iii. os dylai'r plentyn newid ysgol, naill ai ar adeg trosglwyddo rhwng cyfnodau ysgol, er enghraifft o ysgol babanod i ysgol iau neu o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, neu pan fyddai anghenion y plentyn yn cael eu diwallu'n fwy priodol mewn ysgol wahanol, er enghraifft trwy ei gynnwys yn y brif ffrwd.

9:31 Gall y cyfarfod adolygu ac adroddiad yr adolygiad argymell hefyd y dylai'r AALL roi'r gorau i gynnal y datganiad. Os na all pawb sy'n bresennol gytuno ar yr argymhellion, dylai pennaeth yr ysgol sicrhau bod yr anghytuno hwn yn cael ei gofnodi, ynghyd â'r rhesymau drosto.

Cyflwyno'r adroddiad

9:32 Yn dilyn y cyfarfod adolygu blynyddol, mae'n rhaid i'r pennaeth baratoi adroddiad, a'i gyflwyno i'r AALL cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl y cyfarfod adolygu blynyddol neu erbyn diwedd y tymor ysgol hwnnw, pa un bynnag yw'r cyntaf. Dylai'r adroddiad grynhoi canlyniad y cyfarfod adolygu, gan nodi asesiad pennaeth yr ysgol o'r prif faterion a drafodwyd yn y cyfarfod; ac argymhellion y pennaeth ynglŷn ag unrhyw dargedau addysgol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod; ac unrhyw gamau eraill y dylid eu cymryd, e.e. a ddylid diwygio'r datganiad neu eu gynnal. Dylai'r pennaeth roi rhesymau dros yr argymhellion bob amser. Mae'n rhaid i'r pennaeth anfon copi o'r adroddiad at bawb sydd a wnelont â'r adolygiad, gan gynnwys y rhieni ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol.

9:33 Dylai adroddiad yr adolygiad gael ei ysgrifennu, ei lofnodi a'i ddyddio cyn gynted â phosibl. Dylai'r pennaeth wneud yn siŵr bod yr argymhellion yn glir a bod unrhyw adroddiadau proffesiynol perthnasol yn cael eu cynnwys gyda'r adroddiad adolygu fel y gall yr AALL adolygu'r datganiad a gwneud penderfyniadau heb oedi diangen. Efallai y gwêl AALLau ei bod yn fuddiol cynnig canllawiau ynglŷn â'r ffurf y dylai adroddiadau ei dilyn, neu ddarparu fformat cyffredin ar gyfer adroddiadau adolygu i bob ysgol yn yr ardal.

Rôl yr AALL ar ôl derbyn adroddiad yr adolygiad

9:34 Daw'r AALL â'r broses adolygu i ben trwy ystyried adroddiad y cyfarfod adolygu a'r argymhellion a luniwyd gan bennaeth yr ysgol. Yna, mae'n rhaid i'r AALL adolygu'r datganiad, yng ngoleuni'r adroddiad a'r argymhellion ac unrhyw wybodaeth arall a ystyrir yn berthnasol ganddo. Mae'n rhaid i'r AALL benderfynu a yw am dderbyn argymhellion y pennaeth. Yn arbennig, rhaid i'r AALL benderfynu a yw am newid y datganiad neu am roi'r gorau i'w gynnal. Cyn pen wythnos ar ôl gwneud penderfyniad, rhaid i'r AALL anfon copi o'i benderfyniad ar y materion hyn at yr ysgol, rhieni'r plentyn ac unrhyw un arall y mae'n credu y dylai gael un.

9:35 Os penderfynir diwygio'r datganiad, dylai'r AALL gychwyn ar y broses honno yn ddioed.

Yr adolygiad blynyddol i blant sydd â datganiadau ac a addysgir mewn rhywle ar wahân i ysgol

9:36 Pan fydd plentyn yn cael ei addysg mewn rhywle ar wahân i ysgol, bydd yr amserlen a'r trefniadau cyffredinol ar gyfer yr adolygiad blynyddol yn aros yr un fath ag i blant mewn ysgolion. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau hyn, yr AALL fydd yn galw'r cyfarfod adolygu a gall yr ystod o weithwyr proffesiynol sy'n cyfrannu fod yn ehangach ac yn wahanol mewn rhai ffyrdd i'r rhai sy'n cyfrannu at

adolygiad plentyn a addysgir mewn ysgol.⁵⁷ Mae'n rhaid gwahodd rhieni'r plentyn i'r cyfarfod adolygu bob amser. Dylid cynnal y cyfarfod adolygu yn y man mwyaf priodol, fel swyddfeydd yr AALL, ysbyty neu gartref y rhieni, ac fel rheol dylai gael ei gadeirio gan yr AALL.

9:37 Dylid ceisio barn swyddog meddygol dynodedig AAA os yw'r plentyn yn cael ei addysg mewn rhywle ar wahân i ysgol oherwydd anawsterau mawr yn ymwneud ag iechyd neu anabledd. O dan amgylchiadau felly bydd presenoldeb ymgynghorwyr proffesiynol o'r gwasanaethau iechyd plant perthnasol yn neilltuo o bwysig a dylai'r AALL drefnu amseriad y cyfarfod adolygu i sicrhau, cyn belled ag sy'n bosibl, eu bod yn gallu cymryd rhan.

9:38 Pan fydd plentyn wedi'i wahardd o'r ysgol, dylid ceisio barn cyn-athro'r plentyn ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n adnabod y plentyn. Efallai y bydd angen anogaeth sensitif a phositif ar rieni plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol er mwyn iddynt gyfrannu at bob cam o'r adolygiad.

Newid ysgol

9:39 Dylai pawb sydd a wnelont â'r plentyn roi ystyriaeth ofalus i'r cyfnod o newid ysgol, yn enwedig newid rhwng cyfnodau addysgol. Mae'n hanfodol cynllunio ymlaen llaw. Rhoddir canllawiau manwl ar drosglwyddo rhwng cyfnodau ym Mhennod Pump.

9:40 O dan baragraff 8, atodlen 27, Deddf Addysg 1996, mae gan rieni hawl i ofyn i'r AALL roi enw ysgol brif ffrwd a gynhelir neu ysgol arbennig a gynhelir yn lle enw'r ysgol yn Rhan 4 o'r datganiad. Rhaid i'r AALL gydymffurfio â'r cais:

- Cyhyd â'i fod yn cael ei wneud fwy na 12 mis ar ôl:
- cais cyffelyb
- cyhoeddi copi terfynol o'r datganiad
- cyhoeddi newid i'r datganiad
- i apêl i'r Tribiwnlys AAA ynglŷn â'r ddarpariaeth a bennwyd yn y datganiad ddod i ben,
- pa un bynnag yw'r diweddaraf, ac:

(a) os nad yw'r ysgol yn anaddas ar gyfer oed, gallu neu dueddfryd y plentyn neu ei (h)anghenion addysgol arbennig, neu

(b) os na fyddai presenoldeb y plentyn yn yr ysgol yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon i'r plant eraill y byddai'n cael ei (h)addysgu gyda nhw neu'r defnydd effeithlon o adnoddau

Gweler Atodlen 27, Deddf Addysg 1996

⁵⁷ Mewn rhai achosion efallai y bydd yr AALL o'r farn mai priodol fyddai dirprwyo'r gwaith o drefnu proses yr adolygiad blynyddol i'r athro sy'n gyfrifol am yr uned cyfeirio disgyblion neu'r gwasanaeth hyfforddiant gartref.

9:41 Os bodlonir yr amodau hyn, mae'n rhaid i'r AALL ddiwygio'r datganiad i enwi'r ysgol a gynigir gan y rhieni a hysbysu'r rhieni, cyn pen wyth wythnos ar ôl cael y cais. Cyn enwi'r ysgol, rhaid i'r AALL ymgynghori â'r corff llywodraethu ac, os mai awdurdod arall sy'n cynnal yr ysgol, rhaid iddo ymgynghori â'r AALL hwnnw. Yn y naill achos neu'r llall, mae'n rhaid iddo roi copi o'r datganiad presennol i'r ysgol. Mae'r cyfnod o wyth wythnos yn caniatáu ar gyfer yr ymgynghori hwn, er y dylai'r ysgol neu'r AALL yr ymgynghorir â nhw ymateb cyn pen tair wythnos oni bai fod yr ymgynghori yn digwydd yn ystod cyfnod gwyliau ysgol sy'n hwy na phythefnos. Gall yr AALL bennu yn y datganiad ar ba ddyddiad y mae'r plentyn i ddechrau mynychu'r ysgol newydd. Gall y dyddiad hwnnw fod ar ddechrau tymor newydd, neu roi digon o amser i'r ysgol i wneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer y plentyn.

9:42 Os daw'r AALL i'r casgliad na all enwi'r ysgol a gynigir gan y rhieni, mae'n **rhaid** iddo roi gwybod i'r rhieni, yn ysgrifenedig, am eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA yn erbyn y penderfyniad a beth yw'r terfynau amser. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r AALL esbonio pam y gwrthododd y cais ac mae'n rhaid iddo ddweud wrth y rhieni am eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad ac esbonio'r terfynau amser ar gyfer apelio. Mae'n rhaid iddo sôn hefyd bod gwasanaeth partneriaeth â rhieni a gwasanaeth datrys anghytundeb ar gael a dweud nad yw'r ffaith bod rhieni'n cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghytundeb yn effeithio ar eu hawl i apelio.

9:43 Dylid anfon y llythyr hwn hefyd at y rhieni cyn pen wyth wythnos i'w cais gwreiddiol. Os yw'n bryd i'r plentyn drosglwyddo rhwng cyfnodau addysgol, mae'n rhaid i'r AALL anfon hysbysiad diwygio fel y nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'n rhaid i'r AALL esbonio y caiff y rhieni ddweud eu bod yn ffafrio ysgol a gynhelir a gwneud sylwadau o blaid ysgol annibynnol neu ysgol arbennig nas cynhelir. Fel y nodir yn 8:132, mae'n rhaid i'r AALL ganiatáu enwi ysgol newydd erbyn 15 Chwefror ym mlwyddyn y trosglwyddo. Dylai'r datganiad diwygiedig enwi'r ddarpariaeth gyfredol yn Rhan 4 o'r datganiad terfynol diwygiedig ynghyd â'r ysgol newydd a'r dyddiad pryd y bydd y lleoliad newydd yn cychwyn.

Adolygiadau Interim

9:44 Lle bo ysgol yn dynodi bod risg ddifrifol y bydd disgybl sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig yn ymbellhau'n llwyr neu'n cael ei wahardd, dylid galw adolygiad interim neu gynnar. Yna, gellir ystyried anghenion y disgybl fel y maent yn newid ac argymhell newidiadau i'r datganiad, yn hytrach na gwahardd y disgybl.⁵⁸

Yr Adolygiad Blynyddol ym Mlwyddyn 9 a blynyddoedd dilynol

9:45 Nod yr adolygiad blynyddol ym Mlwyddyn 9 a blynyddoedd dilynol yw:

- a. adolygu datganiad y person ifanc;
- b. llunio'r Cynllun Trawsnewid a'i adolygu wedyn.

9:46 Dylai adolygiad blynyddol y datganiad ym Mlwyddyn 9 gynnwys yr asiantaethau a all chwarae rhan bwysig ym mywyd y person ifanc yn y blynyddoedd ar ôl yr ysgol a **rhaid** iddo gynnwys Gyrfa Cymru.

⁵⁸ Gweler hefyd Gylchlythyr 3/99 Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol'.

9:47 Mae'n rhaid i adolygiad blynyddol y datganiad ystyried yr holl faterion a ystyrir ym mhob adolygiad arall, a dylai'r adroddiad i'r AALL fod yn yr un fformat. Yn ogystal, mae'n rhaid i AALLau gwblhau'r broses adolygu yn yr un ffordd ag y cyflawnir pob adolygiad blynyddol arall ac o fewn yr un amserlen.

9:48 Mae'n rhaid i'r AALL anfon rhestr o'r holl ddisgyblion yn ei ardal y bydd arnynt angen adolygiad Blwyddyn 9 at Gyrfa Cymru cyn diwedd Blwyddyn 8. Mae'n rhaid i'r rhestr gynnwys pob disgybl, hyd yn oed y rhai nad ydynt yn cael eu haddysg mewn ysgol, ac mae'n rhaid nodi'r ysgolion y mae'r plant yn eu mynychu. Bydd y wybodaeth hon o gymorth i Gyrfa Cymru i gynllunio i fod yn bresennol yn yr adolygiadau Blwyddyn 9.

9:49 Dylai pennaeth yr ysgol, yr awdurdod addysg lleol a Gyrfa Cymru hwyluso'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael unrhyw help neu gefnogaeth arbenigol angenrheidiol yn ystod eu haddysg a'u hyfforddiant galwedigaethol neu yrfaol ar ôl iddynt adael yr ysgol. Dylid rhoi'r wybodaeth berthnasol i swyddfa briodol Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. I bobl ifanc sydd ag anableddau penodol, bydd rôl adrannau gwasanaethau cymdeithasol o bwys neilltuol ac mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau penodol mewn perthynas â deddfwriaeth arall. Ceir canllawiau manwl pellach yn Llawlyfr Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA.

9:50 Mae'r drefn adolygu flynyddol a ddisgrifir uchod yn sefyll gyda'r ychwanegiadau isod:

- **rhaid i'r pennaeth wahodd Gyrfa Cymru i'r cyfarfod adolygu, fel y gellir rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r holl opsiynau o ran parhau ag addysg, gyrfaoedd a hyfforddiant galwedigaethol**
- **dylai'r pennaeth sicrhau bod darparwyr eraill, fel awdurdodau ac ymddiriedolaethau ieuchyd, yn ymwybodol o'r adolygiad blynyddol a'r trefniadau y dylid eu dilyn ym Mlwyddyn 9**
- **rhaid i'r pennaeth wahodd adran y gwasanaethau cymdeithasol i fod yn bresennol yn yr adolygiad fel y gall unrhyw asesiadau cyfochrog o dan Ddeddf Pobl Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986; Deddf yr NHS a Gofal yn y Gymuned 1990; a Deddf y Cleifion Cronig a'r Rhai Anabl 1970 gyfrannu at y broses adolygu a chael gwybodaeth ohoni**
- **rhaid i'r pennaeth sicrhau bod Cynllun Trawsnewid yn cael ei lunio mewn ymgynghoriad â Gyrfa Cymru**
- **rhaid i'r pennaeth ddosbarthu adroddiad yr adolygiad blynyddol a'r Cynllun Trawsnewid i rieni'r person ifanc, pawb a fu yn y cyfarfod adolygu ac unrhyw rai eraill y mae'r pennaeth o'r farn y dylent eu cael**

Y Cynllun Trawsnewid

9:51 Mae'n **rhaid** i'r adolygiad blynyddol ym Mlwyddyn 9 ac unrhyw adolygiadau blynyddol dilynol hyd nes i'r person ifanc adael yr ysgol gynnwys llunio'r **Cynllun Trawsnewid** a'i adolygu wedi hynny. Dylai'r **Cynllun Trawsnewid** ddwyn ynghyd wybodaeth gan wahanol bobl yn yr ysgol a thu hwnt er mwyn cynllunio'n

gydlynus ar gyfer y trawsnewid ym mywyd y person ifanc i fywyd oedolyn. Nid â threfniadau ar gyfer y cyfnod ar ôl gadael yr ysgol yn unig y mae a wnelo'r Cynlluniau Trawsnewid pan gânt eu llunio gyntaf ym Mlwyddyn 9. Dylent gynllunio hefyd ar gyfer y ddarpariaeth sy'n dal i fynd rhagddi yn yr ysgol, o dan y datganiad anghenion addysgol arbennig a oruchwylir gan yr AALL.

9:52 Dylai pawb sy'n ymwneud â'r broses gadw at yr egwyddorion sy'n sylfaen i natur trawsnewid a chynllunio trawsnewid a gofynion y bobl ifanc a'u teuluoedd. Dylid ystyried holl anghenion y plentyn wrth gynllunio'r trawsnewid.

9:53 Pennaeth yr ysgol sy'n gyfrifol am oruchwyllo a chydlynu'r gwaith o weithredu'r Cynllun Trawsnewid. Gyrfa Cymru fydd â'r rhan arweiniol yn y gwaith o sicrhau bod yr elfennau o'r Cynllun Trawsnewid sy'n ymwneud â'r newid ym mywyd y person ifanc i addysg bellach neu waith yn cael eu gweithredu.

9:54 Dylai pob asiantaeth gydnabod ei chyfrifoldeb ariannol cyn gynted ag y bo modd yn y cyfnod o gynllunio'r trawsnewid. Dylai trefniadau cynllunio ar y cyd nodi'r gwahanol elfennau yn y ddarpariaeth a gynllunnir a'r asiantaethau sy'n gyfrifol am ariannu pob un o'r elfennau hynny, yn enwedig os argymhellir y dylid cyflwyno'r ddarpariaeth ôl-16 mewn sefydliad preswyl. Ceir cyngor manwl ar egwyddorion a phrosesau cynllunio trawsnewid yn Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA.

Rhan y myfyriwr mewn gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod trawsnewid

9:55 Dylid ceisio a chofnodi barn y bobl ifanc eu hunain ym mhob asesiad, ailasesiad ac adolygiad o Flwyddyn 9 ymlaen. Efallai y bydd angen cynrychiolwyr o Gyrfa Cymru; cynghorwyr, eiriolwyr neu gwnselwyr myfyrwyr; athrawon a staff ysgol eraill; gweithwyr cymdeithasol neu gefnogwyr cyfoedion i gefnogi'r person ifanc yn y broses hon. Mae Pennod Tri o'r Cod hwn a Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA yn trafod yn fanwl sut y gellir helpu pobl ifanc i gymryd rhan lawn yn y broses hon.

Swyddogaeth Gyrfa Cymru

9:56 Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr elfennau o'r Cynllun Trawsnewid sy'n ymwneud â'r cyfnod o symud i ddysgu pellach neu waith yn cael eu gweithredu. Dylai cynrychiolydd Gyrfa Cymru sicrhau ei fod/bod yn ymwybodol o'r holl bobl ifanc sydd ag AAA ym Mlwyddyn 8. Mae'n **rhaid** gwahodd cynrychiolydd o Gyrfa Cymru i gyfarfod adolygu blynyddol Blwyddyn 9 ac mae'n **rhaid iddo/iddi wneud pob ymdrech i fod yn bresennol** os caiff y person ifanc ei ystyried yn ddigon aeddfed i ddechrau trafod opsiynau ar gyfer dysgu pellach a gyrfa. Weithiau, efallai na all Gyrfa Cymru anfon cynrychiolydd. Bryd hynny, dylai Gyrfa Cymru gynnig cyfweiliad i roi arweiniad ar yrfaeodd i'r person ifanc a'i rieni/gwarcheidwaid cyn adolygiad blynyddol Blwyddyn 9. Dylai nodiadau'r cyfweiliad fod ar gael yng nghyfarfod adolygiad blynyddol Blwyddyn 9 i helpu wrth lunio'r Cynllun Trawsnewid. Dylid gwahodd cynrychiolwyr o Gyrfa Cymru i bob adolygiad blynyddol wedi hynny a disgwylir iddynt fod yn bresennol lle bo hynny'n briodol.

9:57 Mae cyfarfodydd adolygu Blwyddyn 9 yn gychwyn proses o wneud penderfyniadau ar gyfer y tymor hwy. Dylai arweiniad galwedigaethol a roddir gan yr ysgol neu gynrychiolydd Gyrfa Cymru gynnwys gwybodaeth am addysg

bellach a chysiau hyfforddi a dylent gymryd dymuniadau a theimladau'r person ifanc dan sylw i ystyriaeth. Dylai Gyrfa Cymru helpu'r person ifanc a'i rieni i benderfynu ar y ddarpariaeth fwyaf addas ar ôl cyrraedd 16 oed, dylai ddarparu gwasanaeth cwnsela a chefnogi, a dylai barhau i oruchwylio a derbyn gwybodaeth am y ddarpariaeth a ddewisir gan y person ifanc. Os penderfynir fod angen darpariaeth mewn coleg arbenigol, mae gan Gyrfa Cymru gyfrifoldeb arweiniol dros baratoi a chyflwyno ceisiadau am leoliadau i NCETW. Bydd angen gweithredu'r prosesau hyn ar y cyd â NCETW, swyddogion AAA yr AALL a phobl broffesiynol sy'n adnabod y person ifanc yn dda.

Ymwneud adrannau gwasanaethau cymdeithasol

9:58 Mae'n **rhaid** i AALLau geisio gwybodaeth gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 5 o Ddeddf Pobl Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986, i ganfod a yw person ifanc sydd â datganiad o dan Rhan IV Deddf Addysg 1996 yn anabl (ac y gallai fod arno angen gwasanaethau gan yr awdurdod lleol pan fydd yn gadael yr ysgol).

9:59 Mae mewnbwn aml-asiantaethol ym Mlwyddyn 9 yn bwysig i **bob** person ifanc sydd ag AAA. O dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf yr NHS a Gofal yn y Gymuned 1990, mae'n ofynnol i adrannau gwasanaethau cymdeithasol drefnu asesiad aml-ddisgyblaethol a darparu cynlluniau gofal i blant ac oedolion sydd ag anghenion arbennig sylweddol – gall hyn gynnwys darparu cyfleusterau addysg bellach. Dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod gweithiwr cymdeithasol yn mynychu cyfarfod adolygu blynyddol Blwyddyn 9 ac yn cyfrannu at lunio'r Cynllun Trawsnewid lle bo person ifanc yn destun gorchymyn gofal, yn cael ei letya gan yr awdurdod lleol neu yn 'blentyn mewn angen'.

Ymwneud y gwasanaethau iechyd

9:60 Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â rheolaeth a gofal y person ifanc ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer cynlluniau trawsnewid ac, os oes modd, dylent fod yn bresennol yng nghyfarfod adolygu blynyddol Blwyddyn 9. Dylent roi cyngor ynglŷn â'r gwasanaethau y mae'n debygol y bydd eu hangen a dylent drafod trefniadau ar gyfer trosglwyddo i wasanaethau gofal iechyd eilaidd oedolion gyda'r person ifanc, ei rieni a'i feddyg teulu. Dylent hwyluso unrhyw achosion a gyfeirir â'r gwaith trosglwyddo cofnodion, os oes angen, ar yr amod bod y person ifanc a'i rieni yn cydsynio ar sail y ffeithiau, a dylent drafod gyda Gyrfa Cymru yn ôl yr angen.

Adolygiadau blynyddol o Flwyddyn 10 ymlaen

9:61 Mae'r ysgol yn dal yn gyfrifol am alw'r cyfarfodydd adolygu blynyddol hyd nes i'r disgybl adael yr ysgol. Bydd rhai disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig yn aros yn yr ysgol ar ôl 16 oed. Mae'r AALLau yn dal yn gyfrifol am y disgyblion hyn hyd nes y byddant yn 19 oed. Ceir adegau pan fydd disgybl sy'n destun datganiad wedi cael ei ben-blwydd yn 19 cyn diwedd y flwyddyn academaidd neu cyn iddo gwblhau ei gwrs. Os yw disgybl yn dal ar gofrestr yr ysgol ar ôl cyrraedd 16 oed, mae'n ofynnol i AALL gynnal datganiad tan ddiwedd y flwyddyn academaidd pryd y caiff ei ben-blwydd yn 19.

9:62 Beth bynnag y mae'r person ifanc yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol, mae i'r adolygiad blynyddol arwyddocâd ychwanegol wrth i'r person ifanc nesáu at 16 oed. Dylai cynrychiolydd o Gyrfa Cymru fynychu'r adolygiad ym Mlwyddyn 11 er

mwyn sicrhau bod y Cynllun Trawsnewid yn cael ei ddiweddarau'n briodol. Ym mlwyddyn olaf y person ifanc yn yr ysgol, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddyletswydd ar wahân o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 i sicrhau bod asesiad o'i anghenion pan fydd yn gadael ysgol yn cael ei gynnal ac y penderfynir ar y ddarpariaeth. Cyflawnir y ddyletswydd hon gan Gyrfa Cymru ar ran y Cynulliad Cenedlaethol. Dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu adolygiad blynyddol y datganiad ym Mlwyddyn 11 ac i ystyried y Cynllun Trawsnewid gyda'r asesiad hwn er mwyn ymateb i'r mater mewn ffordd holistig. Os penderfynwyd eisoes ar y ddarpariaeth ôl-16, mae'n arfer da i bennaeth yr ysgol wahodd cynrychiolydd y darparwr i'r cyfarfod adolygu.

Trosglwyddo gwybodaeth

9:63 Dylai awdurdodau lleol geisio cytundeb myfyrwyr a'u rhieni i drosglwyddo gwybodaeth (gan gynnwys datganiadau) o'r ysgol i'r sector addysg barhaus neu ddarpariaeth arall, ac egluro pwysigrwydd gwybodaeth o'r fath a pham y mae'n ddymunol ei bod yn cael ei throsglwyddo.

9:64 Dylai pennaeth yr ysgol sicrhau, lle bo gan berson ifanc ddatganiad anghenion addysgol arbennig, bod copi o'r datganiad ynghyd â chopi o'r adolygiad blynyddol diweddaraf, a'r Cynllun Trawsnewid, yn cael eu trosglwyddo i adran y gwasanaethau cymdeithasol ac unrhyw sefydliad a fydd yn cynnig darpariaeth ôl-16 i'r person ifanc, mewn digon o bryd fel y gellir trefnu cefnogaeth briodol. Os yw'n bosib y gallai fod angen gwneud penderfyniad ynglŷn â lleoli myfyriwr mewn coleg arbenigol, dylid anfon copi o'r Cynllun Trawsnewid i swyddfa berthnasol NCETW.

Myfyrwyr sydd heb ddatganiadau ond sydd ag anghenion addysgol arbennig

9:65 Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan fyfyrwr sy'n nesáu at 16 oed anghenion addysgol arbennig nad oes angen datganiad amdanynt, ond sy'n debygol o olygu bod angen rhywfaint o gefnogaeth os bydd yn mynd ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant. I sicrhau bod y myfyrwyr hyn yn gallu gwneud penderfyniadau, ac i hwyluso trawsnewid llwyddiannus, mae'n bwysig eu bod yn cael help a chyfarwyddyd priodol. Gall hyn gynnwys darparu cyrsiau cyswllt ysgol/coleg neu leoliadau gwaith a dylai gynnwys y gwahanol asiantaethau lleol y mae a wnelont â'r myfyriwr.

9:66 Mae Gyrfa Cymru'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar yrfaedd i bobl o bob oedran. Mae'n credu'n gryf mewn cefnogi pobl ifanc ddifreintiedig neu rai sy'n debygol o dangyflawni, yn gynnwys rhai sydd ag AAA ond sydd heb ddatganiad. Dylai Gyrfa Cymru roi gwybodaeth i ysgolion a fydd yn helpu'r myfyrwyr hyn i symud yn llwyddiannus i addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl gadael ysgol, gan gynnwys manylion mudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol. Dylai ysgolion ymgynghori â Gyrfa Cymru a gwasanaethau eraill i sicrhau bod gwybodaeth fanwl yn cael ei rhoi i ddarparwyr addysg ôl-16 gyda chydysyniad y person ifanc ac mewn digon o bryd fel y gall y darparwr ôl-16 drefnu'r gefnogaeth briodol.

9:67 Efallai y bydd ysgolion, mewn ymgynghoriad â chynrychiolydd Gyrfa Cymru, am lunio Cynlluniau Trawsnewid i gefnogi'r broses hon, pa un bynnag a yw'r person ifanc yn aros yn yr ysgol ar ôl 16 oed neu'n symud i ddarpariaeth arall. Bydd angen cydweithrediad agos gyda staff yr AALL a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r person ifanc, er mwyn darparu Cynllun Trawsnewid priodol. I

gynorthwyo'r broses hon byddai'n arfer da i bennaeth yr ysgol, mewn ymgynghoriad â chynrychiolydd Gyrfa Cymru, roi rhestr i weithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol o'r disgyblion ym Mlwyddyn 9 sydd ag AAA ond sydd heb ddatganiadau ac y mae'r ysgol o'r farn y byddai'n briodol paratoi cynllun trawsnewid ar eu cyfer.

Plant sy'n destun gorchymyn gofal neu a letyir gan awdurdod lleol

9:68 O dan ddarpariaethau Deddf Plant (Gadael Gofal) 2001, bydd pob person ifanc cymwys sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ar eu pen-blwydd yn 16, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA, yn cael Cynllun Llwybr. Bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y cynllun gofal a'r cynllun addysg personol, gan fapio llwybr at annibyniaeth, yn cynnwys addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn ogystal, bydd gofyn i'r awdurdod lleol benodi cynghorwr personol ar gyfer pob un o'r bobl ifanc hyn. Rhaid i'r cynghorwr weithio gyda'r person ifanc, Gyrfa Cymru ac eraill i baratoi'r Cynllun Llwybr a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu.

9:69 Mae'n bwysig bod y cynghorwr personol yn sicrhau bod y person ifanc yn gwbl ymwybodol o gyfrifoldebau'r awdurdod lleol tuag ato ac mae'n bwysig iddo gytuno gyda'r adran gwasanaethau cymdeithasol, asiantaethau eraill a'r person ifanc ar y gwasanaethau sydd i'w darparu. Os yw person ifanc wedi bod yn derbyn gofal gyda rhieni maeth neu mewn lleoliad preswyl neu'n mynychu ysgol breswyl y tu allan i ardal ei awdurdod lleol ei hun, dylai cynghorwr personol y person ifanc ar ran yr awdurdod cyfrifol ynghyd â'r AALL geisio sicrhau cyswllt rhwng yr holl AALLau ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol perthnasol. Bydd yn hanfodol hefyd bod cwmni lleol Gyrfa Cymru (h.y. lleol i'r lleoliad preswyl) yn cadw mewn cysylltiad clôs â'r Gwasanaeth Gyrfaedd yn ardal cartref y person ifanc. Dylai Gyrfa Cymru sicrhau bod y cofnodion perthnasol sy'n ymwneud â gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd a roddwyd ar gyfleoedd dysgu a gyrfaedd ar gael i Wasanaeth Gyrfaedd cartref y person ifanc. Yr awdurdod cyfrifol yw'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y person ifanc neu, yn achos person ifanc sydd wedi gadael gofal, yr awdurdod a oedd yn gofalu amdano ddiwethaf.

10. Gweithio mewn partneriaeth ag Asiantaethau Eraill

Cyflwyniad

10:1 Er mwyn diwallu anghenion addysgol arbennig plant unigol rhaid i asiantaethau statudol weithio mewn modd hyblyg. Mae angen iddynt gyfathrebu a chytuno ar bolisiâu a phrotocolau er mwyn sicrhau y cynigir gwasanaeth 'di-fwlch'. Trwy weithio mewn modd cefnogol ac mewn partneriaeth â rhieni a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain gellir sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn deall ymatebion y gweithwyr proffesiynol dan sylw, gan arwain at ddarpariaeth o well ansawdd.

10.2 Mae'n rhaid i ysgolion a gynhelir gyhoeddi gwybodaeth sy'n cynnwys trefniadau'r ysgol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cefnogi'r AALL, y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, Gyrfa Cymru ac unrhyw fudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol perthnasol. Mae gan athrawon lawer o arbenigedd yn y gwaith o ganfod a diwallu anghenion eu disgyblion. Fodd bynnag, gall gwasanaethau cefnogi allanol chwarae rhan bwysig yn helpu ysgolion i ganfod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Egwyddorion gwaith rhyngasiantaethol gyda phlant sydd ag AAA

10:3 Dylai'r holl wasanaethau ar gyfer plant sydd ag AAA ganolbwyntio ar ganfod a diwallu anghenion plant a'u galluogi i wella'u sefyllfa trwy:

- ganfod yr anghenion yn gynnar
- cysylltiad parhaus gyda'r plentyn a'r rhieni
- ymyrryd mewn modd penodol
- rhannu dulliau a thechnegau effeithiol

10:4 Dylid amcanu at ddarparu cefnogaeth integredig, gyfannol o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn. Dylid cydweithio i benderfynu ar y ddarpariaeth a'i seilio, lle bo modd, ar gyd-ddealltwriaeth a chytundeb. Dylid defnyddio dull hyblyg, plentyn-ganolog o gyflenwi gwasanaethau er mwyn sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau'r plentyn a'r rhiant⁵⁹ yn cael eu diwallu bob amser, hyd yn oed os byddant yn newid.

10:5 Dylai pob asiantaeth gydnabod bod angen cydweithio effeithiol rhwng y gwasanaethau sy'n ymwneud â'r plentyn a'r rhieni. Dylai cyfrifoldebau ymgynghorol a systemau cyfathrebu effeithiol gael eu dynodi'n glir ar lefel y rheolwyr a'r ymarferwyr. Dylai datblygiadau mewn arferion gweithio a threfniadau cyfundrefnol adlewyrchu'r egwyddor hon. Dylai trefniadau i gynllunio ar y cyd:

- dalu sylw i arferion da;
- talu sylw i Femoranda Dealltwriaeth a phrotocolau;
- dynodi elfennau o ddarpariaeth a gynllunnir ymlaen llaw a'r asiantaethau sy'n gyfrifol am ariannu pob un o'r elfennau hynny;
- sicrhau yr ymgynghorir â'r holl wasanaethau perthnasol;

⁵⁹ Defnyddir 'rhiant' trwy'r testun i gyd i gyfeirio at bawb sydd â chyfrifoldeb rhiant.

- cytuno ar flaenoriaethau;
- rhoi gwybod i rieni a gweithwyr proffesiynol am benderfyniadau a wneir;
- adolygu polisïau ac amcanion yn rheolaidd.

Gwasanaethau Cefnogi AALLau

10:6 Gall gwasanaethau cefnogi AALLau roi cyngor i athrawon (e.e. ar dechnegau a strategaethau addysgu, rheolaeth yn yr ystafell ddosbarth, a deunyddiau cwricwlaidd); gallant roi cefnogaeth i ddatblygu'r cwricwlwm; cefnogaeth uniongyrchol i ddysgu neu gefnogaeth ymarferol i athrawon dosbarth; darpariaeth arbenigol ran-amser, neu eu helpu i gael cymorth cefnogi dysgu.

10:7 Mae gwasanaethau o'r fath yn cynnwys athrawon sy'n arbenigo mewn dysgu disgyblion sydd â nam ar y clyw, y golwg, y lleferydd neu eu hiaith, athrawon sy'n darparu gwasanaethau cefnogi mwy cyffredinol yn ymwneud â dysgu ac ymddygiad, cwnselwyr, seicolegwyr addysg, ac ymgynghorwyr neu athrawon sy'n hyddysg mewn technoleg gwybodaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Yn ogystal, gall gwasanaethau cefnogaeth gwricwlaidd a gwasanaethau ymgynghorol roi cyngor ar dechnegau a strategaethau addysgu sy'n ymwneud â phwnc penodol ac ar ddeunyddiau cwricwlaidd.

10:8 Gall y seicolegydd addysg gynnig gwasanaeth pwysig iawn i'r ysgol. Mae adnabyddiaeth y seicolegydd o'r ysgol a'i chyd-destun yn allweddol. Trwy ymgynghori rheolaidd gydag ysgolion, gall gwasanaethau seicoleg addysg roi help i fwrw goleuni ar broblemau a dyfeisio strategaethau i ddatrys problemau; gallant roi help i gynnal asesiadau arbenigol, yn cynnwys technegau i reoli ymddygiad, ac i werthuso cynnydd disgyblion unigol. Yn ogystal â gweithio gyda phlant unigol, gall y seicolegydd addysg weithio gyda grwpiau o ddisgyblion neu athrawon a chynorthwyrwyr cefnogi dysgu ar lefel dosbarth neu ar lefel ysgol gyfan, er enghraifft gall helpu ysgolion i ddatblygu polisïau AAA ac ymddygiad, helpu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau staff yr ysgol a chynorthwyo gyda phrosiectau i wella cyflawniadau a hyrwyddo cynhwysiant.

10:9 Gall yr AALL gynnig nifer o wahanol wasanaethau trwy'r Gwasanaeth Lles Addysg. Mae'r gwasanaeth hwn yn cydweithio'n agos ag ysgolion, rhieni a phlant i geisio datrys materion presenoldeb ar gyfer plant yn gyffredinol. Gall hyn olygu trefnu ymweliadau â'r cartref a'r ysgol i drafod y sefyllfa. Bydd yn ceisio canfod y rheswm pam nad yw plentyn yn mynd i'r ysgol, ac yn cymryd camau i geisio cael y plentyn yn ôl i'r ysgol. Wrth gwrs, bydd adegau pan na ddylai'r plentyn ddychwelyd i ysgol brif ffrwd, pa un a oes ganddo anghenion addysgol arbennig ai peidio. Mewn achosion felly efallai y bydd yr AALL yn trefnu darpariaeth amgen, megis addysg gartref gyda thiwtor Awdurdod Lleol, neu drefnu i'r disgybl fynd i Uned Cyfeirio Disgyblion sy'n helpu disgyblion sy'n cael trafferth i setlo mewn ysgol.

10:10 Gall Gwasanaethau Lles Addysg wneud gwaith arall. Er enghraifft, gallant wneud ymholiadau ynglŷn â deddfwriaeth cyflogi plant, delio â darpariaeth addysgol plant sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol, cydweithio â'r ysgol pan fo perygl difrifol i blentyn ymbellhau'n llwyr neu gael ei wahardd ac, mewn rhai achosion, gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am faterion Amddiffyn Plant. Gall Swyddogion Lles Addysg gynnig gwasanaeth cefnogi a chwmsela hefyd i helpu plant nad ydynt yn yr ysgol. Gallant siarad ag Adrannau Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill,

fel y gwasanaethau cymdeithasol, Adrannau Tai ac Iechyd Lleol, a'r Adran Seicoleg Addysg am anghenion plentyn neilltuol.

10:11 Dylai ysgolion weithio mewn partneriaeth agos â darparwyr y gwasanaethau hyn i gyd. Dylai'r Cydlynnydd AAA yn arbennig fod yn ymwybodol o bolisi'r AALL o ran darparu gwasanaethau cefnogi a sut y gall yr ysgol fanteisio arnynt. Dylai AALLau roi gwybodaeth lawn i bob ysgol yn eu hardal am yr holl wasanaethau sydd ar gael yn lleol a sut y gellir eu sicrhau. Pa un a ydi'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cefnogi neilltuol wedi ei ddirprwyo i ysgolion ai peidio, gall fod yn fuddiol i ysgolion ac AALLau lunio cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau o'r fath, gan bennu cwmphas, ansawdd a hyd y gwasanaeth sydd i'w ddarparu. Pan fo ysgolion yn ymrwymo i gcontractau gyda darparwyr o'r sector preifat neu wirfoddol, dylent sicrhau bod y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol gan yr arbenigwyr o dan sylw a bod y gwasanaeth yn cynrychioli gwerth da am yr arian. Dylent hefyd gynnal holiadau'r heddlu.

10:12 Mae angen i Gydlynwyr AAA ac athrawon dosbarth nodi'n glir pam y mae angen cymorth allanol arnynt. Os oes diffyg arbenigedd pendant yn y gwasanaeth y gall y staff mewn ysgol brif ffrwd ei gynnig, dylai'r ysgol ystyried ceisio cyngor allanol. Hyd yn oed pan fo arbenigwyr allanol yn ymwneud â disgybl neilltuol, y Cydlynnydd AAA sy'n bennaf gyfrifol o hyd am gydlynwyr ddarpariaeth addysgol arbennig a wneir ar gyfer y plentyn ac am unrhyw benderfyniadau a wneir ynglŷn â hynny.

10:13 Mae'n fwyaf tebygol y bydd ysgolion yn ymgynghori ag arbenigwyr pan fyddant yn gweithredu ar ran plentyn trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Ond nid yw'n rhaid cyfyngu cyfraniad arbenigwyr i blant sy'n cael darpariaeth trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Gall arbenigwyr allanol chwarae rhan bwysig o ran canfod anghenion addysgol arbennig yn gynnar iawn a rhoi cyngor i ysgolion ar ddarpariaeth effeithiol i atal anghenion mwy difrifol rhag datblygu. Gallant weithredu fel ymgynghorwyr a bod yn ffynhonnell cyngor mewn swydd ar strategaethau dysgu a rheoli ymddygiad i bob athro.

Gyrfa Cymru

10:14 Mae gan Gyrfa Cymru ran bwysig i'w chwarae o ran darparu cyfarwyddyd a chefnogaeth i bobl ifanc sydd ag AAA o 13 ped hyd nes eu bod wedi'u lleoli mewn sefydliad dysgu neu hyfforddi neu waith addas. Dylai'r gwasanaethau sydd i'w cyflwyno gan gwmnïau Gyrfa Cymru i'r grŵp clientau hwn gael eu nodi'n glir yn eu Cytundebau Partneriaeth ffurfiol gydag ysgolion ac mewn datganiadau o drefniadau gyda chyrff perthnasol eraill e.e. gwasanaethau cymdeithasol, AALLau a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. Dylid adolygu'r rhain yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion y bobl ifanc hyn yn cael eu diwallu'n iawn. Ceir rhagor o fanylion am rôl Gyrfa Cymru yn y gwaith o gynllunio trawsnewid ym Mhennod 9.

Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant

10:15 Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gosod dyletswyddau penodol ar Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant i sicrhau y darperir cyfleusterau priodol i addysgu a hyfforddi pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu a/neu anabledau. Mae gan y Cyngor rôl allweddol yn gweithio gydag ysgolion, AALLau, Gyrfa Cymru a chyrff lleol eraill i sicrhau cyfranogiad a chynnydd pobl ifanc sydd ag AAA. Yn ogystal, mae gan y Cyngor rôl allweddol yn y broses drawsnewid i bobl ifanc sydd ag AAA o Flwyddyn 9 ymlaen, trwy ei berthynas â Gyrfa Cymru.

Gwasanaethau Iechyd

Mae'n rhaid i Awdurdodau Iechyd ac AALLau gydymffurfio â chais gan adran gwasanaethau cymdeithasol am gymorth i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant mewn angen, cyhyd ag y bo'r cais yn gydnaws â'u dyletswyddau ac nad yw'n amharu'n ormodol ar eu gallu i gyflawni un neu fwy o'u swyddogaethau.

Gweler adran 27, Deddf Plant 1989

Os yw'r cais yn rhesymol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddynt, mae'n rhaid i adrannau iechyd gydymffurfio â chais am help gan AALL mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig, onid ydynt o'r farn nad oes angen yr help er mwyn cyflawni swyddogaethau'r AALL.

Gweler adran 322, Deddf Addysg 1996

(1) os ymddengys i awdurdod lleol bod angen gwasanaethau gofal yn y gymuned ar unrhyw un y gall yr awdurdod ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau felly iddo/iddi, mae'n rhaid i'r awdurdod gynnal asesiad o'i angen am y gwasanaethau hynny, ac o ystyried canlyniadau'r asesiad hwnnw, mae'n rhaid i'r awdurdod benderfynu a oes angen darparu unrhyw wasanaethau felly.

(2) Os ymddengys i'r awdurdod lleol unrhyw bryd tra bydd anghenion rhywun yn cael eu hasesu o dan isadran 1(a) uchod ei fod yn anabl –
(a) mae'n rhaid i'r awdurdod symud ymlaen i wneud penderfyniad am y gwasanaethau y mae arno'u hangen fel y sonnir yn adran 4 o Ddeddf Pobl Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 heb iddo ofyn i'r awdurdod wneud hynny o dan yr adran honno; a (b) mae'n rhaid i'r awdurdod roi gwybod iddo am y bwriad i wneud hynny ac am ei hawliau o dan y Ddeddf honno.

Gweler adran 47, Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990.

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ariannu holl agweddau anaddysgol lleoliad (e.e. cludiant, llety ac ati) o'r Adran Nawdd Cymdeithasol i'r awdurdod lleol perthnasol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990. Dylai addysg bellach fod yn rhan o gynllun gofal yr unigolyn a dylai'r holl asiantaethau sy'n gyfrifol am y gofal hwnnw gytuno arno.

Canllawiau'r Swyddfa Gymreig – Mehefin 1997

10:16 Fel rheol, man cyswllt cyntaf ysgolion â'r gwasanaethau iechyd fydd y gwasanaethau iechyd ysgolion, neu wasanaethau tebyg, sy'n cynnig gwasanaethau ymgynghori a chefnogi i ysgolion ym maes iechyd. Gan amlaf, bydd y gweithwyr iechyd proffesiynol hyn yn gallu rhoi cyngor i'r ysgol ond, os cadarnheir bod problem, dylent ddweud hefyd wrth y swyddog meddygol a ddynodwyd i weithio gyda phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig bod yr ysgol wedi ceisio cyngor am blentyn. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol megis therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion, yn ogystal â doctoriaid a'r nyrs ysgol, hefyd yn rhoi cyngor a chefnogaeth i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig.

10:17 Dylai sefydliadau addysg gynnar geisio cyngor gan eu Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn lleol am y trefniadau partneriaeth sydd wedi'u sefydlu gydag asiantaethau eraill.

10:18 Mae'n **rhaidd** i Awdurdodau ac Ymddiriedolaethau NHS hysbysu rhieni o enwau mudiadau gwirfoddol a all fod o gymorth pan dybiant y gallai fod gan blentyn dan bump oed anghenion addysgol arbennig⁶⁰. O dan Ddeddf Plant 1989, mae'n **rhaidd** i adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am yr holl wasanaethau a ddarparant yn eu hardal ar gyfer plant 'mewn angen' a gallant gynnwys manylion gwasanaethau a ddarperir gan eraill a sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cyrraedd y sawl y gallai fod arnynt ei hangen.

10:19 Pan fo ysgolion yn poeni am gynnydd addysgol plentyn dylent, gyda chydysyniad gwybodus a chymorth rhieni'r plentyn, ymgynghori â'r gwasanaeth iechyd ysgolion neu â meddyg teulu'r plentyn i weld a allai cyflwr meddygol fod yn cyfrannu at anawsterau'r plentyn yn yr ysgol. Os yw anawsterau'r plentyn mor ddifrifol fel ei bod yn debygol y cynhelir asesiad statudol, dylai'r gweithiwr iechyd yr ymgynghorir ag ef/â hi, gyda chydysyniad y rhieni, hysbysu'r swyddog meddygol a ddynodwyd gan yr Awdurdod Iechyd i gydweithio â'r AALL ar ran plant sydd ag AAA ac i arwain cyfraniad yr Awdurdod Iechyd at y broses asesu statudol, a rhoi'r wybodaeth feddygol berthnasol iddo/iddi.

10:20 Dylai'r Awdurdod Iechyd gytuno gyda Grwpiau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r NHS ar sut y bydd yr awdurdod iechyd lleol yn cyfrannu at yr asesiad statudol ac at ddiwallu anghenion meddygol plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Efallai mai Ymddiriedolaethau'r NHS fydd yn cyflogi'r staff y bydd angen i'r Awdurdod Iechyd ddynodi swyddog meddygol o'u plith ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

10:21 Bydd angen i'r swyddog meddygol dynodedig ar gyfer anghenion addysgol arbennig chwarae rôl strategol a gweithredol yn y gwaith o gydlynw gweithgareddau ar draws Awdurdodau Iechyd, Ymddiriedolaethau NHS, Grwpiau Iechyd Lleol a meddygon teulu.

10:22 Ar lefel strategol, dylai'r swyddog meddygol dynodedig gadarnhau bod gan yr Awdurdod Iechyd drefniadau i sicrhau bod yr Ymddiriedolaethau a'r meddygon teulu sy'n darparu gwasanaethau iechyd plant:

- **yn rhoi gwybod i AALLau am blant y tybiant y gallai fod ganddynt anghenion addysgol arbennig**
- **yn rhoi cyngor meddygol i AALLau ar gyfer asesu plant o fewn y terfynau amser statudol**
- **yn ystyried, gydag AALLau ac yng ngoleuni'r adnoddau sydd ar gael, gyfraniad y gwasanaethau iechyd at y ddarpariaeth anaddysgol a bennir mewn datganiad.**

10:23 Ar lefel weithredol, dylai'r swyddog meddygol dynodedig:

- **sicrhau bod gan bob ysgol fan cyswllt (y gwasanaeth iechyd ysgolion fel arfer) lle gall geisio cyngor meddygol am blant a allai fod ag anghenion addysgol arbennig**

⁶⁰ Adran 332, Deddf Addysg 1996

- **darparu gwasanaeth i staff gwasanaethau iechyd eraill – er enghraifft, meddygon teulu, a therapyddion – y mae angen cymorth arnynt i lunio adroddiadau ar hanes meddygol ac anghenion iechyd plant ar gyfer ysgolion ac AALLau**
- **cydgysylltu cyngor y gwasanaethau iechyd ar gyfer asesiad statudol ac, yn aml, gymryd rhan mewn cyfarfodydd aml-asiantaethol ar asesiadau a gwneud datganiadau**
- **cydgysylltu'r ddarpariaeth sydd i'w gwneud gan y gwasanaethau iechyd ar gyfer plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig pan fo Awdurdod Iechyd neu Grŵp Iechyd Lleol yn gyfrifol am brynu'r gwasanaethau hyn, fel sy'n gallu digwydd gyda gwasanaethau therapi a nyrsio**
- **ystyried sut y gall y pwerau newydd yn Neddf Iechyd 1999, sy'n caniatáu cyfuno cyllidebau ac integreiddio'r gwaith o gomisiynu neu ddarparu swyddogaethau rhwng yr NHS ac Awdurdodau Lleol, roi'r gefnogaeth orau i'r gwasanaethau ar gyfer plant sydd ag AAA.**

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)⁶¹

10:24 Mae plant sydd ag AAA yn fwy tebygol o gael problemau iechyd meddwl cysylltiol na rhai sydd heb AAA, ac mae hynny'n tanlinellu pwysigrwydd cysylltiadau agos rhwng y gwasanaethau addysg a CAMHS. Gall llawer o blant sydd â phroblemau iechyd meddwl, ond nid pawb o bell ffordd, fod yn dioddef o anawsterau emosiynol ac ymddygiadol hefyd.

10:25 Mae i broblemau iechyd meddwl sbectrwm eang. Gallant darddu o gyfuniad cymhleth o ffactorau cymdeithasol, addysgol, corfforol a meddyliol. Mae Strategaeth CAMHS y Cynulliad Cenedlaethol yn pwysleisio swyddogaeth athrawon, nyrsys ysgol, staff eraill ysgolion ac ymwelwyr iechyd ymhlith eraill sef, yn aml iawn, y bobl gyntaf neu 'Haen 1' y mae plant a phobl ifanc sydd eisiau help yn cysylltu â nhw. Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod angen hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth ar bobl yn y grŵp Haen 1 oddi wrth y rheng gyntaf o weithwyr proffesiynol unigol sy'n arbenigo mewn CAMHS, neu 'Haen 2'. Bydd angen cyfeirio plant sydd ag AAA a phroblemau iechyd meddwl difrifol at CAMHS arbenigol i gael eu hasesu a'u trin. Gall cynlluniau ar y cyd rhwng ysgolion, AALLau, gwasanaethau iechyd a'r sector gwirfoddol hwyluso perthynas gydweithredol rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau iechyd plant, gan sicrhau bod staff arbenigol ym maes CAMHS a chefnogi plant, yn cynnwys gwasanaethau seicoleg addysg, yn cydweithio'n agos.

Y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'n rhaid i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol gydymffurfio â chais gan AALL am gymorth mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig, onid ydynt o'r farn nad oes angen y cymorth er mwyn cyflawni swyddogaethau'r AALL a cyhyd ag y bo'r cais yn gydnaws â'u dyletswyddau ac nad yw'n amharu'n ormodol ar eu gallu i gyflawni un neu fwy o'u swyddogaethau.

Gweler adran 322, Deddf Plant 1996

⁶¹ Ym mis Medi 2001 lansiodd Gweinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) "Busnes Pawb"

O dan Adran 2(1)(c) o Ddeddf y Cleifion Cronig a'r rhai Anabl 1970, mae'n ddyletswydd ar adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol wneud trefniadau i helpu person anabl sy'n byw fel arfer yn eu hardal i fanteisio ar gyfleusterau addysgol sydd ar gael iddo/iddi (hyd yn oed os gwneir y ddarpariaeth y tu allan i ardal yr awdurdod lleol hwnnw) os yw'n argyhoeddedig bod hynny'n angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion y person hwnnw. Mewn rhai achosion, gallai'r cymorth hwnnw gynnwys bod yr awdurdod lleol yn talu am y gofal personol sy'n angenrheidiol er mwyn i'r myfyriwr ddilyn ei (h)astudiaethau. Wrth gwrs, mater i'r awdurdod yw penderfynu, ym mhob achos, beth yw anghenion yr unigolyn a sut y dylid eu diwallu.

Gweler Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 36/93

(1) ... os ymddengys i awdurdod lleol bod angen gwasanaethau gofal yn y gymuned ar unrhyw un y gallai ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau felly iddo/iddi, mae'n rhaid i'r awdurdod gynnal asesiad o'i angen am y gwasanaethau hynny, ac o ystyried canlyniadau'r asesiad hwnnw, mae'n rhaid i'r awdurdod benderfynu a oes angen darparu unrhyw wasanaethau felly.

(2) Os ymddengys i'r awdurdod lleol unrhyw bryd tra bydd anghenion rhywun yn cael eu hasesu o dan isadran 1(a) uchod ei fod yn anabl – (a) mae'n rhaid i'r awdurdod symud ymlaen i wneud penderfyniad am y gwasanaethau y mae arno'u hangen fel y sonnir yn adran 4 o Ddeddf Pobl Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 heb iddo ofyn i'r awdurdod wneud hynny o dan yr adran honno; a (b) mae'n rhaid i'r awdurdod roi gwybod iddo am y bwriad i wneud hynny ac am ei hawliau o dan y Ddeddf honno.

Gweler adran 47, Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ariannu holl agweddau anaddysgol lleoliad (e.e. cludiant, llety ac ati) o'r Adran Nawdd Cymdeithasol i'r awdurdod lleol perthnasol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990. Dylai addysg bellach fod yn rhan o gynllun gofal yr unigolyn a dylai'r holl asiantaethau sy'n gyfrifol am y gofal hwnnw gytuno arno.

Gweler Canllawiau'r Swyddfa Gymreig – Mehefin 1997

10:26 Dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol ddynodi swyddog neu swyddogion sy'n gyfrifol am weithio gydag ysgolion ac AALLau ar ran plant ag anghenion addysgol arbennig, ac y dylai ysgolion ac AALLau gyfeirio atynt am gyngor. Os caiff y swyddog dynodedig wybodaeth gynnar am blentyn, gall yr adran gwasanaethau cymdeithasol ymateb yn gyflym, ac o fewn y terfynau amser statudol, i unrhyw gais diweddarach o du'r AALL am gyngor wrth wneud asesiad statudol. Dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod pob ysgol yn yr ardal yn gwybod enw'r swyddog dynodedig yn y gwasanaethau cymdeithasol sydd â chyfrifoldebau dros anghenion addysgol arbennig, a sut mae cysylltu ag ef/â hi.

10:27 Ar lefel strategol, dylai swyddog dynodedig y gwasanaethau cymdeithasol gadarnhau bod gan yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol drefniadau i:

- **roi gwybod i AALLau am blant y tybiant y gallai fod ganddynt anghenion addysgol arbennig**

- **rhoi cyngor o du'r gwasanaethau cymdeithasol i AALLau ar gyfer asesu plant o fewn y terfynau amser statudol**
- **ystyried, gydag AALLau ac yng ngoleuni'r adnoddau sydd ar gael, gyfraniad y gwasanaethau cymdeithasol at y ddarpariaeth anaddysgol a bennir mewn datganiad.**

10:28 Ar lefel weithredol, dylai'r swyddog dynodedig:

- **sicrhau bod gan bob ysgol fan cyswllt ar gyfer ceisio cyngor gwaith cymdeithasol am blant a allai fod ag anghenion addysgol arbennig**
- **darparu adnodd i weithwyr cymdeithasol y mae angen cymorth arnynt i lunio adroddiadau ar gyfer asesiad statudol AAA**
- **cydlynu cyngor y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer asesiad statudol**
- **cymryd rhan mewn cyfarfodydd aml-asiantaethol ar asesiadau a gwneud datganiadau.**

Plant mewn angen

Mae'n ddyletswydd gyffredinol ar bob awdurdod lleol:

- **i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd mewn angen yn ei ardal; a**
- **chyn belled ag y mae'n gydnaws â'r ddyletswydd honno, i hwyluso'r ffordd i blant fel hyn gael eu magu gan eu teuluoedd, drwy ddarparu ystod a lefel o wasanaethau sy'n briodol i anghenion y plant hynny.**

Gweler adran 17(1), Deddf Plant 1989

10:29 O dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989, mae'n ddyletswydd ar adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn ei hardal, sydd 'mewn angen'.

10:30 Er na fydd plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig o reidrwydd 'mewn angen' yn ôl y diffiniad yn Neddf Plant 1989, mae'r Ddeddf honno yn caniatáu ymdrin mewn modd integredig ag anghenion addysgol, iechyd a lles plant sydd ag anghenion addysgol arbennig ac sydd 'mewn angen'.

10:31 Mae'n rhaid i AALLau gydweithredu ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol os yw plentyn 'mewn angen' (adran 27 o Ddeddf Plant 1989) neu os yw'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol (adran 47 o Ddeddf Plant 1989), er na fyddai hyn yn golygu o anghenraid fod gan blentyn anghenion addysgol arbennig.

10:32 Ar yr un pryd ag y mae'r AALL yn cynnal asesiad statudol o dan adran 323 o Ddeddf Addysg 1996, gall Adran Gwasanaethau Cymdeithasol benderfynu cynnal asesiad plentyn mewn angen o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 i ganfod a fyddai help o du'r gwasanaethau cymdeithasol o fudd i'r plentyn a'r teulu. Cynhelir yr asesiad hwn yn unol â'r 'Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd', y Cynulliad Cenedlaethol (2001), a disgwylir i athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill gyfrannu ato.

10:33 Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol (o dan Atodlen 1 i Ddeddf Plant 1989) ddarparu gwybodaeth am wasanaethau i blant mewn angen a'u teuluoedd. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i ysgolion. Dylent hefyd ddarparu ar gyfer yr AALL yr holl wybodaeth berthnasol am brosesau cynllunio neu gasglu data (megis y Gofrestr Plant ag Anableddau, y Cynllun Gwasanaethau Plant neu'r Cynllun Gofal yn y Gymuned). Yn ogystal, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu am daliadau uniongyrchol o dan y Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000.

Plant sy'n derbyn gofal

10:34 Rhaid i bob plentyn sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdod lleol gael Cynllun Gofal, boed y plentyn yn cael ei letya neu ar orchymyn gofal a waeth ble mae'r lleoliad. Mae'r Cynllun Gofal yn nodi'r amcanion hirdymor ar gyfer y plentyn a'r trefniadau er mwyn gwireddu'r amcanion hynny. Bydd y Cynllun Gofal cyflawn yn cynnwys y Cynllun Addysg Personol y mae'n rhaid iddo gynnwys gwybodaeth am y trefniadau addysgol arbennig a wneir ar gyfer y plentyn a bydd yn rhoi rhan i'r rhieni, y gofalwyr a'r plentyn yn y gwaith blaengynllunio.

Y Sector Gwirfoddol

10:35 Mae gan asiantaethau a grwpiau gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae yn diwallu anghenion disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn darparu gwasanaethau ac, mewn rhai achosion, yn cynnig eu darpariaeth eu hunain. Mae'n hanfodol bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn ymdrechu i weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae angen i AALLau ac ysgolion ddangos parodrwydd i weithio gyda grwpiau gwirfoddol a gwerthfawrogi'r cyfraniad y gallant ei wneud. Mae angen hefyd i awdurdodau lleol helpu i ddod â'r gwahanol bartneriaid lleol at ei gilydd er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o fudd i'r disgyblion.

Darparu gwybodaeth

10:36 Dylai'r AALL roi gwybodaeth lawn i ysgolion, adrannau gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau iechyd ac asiantaethau gwirfoddol lleol am drefniadau a dulliau gweithredu'r AALL ar gyfer asesiadau statudol. Dylai AALLau ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau iechyd gytuno ar y dulliau gweithredu sydd i'w dilyn pan fo'r AALL yn hysbysu adran gwasanaethau cymdeithasol neu awdurdod iechyd o'i fwriad i asesu anghenion addysgol arbennig plentyn.

Geirfa

Mae'r diffiniadau hyn yn cyfeirio at dermau a ddefnyddir yn y Cod. Yn achos termau a ddiffinnir mewn deddfwriaeth, mae'r diffiniadau a roddir yma wedi'u symleiddio ac fe welir y diffiniadau cyfreithiol llawn yn y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati.

Academiâu Dinas: Cyflwynwyd Academiâu Dinas (CAs) yn 2000 fel ysgolion annibynnol a ariannir gydag arian cyhoeddus gyda noddwyr o'r sector preifat neu'r sector gwirfoddol. Eu diben yw disodli ysgolion uwchradd presennol neu ddarparu llefydd newydd yn y sector uwchradd mewn ardaloedd trefol difreintiedig. Nodir y seiliau cyfreithiol dros sefydlu Academiâu Dinas yn adrannau 482, 483 a 483A o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000).

ACCAC: Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru. Diben yr awdurdod yw hyrwyddo addysg a hyfforddiant yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau safonau uchel a chysondeb.

Adolygiad blynyddol: yr adolygiad o ddatganiad anghenion addysgol arbennig y mae'n rhaid i AALL ei wneud cyn pen 12 mis ar ôl gwneud y datganiad neu ar ôl yr adolygiad blaenorol, pa un bynnag sy'n berthnasol.

Addasu: addasu neu newid rhaglen astudio, targed cyrhaeddiad, asesiad neu unrhyw elfen arall o'r Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn rhoi cyfle i'r plentyn fanteisio ar y maes hwnnw o'r Cwricwlwm (gweler hefyd **Datgymhwyso a Datganiad cynhwysiad** y Cwricwlwm Cenedlaethol).

British Educational Technology and Communications agency (BECTa): Mae BECTa yn asiantaeth a ariannir gan y Llywodraeth i hyrwyddo technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r defnydd ohoni i gefnogi ymdrechion y Llywodraeth i godi safonau ym mhynciau'r cwricwlwm, yn y gwaith o ddysgu sgiliau allweddol, yn effeithlonrwydd sefydliadau, ac yn datblygu addysg gydol oes. BECTa sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Grid Dysgu Cenedlaethol (GDC). Ceir rhagor o wybodaeth am dechnoleg gwybodaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig trwy gysylltu â BECTa yn Milburn Hill Road, Science Park, Coventry, CV4 7JJ. Rhif ffôn: 0247 641 6994. Gwefannau: inclusion.ngfl.gov.uk a www.becta.org.uk

Canlyniadau Dymunol: Mae'r Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol yn nodi chwe maes dysgu a phrofiad, a chanlyniadau dymunol ynddynt ar gyfer plant cyn oedran ysgol gorfodol.

Cefnogwr Annibynnol Rhieni: rhywun y dylai pob rhiant fod yn gallu troi ato, os dymunant. Mae'n rhaid i'r Cefnogwr Annibynnol Rhieni fod yn rhywun a all gefnogi rhieni, er enghraifft trwy fynychu cyfarfodydd, annog cyfranogiad gan rieni, a helpu'r rhieni i ddeall y fframwaith AAA. Mae "annibynnol" yn golygu rhywun sy'n annibynnol o'r broses benderfynu sy'n pennu'r math o gefnogaeth a lefel y gefnogaeth ar gyfer plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig. Yn aml, bydd Cefnogwyr Annibynnol Rhieni yn bobl o fudiad gwirfoddol neu wasanaeth partneriaeth â rhieni, yn rhiant arall neu'n ffrind.

Cofrestr amddiffyn plant: ym mhob ardal a wasanaethir gan adran gwasanaethau cymdeithasol, mae'n rhaid cynnal cofrestr ganolog sy'n rhestru'r holl blant yn yr ardal y cyfrifir eu bod yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed arwyddocaol ac y ceir cynllun amddiffyn plant ar eu cyfer. Nid cofrestr o blant sydd wedi'u

cam-drin yw hon ond cofrestr o blant y mae materion amddiffyn plant heb eu setlo mewn perthynas â nhw.

Colegau Technoleg Dinas: Ysgolion annibynnol, heb ffioedd, ar gyfer disgyblion o bob gallu rhwng 11 a 18 yw Colegau Technegol Dinas (CTCs). Eu diben yw cynnig cyfle i ddisgyblion o bob gallu mewn ardaloedd trefol ledled Lloegr i astudio'n llwyddiannus gwricwlwm sydd wedi'i anelu, gyda chymorth noddwyr o'r sector preifat, yn arbennig at fyd gwaith. Caiff CTCs eu hannog i arloesi wrth ddatblygu, rheoli a chyflwyno'r cwricwlwm.

Cwricwlwm Cenedlaethol: mae hwn yn nodi'r hawl statudol, llawn a chlr sydd gan bob disgybl i addysg. Mae'n pennu beth y dylid ei ddysgu ac yn pennu targedau cyrhaeddiad ar gyfer dysgu. Mae hefyd yn pennu sut y caiff perfformiad ei asesu a'i gofnodi.

Cydlynnydd AAA (SENCO): aelod o staff ysgol neu sefydliad addysg gynnar sy'n gyfrifol am gydlyn darpariaeth AAA yn yr ysgol honno. Mewn ysgol fach, efallai mai'r pennaeth neu'r dirprwy fydd y Cydlynnydd AAA. Mewn ysgolion mawr, efallai y ceir tîm cydlyn AAA.

Cyfnod sylfaen: mae'r cyfnod sylfaen yn dechrau pan fydd plant yn cyrraedd tair oed. Mae llawer o blant yn mynd i sefydliad addysg gynnar yn fuan ar ôl cael eu pen-blwydd yn dair. Mae'r cyfnod sylfaen yn para tan ddiwedd y flwyddyn dderbyn ac mae'n gyson â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n paratoi plant ar gyfer dysgu ym mlwyddyn 1, pan ddysgir rhaglenni astudio ar gyfer cyfnod allweddol 1.

Cyfrifoldeb rhiant: o dan adran 2 o Ddeddf Plant 1989, dyma'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant:

- pob mam a thad a oedd yn briod â'i gilydd pan aned y plentyn (yn cynnwys rhai sydd wedi gwahanu neu ysgaru ers hynny);
- mamau nad oedd yn briod â'r tad pan aned y plentyn; a
- tadau nad oedd yn briod â'r fam pan aned y plentyn, ond sydd wedi cael cyfrifoldeb rhiant naill ai drwy gytundeb â mam y plentyn neu drwy orchymyn llys.

O dan adran 12 o Ddeddf Plant 1989, os yw llys yn gwneud gorchymyn preswyllo o blaid unrhyw un nad yw'n rhiant neu'n warcheidwad i'r plentyn, mae gan y person hwnnw gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn tra bydd y gorchymyn preswyllo'n parhau mewn grym.

O dan adran 33 (3) o Ddeddf Plant 1989, tra bydd gorchymyn gofal mewn grym mewn perthynas â phlentyn, bydd gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol a ddynodir gan y gorchymyn gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn hwnnw a bydd ganddi'r pŵer (yn amodol ar rai darpariaethau) i benderfynu i ba raddau y bydd rhiant neu warcheidwad y plentyn yn cyflawni ei gyfrifoldeb / chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Ni all adran gwasanaethau cymdeithasol fod â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn onid yw'r plentyn yn destun gorchymyn gofal, ac eithrio at ddibenion cyfyngedig iawn lle bo gorchymyn diogelu brys mewn grym o dan adran 44 o Ddeddf Plant 1989.

Yn ôl y diffiniad o gyfrifoldeb rhiant o dan adran 3(1) o Ddeddf Plant 1989, mae'n golygu'r holl ddyletswyddau, hawliau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan rieni mewn perthynas â'u plant ac ag eiddo'u plant.

Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: yw'r corff cyhoeddus mwyaf a noddir gan y Cynulliad Cenedlaethol a bu'n gweithredu ers Ebrill 1af 2001. Ffurfiwyd y Cyngor pan unwyd y pedwar TEC, Cyngor TECs Cymru, a Chyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ac mae'n gyfrifol am gynllunio a hyrwyddo addysg bellach, hyfforddiant yn y gweithle, addysg oedolion ac addysg barhaus ac, o Ebrill 2002 ymlaen, y chweched dosbarth mewn ysgolion. Mae'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn gweithredu dros Gymru gyfan ac, er mwyn adlewyrchu hyn, mae ganddo swyddfeydd ledled Cymru heb un pencadlys ffurfiol.

Cynllun Addysg Grŵp: lle bo disgyblion sydd yn yr un grŵp, dosbarth neu wers pwnc yn anelu at yr un targedau, ac felly'n dilyn yr un strategaethau, gellir llunio cynllun addysg grŵp yn hytrach na Chynlluniau Addysg Unigol ar gyfer pob plentyn.

Cynllun Addysg Unigol: Dull o gynllunio, addysgu ac adolygu yw'r CAU. Mae'n ddogfen weithiol ar gyfer yr holl staff addysgu er mwyn cofnodi strategaethau a thargedau tymor byr allweddol ar gyfer disgybl unigol sy'n wahanol i'r rhai ar gyfer gweddill y grŵp neu'r dosbarth neu'n ychwanegol atynt. Darperir yr ymyriadau trwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar*, *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy*, *Gweithredu gan yr Ysgol*, *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, a datganiadau AAA.

Cynllun Trawsnewid: cynllun a baratoir yn dilyn adolygiad blynyddol Blwyddyn 9 ac a ddiweddarir yn dilyn adolygiadau blynyddol wedi hynny. Diben y cynllun yw dwyn ynghyd wybodaeth oddi wrth wahanol unigolion yn yr ysgol a'r tu allan, er mwyn cynllunio mewn ffordd gyd-drefnus i'r person ifanc symud ymlaen i fywyd fel oedolyn.

Cynorthwydd cefnogi dysgu: defnyddir y teitl swydd hwn yn eang ar gyfer cynorthwydd sy'n rhoi cymorth yn yr ysgol i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau. Bydd y cynorthwydd cefnogi dysgu yn gweithio fel rheol gyda disgybl neu ddisgyblion penodol gan gefnogi'r disgybl unigol a chynorthwyo'r sawl sy'n gyfrifol am ei ddysgu. Mae teitlau eraill yn cael eu defnyddio ar gyfer cynorthwywyr sy'n arbenigo mewn AAA mewn rhai mannau gan mai yn lleol y penderfynir ar y materion hyn. Mae cynorthwywyr cefnogi dysgu yn perthyn i grŵp o gynorthwywyr sy'n dod o dan ddosbarthiad ehangach y DfES, sef "cynorthwydd addysgu".

Cyrchnodau addysg gynnar: yr hyn y disgwylir i'r rhan fwyaf o blant ei gyrraedd ym mhob un o'r chwe maes dysgu erbyn diwedd y cyfnod sylfaen.

Datganiad Cynhwysiad y Cwricwlwm Cenedlaethol: Ceir datganiad manwl, cyffredinol ar Gynhwysiad yn y Cwricwlwm Cenedlaethol; mae'n nodi'n glir yr egwyddorion y mae'n rhaid i ysgolion eu dilyn wrth ddysgu'r Cwricwlwm cyfan, er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i lwyddo, beth bynnag yw ei anghenion unigol a beth bynnag a allai ei rwystro rhag llwyddo. Mae'n cynnwys addasu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Datgymhwysiad Dros Dro: Mae'n rhaid i ysgol a gynhelir alluogi'r holl ddisgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol, yn cynnwys rhai sy'n cael eu dysgu dros dro yn eu cartref, mewn ysgol ysbyty neu mewn uned cyfeirio disgyblion, i gymryd rhan yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Os yw'n amhosibl neu'n anaddas cynnig y Cwricwlwm Cenedlaethol yn llawn i'r disgyblion hyn, gellir datgymhwyso agweddau arno trwy

gyfarwyddyd cyffredinol neu gyfarwyddyd arbennig os oes datganiad yn cael ei ystyried neu ei ddiwygio. Mae gan benaethiaid ysgolion gryn ryddid mewn perthynas â chyfarwyddiadau ar gyfer datgymhwysio dros dro ond ni ddylent ystyried cyfarwyddyd os nad yw amgylchiadau neu ymddygiad disgyblion ar y pryd yn golygu na allant gymryd rhan lawn yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a manteisio'n llawn arno. Dylid cyfyngu datgymwysiadau i'r agweddau hynny ar y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n anaddas ar gyfer y disgybl.

Datgymhwysio: dileu neu godi rhaglen astudio, targed cyrhaeddiad, asesiad neu unrhyw elfen arall o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain yn cynnwys pynciau cyfan neu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gyfan trwy'r rheoliadau perthnasol. (Gweler hefyd **Addasu**, uchod.)

Dull graddoledig: model o weithredu ac ymyrryd mewn ysgolion a sefydliadau addysg gynnar i helpu plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r dull yn cydnabod bod continwwm o anghenion addysgol arbennig ac y dylid defnyddio arbenigedd cynyddol i ymdrin ag anawsterau'r plentyn os oes angen.

Estyn: Nod Estyn yw codi safonau ac ansawdd ym meysydd addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy arolygu a chynghori, i gynnal y weledigaeth a'r cyfeiriad strategol a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ffisiotherapi: proffesiwn gofal iechyd sy'n pwysleisio'r defnydd o ddulliau corfforol i hyrwyddo, cynnal ac adfer lles corfforol, seicolegol a chymdeithasol unigolyn yw ffisiotherapi. Ar ôl cynnal asesiad, caiff cynllun triniaeth ei lunio mewn partneriaeth â'r client/gofalwyr; mae'r cynllun hwn yn cael ei werthuso'n gyson i sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn berthnasol i amgylchiadau ac iechyd yr unigolyn fel y mae'r rheiny'n newid.

Gofalwr: at ddiben y Cod hwn, mae gofalwr yn rhywun a enwir gan awdurdod lleol i ofalu am blentyn y mae gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol gyfrifoldeb rhiant amdano/amdani, h.y. plentyn sy'n destun gorchymyn gofal ac sydd wedi'i osod mewn lleoliad preswyl neu leoliad maeth. Gall y gofalwr gyfrif fel rhiant at ddibenion y Deddfau Addysg gan mai ef/hi sy'n gofalu am y plentyn (gweler y diffiniad o **Rhiant** isod). Os felly, bydd yn chwarae rhan yn y gwaith o ystyried anghenion addysgol arbennig y plentyn.

Gorchymyn goruchwyllo addysg: gorchymyn y gall AALLau, o dan adran 36 o Ddeddf Plant 1989, ei ddefnyddio er mwyn i blentyn o oedran ysgol statudol nad yw'n cael ei addysgu'n iawn gael ei roi o dan oruchwyliaeth yr AALL, gyda'r bwriad o sicrhau ei fod yn cael addysg lawn-amser effeithiol sy'n addas ar gyfer ei oedran, ei dueddfryd, ei allu ac unrhyw anghenion addysgol arbennig, a bod y rhieni'n cael cefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd digonol.

Gwarcheidwad Plant: Penodir Gwarcheidwad Plant gan y llys o dan adran 41 o Ddeddf Plant 1989 fel rhan o drefniadau gofal a threfniadau cysylltiedig i ddiogelu lles y plentyn.

Gwasanaethau Partneriaeth â Rhieni: mae'r rhain yn rhoi cyngor a gwybodaeth i rieni plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn rhoi cefnogaeth ddiduedd a ffeithiol ar bob agwedd ar y fframwaith AAA i helpu rhieni i chwarae rhan weithredol a gwybodus yn addysg eu plant. Er mai'r awdurdod addysg lleol sy'n ariannu'r gwasanaethau, maent yn rhoi gwasanaeth i rieni ac, yn aml, cânt eu rhedeg led braich oddi wrth yr awdurdod neu gan fudiad gwirfoddol er mwyn sicrhau bod gan y rhieni hyder ynddynt.

Gweithredu gan yr Ysgol: pan fydd athro dosbarth neu athro pwnc yn canfod bod gan blentyn anghenion addysgol arbennig, maent yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o strategaethau a chwricwlwm gwahaniaethol arferol yr ysgol neu'n wahanol iddynt. Fel rheol, llunnir CAU.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy: pan fydd athro dosbarth neu athro pwnc a'r Cydlynnydd AAA yn cael cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwyr allanol, fel y gellir trefnu ymyriadau amgen sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir ar gyfer y disgybl trwy Gweithredu gan yr Ysgol neu'n wahanol iddynt. Fel rheol, y Cydlynnydd AAA sy'n arwain yn y mater er mai'r athro dosbarth neu'r athro pwnc fydd yn dal yn gyfrifol am y ddarpariaeth o ddydd i ddydd. Fel rheol, llunnir CAU newydd.

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar: pan fydd yr ymarferwr addysg gynnar sy'n gweithio o ddydd i ddydd gyda'r plentyn neu'r Cydlynnydd Addysg Arbennig (SENCO) yn canfod bod gan blentyn anghenion addysgol arbennig, maent yn cydweithio i ddarparu ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm a strategaethau arferol y sefydliad neu'n wahanol iddynt. Fel rheol, llunnir CAU.

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy: pan fydd yr ymarferwr addysg gynnar sy'n gweithio o ddydd i ddydd gyda'r plentyn a'r Cydlynnydd Addysg Arbennig (SENCO) yn cael cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwyr allanol fel y gellir trefnu ymyriadau amgen sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir ar gyfer y plentyn trwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar* neu'n wahanol iddynt. Fel rheol, llunnir CAU newydd.

Gyrfa Cymru: Enw brand y saith cwmni sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd am yrfaedd a dysgu i bobl ifanc ac oedolion o dan gontract i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mentoriaid Dysgu: staff yr ysgol sy'n cydweithio â staff addysgu a staff bugeiliol i asesu, dynodi a gweithio gyda disgyblion y mae arnynt angen cymorth ychwanegol i oresgyn rhwystrau i ddysgu yn yr ysgol a'r tu allan. Maent yn fan cyswllt ar gyfer sicrhau gwasanaethau cefnogi arbenigol, fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Ieuencid, Gwasanaethau Lles Addysg ac ati.

Nodyn yn lle datganiad: nodyn y gellir ei roi i rieni ac ysgol y disgybl os yw'r AALL yn penderfynu, ar ôl cynnal asesiad statudol, na fydd yn gwneud datganiad. Dylai'r nodyn ddisgrifio anghenion addysgol arbennig y plentyn, esbonio pam y mae'r AALL o'r farn nad oes angen gwneud datganiad a gwneud argymhellion am ddarpariaeth addas ar gyfer y plentyn. Dylid cynnwys yr holl wybodaeth a geir yn ystod yr asesiad gyda'r nodyn a anfonir at y rhieni a, gyda'u cydsyniad nhw, dylid ei anfon at ysgol y plentyn hefyd.

Partneriaethau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant: Mae'n ofynnol i bob AALL sefydlu partneriaeth datblygiad y blynyddoedd cynnar i gydweithio â nhw i adolygu addysg feithrin er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn ddigonol, ac i baratoi cynlluniau datblygiad y blynyddoedd cynnar.

Person Cyfrifol: pennaeth yr ysgol neu'r llywodraethwr priodol, sef cadeirydd y corff llywodraethu os nad yw'r corff llywodraethu wedi dynodi llywodraethwr arall at y diben hwnnw. Yn achos ysgol feithrin, y pennaeth yw'r person cyfrifol. Mae'n rhaid i'r AALL roi gwybod i'r person cyfrifol pan ddaw i'r casgliad bod anghenion addysgol arbennig gan ddisgybl yn yr ysgol. Yna, mae'n rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod pawb a fydd yn dysgu'r plentyn yn gwybod am ei anghenion addysgol arbennig.

Plant 'mewn angen': bernir bod plentyn 'mewn angen' os:

- yw'n annhebygol o gyrraedd a chynnal, neu nad yw'n cael y cyfle i gyrraedd a chynnal safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb ddarpariaeth gan yr awdurdod lleol; neu
- os yw'n debygol yr amherir, neu yr amherir ymhellach, i raddau arwyddocaol ar ei iechyd a'i ddatblygiad, heb ddarpariaeth gan yr awdurdod iechyd; neu
- os yw'n anabl. (Adran 17(10) Deddf Plant 1989).

Portage: cefnogaeth addysgol a gynllunnir, a gyflwynir yn y cartref i blant cyn oed ysgol sydd ag anghenion addysgol arbennig. AALLau sy'n darparu gwasanaethau Portage fel rheol. Enwyd y gwasanaeth Portage ar ôl tref Portage yn Wisconsin, UDA. Ceir rhwydwaith eang, weithredol o wasanaethau Portage yn y DU, wedi'i datblygu gan Gymdeithas Genedlaethol Portage, sy'n darparu Cod Ymarfer a hyfforddiant achrededig.

Rhiant: o dan adran 576 o Ddeddf Addysg 1996, mae rhiant yn cynnwys unrhyw un nad yw'n rhiant i'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant (gweler hefyd **Cyfrifoldeb rhiant**), neu sy'n gofalu amdano.

SCE (Addysg Plant y Lluoedd Arfog): Yr SCE sy'n goruchwyllo addysg plant lluoedd arfog y DU dramor. Fe'i hariannir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae'n rhedeg ei ysgolion ei hunan ac yn rhoi cyngor i rieni ar ysgolion SCE dramor ac ysgolion yn y Deyrnas Unedig.

Sefydliadau addysg gynnar: darparwyr sy'n cael arian gan y llywodraeth i gyflwyno addysg gynnar, yn cynnwys – ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig nas cynhelir, darparwyr gofal dydd yr awdurdod lleol fel meithrinfeydd dydd a chanolfannau teulu, darparwyr gofal dydd cofrestredig eraill fel grwpiau cyn-ysgol, cylchoedd chwarae, meithrinfeydd dydd preifat, cynlluniau Portage awdurdodau lleol a gwarchodwyr plant achrededig sy'n gweithio fel rhan o rwydwaith a gymeradwyir gan y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (National Childminding Association).

Swyddog a Enwir yn yr AALL: y sawl o'r AALL sy'n trafod yr holl drefniadau'n ymwneud ag asesiad statudol a gwneud datganiad gyda'r rhieni. Mae'n rhaid i AALLau roi gwybod i'r rhieni pwy yw'r Swyddog a Enwir pan fyddant yn cyhoeddi hysbysiad o fwriad i gynnal asesiad statudol ar y plentyn.

Swyddog Lles Addysg: rhywun a gyflogir gan AALL i helpu rhieni ac AALLau i gyflawni eu gwahanol rwymedigaethau statudol mewn perthynas â mynychu'r ysgol. Mewn rhai AALLau, gelwir Swyddogion Lles Addysg yn Weithwyr Cymdeithasol Addysg.

Trefniadau Anghytundeb: Mae'n rhaid i bob AALL ddarparu trefniadau i helpu i atal neu ddatrys anghytundebau rhwng rhieni y mae gan eu plant anghenion addysgol arbennig, a'r AALL neu'r ysgol. Mae'n rhaid iddynt gynnwys elfen annibynnol. Y nod yw dod â'r gwahanol bartïon at ei gilydd mewn ffordd anffurfiol i geisio datrys yr anghytundeb trwy drafod. Gall y rhieni ddewis defnyddio'r trefniadau hyn neu beidio ac nid yw'n effeithio mewn unrhyw ffordd ar hawl rhieni i apelio at y Tribiwnlys AAA.

Tribiwnlys AAA: corff annibynnol sydd ag awdurdod o dan adran 333 o Ddeddf Addysg 1996 i benderfynu ar apeliadau gan rieni yn erbyn penderfyniadau'r AALL ar asesiadau a datganiadau. Bydd penderfyniad y Tribiwnlys yn rhwymo'r ddwy ochr yn yr apêl.

Therapi galwedigaethol: Mae therapi galwedigaethol yn golygu defnyddio gweithgareddau a chwarae pwrpasol i helpu plentyn i weithredu hyd y gall, gan feithrin ymdeimlad o hunan-werth ac annibyniaeth. Caiff sgiliau motor, synhwyraidd, canfyddiad, cymdeithasol, emosiynol a hunan-ofal eu hasesu. Mae therapyddion galwedigaethol yn gweithio gyda'r plant, y rhieni a'r athrawon gan ddefnyddio technegau therapiwtig (a rhoi cyngor ar addasu'r amgylchedd ac offer os oes angen) i helpu'r plentyn i fanteisio ar y cwricwlwm corfforol a dysgu.

Therapi iaith a lleferydd: Proffesiwn gofal iechyd yw therapi iaith a lleferydd. Y swyddogaeth a'r nod yw galluogi plant ac oedolion sydd ag anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu (ac anawsterau bwyta a llyncu cysylltiedig) i gyfathrebu gystal ag sy'n bosib iddynt ac i fod yn annibynnol ym mhob agwedd ar eu bywyd.

Uned Cyfeirio Disgyblion: unrhyw ysgol a sefydlwyd ac a gynhelir gan awdurdod addysg lleol o dan adran 19 (2) o Ddeddf Addysg 1996 a gaiff ei threfnu'n arbennig i roi addysg i ddisgyblion na fyddai fel arall yn cael addysg addas oherwydd eu bod yn sâl, wedi'u gwahardd neu am unrhyw reswm arall. Ceir rhagor o fanylion yng Nghylchlythyr 11/99 yr Adran Addysg a Chyflogaeth (DfEE) Pennod 6.

Ymarferwyr addysg gynnar: yr holl oedolion sy'n gweithio gyda phlant mewn sefydliadau addysg gynnar, beth bynnag yw eu cymwysterau.

Ysgol a gynhelir: at ddibenion y Cod hwn, ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol – ysgolion cymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig.

Ysgol annibynnol: ysgol nad yw'n cael ei chynnal gan awdurdod addysg lleol ac sydd wedi'i chofrestru o dan adran 464 o Ddeddf Addysg 1996. Mae adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi o dan ba amodau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo ysgol annibynnol fel un sy'n addas ar gyfer derbyn plant sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig.

Ysgol arbennig: ysgol a gaiff ei threfnu'n arbennig i wneud darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r AALL yn cynnal ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig. Cymeradwyir ysgolion arbennig nas cynhelir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996.

Ysgol arbennig nas cynhelir: ysgolion yn Lloegr a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996 fel ysgolion arbennig ac nad ydynt yn cael eu cynnal gan y wladwriaeth ond sy'n codi ffioedd ar sail di-elw. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion arbennig nas cynhelir yn cael eu rhedeg gan ymddiriedolaethau elusennol neu elusennau mawr.

Mynegai

Academiau Dinas, 1:32,1:33, 7:10, 8:66

Adnoddau, 1:5, 1:6, 1:17, 1:30-1:31, 1:43, 2:18, 2:25, 2:30, 4:17, 4:26, 4:51, 5:20, 5:24, 5:31, 5:33, 5:62, 6:22, 6:26, 6:34, 6:36, 6:71, 7:9, 7:23, 7:50, 7:54, 8:2, 8:5-8:7, 8:11-8:16, 8:20, 8:34, 8:57, 8:62, 8:81, 8:85, 8:87, 8:118-8:119, 9:40, 10:7, 10:8, 10:16, 10:22-10:23, 10:27, 10:28

Adolygiad blynyddol o'r datganiad (*gweler Adolygiad*)

Adolygu datganiadau, 1:6, 2:9, 3:2, 3:15, 3:17, 3:18, 3:21, 4:46, 4:55, 5:68-5:73, 6:8, 6:75, 7:96, 8:13, 8:27, 8:34, 8:39-8:40, 8:95, 8:97, 8:104, 8:115, 8:116, 8:128, 8:130, 8:131, 9:1-9:69

Adroddiad blynyddol gan ysgolion, 1:30, 1:35-1:37, 1:48

Addasu (*gweler yr Eirfa*)

Addysg Plant y Lluoedd Arfog (SCE) (*gweler yr Eirfa*)

Addysg yn rhywle ar wahân i ysgol, 8:42, 8:91-8:96, 9:36-9:38, 6:72-6:73, 7:82, 8:30

Anghenion anaddysgol, 8:18, 8:20, 8:29, 8:43-8:46

Anghenion synhwyrdd a/neu gorfforol, 1:12, 1:41, 3:25, 4:21, 4:31, 5:44, 5:56, 6:51, 6:64, 7:30, 7:52, 7:53, 7:62-7:63

Amcanion, 1:23, 1:27, 4:49, 5:27, 6:29, 8:27, 8:29, 8:34, 8:39-8:40, 8:45, 8:118-8:119, 9:4, 9:7, 9:14, 9:29, 10:5,10:18, 10:34

Anabledd, 1:3, 1:12, 2:7, 2:13, 2:18, 4:25, 7:51, 7:64-7:65, 7:37

Anawsterau â'r golwg (*gweler Nam synhwyrdd*)

Anawsterau clywed, 4:37, 4:48, 4:51,7:55, 7:84, 10:7

Anawsterau dysgu, 1:2, 2:13, 4:8, 5:10, 5:16, 5:18, 6:15-6:16, 6:18, 7:9, 7:24, 7:30, 7:34-7:35, 7:40, 7:43, 7:47, 7:50, 7:53, 7:55, 7:58, 8:6, 8:11, 8:13, 8:23, 8:29, 8:32, 8:34, 10:15

Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, 3:41, 4:21, 4:31, 4:37, 4:51, 5:44, 5:56, 6:51, 6:64, 7:30, 7:43, 7:49, 7:53, 7:58, 7:60, 7:65, 8:23, 10:24

Anawsterau iaith a lleferydd, 7:55, 8:49-8:53, 10:7

Apeliadau, 2:24, 2:26, 7:12, 7:29, 7:71, 7:72, 7:90, 7:97, 8:15, 8:47, 8:55, 8:77, 8:108-8:111, 8:120,8:123, 8:124, 8:132, 8:133

Asesiad statudol o AAA, 2:12, 4:33-4:48, 4:53, 4:54, 5:62-5:65, 6:24, 6:70-6:73, 7:1-7:98

Asesiadau (*gweler Asesiad statudol o AAA*)

Athrawon, 1:6, 1:30, 1:43, 2:21, 2:31, 3:10, 3:12, 4:23, 4:25, 4:26, 4:51, 5:2, 5:4, 5:9, 5:10, 5:13, 5:19, 5:29, 5:32, 5:37, 5:39, 5:43, 5:47, 5:49, 5:54, 5:55, 5:58, 5:59, 5:64, 6:2, 6:4, 6:9, 6:12, 6:19, 6:21, 6:31, 6:33, 6:35, 6:41, 6:46, 6:50, 6:51, 6:53, 6:55, 6:57, 6:62, 6:67, 6:72, 7:27, 7:34, 7:41, 7:42, 7:47, 7:48, 7:83-7:86, 8:13, 8:36, 8:56, 8:112, 8:116 9:12, 9:16, 9:23, 9:28, 9:55, 10:2, 10:6, 10:12, 10:25, 10:32

Athro teithiol (*gweler yr Eirfa*)

Awdurdod Iechyd, 4:37, 4:38, 7:7 (troednodyn)7:19, 7:28, 8:34, 8:44, 8:74, 8:50, 9:10, 9:50, 10:15, 10:18-10:23, 10:36

BECTA (*gweler yr Eirfa*)

Cadw cofnodion, 5:24-5:26, 6:26-6:28

Cofnod Cyrhaeddiad, 3:14, 4:18-4:19, 4:24

Cofrestr Amddiffyn Plant (*gweler yr Eirfa*)

Colegau Technoleg Dinas, 1:32, 7:10, 8:66

Corff Llywodraethu, 1:1, 1:7, 1:10, 1:19, 1:25-1:31, 1:35-1:37, 1:40-1:41, 1:43, 1:45, 4:3, 5:2, 5:18, 5:30, 5:33, 5:36, 5:40, 6:2, 6:18, 6:32, 6:36, 6:39, 6:47, 8:6-8:7, 8:58-8:59, 8:79-8:83, 8:112, 9:41

Costau Cludiant, 8:87-8:90

Cwricwlwm Cenedlaethol, 1:5, 5:4, 5:5, 5:58, 5:13, 5:17-5:19, 5:56, 5:64, 6:4-6:5, 6:12, 6:17-6:21, 6:42 (troednodyn), 6:64, 6:72, 7:11, 7:35, 7:38, 7:40, 7:41, 8:35, 8:38, 8:119, 9:7, 9:14

Cydlynnydd AAA (SENCO), 1:29, 1:38, 1:40, 1:48, 4:11, 4:15-4:17, 4:20, 4:22-4:24, 4:26, 4:30, 5:2, 5:10, 5:18, 5:24, 5:29-5:36, 5:39, 5:43, 5:45-5:47, 5:49, 5:54, 5:58, 5:60-5:61, 5:66, 5:73, 6:2, 6:7-6:9, 6:18, 6:26, 6:31-6:40, 6:46, 6:50, 6:52-6:55, 6:57, 6:62, 6:66, 6:68-6:69, 7:47, 7:70, 7:73, 8:17, 8:78, 9:16, 10:11-10:12

Cyfathrebu a rhyngweithio, 3:7, 3:22, 3:25, 4:21, 4:31, 5:44, 5:56, 6:51, 6:64, 7:43, 7:52, 7:55-7:57, 7:60, 8:49, 8:51, 8:119

Cyngor Dysgu a Sgiliau, 9:61, 9:64, 10:16, 10:18

Cyflyrau meddygol, 7:64-7:67

Cyfranogiad disgyblion, 3:1-3:27

Cyngor meddygol, 7:48, 7:82, 8:30, 10:22-10:23

Cyngor seicolegol, 7:16, 7:74, 7:79, 7:82, 8:30

Cyngor/tystiolaeth/sylwadau rhieni, 2:7, 4:41, 7:16, 7:74, 7:82, 8:30, 8:57, 8:60, 8:105-8:107

Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol, 2:13, 4:8, 4:25, 5:15-5:16, 6:14-6:16, 7:56, 8:56, 9:23

Cynllun Gofal Plant, 1:17, 2:18, 4:53, 9:27, 9:59, 10:16, 10:26, 10:34

Cynllun Llwybr, 9:68

Cynllun Trawsnewid, 1:13, 3:16-3:17, 6:36, 6:75, 9:14, 9:29, 9:45, 9:50-9:54, 9:56, 9:59-9:60, 9:62, 9:64, 9:67, 9:68, 10:14, 10:15

Cynlluniau addysg unigol, 1:11, 1:16, 3:2, 3:7, 3:9, 3:11, 3:14, 3:15, 3:18, 4:15, 4:27-4:30, 4:32, 4:35, 5:8, 5:24, 5:25, 5:32, 5:46, 5:50-5:55, 5:59, 5:64, 5:66, 5:67, 5:73, 6:7, 6:8, 6:26, 6:39, 6:55, 6:58-6:67, 6:72, 6:74, 7:13, 7:42, 7:49, 8:34, 8:39, 8:40, 8:116, 9:5, 9:7, 9:27

Dadlennu datganiadau, 8:111-8:112

Darpariaeth anaddysgol, 3:7, 8:29, 8:44-8:46, 8:49, 8:50, 8:109, 8:112, 10:22, 10:27

Darpariaeth yn yr ysgol, 7:24, 7

Datganiad AAA, (*gweler hefyd Datganiad Arfaethedig a Datganiad Terfynol*)

Datganiad arfaethedig, 2:12, 2:16, 2:21, 2:25, 7:72, 7:87-7:89, 8:18, 8:21, 8:22, 8:28, 8:42, 8:54-8:57, 8:61, 8:63, 8:64, 8:69, 8:80, 8:105-8:107, 8:109, 8:134

Datganiad terfynol, 7:73, 8:30, 8:39, 8:42, 8:55, 8:57, 8:60, 8:69, 8:76, 8:77, 8:108-8:110, 8:131, 8:134, 9:40, 9:43

Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, 9:62

Deddf Plant 1989, 1:3, 2:4, 5:27-5:28, 6:29,6:30, 8:70-8:79, 8:111, 9:27, 9:59, 10:16, 10:18, 10:29-10:33

Deddf Pobl Anabl (1986), 8:111, 8:113, 9:50, 9:58, 10:16, 10:26

Deddf y Cleifion Cronig a'r Rhai Anabl 1970, 9:50, 10:25

Dewis rhieni, 1:10, 4:45, 4:55, 5:72, 7:80, 8:14, 8:42, 8:57, 8:60, 8:61, 8:67, 8:65, 8:69, 8:81, 8:82, 8:88, 8:130, 9:43

Diwygio datganiad, 2:16, 2:25, 4:46, 5:71, 5:72, 7:86-7:88, 8:25, 8:27,8:62-8:64, 8:79, 8:114, 8:114, 8:124-8:133, 9:14, 9:29-9:30, 9:32, 9:34, 9:35, 9:39, 9:40, 9:43-9:44

Dymuniadau'r plentyn, 1:5-1:7, 2:21, 2:27, 3:6, 3:10, 3:25, 6:13, 6:61, 7:82, 7:85, 8:106, 9:19, 9:55, 9:57

Dyslecsia, 7:55, 7:58

Dyspracsia, 7:55, 7:58

Eithriadau i derfynau amser, 7:16, 7:29, 7:91-7:93, 8:57, 9:15

Enwi ysgol, 8:58-8:69, 8:79, 8:80, 9:41

Estyn, 1:47, 8:111

Gorchymyn Goruchwyllo Addysg (*gweler yr Eirfa*)

Grŵp Safoni, 7:37, 8:9

Gwasanaeth Iechyd Ysgolion (*gweler Gwasanaethau Iechyd*)

Gwasanaeth Lles Addysg, 5:64, 6:72, 7:19, 7:45, 7:67, 10:9,10:10

Gwasanaethau cefnogi (*gweler Gwasanaethau cefnogi AAA*)

Gwasanaethau cefnogi AAA, 1:20, 1:24, 1:36, 2:15, 4:26, 4:29, 4:32, 5:27, 5:49, 5:55, 5:57, 6:29, 6:57, 6:63,6:65, 6:73, 7:6,7:57, 8:7, 10:2, 10:6-10:13, 10:16, 10:23

Gwasanaethau Cymdeithasol, 1:1, 1:3, 1:15, 1:16, 1:20 2:18, 2:21, 3:7, 3:12, 3:15, 3:18, 3:19-3:21, 4:1, 4:18, 4:23, 4:50, 4:52-4:53, 5:25, 5:27-5:29, 5:32, 5:46, 5:64, 6:27, 6:29-6:31,6:35, 6:54, 6:72, 7:7, 7:13, 7:15-7:16, 7:19-7:20, 7:28, 7:37, 7:44-7:45, 7:74, 7:76-7:77, 7:82, 7:91-7:92,8:28-8:30, 8:43-8:44, 8:71-8:72, 8:74, 8:98-8:104, 9:10, 9:12, 9:15, 9:16, 9:20, 9:25-9:27, 9:49-9:50, 9:55, 9:58-9:59, 9:64, 9:67, 9:69, 10:2, 10:10, 10:14, 10:16, 10:18, 10:25-10:33, 10:34, 10:36

Gwasanaethau Iechyd, 1:1, 1:13, 1:16, 1:20, 2:18, 2:21, 3:18, 4:1, 4:18, 4:23, 4:36, 4:37, 4:47, 4:50, 5:25, 5:27, 5:32, 5:46, 6:27, 6:29, 6:35, 6:54, 7:7(troednodyn), 7:13,7:15, 7:20, 7:37, 7:44, 7:45, 7:76, 7:77, 7:91, 7:92, 8:29, 8:43, 8:44, 8:50, 8:53, 9:12, 9:20, 9:37, 9:60, 10:2, 10:16-10:25

Gwasanaethau Iechyd Plant (*gweler Gwasanaethau Iechyd*)

Gwasanaethau Partneriaeth â Rhieni, 1:14, 1:24, 2:1-2:31, 4:15, 4:24, 4:25, 4:40, 6:13, 7:12, 7:16, 7:29, 7:90, 8:15, 8:61, 8:77, 8:107-8:108, 8:110, 8:120, 8:123, 8:133, 9:42, 10:1

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, 1:48, 4:11, 4:16, 4:20,4:21, 4:23, 4:26, 4:40,4:41, 5:8, 7:1, 7:5, 7:13, 7:47

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, 4:11, 4:16, 4:29-4:32, 4:40,4:41, 5:8, 7:1, 7:5, 7:13, 7:46,7:47

Gwybyddiaeth a dysgu, 7:52, 7:58-7:60, 7:65

Gyrfa Cymru, 3:17, 3:18, 6:29 6:32, 6:35, 6:36, 8:112, 9:10, 9:12, 9:46, 9:48-9:50, 9:53, 9:55-9:57, 9:60, 9:62, 9:66-9:69, 10:2, 10:14, 10:15

Hyfforddiant mewn swydd, 5:32, 6:35

Lleoliad, 5:72, 6:21, 7:32, 7:80, 8:13-8:14, 8:23-8:28, 8:29, 8:39, 8:42, 8:57, 8:60, 8:62, 8:66, 8:70-8:79, 8:84, 8:102, 8:132, 9:25, 9:27, 9:43, 9:57, 9:64-9:65, 9:69, 10:16, 10:25, 10:34

Lleoliadau brys, 8:23-8:28

Meddyg teulu, 4:37-4:38, 7:49, 7:66, 9:60, 10:19, 10:21-10:23

Meddyg ysgol, 7:49, 7:66

Meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid gwneud asesiad statudol, 4:41-4:43, 7:35-7:65

Monitro cynnydd, 5:37, 6:41, 8:29

Nam synhwyraidd: anawsterau â'r clyw, 4:37, 4:48, 4:51, 7:55, 7:58, 7:84, 9:24, 10:7

Nam synhwyraidd: anawsterau â'r golwg, 4:37, 4:48, 7:58, 7:84, 10:7

Newid ysgol, 5:66, 8:30, 8:130, 8:132, 9:30, 9:39-9:43

Nodyn yn lle datganiad, 7:88-7:89, 8:13, 8:15-8:22, 8:134

Nyrs Ysgol 10:16, 10:25

Pennaeth ysgol, 1:10, 1:16, 1:18-1:19, 1:21, 1:25 1:27-1:30, 1:35, 1:38, 1:40-1:41, 1:48, 2:16, 2:21, 5:2, 5:10, 5:18, 5:30-5:31, 5:33, 5:34, 5:36, 5:40, 5:64, 6:2, 6:9, 6:18, 6:32-6:33, 6:36, 6:39, 6:47, 6:72, 7:11, 7:27, 7:32, 7:37, 7:70, 8:17, 8:78, 8:116, 9:10, 9:12-9:16, 9:20, 9:25-9:26, 9:28, 9:31-9:34, 9:49-9:50, 9:53, 9:62

Person Cyfrifol, 1:19-1:21, 1:28-1:30, 8:116, 9:16

Plant sy'n derbyn gofal, 1:13, 2:5, 2:9, 3:19, 4:53, 5:29, 6:31, 8:70, 8:74, 8:79, 8:99-8:100, 9:16, 9:25-9:27, 9:68-9:69, 10:34

Polisiâu AAA, 1:15, 1:22-1:25, 1:30-1:37, 1:47, 1:48, 2:18, 2:25, 2:31, 10:8

Polisiâu AAA ysgolion (*gweler Polisiâu AAA*)

Portage (*gweler yr Eirfa*)

Rhaglen Cymorth Bugeiliol, 5:52, 6:60

Rhiant, diffiniad o (*gweler yr Eirfa*)

Rhoi'r gorau i gynnal datganiad, 8:117-8:124, 9:4, 9:5, 9:7, 9:29, 9:31, 9:34

Sbectrwm awtistiaeth, 7:55, 7:58

Sector Gwirfoddol, 1:11, 1:13, 1:20, 1:22, 2:14, 2:15, 2:17, 2:18, 2:20, 2:31, 3:21, 4:1, 4:36, 4:37, 4:45, 4:49, 4:52, 5:32, 6:35, 7:16, 9:66, 10:2, 10:11, 10:18, 10:25, 10:35-10:36

Sefydliadau addysg gynnar, 1:4, 1:11, 1:20, 1:32, 1:33, 1:38, 1:39, 1:47, 1:48, 2:4 (troednodyn), 3:3, 3:6, 4:4, 4:10, 4:15, 4:18, 4:24, 4:29, 4:32, 4:34, 4:37, 4:40-4:42, 4:54, 5:1, 5:7, 5:8, 5:25, 5:33, 5:72, 7:2 (troednodyn), 7:10, 7:15, 7:83, 8:2, 8:9, 8:12, , 8:116, 8:132, 9:1 (troednodyn), 9:7 (troednodyn) 10:17

Seicolegwyr addysg, 1:12, 1:20, 3:12, 3:18, 4:23, 4:51, 5:32, 5:57, 5:64, 5:65, 6:35, 6:72, 6:73, 7:16, 7:19, 7:22, 7:28, 7:34, 7:37, 7:67, 7:74, 7:85, 9:10, 10:7, 10:8, 10:10, 10:24, 10:25

SENCO (*gweler Cydlynnydd AAA*)

Staff Dysgu, 1:48, 8:78

Swyddog a enwir yn yr AALL (*gweler yr Eirfa*)

Swyddog dynodedig y gwasanaethau cymdeithasol, 7:19, 7:28, 7:76, 8:44, 10:26-10:28

Swyddog meddygol dynodedig, 7:76, 8:44, 9:10, 9:37, 10:16, 10:19, 10:21-10:23

Targedau (mewn datganiadau), 5:67, 6:74, 8:29, 8:39, 9:5, 9:7, 9:14, 9:18, 9:29, 9:30, 9:32

Technoleg gwybodaeth, 5:58, 6:66, 7:49, 10:7

Terfynau Amser, 7:71, 7:97, 8:15, 8:21, 8:55, 8:57, 8:77, 8:108, 8:120, 8:123-8:124, 8:133-8:134, 9:42, 10:26-10:27

Terfynau amser ar gyfer gwneud datganiadau, 1:6, 4:39, 7:8, 7:16, 7:20, 7:28-7:29, 7:72-7:73, 7:91-7:93 7:98, 8:134, 10:22

Tribiwnlys (*gweler Tribiwnlys AAA*)

Tribiwnlys AAA, 2:24-2:26, 7:12, 7:29, 7:71-7:72, 7:90, 7:97, 8:15, 8:47, 8:55, 8:77, 8:108-8:110, 8:120, 8:123-8:125, 8:132-8:133, 9:40, 9:42

Trosglwyddo datganiadau, 8:111-8:115

Tystiolaeth o gyrhaeddiad, 5:5, 5:7, 5:64, 6:5, 6:6, 6:19, 6:72, 7:34, 7:38-7:41, 7:44, 7:45, 7:46, 8:39, 9:7

Therapi iaith a lleferydd, 1:138:49-8:53

Therapyddion galwedigaethol, 10:16

Ymateb graddoledig, 4:9-4:14, 5:20-5:23, 5:52, 6:22-6:25, 6:60

Ymddiriedolaethau NHS, 4:37, 8:50, 10:18, 10:20-10:22

Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, 1:7, 2:7, 2:31, 3:6, 3:14, 4:5, 4:6, 4:14, 4:18, 4:21, 4:23, 4:25, 4:31, 4:37, 4:41, 4:51, 5:25, 5:42, 5:44, 5:46, 5:51, 5:54, 5:56, 6:27, 6:49, 6:51, 6:59, 6:62, 6:64, 7:30, 7:43, 7:49, 7:52, 7:53, 7:58, 7:60, 7:62, 7:65, 7:74, 8:23, 8:74, 8:119, 9:8, 10:7-10:8, 10:13, 10:24-10:25

Ysgol annibynnol (*gweler yr Eirfa*)

Ysgolion Arbennig Nas Cynhelir (*gweler yr Eirfa*)

Ysgolion Arbennig (*gweler yr Eirfa*)

Ysgolion enwadol, 8:65

Ysgolion sefydledig, 1:26, 1:30, 1:32, 5:7 (troednodyn), 5:21, 6:6 (troednodyn), 8:6, 8:85

Ysgrifennu'r datganiad, 8:29-8:31